# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 04/06/2013

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture and Sport

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu
Statement: The Programme for Government Annual Report

Pwynt o Drefn
Point of Order

Datganiad: Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ac Ymateb i'r Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur
Statement: The Pollinator Action Plan and Response to the State of Nature Report

Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Teithio Llesol (Cymru)
Motion to Approve the General Principles of the Active Travel (Wales) Bill

Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Teithio Llesol
Motion to Approve the Financial Resolution of the Active Travel (Wales) Bill

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly is in session.

Y Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Atal Masnachu mewn Pobl

### Anti-human Trafficking

13:30

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl? OAQ(4)1091(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the role of the Anti-Human Trafficking Co-ordinator? OAQ(4)1091(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The role of the anti-human trafficking co-ordinator is to deliver Welsh Government's commitment to work with other organisations to deliver the best possible support for victims who have been trafficked.

Swyddogaeth y cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl yw cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r rhai sydd wedi cael eu masnachu.

13:30

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that reply, First Minister. Too often, rescued victims of human trafficking are treated like illegal immigrants, either sent back to their country or region or to unsuitable detention centres. Does the First Minister agree that providing dedicated safe places for victims to stay, where they can tell their stories and provide valuable information, will assist Stephen Chapman in tackling the scourge of human trafficking effectively and efficiently in Wales?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn rhy aml, mae dioddefwyr masnachu mewn pobl sy'n cael eu hachub yn cael eu trin fel mewnfudwyr anghyfreithlon, ac yn cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad neu ranbarth neu i ganolfannau cadw anaddas. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y bydd darparu mannau diogel penodol i ddioddefwyr aros, lle y gallant adrodd eu hanesion a rhoi gwybodaeth werthfawr, yn cynorthwyo Stephen Chapman i fynd i'r afael â'r pla masnachu mewn pobl yn effeithiol ac yn effeithlon yng Nghymru?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, but immigration matters are matters for the UK Government. However, it is important that, where people have been trafficked, they are treated with respect and given the support that they need.

Ydw, ond materion i Lywodraeth y DU yw materion mewnfudo. Fodd bynnag, mae'n bwysig, lle mae pobl wedi cael eu masnachu, eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

First Minister, lawyers, children's charities and religious leaders have all expressed concern that the proposed residency requirements for Legal Aid will leave many victims of human trafficking without some basic legal protections. Will you join me in calling on the UK Government to amend the current proposals to ensure that these most vulnerable people, who have already been exploited, are protected?

Brif Weinidog, mae cyfreithwyr, elusennau plant ac arweinwyr crefyddol i gyd wedi mynegi pryder y bydd y gofynion preswylio arfaethedig ar gyfer Cymorth Cyfreithiol yn gadael llawer o ddioddefwyr masnachu mewn pobl heb rai o'r amddiffyniadau cyfreithiol sylfaenol. A wnewch chi ymuno â mi i alw ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r cynigion presennol i sicrhau bod y bobl arbennig o agored i niwed hyn, y cam-fanteisiwyd arnynt eisoes, yn cael eu diogelu?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I believe that the vulnerable in society should be able to receive the legal protection that they deserve, but we are looking at a situation now where many small town solicitors in Wales will cease to exist, as a result of the changes proposed to Legal Aid.

Gwnaf. Rwy'n credu y dylai pobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas allu cael yr amddiffyniad cyfreithiol maen nhw'n ei haeddu, ond rydym yn edrych ar sefyllfa nawr lle na fydd llawer o gyfreithwyr mewn trefi bach yng Nghymru yn bodoli mwyach, o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i Gymorth Cyfreithiol.

13:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mae cydlynydd ar gyfer y mater hwn wedi'i benodi, ond nid yw'n glir i mi sut mae'r cydlynydd yn adrodd yn ôl ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni, ac yn benodol, sut mae Aelodau'r Cynulliad yn dod yn ymwybodol o'r hyn mae'r cydlynydd yn ei gyflawni. A oes proses wedi'i sefydlu, a sut y gallwn ni gael mynediad at y broses honno?

A co-ordinator has been appointed to deal with this issue, but it is not clear to me how he will report back on the work that is being done and, specifically, how Assembly Members will learn what the co-ordinator is achieving. Has a process been established, and how can we access that process?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r cydlynydd yn atebol i'r Gweinidog, gan mai penodiad gan Lywodraeth Cymru ydyw, felly'r Gweinidog sy'n gyfrifol am waith y cydlynydd.

The co-ordinator reports to the Minister, as this is a Welsh Government appointment, so the Minister is responsible for the co-ordinator's work.

## Economi Cymru / The Welsh Economy

13:33 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i dyfu economi Cymru yn y tair blynedd nesaf? OAQ(4)1095(FM)*

*2. Will the First Minister outline what steps the Welsh Government is taking to grow the Welsh economy in the next three years? OAQ(4)1095(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member will be aware of all that is being done in terms of all the different schemes, such as the Wales economic growth fund, the small and medium-sized enterprise growth fund, the digital development fund and the life sciences fund, among others, to grow the Welsh economy. That work continues to be done.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r holl waith sy'n cael ei wneud o ran y gwahanol gynlluniau, fel cronfa twf economaidd Cymru, y gronfa twf ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, y gronfa datblygu digidol a'r gronfa gwyddorau bywyd, ymhlith eraill, i dyfu economi Cymru. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau i gael ei wneud.

13:33

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A recent report by the Wales Trades Union Congress, 'Towards a Welsh Industrial Strategy', praised the Welsh Government for the initiatives that it took in the wake of the 2008 financial crash, citing particularly ProAct and ReAct. It says that these initiatives demonstrate that, with the right partnerships in place between unions and Government, we can build a strong and long-term manufacturing base in Wales. Will you take time to discuss this very important report with your Welsh Government colleagues and examine the strategic planning that can be put in place to support long-term industrial growth?

Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol mewn adroddiad diweddar gan Gyngres Undebau Llafur Cymru, 'Towards a Welsh Industrial Strategy', am y mentrau a sefydlwyd ganddi yn sgil argyfwng ariannol 2008, gan nodi ProAct a ReAct yn benodol. Mae'n dweud bod y mentrau hyn yn dangos, gyda'r partneriaethau cywir wedi'u sefydlu rhwng undebau a'r Llywodraeth, y gallwn adeiladu sylfaen weithgynhyrchu gref a hirdymor yng Nghymru. A wnewch chi gymryd amser i drafod yr adroddiad pwysig iawn hwn gyda'ch cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac archwilio'r cynllunio strategol y gellir ei sefydlu i gefnogi twf diwydiannol hirdymor?

13:33

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The document was produced and discussed at the council for economic renewal yesterday and all members of the council are now considering further a more substantive response to the document, and that of course includes us.

Gwnaf. Cynhyrchwyd a thrafodwyd y ddogfen yng nghyngor adnewyddu'r economi ddoe ac mae holl aelodau'r cyngor bellach yn rhoi mwy o ystyriaeth i ymateb mwy sylweddol i'r ddogfen, ac mae hynny'n ein cynnwys ni wrth gwrs.

13:34

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Un ffordd o dyfu'r economi yw sicrhau bod gennym rwydwaith drafnidiaeth effeithlon. Rai wythnosau yn ôl, dywedoch wrthyf nad oeddech yn erbyn yr egwyddor o droi'r A40 i sir Benfro yn ffordd ddeuol, ac y bydd y rhaglen i wella'r A40 yn parhau yn y dyfodol wrth ystyried y sefyllfa ariannol. O ystyried nad oes unrhyw beth penodol yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn y tair blynedd nesaf, a allwch ddweud wrthym pa brosiectau i wella'r A40 yn fy etholaeth i a fydd yn derbyn buddsoddiad gan eich Llywodraeth yn y dyfodol agos?

One way of growing the economy is to ensure that we have an efficient transport network. A few weeks ago, you told me that you were not opposed in principle to the dualling of the A40 to Pembrokeshire, and that the programme of improvements to the A40 will continue in the future in line with financial realities. Given that there is no specific mention of this in the national transport plan for the coming three years, can you tell us what projects to improve the A40 in my constituency will attract Government investment in the near future?

13:34

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny yn dibynnu ar faint o arian cyfalaf a gawn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hynny wedi bod yn anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n wir dweud, oherwydd bod llai o arian ar gael, nad ydym yn gallu symud ymlaen â phob prosiect yr hoffem eu datblygu.

That depends on how much capital funds we receive from the United Kingdom Government. That has been very difficult over the last few years, and it is true to say, given that less money is available, that we have not been able to make progress every project that we would like to develop.

13:35

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yng nghanol un o'r dirwasgiadau gwaethaf inni ei weld, cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf bod mwy o filiwynyddion a biliwnyddion ym Mhrydain nag ar unrhyw adeg yn ei hanes. Ar yr un pryd, mae cyflogau wedi aros yn eu hunfan—maent yn mynd yn ôl, mae'n debyg, i lefelau dechrau 2000. Gan ystyried bod Banc Lloegr wedi bod yn rhyddhau arian i'r banciau eraill er mwyn ceisio hyrwyddo'r economi, a bod y broses honno wedi methu'n llwyr, oni chredwch ei bod yn bryd inni ystyried o ddifrif y syniad o greu banc yng Nghymru i hyrwyddo ein busnesau a buddsoddi ynddynt?

In the middle of one of the worst recessions ever seen, it was announced last week that there are more millionaires and billionaires in Britain that at any point in its history. At the same time, wages have remained static—they are reverting, it seems, to levels not seen since early 2000. Given that the Bank of England has been releasing money to other banks in order to try to stimulate the economy, and that that process has been a complete failure, do you not think that it is time for us to give serious consideration to the setting up of a bank in Wales to stimulate our businesses and to invest in them?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

O ran creu banc, mae'n rhaid ystyried sawl rheol. Er enghraifft—os y deallaf yn iawn—mae'n rhaid bod £100 miliwn ar gael er mwyn dechrau banc am y tro cyntaf. Rydym wedi symud ymlaen gyda Chyllid Cymru, sy'n gynllun effeithiol dros ben. Fodd bynnag, mae sefydlu banc yn gam mawr, o ystyried yr arian y byddai'n rhaid ei sicrhau er mwyn gwneud hynny.

In terms of setting up a bank, a number of rules would have to be considered. For example—if I understand it correctly—a sum of £100 million has to be available in order to set up a new bank. We have moved forward with Finance Wales, which is a very effective scheme. However, setting up a bank is a huge step, given how much money would be needed.

13:36 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it has now been more than 18 months since your Government announced its enterprise zone programme as an initiative to drive growth in the Welsh economy. However, looking around Cardiff enterprise zone, it is difficult to see whether a single brick has been laid in terms of investment. When do you expect to see the first new permanent private sector job being created in that enterprise zone?

Brif Weinidog, mae wedi bod yn fwy na 18 mis bellach ers i'ch Llywodraeth gyhoeddi ei rhaglen ardaloedd menter fel ymgyrch i sbarduno twf yn economi Cymru. Fodd bynnag, o edrych o gwmpas ardal fenter Caerdydd, mae'n anodd gweld a oes yr un fricsen wedi ei gosod o ran buddsoddiad. Pryd ydych chi'n disgwyl gweld y swydd sector preifat barhaol gyntaf yn cael ei chreu yn yr ardal fenter honno?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member is clearly unaware of the work that has been going on in the enterprise zone, particularly with regard to areas of redevelopment. However, she asked for an example. In terms of enterprise zones across Wales, and in terms of the business rates scheme that we have in the enterprise zones, if we look, for example, at the north Wales enterprise zone, 14 approvals have already been given.

Mae'n amlwg nad yw'r Aelod yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi bod yn cael ei wneud yn yr ardal fenter, yn enwedig o ran ardaloedd ailddatblygu. Fodd bynnag, gofynnodd am enghraifft. O ran ardaloedd menter ledled Cymru, ac o ran y cynllun ardrethi busnes sydd gennym yn yr ardaloedd menter, os edrychwn, er enghraifft, ar ardal fenter gogledd Cymru, rhoddwyd 14 cymeradwyaeth eisoes.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on the party leaders to question the First Minister. We start this week with the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf nawr ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Rydym yn dechrau'r wythnos hon gydag arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in recent weeks, we have seen that your Government has missed ambulance response times for the eleventh successive month, and that Wales has the worst service in mainland UK. You have not met your cancer waiting times targets for five years, and the figures are getting worse. Your accident and emergency performance is twice as bad as it is in England, and you have never met your Government's target on that. When will your Government deliver the NHS that the Welsh public deserves?

Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld yn ystod yr wythnosau diwethaf fod eich Llywodraeth wedi methu â chyflawni amseroedd ymateb ambiwlansys am ar unfed mis ar ddeg yn olynol, ac mai Cymru sydd â'r gwasanaeth gwaethaf ar dir mawr y DU. Nid ydych wedi cyrraedd eich targedau amseroedd aros o ran canser ers pum mlynedd, ac mae'r ffigurau'n gwaethygu. Mae eich perfformiad o ran damweiniau ac achosion brys ddwywaith yn waeth nag ydyw yn Lloegr, ac nid ydych erioed wedi cyrraedd targed eich Llywodraeth yn hynny o beth. Pryd fydd eich Llywodraeth yn darparu'r GIG y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ei haeddu?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If you look at the national survey, you will see that the Welsh public is content with the NHS. However, that does not mean that we are complacent. If you look, for example, at cancer waiting times for the month ending March of this year, they have improved. If you look at ambulance response times, they have also improved. We are still short of the target—that much is true—but, nevertheless, the trend is in the right direction. It is the opposite, of course, in England.

Os edrychwch chi ar yr arolwg cenedlaethol, byddwch yn gweld bod y cyhoedd yng Nghymru yn fodlon â'r GIG. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu ein bod yn hunanfodlon. Os edrychwch chi, er enghraifft, ar amseroedd aros canser ar gyfer y mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth eleni, maen nhw wedi gwella. Os edrychwch chi ar amseroedd ymateb ambiwlansys, mae hwythau wedi gwella hefyd. Rydym yn dal i fod heb gyrraedd y targed—mae hynny'n wir—ond, serch hynny, mae'r tuedd yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r gwrthwyneb yn wir yn Lloegr wrth gwrs.

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in England, 6% of patients wait more than four hours in casualty. In Wales, the number waiting is more than double that, at 16%. Even worse is the fact that 6% of Welsh people wait more than eight hours in our casualty departments. In England, your Labour colleagues have accused the Government of arrogance and complacency in the face of a crisis. If that is Labour's view, is the reality not that, under Labour in Wales, we have double the crisis, double the arrogance and, from your last answer, double the complacency?

Brif Weinidog, yn Lloegr, mae 6% o gleifion yn aros mwy na phedair awr yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys. Yng Nghymru, mae'r nifer sy'n aros yn fwy na dwbl hynny, sef 16%. Hyd yn oed yn waeth yw'r ffaith bod 6% o bobl Cymru yn aros mwy nag wyth awr yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys. Yn Lloegr, mae eich cydweithwyr Llafur wedi cyhuddo'r Llywodraeth o hunanfodlonrwydd a llaesu dwylo yn wyneb argyfwng. Os mai dyna yw barn y Blaid Lafur, onid yw'n wir yng Nghymru, dan y Blaid Lafur, bod gennym argyfwng dwywaith cymaint, dwywaith cymaint o hunanfodlonrwydd ac, o'ch ateb diwethaf, dwywaith cymaint o laesu dwylo?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

From a party that has approved £20 billion of cuts in the English NHS, I take those comments with an enormous pinch of salt. As I said to her earlier, cancer waiting times improved in March, and ambulance response times improved in March. She and the party opposite have cut the English NHS by £20 billion.

Gan blaid sydd wedi cymeradwyo gwerth £20 biliwn o doriadau yn y GIG yn Lloegr, rwy'n cymryd y sylwadau yna gyda phinsiad enfawr o halen. Fel y dywedais wrthi'n gynharach, fe wellodd amseroedd aros canser ym mis Mawrth, ac fe wellodd amseroedd ymateb ambiwlansys ym mis Mawrth. Mae hi a'r blaid gyferbyn wedi torri £20 biliwn oddi ar y GIG yn Lloegr.

13:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The performance in England is still better than yours, First Minister. Every option for the future of NHS services in south Wales assumes the provision of a new specialist and critical care centre in Cwmbran. You have been promising to build that hospital for the last seven years. Initially, your Minister for health said that building would start in 2009, and that the hospital would be fully operational by 2013. In March 2011, she said that construction would start by 2013. In May 2011, the Minister told the Assembly,

Mae'r perfformiad yn Lloegr yn dal i fod yn well na'ch perfformiad chi, Brif Weinidog. Mae pob opsiwn ar gyfer dyfodol gwasanaethau'r GIG yn ne Cymru yn tybio'r ddarpariaeth o ganolfan gofal arbenigol a chritigol newydd yng Nghwmbrân. Rydych chi wedi bod yn addo adeiladu'r ysbyty hwnnw am y saith mlynedd diwethaf. I gychwyn, dywedodd eich Gweinidog iechyd y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn 2009, ac y byddai'r ysbyty'n gwbl weithredol erbyn 2013. Ym mis Mawrth 2011, dywedodd y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau erbyn 2013. Ym mis Mai 2011, dywedodd y Gweinidog wrth y Cynulliad,

'I am happy to confirm that that project has had the go-ahead'.

'Rwy'n hapus i gadarnhau bod y prosiect wedi cael y golau gwyrdd'.

It is now 2013, and, as of Friday, your current Minister for health said that he is still considering an outline business case. First Minister, when will you get round to building that hospital?

Mae bellach yn 2013, a, ddydd Gwener, dywedodd eich Gweinidog iechyd presennol ei fod yn dal i ystyried achos busnes amlinellol. Brif Weinidog, pryd ydych chi am adeiladu'r ysbyty yna?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is tied up with the issue of the programme board, and the results of any consultation. It is important that the structure of the NHS is correct as a result of that. As I say, figures in Wales are going in the right direction; they are going in the wrong direction in England because of the enormous cuts imposed by her party and the party opposite.

Mae'n gysylltiedig â mater bwrdd y rhaglen, a chanlyniadau unrhyw ymgynghoriad. Mae'n bwysig bod strwythur y GIG yn gywir o ganlyniad i hynny. Fel y dywedais, mae'r ffigurau yng Nghymru yn symud i'r cyfeiriad cywir; maen nhw'n symud i'r cyfeiriad anghywir yn Lloegr oherwydd y toriadau enfawr a orfodwyd gan ei phlaid hi a'r blaid gyferbyn.

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, is it right that we should forget Wales?

Brif Weinidog, a yw'n iawn y dylem ni anghofio Cymru?

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know where Wales is, even if he and his party do not. [Laughter.]

Rwy'n gwybod ble mae Cymru, hyd yn oed os nad yw ef a'i blaid yn gwybod hynny. [Chwerthin.]

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I am glad that everyone on those benches laughed, because that claim was made by your health spokesman in London, Andy Burnham: that we should forget Wales. It is no wonder that they would want to forget Wales, given the lamentable figures that your Government has presided over in our health service. What I want to focus on is what your Minister for Health and Social Services said here two weeks ago about access to drugs. He said that a drug that is available in every other home nation of the United Kingdom must be available to patients here in Wales. We clearly know that that is not the case at the moment. We have known over the last two years, since you have been First Minister in the fourth Assembly, that that is not the case, because we have locked horns time and again on this in the Chamber. When are the words of your Minister for health going to be put into action, so that people are not deprived of the key medicines that they require to extend their lives or to put their cancers into remission?

Rwy'n falch bod pawb ar y meinciau yna'n chwerthin, gan y gwnaed yr honiad yna gan eich llefarydd iechyd yn Llundain, Andy Burnham: y dylem anghofio Cymru. Nid yw'n syndod y bydden nhw eisiau anghofio Cymru, o ystyried y ffigurau truenus mae eich Llywodraeth wedi eu goruchwylio yn ein gwasanaeth iechyd. Yr hyn yr hoffwn i ganolbwyntio arno yw yr hyn a ddywedodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yma bythefnos yn ôl ynghylch mynediad at gyffuriau. Dywedodd fod yn rhaid i gyffur sydd ar gael ym mhob un o wledydd cartref eraill y Deyrnas Unedig fod ar gael i gleifion yma yng Nghymru. Rydym yn amlwg yn gwybod nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Rydym wedi bod yn ymwybodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ers i chi fod yn Brif Weinidog yn y pedwerydd Cynulliad, nad yw hynny'n wir, gan ein bod wedi dadlau am hyn yn y Siambr dro ar ôl tro. Pryd y mae geiriau eich Gweinidog iechyd yn mynd i gael eu rhoi ar waith, fel nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'r meddyginiaethau allweddol sydd eu hangen arnynt i ymestyn eu bywydau neu i ddechrau gwella eu canser?

Senedd.tv
Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ministers have to be examined very carefully in terms of their effectiveness. There are claims made by pharmaceutical companies, and they have to be assessed rationally. The Minister for health made a decision recently with regard to a drug for cystic fibrosis, and he has made that drug available. The reason that he gave, of course, quite rightly, was that of equity, which he felt was important, between Wales and other nations in the UK.

Mae'n rhaid i weinidogion gael eu harchwilio'n ofalus iawn o ran eu heffeithiolrwydd. Ceir honiadau a wneir gan gwmnïau fferyllol, ac mae'n rhaid eu hasesu'n rhesymegol. Gwnaeth y Gweinidog iechyd benderfyniad am gyffur ar gyfer ffibrosis systig yn ddiweddar, ac mae wedi sicrhau bod y cyffur hwnnw ar gael. Y rheswm a roddwyd ganddo, wrth gwrs, yn gwbl gywir, oedd y mater o degwch, gan ei fod yn teimlo bod hynny'n bwysig, rhwng Cymru a gwledydd eraill yn y DU.

Senedd.tv
Fideo Video

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That will not offer one iota of comfort to patients who today, tomorrow and in the near future will be denied the vital lifesaving drugs that could make a radical difference to the transformation of the outcomes of their diagnosis. It is regrettable that you cannot add more substance to the comments of your Minister for health; that clearly shows that you are out of the loop. You talk about 'equitable' and 'equity', but is it not the case, given the rhetoric coming from your colleagues in London, with the health spokesman saying that you should forget Wales, and the shadow Chancellor ripping up the Labour convention of the last 50 years, that you are clearly not standing up for Wales and that you are completely ignored by your colleagues time and again? Who do you follow? Do you follow Andy, or do you follow Ed? [Laughter.]

Ni fydd hynny'n cynnig yr un mymryn o gysur i gleifion y gwrthodir y cyffuriau achub bywyd hanfodol a allai wneud gwahaniaeth radical i weddnewid canlyniadau eu diagnosis, heddiw, yfory ac yn y dyfodol agos. Mae'n drueni na allwch chi ychwanegu mwy o sylwedd at sylwadau eich Gweinidog iechyd; mae hynny'n dangos yn eglur nad ydych yn gyfarwydd â'r ffeithiau. Rydych chi'n sôn am fod yn 'gyfiawn' ac yn 'deg', ond onid yw'n wir, o ystyried y rhethreg sy'n dod gan eich cydweithwyr yn Llundain, wrth i'r llefarydd iechyd ddweud y dylech chi anghofio Cymru, a Changhellor yr wrthblaid yn diddymu'r confensiwn Llafur a welwyd dros yr 50 mlynedd diwethaf, ei bod yn amlwg nad ydych yn sefyll dros Gymru a'ch bod yn cael eich anwybyddu'n llwyr gan eich cydweithwyr dro ar ôl tro? Pwy ydych chi'n ei ddilyn? Ydych chi'n dilyn Andy, neu ydych chi'n dilyn Ed? [Chwerthin.]

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am the leader of this party in Wales; I guess that he has not noticed.

Fi yw arweinydd y blaid hon yng Nghymru; mae'n debyg nad yw wedi sylwi.

He talks to me about figures. When we rose for Whitsun, he was claiming for his party that there was a £500 million gap in funding for the health service in Wales. When we came back, it was £800 million. It had grown by £300 million in a week. The figures were provided, but the media did not bother to examine whether the figures were correct, of course. Again, they were completely made up. He came back and had the barefaced nerve to suggest that they had a plan for the airport, which is exactly the plan that we had in the first place. Margaret Thatcher said that the lady was not for turning. He is. That is the biggest u-turn that I have seen on the floor of this Assembly.

Mae'n siarad â mi am ffigurau. Yn ystod y seibiant ar gyfer y Sulgwyn, roedd yn hawlio ar ran ei blaid bod bwlch o £500 miliwn mewn cyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Pan ddaethom yn ôl, roedd yn £800 miliwn. Roedd wedi cynyddu o tua £300 miliwn mewn wythnos. Darparwyd y ffigurau, ond ni wnaeth y cyfryngau drafferthu i archwilio pa un a oedd y ffigyrau'n gywir, wrth gwrs. Unwaith eto, roedden nhw'n gwbl ddychmygol. Daeth yn ôl ac roedd ganddo'r wyneb i awgrymu bod ganddyn nhw gynllun ar gyfer y maes awyr, sef yr union gynllun a oedd gennym ni yn y lle cyntaf. Dywedodd Margaret Thatcher nad oedd y wraig am gael ei throi. Mae e. Dyna'r tro pedol mwyaf rwyf i wedi ei weld ar lawr y Cynulliad hwn.

He also said that he would devolve air passenger duty. Welcome to the party. Has he bothered to make that submission to London? Of course he has not bothered to do it. [Interruption.] Now he is saying that he would devolve air passenger duty. I agree with him in that regard, but where has he been for the past few months? We take no lessons from a party that does not stand up for Wales, a party that produces a programme for government that is clearly off the shelf and not up to date, and a party that makes up figures as it goes along. [Interruption.]

Dywedodd hefyd y byddai'n datganoli toll teithwyr awyr. Croeso i'r parti. A yw wedi trafferthu i wneud y cyflwyniad hwnnw i Lundain? Wrth gwrs nad yw wedi trafferthu i wneud hynny. [Torri ar draws.] Nawr mae'n dweud y byddai'n datganoli toll teithwyr awyr. Rwy'n cytuno ag ef yn hynny o beth, ond ble mae e wedi bod dros y misoedd diwethaf? Nid ydym yn fodlon cymryd unrhyw wersi gan blaid nad yw'n sefyll dros Gymru, plaid sy'n llunio rhaglen ar gyfer llywodraethu sy'n amlwg oddi ar y silff ac nad yw'n gyfredol, a phlaid sy'n gwneud y ffigurau i fyny wrth iddi fynd yn ei blaen. [Torri ar draws.]

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Okay. [Laughter.] First Minister, the health service in Wales is your health service. It should be safe in your hands. It is fully devolved. Our health service is a wholly owned entity of the Welsh Government. You make the decisions. Under the south Wales programme proposals, local communities will lose their local Welsh national health services. First Minister, you are in charge of health in Wales. You can stop this now. Why do you not do so?

Iawn. [Chwerthin.] Brif Weinidog, eich gwasanaeth iechyd chi yw'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dylai fod yn ddiogel yn eich dwylo. Mae wedi ei ddatganoli'n llawn. Mae ein gwasanaeth iechyd yn endid sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Chi sy'n gwneud y penderfyniadau. Dan gynigion rhaglen de Cymru, bydd cymunedau lleol yn colli eu gwasanaethau iechyd gwladol Cymru lleol. Brif Weinidog, chi sy'n gyfrifol am iechyd yng Nghymru. Gallwch chi roi terfyn ar hyn nawr. Pam nad ydych chi'n gwneud hynny?

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The programme board is continuing along the lines of consultation. That process will continue. Your colleagues who have been in Government will understand that.

Mae bwrdd y rhaglen yn parhau i ddilyn y trywydd ymgynghori. Bydd y broses honno'n parhau. Bydd eich cydweithwyr sydd wedi bod mewn Llywodraeth yn deall hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

13:44

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

First Minister, you can stop this now if you choose to do so. Ambulance arrival-time figures again show that the worst performing areas in Wales are in the central Valleys. Travel times and distances are linked with mortality rates. First of all, do you accept that point? If so, how can you justify closing accident and emergency services in the very location that has the worst ambulance response times in Wales?

Brif Weinidog, gallwch chi roi terfyn ar hyn nawr os byddwch yn dewis gwneud hynny. Mae ffigurau amseroedd cyrraedd ambiwlansys yn dangos unwaith eto mai canol y Cymoedd yw'r ardaloedd sy'n perfformio waethaf yng Nghymru. Mae amseroedd a phellteroedd teithio yn gysylltiedig â chyfraddau marwolaeth. Yn gyntaf oll, a ydych chi'n derbyn y pwynt hwnnw? Os felly, sut y gallwch chi gyfiawnhau cau gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn yr union leoliad sydd ag amseroedd ymateb ambiwlansys gwaethaf Cymru?

Senedd.tv
Fideo Video

13:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, I do not accept that distance is the main determining factor; it is where you get the treatment and what sort of treatment you get when you get there. Secondly, she has misled us, because what she says is that there are plans to close A&E at the Royal Glamorgan. There are no such plans to close A&E at the Royal Glamorgan. She must get that right; otherwise, what credibility can she have? As she will know, it is in no-one's interest to misrepresent, as she has done, the representation in the Royal Glamorgan, nor is it in anyone's interests for her to claim, as she does, that she knows better than the doctors who are saying that change must happen.

Yn gyntaf oll, nid wyf yn derbyn mai pellter yw'r prif ffactor sy'n penderfynu; y prif ffactor yw lle yr ydych chi'n cael y driniaeth a pha fath o driniaeth rydych chi'n ei gael pan fyddwch chi'n cyrraedd yno. Yn ail, mae hi wedi ein camarwain, oherwydd yr hyn y mae'n ei ddweud yw bod cynlluniau ar y gweill i gau'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Nid oes unrhyw gynlluniau o'r fath i gau'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n rhaid iddi gael hynny'n iawn; fel arall, pa hygrededd fydd ganddi? Fel y bydd yn gwybod, nid yw o fudd i unrhyw un iddi hi gam-gynrychioli, fel y mae wedi gwneud, y gynrychiolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac nid yw o fudd i neb iddi honni, fel y mae'n ei wneud, ei bod yn gwybod yn well na'r meddygon sy'n dweud bod yn rhaid i newid ddigwydd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

First Minister, I have not misled this Assembly. Services will close as a result of these proposals in the long term. First Minister, I was at a demonstration in Pontypridd last Saturday. It was a demonstration that was called to save the services at the Royal Glamorgan Hospital, and I spoke against the closure of local services across the central Valleys. Plaid Cymru cannot support the premise of a consultation that pits local hospitals and local communities against each other—united we stand, divided we fall. Now, Labour backbenchers, MPs and even members of your own Cabinet are openly campaigning against your own policy. In Rhondda Cynon Taf, members of the Labour Party are campaigning to cut services at your hospital in Bridgend. As the local Assembly Member, will you be defending Bridgend hospital and supporting plans to cut services at the Royal Glamorgan Hospital?

Brif Weinidog, nid wyf wedi camarwain y Cynulliad hwn. Bydd gwasanaethau'n cau o ganlyniad i'r cynigion hyn yn yr hirdymor. Brif Weinidog, roeddwn i mewn protest ym Mhontypridd ddydd Sadwrn diwethaf. Protest a alwyd i achub y gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg oedd hwn, a siaradais i yn erbyn cau gwasanaethau lleol ar draws canol y Cymoedd. Ni all Plaid Cymru gefnogi'r syniad o ymgynghoriad sy'n golygu bod ysbytai lleol a chymunedau lleol yn erbyn ei gilydd—mewn undeb y mae nerth. Nawr, mae aelodau meinciau cefn Llafur, Aelodau Seneddol a hyd yn oed aelodau o'ch Cabinet eich hun yn ymgyrchu'n agored yn erbyn eich polisi eich hun. Yn Rhondda Cynon Taf, mae aelodau'r Blaid Lafur yn ymgyrchu i dorri gwasanaethau yn eich ysbyty chi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fel yr Aelod Cynulliad lleol, a fyddwch chi'n amddiffyn ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cefnogi cynlluniau i dorri gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg?

Senedd.tv
Fideo Video

13:46

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is cloud-cuckoo-land—it really is. Firstly, she has said something that is misleading, untrue and wrong, and the Record will be there for all to check. She said, and I quote, that 'A&E services would be lost'. That is untrue, and it is something that I challenge her—

Mae hyn yn ffantasi llwyr—ydy wir. Yn gyntaf, mae hi wedi dweud rhywbeth sy'n gamarweiniol, yn anwir ac yn anghywir, a bydd y Cofnod yno i bawb ei weld. Dywedodd, ac rwy'n dyfynnu, y byddai 'gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn cael eu colli'. Nid yw hynny'n wir, ac mae'n rhywbeth rwy'n ei herio hi—

Senedd.tv Fideo Video

13:46

**Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Consultant-led—

Dan arweiniad ymgynghorwyr—

Senedd.tv Fideo Video

13:46

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is no point saying 'consultant-led'; that is not what she said. She said 'A&E services', and that much is untrue. It was then qualified as 'in the long term'. [Interruption.]

Nid oes diben dweud 'dan arweiniad ymgynghorwyr'; nid dyna beth ddywedodd hi. 'Gwasanaethau damweiniau ac achosion brys' ddywedodd hi, ac nid yw hynny'n wir. Cafodd ei oleddfu i 'yn yr hirdymor' wedyn. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:47

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. I cannot hear the First Minister, nor can the people of Wales—[Interruption.] Order. On this very important issue of the reconfiguration of hospital services, which directly affects our constituents, we will hear the First Minister.

Trefn. Ni allaf glywed y Prif Weinidog, ac ni all pobl Cymru ychwaith—[Torri ar draws.] Trefn. Ar y mater pwysig iawn hwn o ad-drefnu gwasanaethau ysbyty, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein hetholwyr, mae'n rhaid i ni allu clywed y Prif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

13:47

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Unless she has a crystal ball, she is in no position to determine how services will be developed in the long term. I say this to her in all seriousness, and it is something that I have said to her over many weeks in this Chamber: she is fighting against the medics. It is the doctors themselves who say that there has to be change. It is the doctors themselves. She is saying that she knows better than the people who work in the health service. If she is convinced that she is right, she needs to produce the evidence to show that she is right and that the A&E consultants, who I have actually spoken to, are wrong. She has failed to do that and she should be straight with the people of Wales.

Oni bai ei bod yn gallu gweld y dyfodol, nid yw mewn unrhyw sefyllfa i benderfynu sut y bydd gwasanaethau'n cael eu datblygu yn yr hirdymor. Rwy'n dweud hyn wrthi'n gwbl o ddifrif, ac mae'n rhywbeth rwyf wedi ei ddweud wrthi dros wythnosau lawer yn y Siambr hon: mae hi'n brwydro yn erbyn y meddygon. Y meddygon eu hunain sy'n dweud bod yn rhaid cael newid. Y meddygon eu hunain. Mae hi'n dweud ei bod yn gwybod yn well na'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd. Os yw hi'n argyhoeddedig ei bod yn iawn, mae angen iddi gyflwyno'r dystiolaeth i ddangos ei bod yn iawn a bod yr ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys, yr wyf i wedi siarad â nhw, yn anghywir. Mae hi wedi methu â gwneud hynny, a dylai fod yn onest gyda phobl Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

## Gwasanaeth Brys y GIG

## NHS Emergency Services

13:48

**Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau brys y GIG? OAQ(4)1090(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the future of NHS emergency services? OAQ(4)1090(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:48

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We expect NHS Wales to deliver high-quality emergency care services that are both safe and sustainable.

Gwnaf. Rydym yn disgwyl i GIG Cymru ddarparu gwasanaethau gofal brys o ansawdd uchel sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you have just accused Leanne Wood of misleading the Assembly in respect of emergency services. Do you agree that your Labour colleagues, including a member of your own Cabinet, are also misleading the Assembly if you use the same yardstick? In a press release, Leighton Andrews says that A&E services are 'disappearing' from the Royal Glamorgan Hospital, and Chris Bryant has described the A&E department there as 'closing' and has stated that he is doing what it can to defend it. Do you condemn their shroud-waving in the same way that you have condemned shroud-waving before in the Assembly when people scaremonger about the future of services in local hospitals?

Brif Weinidog, rydych chi newydd gyhuddo Leanne Wood o gamarwain y Cynulliad ynglŷn â gwasanaethau brys. A ydych chi'n cytuno bod eich cydweithwyr Llafur, gan gynnwys aelod o'ch Cabinet eich hun, hefyd yn camarwain y Cynulliad os ydych chi'n defnyddio'r un llinyn mesur? Mewn datganiad i'r wasg, mae Leighton Andrews yn dweud bod gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn 'diflannu' o Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac mae Chris Bryant wedi dweud y bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yno yn 'cau' ac wedi dweud ei fod yn gwneud popeth yn ei allu i'w hamddiffyn. A ydych chi'n condemnio'r ffaith eu bod yn codi bwganod yn yr un ffordd ag yr ydych chi wedi condemnio achosion o godi bwganod yn y Cynulliad yn y gorffennol, pan fydd hynny'n digwydd yng nghyswllt dyfodol gwasanaethau mewn ysbytai lleol?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Chris Bryant was not a Government Minister the last time I looked. What has been suggested by the party opposite is that A&E services will completely disappear. That has never been suggested in this Chamber by any Labour Minister, only by members of Plaid Cymru. What we want to know from the party opposite is why the apparent £500 million deficit in the NHS that they claim was there has suddenly mushroomed to £800 million. If you want to play hard and fast with figures and facts, look no further than the benches opposite. [Interruption.]

Nid oedd Chris Bryant yn un o Weinidogion y Llywodraeth y tro diwethaf i mi edrych. Yr hyn sydd wedi cael ei awgrymu gan y blaid gyferbyn yw y bydd gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn diflannu'n llwyr. Nid yw hynny erioed wedi cael ei awgrymu yn y Siambr hon gan unrhyw Weinidog Llafur, dim ond gan aelodau o Blaid Cymru. Yr hyn yr ydym ni eisiau ei glywed gan y blaid gyferbyn yw pam mae'r diffyg o £500 miliwn yn y GIG y maen nhw'n honni sy'n bodoli wedi tyfu'n sydyn i £800 miliwn. Os ydych chi eisiau bod yn hyblyg gyda ffigurau a ffeithiau, does dim rhaid i chi edrych ymhellach na'r meinciau gyferbyn. [Torri ar draws.]

13:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. We really must calm down, because people cannot hear the exchange, and that is the purpose of this question time.

Trefn. Mae gwir angen i ni dawelu, gan na all pobl glywed y drafodaeth, a dyna yw diben y sesiwn gwestiynau hon.

13:49 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'r Gweinidog iechyd wedi cydnabod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y pwysau ar wasanaethau brys ac unedau brys a gwelyau'n cael eu blocio ar wardiau, a hynny ynddo'i hun yn cael ei arwain gan anghydfod ariannol rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. A ydych yn credu ei bod yn bryd taclo'r broblem hon unwaith ac am byth ac integreiddio'n llawn a rhannu cyllidebau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sortio mas y pwysau sydd ar ein hunedau brys ni a phob un o'r unedau brys hynny?

First Minister, the Minister for health has acknowledged that there is a direct link between the pressures on A&E services and departments and beds being blocked on wards, and that in itself is because of financial disputes between health boards and local authorities. Do you believe that it is now time to tackle this problem once and for all and to fully integrate services and to share budgets between local authorities and health boards, in order to sort out the pressures on our emergency units and all of those emergency units?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod lot fawr o wirionedd yn y datganiad hwnnw. Mae hwn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae gwaith yn cael ei wneud gan y comisiwn ar ddelifro gwasanaethau cyhoeddus ac mae dadl gref dros sicrhau bod mwy o integreiddio rhwng cyllidebau gwasanaeth iechyd ar y naill law a, nid gwasanaethau cymdeithasol i gyd, ond gofal cymdeithasol ar y llaw arall.

I believe that there is a great deal of truth in that statement. This is something that is under consideration at present. Work is being undertaken by the commission on public service delivery and there is a strong argument to be had for greater integration between the budgets of the health service on the one hand and those of, not the whole of social services, but social care on the other hand.

13:50 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, after listening to what has been said and listening to Dr Chris Jones last night making a clear comment about the shortage of A&E consultants across the UK, and having seen at first hand the difficulties created by unplanned change in emergency services, particularly in my hospital in Neath Port Talbot last summer, do you agree with me that the best way of ensuring improved outcomes for patients who require emergency medical care, which is what we want, is to have a planned reconfiguration of service delivery that places the patient at the heart of care and provides the immediate support of specialist services?

Brif Weinidog, ar ôl gwrando ar yr hyn a ddywedwyd a gwrando ar Dr Chris Jones neithiwr yn gwneud sylw clir am y prinder o ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys ledled y DU, ac ar ôl gweld drosof fy hun yr anawsterau a grëwyd gan y newid nas cynlluniwyd i'r gwasanaethau brys, yn enwedig yn fy ysbyty i yng Nghastell-nedd Port Talbot yr haf diwethaf, a ydych chi'n cytuno â mi mai'r ffordd orau o sicrhau gwell canlyniadau i gleifion sydd angen gofal meddygol brys, sef yr hyn yr ydym ni ei eisiau, yw cael ad-drefnu wedi ei gynllunio o'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n sicrhau bod y claf yn ganolog i'r gofal ac sy'n darparu cymorth di-oed gan wasanaethau arbenigol?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are two choices here: it is either managed change for the better or chaos. There are no other choices. There is no choice to put our heads in the sand and hope the whole issue goes away. That is what Plaid Cymru is saying, but I cannot agree with them and neither do the doctors. The A&E consultants are saying that there has to be change in order to attract more trainees, otherwise they will not come and that will mean that we will have problems in our A&E departments with attracting more consultants, and that is from a pool of a small number of A&E consultants in the first place. Wales must be seen as a good place to train that offers a wide range of training experiences. That is one factor. However, it is quite clear, as the consultants have said themselves, that unless there is managed change there will be unmanaged change—change that happens because people retire and people move, which cannot be managed. That is not in the best interest of patients anywhere in Wales.

Ceir dau ddewis yma: naill ai newid wedi'i reoli er gwell neu anhrefn. Nid oes unrhyw ddewisiadau eraill. Nid oes dewis i roi ein pennau yn y tywod a gobeithio y bydd yr holl fater yn diflannu. Dyna mae Plaid Cymru yn ei ddweud, ond ni allaf gytuno â nhw ac ni all y meddygon chwaith. Mae'r ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys yn dweud bod rhaid cael newid er mwyn denu mwy o weithwyr dan hyfforddiant, neu fel arall, ni fyddant yn dod, a bydd hynny'n golygu y bydd gennym broblemau yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys o ran denu mwy o ymgynghorwyr, ac mae hynny o gronfa fechan o ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid i Gymru gael ei weld fel lle da i hyfforddi sy'n cynnig amrywiaeth eang o brofiadau hyfforddiant. Dyna un ffactor. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg, fel y mae'r ymgynghorwyr wedi dweud eu hunain, oni bai y bydd newid a reolir yna bydd newid heb ei reoli—newid sy'n digwydd oherwydd bod pobl yn ymddeol a bod pobl yn symud, ac ni ellir rheoli hynny. Nid yw hynny er lles gorau cleifion yn unrhyw fan yng Nghymru.

13:52 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydym ynghanol ad-drefnu yn y gogledd. Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddwyd bod mwy na 4,000 o oriau wedi'u colli achos ffaeleddau'r gwasanaeth ambiwlans yn y gogledd. Er hynny, mae'r bwrdd iechyd yn ystyried cael gwared ar 800 o staff o fewn y bwrdd iechyd. Pryd y bydd eich Llywodraeth yn camu mewn o ran y bwrdd iechyd yn y gogledd sydd yn glir yn methu'r cleifion yn y rhanbarth?

First Minister, we are in the middle of a reorganisation in the north. Last week, it was announced that more than 4,000 hours had been lost because of the failings of the ambulance service in north Wales. Notwithstanding that, the health board is considering getting rid of 800 staff from within the health board. When will your Government step in as regards this health board in north Wales that is failing the patients in the region?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid wyf yn credu ei fod e'n wir bod y bwrdd iechyd yn glir yn methu cleifion. Mae'n rhaid i mi ddweud hynny. Rwyf wedi tynnu un peth mewn, sef y cwestiwn am 'neonatology' yn y gogledd. Mae hynny'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

I do not think that it is true to say that the health board is failing patients. I must say that. There is one thing that I have called in, namely the question of neonatology in north Wales. That is currently being considered by the Royal College of Paediatrics and Child Health.

## Cydlyniant Cymunedol

## Community Cohesion

13:52 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gryfhau cydlyniant cymunedol? OAQ(4)1098(FM)*

*4. What plans does the First Minister have to strengthen community cohesion? OAQ(4)1098(FM)*

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol? OAQ(4)1102(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is promoting community cohesion? OAQ(4)1102(FM)*

13:53

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will publish an updated action plan of the community cohesion strategy later this year, supporting the work of the nine community cohesion co-ordinators across Wales that we fund. The Minister will launch a consultation on the hate crime framework for action on 11 July.

Byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru o'r strategaeth cydlyniant cymunedol yn ddiweddarach eleni, gan gefnogi gwaith y naw cydgysylltydd cydlyniant cymunedol ledled Cymru rydym ni'n eu hariannu. Bydd y Gweinidog yn lansio ymgynghoriad ar y fframwaith troseddau casineb ar gyfer gweithredu ar 11 Gorffennaf.

13:53

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response. In the aftermath of the terrible murder in Woolwich, Muslim women in Cardiff have told me that they are almost afraid to go out onto the street because they fear being the targets of anti-Muslim feelings. Is there any more that the Welsh Government could do to build up relationships between different communities?

Diolch i chi am yr ymateb yna. Yn dilyn y llofruddiaeth ofnadwy yn Woolwich, mae menywod Mwslimaidd yng Nghaerdydd wedi dweud wrthyf eu bod bron yn ofni mynd allan ar y stryd oherwydd eu bod yn ofni y byddant yn dargedau i deimladau gwrth-Fwslimaidd. A oes unrhyw beth mwy y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i wella'r berthynas rhwng gwahanol gymunedau?

13:53

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Anti-Muslim hate is a specific agenda item for the next community cohesion network meeting on 8 July. I will consider the need to co-ordinate a meeting of the faith communities forum to discuss anti-Muslim hate ahead of the scheduled meeting on 2 October. I will monitor the situation.

Mae casineb gwrth-Fwslimaidd yn eitem agenda benodol ar gyfer cyfarfod nesaf y rhwydwaith cydlyniant cymunedol ar 8 Gorffennaf. Byddaf yn ystyried yr angen i gydgysylltu cyfarfod y fforwm cymunedau ffydd i drafod casineb gwrth-Fwslimaidd cyn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 2 Hydref. Byddaf yn monitro'r sefyllfa.

13:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have grouped questions 4 and 5 and I now call on Rebecca Evans to ask a supplementary question.

Rwyf wedi grwpio cwestiynau 4 a 5 a galwaf nawr ar Rebecca Evans i ofyn cwestiwn atodol.

13:54

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, how is the Welsh Government promoting understanding and respect for difference among children, particularly through play and education, particularly insofar as faith and culture are concerned?

Brif Weinidog, sut mae Llywodraeth Cymru yn hybu dealltwriaeth a pharch at wahaniaeth ymhlith plant, yn enwedig trwy chwarae ac addysg, yn enwedig wrth ystyried ffydd a diwylliant?

13:54

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Within the foundation phase, personal and social development, wellbeing and cultural diversity is an area for all learners aged three to seven in Wales. Concepts of fairness and justice are introduced and children are encouraged to think about and respect the feelings of others. It is there that the foundations will be laid to challenge stereotyping later on in life.

Yn y cyfnod sylfaen, mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn faes i bob dysgwr rhwng tair a saith oed yng Nghymru. Cyflwynir syniadau o degwch a chyfiawnder ac anogir y plant i ystyried a pharchu teimladau pobl eraill. Dyna lle fydd y sylfeini'n cael eu gosod i herio stereoteipio yn ddiweddarach mewn bywyd.

13:54 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you can imagine, the tear in the community fabric of Machynlleth in the wake of the April Jones murder may now have a chance to heal with the sentencing of Mark Bridger. In the light of this horrific case, there have been increased demands, not just locally, but across the UK, that internet companies such as Google should take tougher action to stamp out images of child abuse and pornographic sites online. What discussions have you had with the UK Government and other devolved administrations on this, so that the strongest British case can be made to these companies that we are no longer prepared to tolerate this content and that they too have a social responsibility to show real leadership and adopt a zero-tolerance policy in relation to such content?

Fel y gallwch ddychmygu, efallai y bydd cyfle nawr i'r rhwyg yn ffabrig cymunedol Machynlleth yn sgil llofruddiaeth April Jones gael ei wella ar ôl dedfrydu Mark Bridger. Yng ngoleuni'r achos erchyll hwn, bu galw cynyddol, nid yn unig yn lleol, ond ledled y DU, i gwmnïau rhyngrwyd fel Google gymryd camau llymach i ddileu delweddau o gam-drin plant a gwefannau pornograffig ar-lein. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar hyn, fel y gellir gwneud yr achos Prydeinig cryfaf i'r cwmnïau hyn nad ydym yn barod i oddef y cynnwys hwn mwyach, a bod ganddynt hwythau hefyd gyfrifoldeb cymdeithasol i ddangos gwir arweinyddiaeth a mabwysiadu polisi dim goddefgarwch tuag at gynnwys o'r fath?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There have been no recent discussions, but we were all deeply shocked at the events surrounding the tragic murder of April Jones, particularly those of us who followed the trial in some detail. It was utterly appalling, not just for her parents but for her entire family and, indeed, the entire community.

Ni fu unrhyw drafodaethau diweddar, ond cafodd pob un ohonom ein syfrdanu gan y digwyddiadau'n ymwneud â llofruddiaeth drasig April Jones, yn enwedig y rhai ohonom a ddilynodd y treial yn dra manwl. Roedd yn gwbl echrydus, nid yn unig i'w rhieni ond i'w theulu cyfan ac, yn wir, y gymuned gyfan.

There are some who take the view that the internet should be as uncensored as possible. I do not take that view when it comes to, among other things, child pornography. I cannot see what possible advantage there is in allowing unfettered access to something that would be a crime if it were published in a magazine; I do not understand that. I am willing to write, at the Member's suggestion, to the Prime Minister to ask him what his response might be after the revelations that emerged in the trial. I would certainly want to pursue this to the greatest extent that I can.

Mae yna rai sydd o'r farn y dylai'r rhyngrwyd gael ei sensro cyn lleied â phosibl. Nid wyf o'r farn honno pan ddaw i bornograffi plant, ymhlith pethau eraill. Ni allaf weld pa fantais bosibl sydd mewn caniatáu mynediad dilyffethair at rywbeth a fyddai'n drosedd pe byddai'n cael ei gyhoeddi mewn cylchgrawn; nid wyf yn deall hynny. Rwy'n barod i ysgrifennu, ar awgrym yr Aelod, at y Prif Weinidog i ofyn iddo beth tybed yw ei ymateb ar ôl y datgeliadau a ddaeth i'r amlwg yn y treial. Byddwn yn sicr yn awyddus i fynd i'r afael â hyn i'r graddau mwyaf y gallaf wneud hynny.

13:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much agree with Russell George's comments and I support them completely. However, turning to the question of intergenerational cohesion, could you give me your views, First Minister, as to whether the withdrawal of the winter fuel allowance for some pensioners will help to build or hinder social cohesion?

Cytunaf yn bendant â sylwadau Russell George, ac rwy'n eu cefnogi yn llwyr. Fodd bynnag, gan droi at y cwestiwn o gydlyniant rhwng y cenedlaethau, a allech chi roi eich barn i mi, Brif Weinidog, ynghylch pa un a fydd diddymu'r lwfans tanwydd gaeaf i rai pensiynwyr yn helpu i ddatblygu neu rwystro cydlyniant cymdeithasol?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No such suggestion or proposal has been put forward by the UK Government in this regard.

Ni chynigwyd unrhyw awgrym neu gynnig o'r fath gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth.

13:56 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in the recent evaluation of the community cohesion strategy, there was a very strong recommendation in favour of combining and linking the work of the community cohesion workers and the Communities First programme. Do you have any intention of taking action on this, or have you already started working on it?

Brif Weinidog, yn y gwerthusiad diweddar o'r strategaeth cydlyniant cymunedol, roedd argymhelliad cryf iawn o blaid cyfuno a chysylltu gwaith y gweithwyr cydlyniant cymunedol a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. A oes gennych chi unrhyw fwriad i weithredu ar hyn, neu a ydych chi wedi dechrau gweithio arno eisoes?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would, of course, expect the community cohesion fora and the Communities First organisations to work together. The boundaries are not necessarily coterminous in that regard, but, inevitably, the aim of Communities First is to build strong communities. Strong communities need to ensure that there are opportunities for as many people as possible, and cohesion requires breaking down barriers to create strong communities. I would expect there to be as close a working relationship as possible.

Byddwn, wrth gwrs, yn disgwyl i'r fforymau cydlyniant cymunedol a'r sefydliadau Cymunedau yn Gyntaf weithio gyda'i gilydd. Nid yw'r ffiniau yn cyd-ffinio o reidrwydd yn hynny o beth, ond, yn anochel, nod Cymunedau yn Gyntaf yw adeiladu cymunedau cryf. Mae angen i gymunedau cryf sicrhau bod cyfleoedd i gymaint o bobl â phosibl, ac mae cydlyniant yn golygu chwalu rhwystrau i greu cymunedau cryf. Byddwn yn disgwyl y byddai perthynas waith mor agos â phosibl rhyngddynt.

Senedd.tv Fideo Video

## Rwbela

## Rubella

13:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o beryglon posibl rwbela? OAQ(4)1100(FM)*

*6. Will the First Minister outline how the Welsh Government is raising an awareness of the potential dangers of rubella? OAQ(4)1100(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will continue to support the tremendous efforts of Public Health Wales and the Welsh NHS in reminding the public of the dangers of rubella and the need for everyone to receive two doses of the measles, mumps and rubella vaccine.

Byddwn yn parhau i gefnogi ymdrechion gwych Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru i atgoffa'r cyhoedd am beryglon rwbela, a'r angen i bawb gael dau ddos o frechlyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I am most grateful to the First Minister for his reply. Certainly, all Members will welcome the report published today on the increased uptake of vaccination. There is clearly a problem, because there are so many people whose children are not vaccinated. Sadly, they are, potentially, those who could pass on rubella to pregnant women. Will the First Minister consider whether we should have a sustained and well-publicised campaign to make people aware of this and the fact that MMR uptake is not yet at the right level?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Yn sicr, bydd pob Aelod yn croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd heddiw ar y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn. Mae'n amlwg bod problem, oherwydd bod cymaint o bobl nad yw eu plant wedi cael eu brechu. Yn anffodus, gallent, o bosibl, drosglwyddo rwbela i fenywod beichiog. A wnaiff y Prif Weinidog ystyried pa un a ddylem gael ymgyrch barhaus wedi'i hysbysebu'n dda i wneud pobl yn ymwybodol o hyn a'r ffaith nad yw'r nifer sy'n manteisio ar MMR ar y lefel gywir eto?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is something that I am sure that Public Health Wales will be considering. I can inform the Member that the most recent report, published by Public Health Wales in June 2013, shows that the uptake of the first dose in two-year-old children was 95%. That is the first time that the uptake has exceeded 95% in this age group. However, I am sure that Public Health Wales will be considering how best to keep the momentum going, because I have no doubt that the increase in immunisation has been as a result of the outbreak in Swansea. It is important that that momentum is not lost in future.

Mae hynny'n rhywbeth rwy'n siŵr y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei ystyried. Gallaf hysbysu'r Aelod bod yr adroddiad diweddaraf, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2013, yn dangos bod y nifer sydd wedi cael y dos cyntaf yn 95% ymhlith plant dwy flwydd oed. Dyna'r tro cyntaf y mae'r canran wedi bod yn uwch na 95% yn y grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried sut orau i gadw'r momentwm i fynd, gan nad oes gennyf unrhyw amheuaeth bod y cynnydd mewn imiwneiddio wedi bod o ganlyniad i'r achosion yn Abertawe. Mae'n bwysig nad yw'r momentwm yn cael ei golli yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I am sure that we all agree that the danger of rubella to expectant mothers is extremely high, and I welcome what you have just said. However, would you agree that the health authorities should, perhaps, be encouraged to go into the comprehensive schools and encourage more young people to have the MMR injections, because their parents clearly did not have them injected at the appropriate time? It is never too late and I think that, if we can, we should be targeting the younger people in our schools, who are far more intelligent than perhaps some of the debate that I have heard in the Chamber today.

Brif Weinidog, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod perygl rwbela i famau beichiog yn hynod uchel, ac rwy'n croesawu'r hyn yr ydych chi newydd ei ddweud. Fodd bynnag, a fyddech chi'n cytuno y dylid annog awdurdodau iechyd, o bosibl, i fynd i mewn i'r ysgolion cyfun ac annog mwy o bobl ifanc i gael y pigiadau MMR, gan ei bod yn amlwg na sicrhaodd eu rhieni eu bod yn cael y pigiadau ar yr adeg briodol? Nid yw byth yn rhy hwyr ac rwy'n credu, os gallwn, y dylem fod yn targedu'r bobl ifancach yn ein hysgolion, sy'n llawer mwy deallus na pheth o'r drafodaeth yr wyf wedi ei chlywed yn y Siambr heddiw efallai.

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that he is doing himself down there. However, in terms of increasing immunisation awareness, I can say that a DVD and work pack for secondary school children at key stages 3 and 4 has been produced and distributed across Wales to every secondary school, as well as to personal and social education leads. Also, resources were made available to school nurses from Public Health Wales to present information to pupils on teenage immunisation. Therefore, this information is already being made available.

Rwy'n meddwl ei fod yn gwneud tro gwael â'i hun wrth ddweud hynny. Fodd bynnag, o ran cynyddu ymwybyddiaeth o imiwneiddio, gallaf ddweud bod DVD a phecyn gwaith ar gyfer plant ysgol uwchradd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu ledled Cymru i bob ysgol uwchradd, yn ogystal ag i arweinyddion addysg bersonol a chymdeithasol. Hefyd, sicrhawyd bod adnoddau ar gael i nyrsys ysgol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion am imiwneiddio yn eu harddegau. Felly, mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael.

## Undebau Credyd

## Credit Unions

14:00 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)1088(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the future of credit unions in Wales? OAQ(4)1088(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes. The Minister for Communities and Tackling Poverty will be holding a credit union summit on 13 June, where he will be discussing the future of credit unions.

Gwnaf. Bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cynnal uwchgynhadledd undebau credyd ar 13 Mehefin, pryd y bydd yn trafod dyfodol undebau credyd.

14:00 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. The Old Bell 3 report was released in March. When does the Welsh Government intend to respond to its recommendations, and why did the Welsh Government not rebut the unbalanced reporting at the time that suggested that Welsh credit unions were failing?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Cyhoeddwyd adroddiad Old Bell 3 ym mis Mawrth. Pryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'w hargymhellion, a pham na wnaeth Llywodraeth Cymru bardduo'r adrodd anghytbwys ar y pryd a oedd yn awgrymu bod undebau credyd Cymru yn methu?

14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We do try to rebut reports that are inaccurate, but we are not always successful in terms of doing that. Consideration is being given, of course, to the contents of that report. As I said, the Minister will be at the meeting on 13 June.

Rydym yn ceisio pardduo adroddiadau sy'n anghywir, ond nid ydym yn llwyddo i wneud hynny bob amser. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi, wrth gwrs, i gynnwys yr adroddiad hwnnw. Fel y dywedais, bydd y Gweinidog yn y cyfarfod ar 13 Mehefin.

14:01

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, would you agree that, rather than attacking the Welsh Labour Government, which is trying its best to support people through these difficult times, the Welsh Liberal Democrats' efforts could best be deployed in influencing their Westminster colleagues, who, unfortunately, have collaborated with the Conservatives to inflict the most savage attack on the welfare state that our communities in Wales have ever seen?

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno, yn hytrach nac ymosod ar Lywodraeth Llafur Cymru, sy'n ceisio ei gorau i gefnogi pobl drwy'r cyfnod anodd hwn, mai'r ffordd orau i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ddefnyddio eu hymdrechion fyddai drwy geisio dylanwadu ar eu cydweithwyr yn San Steffan, sydd, yn anffodus, wedi cydweithredu â'r Ceidwadwyr i achosi'r ymosodiad mwyaf ffyrnig ar y wladwriaeth les mae ein cymunedau yng Nghymru wedi ei weld erioed?

14:01

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In fairness to Peter Black, his questions were reasonable, but the point made by the Member for Torfaen is true, nevertheless, namely that we are going through a period of very savage cuts that are being pushed forward by the Tories and the Lib Dems.

Er tegwch i Peter Black, roedd ei gwestiynau'n rhesymol, ond mae'r pwynt a wnaed gan yr Aelod dros Dor-faen yn wir, serch hynny, sef ein bod yn mynd trwy gyfnod o doriadau llym iawn sy'n cael eu gwthio ymlaen gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

14:02

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, if you accept, as the UK Government's credit union expansion project, funded by almost £40 million, has done, that the only way for credit unions in both England and Wales to fulfil their role in supporting resilient communities is to be self-sustaining financial businesses providing a range of products and services to a broad range of members—which you have indicated previously in the Chamber that you support—what does the Welsh Government intend to do to support this goal, following the conclusion of its own current programme of support for credit unions in just three months' time, when those credit unions clearly need time to prepare for the transition?

Brif Weinidog, os ydych chi'n derbyn, fel y mae prosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU, a ariennir gan bron i £40 miliwn, wedi ei wneud, mai'r unig ffordd i undebau credyd yng Nghymru a Lloegr gyflawni eu swyddogaeth o gefnogi cymunedau cadarn i fod yn fusnesau ariannol hunangynhaliol sy'n darparu amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau i amrywiaeth eang o aelodau—yr ydych chi wedi nodi o'r blaen yn y Siambr eich bod yn eu cefnogi—beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i gefnogi'r nod hwn, ar ôl i'w rhaglen ei hun o gymorth i undebau credyd ddod i ben mewn dim ond tri mis, pan fo'n amlwg bod angen amser i baratoi ar gyfer y newid ar yr undebau credyd hynny?

14:02

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed. This is a matter that will be taken forward in the meeting on 13 June. The Member is quite right to say that it is important that credit unions are self-sustaining. A credit union that cannot sustain itself financially clearly cannot be a credit union, to my mind. However, these and other issues will be discussed at that meeting on 13 June.

Yn wir. Mae hwn yn fater a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod ar 13 Mehefin. Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud ei bod yn bwysig bod undebau credyd yn hunangynhaliol. Mae'n amlwg, yn fy marn i, na all undeb credyd nad yw'n gallu cynnal ei hun yn ariannol fod yn undeb credyd. Fodd bynnag, bydd y rhain a materion eraill yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw ar 13 Mehefin.

14:02

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Prif Weinidog, er gwaethaf ymdrechion mudiadau fel undebau credyd, mae mwy a mwy o bobl yn debygol o fynd i ddyled oherwydd y newidiadau i fudd-daliadau ac, wrth gwrs, y dreth ar lofftydd, sy'n debygol o ddigwydd yn ystod y misoedd nesaf. A yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol bod angen mwy o gymorth ar bobl o ran sut i gael help mewn amgylchiadau felly? Pa asesiad ydyw wedi ei wneud o'r angen i hybu mudiadau fel Cyngor ar Bopeth, sy'n wynebu toriadau enfawr yn ei gyllideb, oherwydd y toriadau ar gymorth cyfreithiol?

First Minister, despite the efforts of organisations such as credit unions, more and more people are likely to get into debt because of the changes to benefits and, of course, the bedroom tax, which is likely to happen over the next few months. Is the First Minister aware that people need more help with how to get assistance in such circumstances? What assessment has he made of the need to promote organisations such as Citizens Advice, which is facing massive cuts to its budget, because of cuts to legal aid?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyrff er mwyn rhoi mwy o gymorth, ac rydym wedi gwneud arian ar gael er mwyn gwneud hynny. Rydym yn deall y bydd mwy a mwy o bobl eisiau cymorth yn y dyfodol. Credaf y bydd rhyw fath o fwlch, lle y bydd pobl yn ceisio ymdopi â sefyllfa ond wedyn yn ffeindio nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Rydym yn deall y bydd yr hydref yn enwedig yn bwysig dros ben er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i bobl.

We have been working with organisations to provide further assistance and funding has been made available to achieve that. We do understand that more and more people will need assistance and support in future. I think that there will be some kind of gap, where people will endeavour to cope with the situation but then find that they cannot. We understand that the autumn in particular will be very important in ensuring that support is available to people.

### Sector Rhentu Preifat

### Private Rented Sector

14:04 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu pobl yn y sector rhentu preifat? OAQ(4)1094(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to help people in the private rented sector? OAQ(4)1094(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are committed to improving conditions for people who rent from private landlords. Our housing Bill contains proposals for a mandatory registration and licensing scheme for all landlords and agents—a scheme that was opposed by Eric Pickles last week, I noticed, although I do not know what it has to do with him. Our proposals to improve arrangements for renting homes, set out in our White Paper, will also make an enormous difference, we believe.

Gwnaf. Rydym wedi ymrwymo i wella amodau i bobl sy'n rhentu oddi wrth landlordiaid preifat. Mae ein Bil tai yn cynnwys cynigion ar gyfer cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiant—cynllun a gafodd ei wrthwynebu gan Eric Pickles yr wythnos diwethaf, rwy'n sylwi, er nad wyf yn gwybod beth sydd gan hyn i'w wneud ag ef. Bydd ein cynigion i wella trefniadau ar gyfer rhentu cartrefi, a nodir yn ein Papur Gwyn, hefyd yn gwneud gwahaniaeth enfawr, yn ein barn ni.

14:04 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. First Minister, an increasing number of people in Wales are renting privately. Do you agree that what they need is increased security and that the measures proposed in the new housing Bill, particularly the compulsory licensing scheme, will provide exactly that?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, mae nifer cynyddol o bobl yng Nghymru yn rhentu'n breifat. A ydych chi'n cytuno mai'r hyn sydd ei angen arnynt yw mwy o ddiogelwch ac y bydd y mesurau a gynigir yn y Bil tai newydd, yn enwedig y cynllun trwyddedu gorfodol, yn darparu yn union hynny?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It is inevitable that more people will look to the private rented sector for housing. We need to make sure that those are homes of good quality, that they are well-managed, and well-maintained by landlords. I do not believe that landlords who do that already have anything to fear from the legislation anyway. That is a major priority for us as a Government. As demand increases, it is important that quality does not drop.

Ydw. Mae'n anochel y bydd mwy o bobl yn edrych tuag at y sector rhentu preifat ar gyfer tai. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y rheini'n gartrefi o ansawdd da, eu bod yn cael eu rheoli'n dda, ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da gan landlordiaid. Nid wyf yn credu bod gan landlordiaid sy'n gwneud hynny eisoes unrhyw beth i'w ofni gan y ddeddfwriaeth beth bynnag. Mae hynny'n brif flaenoriaeth i ni fel Llywodraeth. Wrth i'r galw gynyddu, mae'n bwysig nad yw ansawdd yn gostwng.

14:05 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your previous questioner made it sound as if it was a question of a choice. However, with over 91,000 households waiting for some kind of help to find rented accommodation no wonder they are turning to private sector landlords. When are you going to kick the NewBuy scheme off so that some people might be able to get on the housing ladder? What are you doing now to address the chronic shortage of housing, because that, ultimately, is your responsibility and is why these people are having to turn to the private rented sector?

Brif Weinidog, gwnaeth eich holwr blaenorol iddi swnio fel pe byddai hyn yn fater o ddewis. Fodd bynnag, â dros 91,000 o aelwydydd yn aros am ryw fath o gymorth i ddod o hyd i lety rhent, nid yw'n syndod eu bod yn troi at landlordiaid sector preifat. Pryd ydych chi'n mynd i roi'r cynllun NewBuy ar waith fel y gall rhai pobl ymuno â'r ysgol dai? Beth ydych chi'n ei wneud nawr i fynd i'r afael â'r prinder difrifol o dai, gan mai eich cyfrifoldeb chi yw hynny yn y pen draw, a dyna pam mae'r bobl hyn yn gorfod troi at y sector rhentu preifat?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have built nearly 2,500 new homes. In terms of the NewBuy scheme, that is something that is still being explored. We need to ensure, of course, that the Council of Mortgage Lenders and the house builders are on board. That is very much our intention. I have to say that I am surprised to hear the Conservative party opposing the idea of licensing landlords, as we heard in Eric Pickles's comments last week.

Rydym ni wedi adeiladu bron i 2,500 o gartrefi newydd. O ran y cynllun NewBuy, mae hynny'n rhywbeth sy'n dal i gael ei archwilio. Mae angen i ni sicrhau, wrth gwrs, fod y Cyngor Benthycwyr Morgeisi a'r adeiladwyr tai yn ei gefnogi. Dyna'n sicr yw ein bwriad. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n synnu clywed y blaid Geidwadol yn gwrthwynebu'r syniad o drwyddedu landlordiaid, fel y clywsom yn sylwadau Eric Pickles yr wythnos diwethaf.

14:06 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware that many people will be forced into the private rented sector as a direct result of the bedroom tax. The pilot scheme in Torfaen reminded us that many of those people will go into the private rented sector with arrears. A recent report by Shelter confirmed that comparable accommodation is almost always more expensive in the private rented sector than in the social rented sector. Do you agree, First Minister, that the problem here is not that there is not enough accommodation in the social rented sector, but that people are being forced into a private rented sector that is unaffordable, and will cost the taxpayer more, as a direct result of the bedroom tax?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol y bydd llawer o bobl yn cael eu gorfodi i mewn i'r sector rhentu preifat o ganlyniad uniongyrchol i'r dreth ystafell wely. Mae'r cynllun arbrofol yn Nhorfaen wedi ein hatgoffa y bydd llawer o'r bobl hynny yn mynd i'r sector rhentu preifat gydag ôl-ddyledion. Cadarnhaodd adroddiad diweddar gan Shelter bod llety tebyg bron bob amser yn ddrytach yn y sector rhentu preifat nag yn y sector rhentu cymdeithasol. A ydych chi'n cytuno, Brif Weinidog, nad prinder llety yn y sector rhentu cymdeithasol yw'r broblem, ond yn hytrach bod pobl yn cael eu gorfodi i mewn i sector rhentu preifat na allant ei fforddio, ac a fydd yn costio mwy i'r trethdalwr, o ganlyniad uniongyrchol i'r dreth ystafell wely?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely agree with that. We will see more and more people, particularly those who are vulnerable, evicted from their homes as a result of the bedroom tax. It is inevitable, because we know that there are many people who want one-bedroomed accommodation and are on the waiting list. The bedroom tax is a particularly metropolitan solution. As the UK Government would see it, 'Well, people can downsize homes; I am sure there will be a flat around the corner that they can live in'. That does not work if you are in Ceredigion, if you are in rural Carmarthenshire, if you are in Bridgend or if you are in the Valleys. That accommodation does not exist. Therefore, as I have said many times before, people will find themselves in a position where they either pay more or get evicted. That means we will see a housing crisis that is of the UK Government's own making.

Rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Byddwn yn gweld mwy a mwy o bobl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yn cael eu troi allan o'u cartrefi o ganlyniad i'r dreth ystafell wely. Mae'n anochel, oherwydd gwyddom fod llawer o bobl sydd eisiau llety un ystafell wely ac sydd ar y rhestr aros. Mae'r dreth ystafell wely yn ateb arbennig o fetropolitan. Fel y byddai Llywodraeth y DU yn gweld y sefyllfa, 'Wel, gall pobl symud i gartrefi llai, rwy'n siŵr y bydd fflat rownd y gornel y gallan nhw fyw ynddo'. Nid yw hynny'n gweithio os ydych chi yng Ngheredigion, os ydych chi mewn rhannau gwledig o Sir Gaerfyrddin, os ydych chi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, neu os ydych chi yn y Cymoedd. Nid yw'r llety hwnnw'n bodoli. Felly, fel rwyf wedi dweud lawer gwaith o'r blaen, bydd pobl yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle maen nhw naill ai'n talu mwy neu'n cael eu troi allan. Mae hynny'n golygu y byddwn yn gweld argyfwng tai sydd wedi ei greu gan Lywodraeth y DU ei hun.

14:07 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a recent BBC 'Watchdog' investigation exposed the use of unreasonable clauses in tenancy agreements, such as tenants being locked into a contract with the landlord's preferred energy supplier. You mentioned your housing Bill earlier. Will you ensure that that Bill outlaws this practice?

Brif Weinidog, datgelodd ymchwiliad diweddar gan raglen 'Watchdog' y BBC y defnydd o gymalau afresymol mewn cytundebau tenantiaeth, fel tenantiaid yn cael eu clymu i gontract gyda dewis y landlord o gyflenwr ynni. Soniasoch am eich Bil tai yn gynharach. A wnewch chi sicrhau bod y Bil hwnnw'n gwneud yr arfer hwn yn anghyfreithlon?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, it is something that we would look to do. Whether we have the legislative ability to do it is an open question, and I do not know what the answer to that is. However, you raise an important point and that is something that we will investigate.

Yn sicr, mae'n rhywbeth y byddem yn ceisio ei wneud. Mae pa un a yw'r gallu deddfwriaethol gennym i'w wneud yn gwestiwn agored, ac nid wyf yn gwybod yr ateb i hynny. Fodd bynnag, rydych chi'n codi pwynt pwysig ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ymchwilio iddo.

14:08 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I, along with my committee colleagues, recently had the pleasure of receiving a petition from Aberystwyth University students' union welfare officer, Laura Dickens. A report compiled by the union surveyed the private rented sector in Aberystwyth and concluded that, in some circumstances, students are being charged full rent for the whole of the summer period but are denied permission to occupy the premises during that time. As I am sure that you will agree, such practices are not acceptable and should not be allowed to continue. It is particularly problematic in rural markets such as Aberystwyth, Lampeter and Bangor, where the rental market is very limited. What steps is your Government prepared to take to address this important issue, which needs our attention?

Brif Weinidog, cefais i, ynghyd â'm cydweithwyr pwyllgor, y pleser yn ddiweddar o dderbyn deiseb gan swyddog lles undeb myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, Laura Dickens. Roedd adroddiad a luniwyd gan yr undeb yn gwneud arolwg o'r sector rhentu preifat yn Aberystwyth a daeth i'r casgliad bod myfyrwyr, dan rai amgylchiadau, yn gorfod talu rhent llawn am holl gyfnod yr haf, ond yn cael gwrthod caniatâd i fyw yn y cartref yn ystod y cyfnod hwnnw. Fel rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, nid yw arferion o'r fath yn dderbyniol ac ni ddylid caniatáu iddynt barhau. Mae'n peri problemau arbennig mewn marchnadoedd gwledig fel Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Bangor, lle mae'r farchnad rhentu yn gyfyngedig iawn. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn barod i'w cymryd i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn, sydd angen ein sylw?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The practice that the Member describes, as he describes it, is already unlawful in reality. It is a breach of a tenant's rights. I would encourage students to think very carefully about any tenancy agreements that they enter into to ensure that they are not bound for the entire calendar year, rather than for just the academic year, and to ensure that this does not happen. Where such issues occur, I would encourage them to take up the matter with the appropriate student union officers.

Mae'r arfer y mae'r Aelod yn ei ddisgrifio, fel y mae'n ei ddisgrifio, yn anghyfreithlon eisoes mewn gwirionedd. Mae'n mynd yn groes i hawliau tenant. Byddwn yn annog myfyrwyr i feddwl yn ofalus iawn am unrhyw gytundebau tenantiaeth y maen nhw'n eu gwneud er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhwymo am y flwyddyn galendr gyfan, yn hytrach nag ar gyfer y flwyddyn academaidd yn unig, ac i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Pan fydd materion o'r fath yn digwydd, byddwn yn eu hannog i drafod y mater gyda swyddogion priodol undeb y myfyrwyr.

## Patagonia

## Patagonia

14:09 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi cymuned Gymraeg Patagonia? OAQ(4)1101(FM)*

*9. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's efforts to support the Welsh speaking community of Patagonia? OAQ(4)1101(FM)*

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We continue to support the Welsh language project in Patagonia, through our international education programme grant to the British Council and its partners. The project aims to build Welsh teaching capacity and improve the Welsh language provision in Patagonia.

Rydym ni'n parhau i gefnogi prosiect yr iaith Gymraeg ym Mhatagonia, trwy ein grant rhaglen addysg rhyngwladol i'r Cyngor Prydeinig a'i bartneriaid. Nod y prosiect yw datblygu gallu addysgu'r Gymraeg a gwella'r ddarpariaeth o'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia.

14:09 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, thank you very much indeed for that answer. The programme supported by the Welsh Government is indeed doing important work in Patagonia, helping to keep our language alive on the other side of the world. That is good news, at last, in this Chamber. Last year, 977 students were learning and improving their Welsh in the Chubut province, up from 762 students, which is most encouraging. Twenty four of the tutors were local people, which is essential if the project is to carry on and be built upon. Since this project does such important work, First Minister, could you clarify what the funding situation will be and what support you will give to this project in the future? I hope that you would agree that it is essential, given the success of the project, that we should not withdraw support before it is able to stand on its own two feet.

Brif Weinidog, diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna. Mae'r rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru wir yn gwneud gwaith pwysig ym Mhatagonia, gan helpu i gadw ein hiaith yn fyw ar ochr arall y byd. Mae hynny'n newydd da, o'r diwedd, yn y Siambr hon. Y llynedd, roedd 977 o fyfyrwyr yn dysgu ac yn gwella eu Cymraeg yn nhalaith Chubut, wedi cynyddu o 762 o fyfyrwyr, sy'n galonogol iawn. Roedd pedwar ar hugain o'r tiwtoriaid yn bobl leol, sy'n hanfodol os yw'r prosiect am barhau a chael ei ddatblygu. Gan fod y prosiect hwn yn gwneud gwaith mor bwysig, Brif Weinidog, a allech chi egluro beth fydd y sefyllfa ariannu a pha gymorth y byddwch chi'n ei roi i'r prosiect hwn yn y dyfodol? Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno ei bod yn hanfodol, o ystyried llwyddiant y prosiect, na ddylem roi'r gorau i ddarparu cefnogaeth cyn ei fod yn gallu sefyll ar ei draed ei hun.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have no intention to terminate this successful project in Patagonia. Indeed, the project has been strengthened through close links with Menter Patagonia to provide opportunities to socialise through the medium of Welsh in Chubut, or Dyffryn Camwy as I think it is called in Welsh.

Nid oes gennym unrhyw fwriad i derfynu'r prosiect llwyddiannus hwn ym Mhatagonia. Yn wir, mae'r prosiect wedi cael ei gryfhau trwy gysylltiadau agos â Menter Patagonia i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Chubut, neu Ddyffryn Camwy fel rwy'n credu y'i gelwir ef yn Gymraeg.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, yn 2015 byddwn yn dathlu 150 mlynedd ers sefydliad yr ymfudwyr Cymraeg cyntaf ym Mhatagonia. Mae hyn yn siawns i Lywodraeth Cymru dynnu sylw at ei waith yn cefnogi'r defnydd o Gymraeg yno. Rydym wedi clywed am y project dysgu Cymraeg yno, ond pa gamau rydych yn eu cymryd i asesu sut mae'r project yn gweithio yn benodol? Sut y gellir ehangu'r prosiect hwn ym Mhatagonia?

First Minister, in 2015 we will celebrate 150 years since the establishment of the Welsh settlement in Patagonia. This is an opportunity to support the use of the Welsh language there. We have heard about the Welsh language project there, but what steps are you taking to assess how the project works specifically? How could that project be expanded in Patagonia?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae dau beth. Enillodd myfyriwr o'r prosiect wobr Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd, yr ail fyfyriwr o'r prosiect i ennill y wobr honno. Mae mwy o bobl wedi cofrestru i wneud Cymraeg fel TGAU yno y flwyddyn hon—22 o'i gymharu â 10 y llynedd. Felly, mae tystiolaeth o ba mor llwyddiannus yw'r prosiect.

There are two things. A student from the project itself won the Learner of the Year award in the National Eisteddfod last year, the second student from the programme to win that particular award. More people have registered to study Welsh as a GCSE this year—22 compared to 10 last year. So, there is evidence there of how successful the project is.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynlluniau Gwarant Morgais

## Mortgage Guarantee Schemes

14:12 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau gwarant morgais Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1093(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on Welsh Government mortgage guarantee schemes? OAQ(4)1093(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are still actively encouraging the NewBuy Cymru scheme to go ahead through meetings with key participants and trade associations. If those bodies want to participate, then NewBuy Cymru can and will proceed.

Gwnaf. Rydym ni'n dal yn rhoi anogaeth ymarferol i gynllun NewBuy Cymru fynd yn ei flaen trwy gyfarfodydd gyda chyfranogwyr allweddol a chymdeithasau masnach. Os yw'r cyrff hynny eisiau cymryd rhan, yna gall NewBuy Cymru fwrw iddi, a bydd yn gwneud hynny.

14:12 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Yesterday would have been the launch of your scheme for would-be homeowners, and you will already know that the UK Government pulled the rug out from under your scheme, with a less risky one of its own to start in January. I know that your Minister for Housing and Regeneration said that other schemes would be explored. Can you give us an update on that and tell us how many households you expect to benefit this year?

Diolch yn fawr. Byddai eich cynllun i ddarpar berchnogion tai wedi cael ei lansio ddoe, a byddwch yn gwybod eisoes bod Llywodraeth y DU wedi difetha eich cynllun trwy gyflwyno un ei hun â llai o risg i ddechrau ym mis Ionawr. Rwy'n gwybod bod eich Gweinidog Tai ac Adfywio wedi dweud y byddai cynlluniau eraill yn cael eu harchwilio. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynny a dweud wrthym faint o gartrefi yr ydych chi'n disgwyl fydd yn elwa eleni?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are looking at moving forward with a loan equity arrangement, possibly. It is impossible to know how many might benefit this year, because it is important that this is implemented as quickly as possible. Another scheme, as already mentioned, is being considered, but we seek to continue to move forward with NewBuy Cymru. However, as I said, it needs the agreement of, I suspect, at least two lenders, as well as at least some of the construction companies.

Rydym ni'n ystyried symud ymlaen gyda threfniant benthyciad ecwiti, o bosibl. Mae'n amhosibl gwybod faint allai elwa eleni, oherwydd mae'n bwysig bod hyn yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl. Mae cynllun arall, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cael ei ystyried, ond rydym yn ceisio parhau i symud ymlaen gyda NewBuy Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae angen i o leiaf dau o fenthycwyr gytuno, yn fy nhyb i, yn ogystal ag o leiaf rhai o'r cwmnïau adeiladu.

14:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I listened carefully to your answer to the previous question, and also your answer to Angela Burns. It is critical to understand the time frame the Government is working to to deliver a new scheme, now that you have shelved NewBuy Cymru. It has been some time since that announcement was made, and, as was pointed out, that scheme of yours was supposed to be launched yesterday. I do not think that it is unreasonable now for us to get from you a timeline to which your Government is working to deliver the new scheme that your Minister spoke of earlier.

Brif Weinidog, gwrandewais yn astud ar eich ateb i'r cwestiwn blaenorol, a hefyd eich ateb i Angela Burns. Mae'n hanfodol deall yr amserlen y mae'r Llywodraeth yn gweithio'n unol â hi i gyflwyno cynllun newydd, nawr eich bod wedi rhoi NewBuy Cymru o'r neilltu. Bu cryn amser ers y gwnaed y cyhoeddiad hwnnw, ac, fel y nodwyd, roedd y cynllun hwnnw i fod i gael ei lansio ddoe. Nid wyf yn credu ei bod yn afresymol nawr i ni gael amserlen gennych chi y mae eich Llywodraeth yn gweithio'n unol â hi i ddarparu'r cynllun newydd y siaradodd eich Gweinidog amdano yn gynharach.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The scheme has not been shelved, although it has been postponed—that much I concede to the leader of the opposition. There are ongoing discussions with interested parties, and we are awaiting responses from some of them to assess the latest standing of the scheme. Once those responses are known, it will be possible to give greater clarity in terms of any potential timescale.

Nid yw'r cynllun wedi cael ei roi o'r neilltu, er ei fod wedi cael ei ohirio—rwy'n cyfaddef cymaint â hynny i arweinydd yr wrthblaid. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda phartïon sydd â diddordeb, ac rydym yn disgwyl am ymateb gan rai ohonynt i asesu statws diweddaraf y cynllun. Ar ôl i'r ymatebion hynny ddod yn hysbys, bydd yn bosibl rhoi mwy o eglurder o ran unrhyw amserlen bosibl.

14:14 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, mortgages to Welsh homeowners hit their lowest in two years in the first quarter of 2013, so the urgency of this scheme is absolute. It is important that we get some indication as to when you are able to get something on the ground to help people to get on the housing ladder. Can you give some consideration to when will you be able to make a statement on the timetable, and will you also consider providing more regular technical briefings to opposition spokespeople on the progress of the scheme, so that we can keep in touch with that and offer any assistance that we can?

Brif Weinidog, roedd morgeisi i berchnogion tai yng Nghymru ar eu hisaf mewn dwy flynedd yn ystod chwarter cyntaf 2013, felly mae brys y cynllun hwn yn ddiamod. Mae'n bwysig ein bod yn cael rhyw fath o syniad pryd fyddwch chi'n gallu rhoi rhywbeth ar waith i helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai. A allwch chi roi rhywfaint o ystyriaeth i bryd y byddwch chi'n gallu gwneud datganiad ar yr amserlen, ac a wnewch chi ystyried hefyd darparu sesiynau briffio technegol mwy rheolaidd i lefarwyr yr wrthblaid ar gynnydd y cynllun, fel y gallwn gadw mewn cysylltiad â hynny a chynnig unrhyw gymorth y gallwn?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can give a commitment to there being a statement before recess. The precise date will depend on the nature of the responses that we receive from those bodies that we need to have on board.

Gallaf roi ymrwymiad y bydd datganiad cyn y toriad. Bydd yr union ddyddiad yn dibynnu ar natur yr ymatebion a gawn gan y cyrff hynny y mae angen eu cefnogaeth arnom.

### Cefnogi Busnes

### Supporting Business

14:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi busnes yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1103(FM)*

*11. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to support business in North Wales? OAQ(3)1103(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Through Business Wales, we provide a wide range of advice and initiatives to support businesses across Wales.

Trwy Busnes Cymru, rydym ni'n darparu amrywiaeth eang o gyngor a mentrau i gefnogi busnesau ledled Cymru.

14:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, improvements to the transport infrastructure in north Wales would deliver huge benefits to the economy of north Wales, not least the electrification of the main line, which would help attract inward investment and relieve pressure on the A55. Will you join me in welcoming the leadership of the Secretary of State for Wales in building consensus with local authorities in north Wales to secure this investment? What is your Government doing to support this project?

Brif Weinidog, byddai gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth yn y gogledd yn cynnig buddion enfawr i economi gogledd Cymru, yn enwedig trydaneiddio'r brif reilffordd, a fyddai'n helpu i ddenu buddsoddiad o'r tu allan ac yn lleihau'r pwysau ar yr A55. A wnewch chi ymuno â mi i groesawu arweinyddiaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ddatblygu consensws gydag awdurdodau lleol yn y gogledd i sicrhau'r buddsoddiad hwn? Beth mae eich Llywodraeth chi yn ei wneud i gefnogi'r prosiect hwn?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are fully supportive of electrification, not just of the north Wales main line, but the Wrexham to Bidston line. It is crucial that any electrification does not leave an inferior service on the Conwy valley line. So, this is something that we would certainly support and I understand that this is something that the Secretary of State strongly supports as well. We look forward to the Government that he is a member of delivering a clear timescale in the future.

Rydym ni'n gwbl gefnogol i drydaneiddio, nid yn unig prif reilffordd gogledd Cymru, ond rheilffordd Wrecsam i Bidston hefyd. Mae'n hanfodol nad yw unrhyw drydaneiddio yn gadael gwasanaeth israddol ar reilffordd dyffryn Conwy. Felly, mae hyn yn rhywbeth y byddem yn sicr yn ei gefnogi ac rwy'n deall bod hyn yn rhywbeth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gefnogi'r gryf hefyd. Rydym yn edrych ymlaen at weld y Llywodraeth y mae'n aelod ohoni'n darparu amserlen eglur yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

## Questions to the Minister for Culture and Sport

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

### National Library for Wales

14:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf yn dilyn y tân yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? OAQ(4)0035(CS)*

*1. Will the Minister provide an update following the fire at the National Library for Wales? OAQ(4)0035(CS)*

14:16 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I have issued a second written statement today to update Members on the fire that took place at the National Library of Wales on 26 April.

Rwyf wedi cyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y tân a ddigwyddodd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 26 Ebrill.

14:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your update, Minister. I am grateful to you for visiting the library so soon after the fire and I know that your pledge to support the library through this difficult period has been very well received. With damages reported to be in the region of £5 million, are you in a position to provide an update on the response of the relevant insurers and what contribution, if any, the Welsh Government may be called upon to make?

Diolch i chi am eich diweddariad, Weinidog. Rwy'n ddiolchgar i chi am ymweld â'r llyfrgell mor fuan ar ôl y tân ac rwy'n gwybod bod eich addewid i gefnogi'r llyfrgell yn ystod y cyfnod anodd hwn wedi cael derbyniad da iawn. Gan yr adroddir bod gwerth tua £5 miliwn o ddifrod wedi'i wneud, a ydych chi mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb yr yswirwyr perthnasol a pha gyfraniad, os o gwbl, y gallai fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud?

14:17 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As yet, it is too early to give any detail as regards the insurance or legal position. Those matters are still being worked through. We have officers within my department based in Aberystwyth and they are in daily contact with the national library staff. We support the library in terms of dealing with these issues, but they are yet to be bottomed out. The library is being advised by its legal advisers—Geldards, I believe—with regard to these matters.

Hyd yn hyn, mae'n rhy gynnar i roi unrhyw fanylion o ran yr yswiriant na'r sefyllfa gyfreithiol. Mae'r materion hynny yn dal i gael eu trafod. Mae gennym swyddogion yn fy adran i a leolir yn Aberystwyth ac maen nhw mewn cysylltiad dyddiol ag aelodau staff y llyfrgell genedlaethol. Rydym yn cefnogi'r llyfrgell o ran ymdrin â'r materion hyn, ond nid ydynt yn gwbl glir eto. Mae'r llyfrgell yn cael ei chynghori gan ei chynghorwyr cyfreithiol—Geldards, rwy'n credu—o ran y materion hyn.

14:17 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would be interested in your view on bringing the remaining investiture regalia to the national library sometime. In addition, I want to push you on this question of the insurance situation. Are you able to tell us what work has been undertaken to establish any third-party liability and what the relationship is between that potential person's insurers and the Crown immunity situation?

Weinidog, byddai gennyf ddiddordeb yn eich barn ar ddod â gweddill addurndlysau'r arwisgiad i'r llyfrgell genedlaethol rywbryd. Hefyd, hoffwn roi pwysau arnoch ar y cwestiwn hwn am y sefyllfa yswiriant. A allwch chi ddweud wrthym pa waith sydd wedi ei wneud i sefydlu unrhyw atebolrwydd trydydd parti a beth yw'r berthynas rhwng yswirwyr yr unigolyn posibl hwnnw a sefyllfa imiwnedd y Goron?

14:18 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have an independent report commissioned by the library and the fire service report regarding the cause of the fire, which is an important stage to have completed. However, as I say, there are still issues around insurance and legal aspects of liability. Crown indemnity and trying to achieve necessary clarity are factors as regards those discussions. These are matters that the library's legal advisers are addressing and my officials are supporting the library in those discussions.

Mae gennym adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y llyfrgell ac adroddiad y gwasanaeth tân ar achos y tân, sy'n gam pwysig i'w gael wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae materion yn ymwneud ag yswiriant ac agweddau cyfreithiol atebolrwydd yn dal i fod heb eu datrys. Mae indemniad y Goron a cheisio sicrhau'r eglurder angenrheidiol yn ffactorau yn y trafodaethau hynny. Mae'r rhain yn faterion y mae cynghorwyr cyfreithiol y llyfrgell yn mynd i'r afael â nhw ac mae fy swyddogion yn cefnogi'r llyfrgell yn y trafodaethau hynny.

14:18 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Edrychaf ymlaen at weld manylion eich ail ddatganiad pan gyrhaeddith ef ni fel Aelodau'r Cynulliad y prynhawn yma, gobeithio. Bydd yn rhaid i rywun ariannu adfer y difrod i adeilad y llyfrgell genedlaethol yn y pen draw. A wnewch chi gymryd y cyfle i asesu'r llyfrgell genedlaethol ar gyfer ei addasrwydd o ran atal tân yn fwy cyffredinol i'r dyfodol, fel y gellir sicrhau na fydd unrhyw dân yn y dyfodol yn mynd drwy'r adeilad i gyd? O ystyried y perygl a amlygwyd gan y tân hwn, a wnewch chi ddefnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod y llyfrgell genedlaethol yn ei chyfanrwydd yn cael ei diogelu rhag unrhyw anffawd tân?

I look forward to seeing the details of your second statement when we receive it as Assembly Members this afternoon, hopefully. Somebody will have to fund the repair work to the national library building at the end of the day. Will you take this opportunity to assess the national library as regards its suitability in terms of preventing any future fire from spreading through the entire building? Given the danger highlighted by this fire, will you take this opportunity to ensure that the national library in its entirety is safeguarded from any misfortune of fire?

14:19 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Elin Jones raises important matters for the future of the national library, its collections and services. The context within which the Member has framed her questions is the correct context that we need to set these matters within. It is important that we go forward as effectively as possible, given that the fire has changed the equation in terms of what had been the thinking and the planning for future work at the national library. Obviously, it will now take place in that new context.

We need to give careful thought to how we futureproof the national library against future fires or other incidents. There is, of course, initial emergency work that has taken place and, to some extent, is yet to take place, but beyond that, we need to look at the future needs of the library and make sure that we take full account of the effects of the fire and what we need to do for the future.

Mae Elin Jones yn codi materion pwysig ar gyfer dyfodol y llyfrgell genedlaethol, ei chasgliadau a'i gwasanaethau. Y cyd-destun y mae'r Aelod wedi gosod ei chwestiynau ynddo yw'r cyd-destun cywir y mae angen i ni roi'r materion hyn ynddo. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen mor effeithiol â phosibl, o ystyried bod y tân wedi newid y sefyllfa o ran y syniadau a'r cynllunio ar gyfer gwaith yn y llyfrgell genedlaethol yn y dyfodol. Yn amlwg, bydd yn digwydd yn y cyd-destun newydd hwnnw bellach.

Mae angen i ni roi ystyriaeth ofalus i sut yr ydym ni am ddiogelu'r llyfrgell genedlaethol rhag tanau neu ddigwyddiadau eraill yn y dyfodol. Mae yna, wrth gwrs, waith brys cychwynnol sydd wedi ei wneud ac, i ryw raddau, nad yw wedi ei wneud eto, ond y tu hwnt i hynny, mae angen i ni ystyried anghenion y llyfrgell yn y dyfodol a gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried effeithiau'r tân yn llawn a'r hyn y mae angen i ni ei wneud ar gyfer y dyfodol.

## Mynediad at Chwaraeon ar gyfer Pobl Ifanc ag Anghenion

## Access to Sports for Young People with Disabilities

14:20 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu pobl ifanc ag anableddau i gael mynediad at chwaraeon? OAQ(4)0033(CS)*

*2. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to help young people with disabilities access sports? OAQ(4)0033(CS)*

14:21 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is committed to providing more and better quality sporting opportunities for people who have a disability. Sport Wales continues to work with Disability Sport Wales, and over the last year it provided over 1 million opportunities for people with a disability to take part in a range of sports.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu mwy o gyfleoedd chwaraeon o ansawdd gwell i bobl sydd ag anabledd. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru, a darparodd dros 1 filiwn o gyfleoedd i bobl ag anabledd gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

14:21 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. I recently received a request from a constituent selected to represent Wales in the Deaflympics, but she was worried that she would miss out because she was not sure that she could afford it. I wrote on her behalf to organisations and to you, and with your support, I understand that she has been able to access some extra funding. However, this is not the first request of its type that I have received. I ask that we seek to improve the way in which funding sources are promoted so that these young people do not miss out on what, for them, could be the opportunities of a lifetime?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Derbyniais gais yn ddiweddar gan etholwr a ddewiswyd i gynrychioli Cymru yn y Deaflympics, ond roedd yn poeni na fyddai'n gallu mynd gan nad oedd yn sicr y gallai hi ei fforddio. Ysgrifennais ar ei rhan i sefydliadau ac atoch chi, a gyda'ch cefnogaeth chi, rwy'n deall ei bod wedi bod wedi gallu cael gafael ar rywfaint o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, nid dyma'r cais cyntaf o'i fath yr wyf wedi ei dderbyn. Rwy'n gofyn i ni geisio gwella'r ffordd y mae ffynonellau cyllid yn cael eu hyrwyddo er mwyn sicrhau nad yw'r bobl ifanc hyn yn colli'r hyn a allai fod, iddyn nhw, yn gyfleoedd unigryw.

14:22 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased that Disability Sport Wales has been able to provide some financial support to your constituent, Sandy, so that she is able to compete at the Deaflympics. Disability Sport Wales continues to promote sport across Wales, particularly with local authorities and governing bodies of sport.

Rwy'n falch iawn bod Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gallu rhoi rhywfaint o gymorth ariannol i'ch etholwr, Sandy, fel ei bod yn gallu cystadlu yn y Deaflympics. Mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn parhau i hyrwyddo chwaraeon ledled Cymru, yn enwedig gydag awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu chwaraeon.

In the Flintshire area last year, there were over 22,000 sporting opportunities and there are now 23 clubs established there and 145 coaches. So, we have seen significant progress, but I agree with the Member that it is necessary to promote the availability of sport. We must all work towards that end.

Roedd dros 22,000 o gyfleoedd chwaraeon yn ardal Sir y Fflint y llynedd, ac mae 23 o glybiau wedi'u sefydlu yno bellach a 145 o hyfforddwyr. Felly, rydym ni wedi gweld cynnydd sylweddol, ond rwy'n cytuno â'r Aelod bod angen hybu'r chwaraeon sydd ar gael. Mae'n rhaid i bob un ohonom weithio tuag at y nod hwnnw.

14:22 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one way to increase the number of young people with disabilities who access sport is through our schools. What is the Welsh Government doing to ensure that physical education teachers and schools generally are equipped to encourage disabled youngsters to participate in sport?

Weinidog, un ffordd o gynyddu nifer y bobl ifanc ag anableddau sy'n cael mynediad at chwaraeon yw drwy ein hysgolion. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gan athrawon addysg gorfforol ac ysgolion yn gyffredinol y wybodaeth i annog pobl ifanc anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon?

14:23 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recently met with Disability Sport Wales to discuss a range of issues, including those matters. An important piece of work carried out by Tanni Grey-Thompson will be completed shortly, in terms of sport in schools generally. It is important that we have a strong mainstream offer throughout our schools in Wales that very much addresses the needs of pupils with disabilities. So, we have seen a lot of progress around the provision of sporting opportunities for people with disabilities, particularly young people, as I described earlier in answer to Sandy Mewies's question. However, there is further work to be done and schools are central to that.

Cefais gyfarfod â Chwaraeon Anabledd Cymru yn ddiweddar i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y materion hynny. Bydd darn pwysig o waith a wnaed gan Tanni Grey-Thompson yn cael ei gwblhau yn fuan, o ran chwaraeon mewn ysgolion yn gyffredinol. Mae'n bwysig bod gennym gynnig prif ffrwd cryf yn ein hysgolion yng Nghymru drwyddi draw, sy'n mynd i'r afael yn drylwyr ag anghenion disgyblion ag anableddau. Felly, rydym ni wedi gweld llawer o gynnydd o ran darparu cyfleoedd chwaraeon i bobl ag anableddau, yn enwedig pobl ifanc, fel y disgrifiais yn gynharach wrth ateb cwestiwn Sandy Mewies. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud ac mae ysgolion yn ganolog i hynny.

14:24 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Access to coaching is also vital in schools to increase the number of young disabled people taking up sports and reaching their full potential. What is the Minister doing to increase the number of coaches available to train our disabled athletes for the future in Wales?

Mae mynediad at hyfforddiant yn hanfodol mewn ysgolion hefyd, i gynyddu nifer y bobl ifanc anabl sy'n dechrau cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn cyrraedd eu llawn botensial. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynyddu nifer yr hyfforddwyr sydd ar gael i hyfforddi ein hathletwyr anabl ar gyfer y dyfodol yng Nghymru?

14:24 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have seen a significant increase in the number of coaches of young people who have disabilities in Wales as part of Disability Sport Wales's programme of work and development. That resource is very much there to be used in partnership with a range of organisations, including schools. It is important that we make the connection between schools and the general provision within our communities in terms of community-focused schools. So, those links are very important and we will continue to improve them.

Rydym ni wedi gweld cynnydd sylweddol i nifer yr hyfforddwyr pobl ifanc sydd ag anableddau yng Nghymru yn rhan o raglen gwaith a datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'r adnodd yna yn bendant ar gael i'w ddefnyddio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y cysylltiad rhwng ysgolion a'r ddarpariaeth gyffredinol yn ein cymunedau o ran ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Felly, mae'r cysylltiadau hynny'n bwysig iawn, a byddwn yn parhau i'w gwella.

14:25 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, since the Wales Wheelchair Curling Association was created 10 years ago, it has done pioneering work in increasing the number of people from across north Wales participating in competitive and recreational curling at Deeside Ice Rink. Will you examine how we can best support the development of the association and look at how we can expand the sport to include people from across the country?

Weinidog, ers creu Cymdeithas Cwrlio Cadair Olwyn Cymru 10 mlynedd yn ôl, mae wedi gwneud gwaith arloesol i gynyddu nifer y bobl o bob cwr o'r gogledd sy'n cymryd rhan mewn cwrlio ar sail gystadleuol a hamdden yng Nghanolfan Sglefrio Glannau Dyfrdwy. A wnewch chi ystyried sut y gallwn ni orau gefnogi datblygiad y gymdeithas ac ystyried sut y gallwn ehangu'r gamp i gynnwys pobl o bob cwr o'r wlad?

14:25 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was recently at a wheelchair sports day in Cardiff, and I was very impressed by the numbers in attendance and the enthusiasm and commitment that those taking part and those supporting those taking part displayed. Wheelchair curling is an important part of that picture, and I know that Disability Sport Wales is having discussions with the Wales Wheelchair Curling Association about levels of support and how the sport can grow and develop.

Roeddwn i mewn diwrnod chwaraeon cadair olwyn yng Nghaerdydd yn ddiweddar, a gwnaed cryn argraff arnaf gan y nifer a oedd yn bresennol a brwdfrydedd ac ymroddiad y rhai a oedd yn cymryd rhan a'r rhai a oedd yn cefnogi'r rhai a oedd yn cymryd rhan. Mae cwrlio cadair olwyn yn rhan bwysig o'r darlun hwnnw, ac rwy'n gwybod bod Chwaraeon Anabledd Cymru yn cynnal trafodaethau â Chymdeithas Cwrlio Cadair Olwyn Cymru am lefelau cefnogaeth a sut y gall y gamp dyfu a datblygu.

14:26 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister—I am sorry, Minister; you are not First Minister yet, are you? I apologise for that. I asked the same questions on 12 March this very year and your answers have been exactly the same as your predecessor's, which is excellent. The growth of disability sports clubs has been excellent, but I am more concerned about the merger of those clubs with sports clubs for the more abled, because we saw the success of the Paralympics, which was magnificent, and it is now clear that some of the faster athletes are moving towards the mainstream opportunities. I think that it would be an amazing encouragement for our sportspeople with a disability or a learning difficulty to compete alongside their heroes. Do you know whether any efforts are being made to incorporate these?

Brif Weinidog—mae'n ddrwg gennyf, Weinidog; nid ydych chi'n Brif Weinidog eto, nac ydych chi? Ymddiheuraf am hynna. Gofynnais yr un cwestiynau ar 12 Mawrth eleni ac mae eich atebion wedi bod yn union yr un fath â rhai eich rhagflaenydd, sy'n ardderchog. Mae twf clybiau chwaraeon i rai ag anabledd wedi bod yn wych, ond rwy'n pryderu mwy am uno'r clybiau hynny gyda chlybiau chwaraeon ar gyfer y rhai mwy abl, gan ein bod wedi gweld llwyddiant y Gemau Paralympaidd, a oedd yn wych, ac mae bellach yn amlwg bod rhai o'r athletwyr cyflymach yn symud tuag at y cyfleoedd prif ffrwd. Rwy'n meddwl y byddai'n anogaeth anhygoel i'n hathletwyr ag anabledd neu anhawster dysgu i gystadlu ochr yn ochr â'u harwyr. A ydych chi'n gwybod pa un a oes unrhyw ymdrechion yn cael eu gwneud i gynnwys y rhain?

14:27 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Lindsay Whittle for that question and agree that we need to increase, as much as possible, the participation of people with a disability in Wales in mainstream sports competition. That happens and it will happen, and it is very much on Disability Sport Wales's agenda. It will be different from one disabled athlete to another. Some will compete in the mainstream competitions, while others will compete in the Paralympics or the Special Olympics, but, wherever possible, I agree with the Member that mainstreaming is the right approach.

Rwy'n diolch i Lindsay Whittle am y cwestiwn yna ac yn cytuno bod angen i ni gynyddu, cymaint â phosibl, cyfranogiad pobl ag anabledd yng Nghymru mewn cystadlaethau chwaraeon prif ffrwd. Mae hynny yn digwydd a bydd yn digwydd, ac mae'n bendant ar agenda Chwaraeon Anabledd Cymru. Bydd yn wahanol o un athletwr anabl i'r llall. Bydd rhai yn cystadlu yn y cystadlaethau prif ffrwd, tra bod eraill yn cystadlu yn y Gemau Paralympaidd neu'r Gemau Olympaidd Arbennig, ond, pryd bynnag y bo modd, rwy'n cytuno â'r Aelod mai prif-ffrydio yw'r dull cywir.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, last year's Paralympics were a fantastic spectacle and encouraged a lot of people to take up sports. As we now approach the first anniversary of that event, what action is the Welsh Government taking to try to cement the legacy of those games to ensure that young disabled athletes around Wales not only are encouraged to take up sports, but have the facilities in place to be able to do that?

Weinidog, roedd Gemau Paralympaidd y llynedd yn achlysur penigamp ac anogodd llawer o bobl i ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon. Wrth i ni ddynesu at ben-blwydd cyntaf y digwyddiad hwnnw erbyn hyn, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio cadarnhau etifeddiaeth y gemau hynny i sicrhau bod athletwyr ifanc anabl ledled Cymru, nid yn unig yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon, ond bod y cyfleusterau ar gael iddynt allu gwneud hynny?

14:28 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much agree with Peter Black that the performance of Welsh athletes at the Paralympics was impressive. In actual fact, per head of population, if Wales had competed on its own, as it were, it would have topped the medals table. Therefore, it is extremely impressive. We have a number of impressive role models now to help to get more people with disabilities involved in sport in Wales. We need to use that legacy effectively. It is uppermost on Disability Sport Wales's agenda; I have discussed it with it. We have already seen a noticeable effect, and I am sure that we will continue to see that into the future.

Rwy'n cytuno'n llwyr â Peter Black bod perfformiad athletwyr o Gymru yn y Gemau Paralympaidd yn drawiadol. Mewn gwirionedd, fesul pen o'r boblogaeth, pe bai Cymru wedi cystadlu ar ei phen ei hun, fel petai, byddai wedi bod ar frig y tabl medalau. Felly, mae'n drawiadol dros ben. Mae gennym nifer o bobl sy'n gosod esiampl drawiadol erbyn hyn i helpu i gael mwy o bobl ag anableddau i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. Mae angen i ni ddefnyddio'r etifeddiaeth honno'n effeithiol. Mae ar frig agenda Chwaraeon Anabledd Cymru; rwyf wedi trafod y mater â'r corff hwnnw. Rydym wedi gweld effaith amlwg eisoes, ac rwy'n siŵr y byddwn yn parhau i weld hynny yn y dyfodol.

14:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Enthusiasm and role models are important, but access to facilities is absolutely key to enable us to reap the benefits of that enthusiasm. Is there a specific action plan that Disability Sport Wales is putting into place to try to ensure that we cement that legacy?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Mae brwdfrydedd a gosod esiampl yn bwysig, ond mae mynediad at gyfleusterau yn gwbl allweddol er mwyn ein galluogi i elwa ar fanteision y brwdfrydedd hwnnw. A oes cynllun gweithredu penodol y mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn ei roi ar waith i geisio sicrhau ein bod yn cadarnhau'r etifeddiaeth honno?

14:29 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Disability Sport Wales has made impressive progress in increasing the facilities available to people with disabilities in Wales, and it will continue to progress that programme.

Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gwneud cynnydd trawiadol wrth gynyddu'r cyfleusterau sydd ar gael i bobl ag anableddau yng Nghymru, a bydd yn parhau i ddatblygu'r rhaglen honno.

## Cyfleusterau Chwaraeon Cyhoeddus

## Public Sports Facilities

14:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyfleusterau chwaraeon cyhoeddus yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0031(CS)*

*3. Will the Minister make a statement on the provision of public sports facilities in South Wales Central? OAQ(4)0031(CS)*

14:29 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Welsh Government and Sport Wales continue to work with key partners, such as local authorities, to encourage the provision of public sports facilities. Sport Wales reports that there are over 180 sport sites in the area, which provide opportunities for people of all ages to take part in a range of sports.

Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol, fel awdurdodau lleol, i annog y ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon cyhoeddus. Dywed Chwaraeon Cymru bod dros 180 o safleoedd chwaraeon yn yr ardal, sy'n cynnig cyfleoedd i bobl o bob oed i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon.

14:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

By that answer, you have indicated the wide range of facilities that are available in South Wales Central; I think you indicated that there are 180. Many are local authority-run and it is up to the local authority to determine locally what resource it wants to put in to those facilities. Regrettably, Cardiff Council has decided to raise the fees that it charges sports clubs dramatically in this financial year. What role do you see your department having, working with local authorities to improve the infrastructure of community sports, albeit accepting that local authorities do have the democratic mandate to run them in their locality?

Yn ôl yr ateb yna, rydych chi wedi dangos yr amrywiaeth eang o gyfleusterau sydd ar gael yng Nghanol De Cymru; rwy'n credu i chi ddweud bod 180. Mae llawer ohonynt yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol a mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu'n lleol pa adnoddau y mae'n dymuno eu rhoi yn y cyfleusterau hynny. Yn anffodus, mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu cynyddu'r ffioedd y mae'n eu codi ar glybiau chwaraeon yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Pa swyddogaeth ydych chi'n gweld eich adran yn ei chyflawni, wrth weithio gydag awdurdodau lleol i wella seilwaith chwaraeon cymunedol, gan dderbyn mai gan awdurdodau lleol y mae'r mandad democrataidd i'w rhedeg nhw yn eu hardaloedd?

14:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, Welsh Government has a key role. Local authorities are key partners of ours and we work with them very closely. I met with the Welsh Local Government Association this week to discuss these matters among others. It is right that there is that local autonomy for our local authorities, as it is their direct responsibility, but there is that partnership role for local government and, indeed, for Sports Wales. Sports Wales, for example, works with local authorities around the process to be followed in terms of increases in fees. So, that partnership is in place, but we all recognise that we live in very difficult times in terms of public spending. However, at the same time, we need to maintain our investment in sport and physical activity in Wales for a variety of very important reasons that I think Members are very familiar with.

Yn amlwg, mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth allweddol. Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol i ni ac rydym ni'n gweithio'n agos iawn â nhw. Cefais gyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos hon i drafod y materion hyn ymhlith eraill. Mae'n iawn bod yr annibyniaeth leol honno'n bodoli ar gyfer ein hawdurdodau lleol, gan mai eu cyfrifoldeb uniongyrchol nhw ydyw, ond ceir y swyddogaeth bartneriaeth honno ar gyfer llywodraeth leol ac, yn wir, ar gyfer Chwaraeon Cymru. Mae Chwaraeon Cymru, er enghraifft, yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar y broses i'w dilyn o ran cynnydd i ffioedd. Felly, mae'r bartneriaeth honno wedi ei sefydlu, ond rydym i gyd yn cydnabod ein bod yn byw mewn cyfnod anodd iawn o ran gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae angen i ni gynnal ein buddsoddiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru am amrywiaeth o resymau pwysig iawn yr wyf yn credu bod yr Aelodau'n gyfarwydd iawn â nhw.

14:31 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we have already seen the impact of austerity politics in the South Wales Central region at local government level. At the top of the Rhondda Fawr in Treherbert, a much-loved community swimming pool is being demolished by the local council despite a fantastic and serious campaign by the local community to keep it open. Similarly, in Cardiff, cutbacks are being made to leisure services, with some sport centres on reduced hours of opening and the cost of hiring sports pitches rising extortionately. You said just now that Welsh Government has a key role, so when the pay of chief local government officers is out of control, are you content for sport and leisure facilities to bear the brunt of budget savings in our local authorities?

Weinidog, rydym ni eisoes wedi gweld effaith gwleidyddiaeth gynilo ar lefel llywodraeth leol yn rhanbarth Canol De Cymru. Ym mhen uchaf y Rhondda Fawr yn Nhreherbert, mae pwll nofio cymunedol poblogaidd yn cael ei ddymchwel gan y cyngor lleol er gwaethaf ymgyrch wych a difrifol gan y gymuned leol i'w gadw ar agor. Yn yr un modd, yng Nghaerdydd, mae toriadau'n cael eu gwneud i wasanaethau hamdden a chyfyngwyd ar oriau agor rhai canolfannau chwaraeon, ac mae cost llogi caeau chwarae yn codi'n afresymol. Nodwyd gennych funud yn ôl bod gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth allweddol, felly pan fo cyflog prif swyddogion llywodraeth leol allan o reolaeth, a ydych chi'n fodlon i gyfleusterau chwaraeon a hamdden ddioddef effeithiau gwaethaf arbedion cyllideb yn ein hawdurdodau lleol?

14:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Member seeks to make a connection that is not, at least partly, within my portfolio and is not really central to what local authorities are spending on their sport and leisure offers across Wales. We should stick to the substantive and significant issues, and that was the subject matter of my meeting with the WLGA. Before long, I hope to meet with all Cabinet Members with relevant responsibility. However, we know that it is not all doom and gloom. Local authorities are doing some very important and innovative things. For example, I was in the Garw valley recently to look at a new shared facility between the local library and the local leisure centre. That co-location resulted in much greater usage of the library and leisure services. It has also involved a not-for-profit organisation in Bridgend to provide its leisure services with some very positive initial results.

Mae'r Aelod yn ceisio gwneud cysylltiad nad yw, o leiaf yn rhannol, yn rhan o'm portffolio ac nid yw wir yn ganolog i'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar eu cynigion chwaraeon a hamdden ledled Cymru. Dylem gadw at y materion sylweddol ac arwyddocaol, a dyna oedd testun fy nghyfarfod gyda CLlLC. Cyn bo hir, rwy'n gobeithio cyfarfod â holl Aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb perthnasol. Fodd bynnag, gwyddom nad yw popeth yn peri digalondid. Mae awdurdodau lleol yn gwneud rhai pethau pwysig ac arloesol iawn. Er enghraifft, roeddwn i yn nyffryn Garw yn ddiweddar i edrych ar gyfleuster newydd a rennir rhwng y llyfrgell leol a'r ganolfan hamdden leol. Arweiniodd y cyd-leoli hwnnw at lawer mwy o ddefnydd o wasanaethau llyfrgell a hamdden. Mae hefyd wedi cynnwys sefydliad dielw ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ddarparu ei wasanaethau hamdden gan arwain at rai canlyniadau cychwynnol cadarnhaol iawn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:33 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

I am pleased that you mentioned innovation among local authorities. There is a good example of that in Splott in my constituency, which is looking to save both the pool and the current Star Centre library. You will be aware that many local authorities are making incredibly difficult choices about where to spend money and where not to spend money at this time. Do you agree that nobody should be fooled by the campaign being run out of the Welsh Conservatives' leader's office to try to place the blame for the politics of austerity on local government at this time? Every single local authority across Wales, with regard to spending, will have to make incredibly difficult choices. Do you think that people will be fooled by the campaign run by Andrew R.T. Davies?

Rwy'n falch eich bod wedi sôn am arloesedd ymhlith awdurdodau lleol. Ceir enghraifft dda o hynny yn Sblot yn fy etholaeth i, sy'n ceisio achub y pwll nofio a llyfrgell Canolfan Star ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau anodd iawn am ble i wario arian a phle i beidio â gwario arian ar hyn o bryd. A ydych chi'n cytuno na ddylai neb gael eu twyllo gan yr ymgyrch sy'n cael ei rhedeg o swyddfa arweinydd Ceidwadwyr Cymru i geisio rhoi'r bai am y wleidyddiaeth cynilo ar lywodraeth leol ar hyn o bryd? Bydd yn rhaid i bob un awdurdod lleol ledled Cymru wneud dewisiadau arbennig o anodd o ran gwariant. A ydych chi'n credu y bydd pobl yn cael eu twyllo gan yr ymgyrch sy'n cael ei rhedeg gan Andrew R.T. Davies?

Senedd.tv
Fideo Video

14:34 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think that it is important that people across Wales understand the reality of the situation that local government and the Welsh Government face. It is of course in the context of the UK coalition Government slashing public spending in a way that creates incredible difficulties for Welsh Government and for local government. Unfortunately, that is the situation in which we have to operate and make very difficult decisions.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod pobl ledled Cymru yn deall y gwir am y sefyllfa y mae llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu. Mae hyn, wrth gwrs, yng nghyd-destun Llywodraeth glymblaid y DU yn torri gwariant cyhoeddus mewn ffordd sy'n creu anawsterau anhygoel i Lywodraeth Cymru ac i lywodraeth leol. Yn anffodus, dyna'r sefyllfa y mae'n rhaid i ni weithredu ynddi a gwneud penderfyniadau anodd iawn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

The Member mentioned the controversial proposals initially to close Splott pool and to then redevelop it. I am sure that you will know, Minister, that there is a consultation open until 21 June, with which I am sure you will encourage people in Splott, Tremorfa, Adamsdown and Roath to engage fully in order to make their views known. However, further to that, will you join with me in calling on the local authority to retain and improve the existing facilities, if that is in fact what the local community wants?

Soniodd yr Aelod am y cynigion dadleuol cychwynnol i gau pwll nofio Sblot ac yna ei ailddatblygu. Rwy'n siŵr y byddwch yn gwybod, Weinidog, bod ymgynghoriad ar agor tan 21 Mehefin, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn annog pobl yn Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath i gymryd rhan lawn ynddo er mwyn iddynt fynegi eu barn. Fodd bynnag, yn ychwanegol at hynny, a wnewch chi ymuno â mi i alw ar yr awdurdod lleol i gadw a gwella'r cyfleusterau presennol, os mai dyna'r hyn y mae'r gymuned leol ei eisiau mewn gwirionedd?

Senedd.tv
Fideo Video

14:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, there is a process to be gone through, and the Welsh Government takes a keen interest in that. There are requirements for such exercises, which must be observed, to ensure that they are meaningful. However, again, we are dealing with matters of local autonomy, and local authorities have their own democratic mandate. Therefore, it is a partnership approach. The Welsh Government is clear in its strategies that seek to take provision forward across Wales, to ensure that that provision is as attractive and as effective as possible.

Unwaith eto, mae yna broses i fynd drwyddi, ac mae Llywodraeth Cymru yn cymryd diddordeb brwd yn hynny. Ceir gofynion ar gyfer ymarferion o'r fath, y mae'n rhaid eu bodloni, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon. Fodd bynnag, unwaith eto, rydym yn ymdrin â materion o annibyniaeth leol, ac mae gan awdurdodau lleol eu mandad democrataidd eu hunain. Felly, partneriaeth fydd y dull. Mae Llywodraeth Cymru yn eglur yn ei strategaethau sy'n ceisio sicrhau darpariaeth ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth honno mor ddeniadol ac mor effeithiol â phosibl.

## Cyfleusterau Nofio

## Swimming Facilities

14:36 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyfleusterau nofio ar gyfer pobl ifanc? OAQ(4)0028(CS)*

*4. Will the Minister make a statement on the provision of swimming facilities for young people? OAQ(4)0028(CS)*

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Statistics that have been prepared by Sport Wales show that there are 147 sites in Wales with indoor swimming pools of 15m or more in length that can be used either on a 'pay and play' basis or through sports clubs and community associations. Six of these are in Neath Port Talbot.

Mae ystadegau a baratowyd gan Chwaraeon Cymru yn dangos bod 147 o safleoedd yng Nghymru sydd â phyllau nofio dan do o 15m neu fwy o hyd y gellir eu defnyddio naill ai ar sail 'talu a chwarae' neu drwy glybiau chwaraeon a chymdeithasau cymunedol. Mae chwech o'r rhain yng Nghastell-nedd Port Talbot.

14:36 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister; I am glad that there are six in my area. You may be aware that recent research undertaken by the Amateur Swimming Association found that half of seven to 11-year-olds in England cannot swim the length of a standard pool, which I assume is 25m. The ASA is calling for an increased investment in school physical education swimming lessons amid concerns that there could be an increase in incidents of drowning. What research has the Welsh Government conducted into the provision of swimming lessons in primary schools, and what studies have been undertaken into the access to and provision of swimming lessons facilities for young people in deprived areas?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog; rwy'n falch bod chwech yn fy ardal i. Efallai eich bod yn ymwybodol bod gwaith ymchwil ddiweddar a wnaed gan y Gymdeithas Nofio Amatur wedi canfod na all hanner y plant saith i 11 oed yn Lloegr nofio hyd pwll nofio safonol, sy'n 25m, rwy'n tybio. Mae'r ASA yn galw am fwy o fuddsoddiad mewn gwersi nofio addysg gorfforol yn yr ysgol yn dilyn pryderon y gallai fod cynnydd yn nifer yr achosion o foddi. Pa ymchwil mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i'r ddarpariaeth o wersi nofio mewn ysgolion cynradd, a pha astudiaethau sydd wedi eu cynnal ar y mynediad at gyfleusterau gwersi nofio i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig, a'r ddarpariaeth ohonynt?

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank David Rees for that supplementary question. It is clear that swimming is a life skill, and it is also fun and an effective form of keeping fit. That is why the Welsh Government has been investing in free swimming for some 10 years now. That scheme is about structured swimming and learn-to-swim classes. That has been an important development. The picture in Wales is more positive than that suggested by the statistics that the Member describes for England. For example, in terms of children who are able to swim 25m by the age of 11, we saw an increase from 69% in 2010-1 1 to 75% in 2011-12. Those figures are quite impressive, but, as ever, there is further work to be done.

Diolch i David Rees am y cwestiwn atodol yna. Mae'n amlwg bod nofio'n sgil bywyd, ac mae hefyd yn hwyl ac yn ffordd effeithiol o gadw'n heini. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn buddsoddi mewn nofio am ddim ers tua 10 mlynedd bellach. Bwriad y cynllun hwnnw yw darparu dosbarthiadau nofio a dysgu i nofio strwythuredig. Mae hynny wedi bod yn ddatblygiad pwysig. Mae'r darlun yng Nghymru yn fwy cadarnhaol na'r hyn a awgrymir gan yr ystadegau y mae'r Aelod yn eu disgrifio ar gyfer Lloegr. Er enghraifft, o ran plant sy'n gallu nofio 25m erbyn eu bod yn 11 oed, gwelsom gynnydd o'r canran o 69% yn 2010-11 i 75% yn 2011-12. Mae'r ffigurau hynny'n eithaf trawiadol, ond, fel arfer, mae mwy o waith i'w wneud.

14:37 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is currently no 50m pool in north Wales. Rhyl Swimming Club, for example, which teaches many children to swim properly and safely, has to travel to its nearest 50m pool, in Manchester, once or twice every month for its competitive swimming activities. Given that it is supporting proposals for a 50m pool in Rhyl, I understand that Denbighshire County Council cabinet, as well as local members, also unanimously support the concept of such a pool in Rhyl, subject to affordability. What support could, or will, the Welsh Government provide to facilitate the delivery of such a pool?

Nid oes unrhyw bwll 50m yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i Glwb Nofio'r Rhyl, er enghraifft, sy'n addysgu llawer o blant i nofio'n gywir ac yn ddiogel, deithio i'w bwll nofio 50m agosaf, ym Manceinion, unwaith neu ddwywaith bob mis ar gyfer ei weithgareddau nofio cystadleuol. O gofio ei fod yn cefnogi cynigion ar gyfer pwll nofio 50m yn y Rhyl, rwy'n deall bod cabinet Cyngor Sir Ddinbych, yn ogystal ag aelodau lleol, hefyd yn cefnogi'n unfrydol y syniad o bwll o'r fath yn y Rhyl, yn amodol ar fforddiadwyedd. Pa gymorth allai, neu fydd, Llywodraeth Cymru yn ei roi i hwyluso'r ddarpariaeth o bwll nofio o'r fath?

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, together with Sport Wales, is interested in any realistic and practical ideas to improve the infrastructure of swimming pools in Wales. As we have discussed many times—and will no doubt discuss many times in the future—it is a difficult time at present in terms of public spending and the availability of public moneys. Nonetheless, even if it takes some time for ideas to come to fruition, we are very keen to continue to build progress in Wales. My officials, Sport Wales and I as Minister are very interested to meet and discuss these matters.

Mae gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Chwaraeon Cymru, ddiddordeb mewn unrhyw syniadau realistig ac ymarferol i wella seilwaith pyllau nofio yng Nghymru. Fel rydym ni wedi ei drafod sawl gwaith—ac y mae'n sicr y byddwn yn ei drafod lawer gwaith yn y dyfodol—mae'n gyfnod anodd ar hyn o bryd o ran gwariant cyhoeddus a'r arian cyhoeddus sydd ar gael. Serch hynny, hyd yn oed os bydd yn cymryd cryn amser i syniadau ddwyn ffrwyth, rydym ni'n awyddus iawn i barhau i adeiladu cynnydd yng Nghymru. Mae gan fy swyddogion, Chwaraeon Cymru a minnau fel Gweinidog ddiddordeb mawr mewn cyfarfod a thrafod y materion hyn.

14:39 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, during this lovely weather, wild swimming becomes popular in our lakes and waterfalls, despite the obvious dangers. What is your Government's policy on wild swimming?

Weinidog, yn ystod y tywydd hyfryd hwn, mae nofio gwyllt yn boblogaidd yn ein llynnoedd a'n rhaeadrau, er gwaethaf y peryglon amlwg. Beth yw polisi eich Llywodraeth ar nofio gwyllt?

14:39 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is an interesting question for me as the Minister with the portfolio in which these responsibilities are brought together, because it links outdoor access and sport and physical activity. The Member makes those links through her supplementary question. Personally, I believe that wild swimming is worth while and have no problem with it at all. I think that it marries up our great outdoors with sport and fitness in Wales. It does happen across Wales, and I have come across many examples, in visiting Wales, where it has been pointed out to me that, in these areas, wild swimming takes place. I am told that some very interesting activities go around it on occasion. [Laughter.]

Mae hwn yn gwestiwn diddorol i mi fel y Gweinidog â'r portffolio lle mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu tynnu ynghyd, gan ei fod yn cysylltu mynediad awyr agored a chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r Aelod yn gwneud y cysylltiadau hynny drwy ei chwestiwn atodol. Yn bersonol, rwy'n credu bod nofio gwyllt yn werth chweil ac nid oes gen i unrhyw broblem ag ef o gwbl. Rwy'n credu ei fod yn cyfuno ein hawyr agored gyda chwaraeon a ffitrwydd yng Nghymru. Mae'n digwydd ledled Cymru, ac rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau, wrth ymweld â Chymru, lle y tynnwyd fy sylw at y ffaith bod nofio gwyllt yn digwydd yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n clywed bod rhai gweithgareddau diddorol iawn yn gysylltiedig ag ef weithiau. [Chwerthin.]

### Celfyddydau Creadigol

### Creative Arts

14:40 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnwys mwy o bobl yn y celfyddydau creadigol? OAQ(4)0032(CS)*

*5. What plans does the Minister have to involve more people in creative arts? OAQ(4)0032(CS)*

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Welsh Government strategic priorities for the arts are set out in my annual remit letter to the Arts Council of Wales. This year they include increasing levels of engagement and participation and creating a vibrant and high-quality arts sector accessible to all communities in Wales.

Nodir blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau yn fy llythyr cylch gwaith blynyddol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Eleni, maen nhw'n cynnwys cynyddu lefelau ymgysylltu a chyfranogi a chreu sector celfyddydau bywiog ac o ansawdd uchel sydd ar gael i bob cymuned yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. In my constituency, in Llandaff North, the tactileBOSCH experimental arts gallery and a graffiti workshop have recently had to move out of the area because of redevelopment plans. They were able to flourish because they were in fairly rundown but cheap accommodation. What can the Minister and the Government do to ensure that such activities are able to flourish and are accessible to all?

Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Yn fy etholaeth i, yn Ystum Taf, mae'r oriel celfyddydau arbrofol tactileBOSCH a gweithdy graffiti wedi gorfod symud allan o'r ardal yn ddiweddar oherwydd cynlluniau ailddatblygu. Roeddent yn gallu ffynnu am eu bod mewn adeilad a oedd mewn cyflwr cymharol wael ond a oedd yn rhad. Beth all y Gweinidog a'r Llywodraeth ei wneud i sicrhau y gall gweithgareddau o'r fath ffynnu a'u bod yn hygyrch i bawb?

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I regularly meet my colleague the Minister for Housing and Regeneration, and these matters are certainly relevant to both our portfolios. The Big Lottery Fund has a community asset transfer programme, with which I am sure that Members are familiar. It benefits community-based organisations, such as those that you mentioned, Julie. There are opportunities in terms of redundant community buildings. It is also important, of course, that the Arts Council of Wales has a range of initiatives in place to increase participation in the arts and that that happens very much on that community level.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'm cydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio, ac mae'r materion hyn yn sicr yn berthnasol i bortffolios y ddau ohonom. Mae gan y Gronfa Loteri Fawr raglen trosglwyddo asedau cymunedol, yr wyf yn siŵr y mae'r Aelodau yn gyfarwydd â hi. Mae o fudd i sefydliadau yn y gymuned, fel y rhai a grybwyllwyd gennych chi, Julie. Ceir cyfleoedd o ran adeiladau cymunedol gwag. Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru amrywiaeth o fentrau ar waith i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau a bod hynny'n digwydd i raddau helaeth ar y lefel gymunedol honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The hundredth anniversary commemorations of the first world war will provide numerous opportunities for local communities to engage with the creative arts. Will the Minister liaise with arts, education and community organisations to maximise the potential of the creation and participation in such events?

Bydd dathliadau canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf yn cynnig nifer o gyfleoedd i gymunedau lleol ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol. A wnaiff y Gweinidog gysylltu â sefydliadau celfyddydol, addysgol a chymunedol i wireddu potensial creu a chymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The First Minister is leading on the commemoration of the first world war, and Deian Hopkin leads a group that brings together a number of key partners in working up a programme of events for the commemoration. Arts and culture are obviously an integral part of that work and, as the Minister with responsibility, I am very much involved in those discussions. So, I will be mindful of those points in taking these matters forward.

Mae'r Prif Weinidog yn arwain ar gofio'r rhyfel byd cyntaf, ac mae Deian Hopkin yn arwain grŵp sy'n dod â nifer o bartneriaid allweddol ynghyd i lunio rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer y coffáu. Mae'r celfyddydau a diwylliant yn amlwg yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw ac, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb, rwyf yn rhan ganolog o'r trafodaethau hynny. Felly, byddaf yn ystyried y pwyntiau hynny wrth fwrw ymlaen â'r materion hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

You will know, Minister, that we are very proud of all the programmes that are created in Wales, such as 'Doctor Who' and 'Torchwood', but are you aware of the farcical situation where Welsh actors have to travel to London for casting opportunities? For example, any potential Doctor—male or female—will have to travel to London for auditions for a programme made in Wales?

Byddwch yn gwybod, Weinidog, ein bod yn falch iawn o'r holl raglenni sy'n cael eu creu yng Nghymru, fel 'Doctor Who' a 'Torchwood', ond a ydych chi'n ymwybodol o'r sefyllfa chwerthinllyd sy'n golygu bod yn rhaid i actorion o Gymru deithio i Lundain ar gyfer cyfleoedd castio? Er enghraifft, bydd yn rhaid i unrhyw ddarpar Ddoctor—yn ddyn neu'n fenyw—yn gorfod teithio i Lundain er mwyn cael clyweliadau ar gyfer rhaglen sy'n cael ei gwneud yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Obviously, it is important that we develop the film and TV industry in Wales, and a lot of work is taking place to that effect. We see considerable ambition from the BBC in terms of developing its presence and activity in Wales, and I look forward to continuing to work with it on that agenda.

Yn amlwg, mae'n bwysig ein bod yn datblygu'r diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru, ac mae llawer o waith yn digwydd i'r perwyl hwnnw. Rydym yn gweld uchelgais sylweddol gan y BBC o ran datblygu ei bresenoldeb a'i weithgarwch yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio â'r BBC ar yr agenda hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I had a meeting recently with Equity, which represents actors, and it told me that it was disheartening for Welsh actors to travel up and down to London, potentially meeting someone that would get the part, and they would then feel demoralised coming back not having received the part. I wrote to the BBC about this particular issue and it basically did not say anything more than what I already knew in terms of whether casting would be more prevalent in Wales with the growth of the industry here. Will you join me in asking the BBC to hold more casting sessions in Wales so that actors are not out of pocket—because, at the end of the day, they work as freelancers—and so that they can have more support in winning these contracts in Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Cefais gyfarfod yn ddiweddar gydag Equity, sy'n cynrychioli actorion, a dywedwyd wrthyf ei fod yn ddigalon i actorion Cymru deithio yn ôl ac ymlaen i Lundain, o bosibl yn cyfarfod â rhywun a fyddai'n cael y rhan, ac yna'n teimlo'n ddigalon o ddod yn ôl ar ôl methu â chael y rhan. Ysgrifennais at y BBC am y mater penodol hwn ac, yn y bôn, ni ddywedwyd unrhyw beth mwy na'r hyn rwy'n ei wybod eisoes wrthyf o ran a fyddai mwy o gastio'n cael ei wneud yng Nghymru gyda thwf y diwydiant yma. A wnewch chi ymuno â mi i ofyn i'r BBC gynnal mwy o sesiynau castio yng Nghymru fel nad yw actorion ar eu colled—oherwydd, yn y pen draw, maen nhw'n gweithio fel gweithwyr llawrydd—ac fel y gallant gael mwy o gefnogaeth i ennill y contractau hyn yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I will certainly raise these matters with the BBC and report back to Members.

Byddaf yn sicr yn codi'r materion hyn gyda'r BBC ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 6, OAQ(4)0024(CS), has been withdrawn.

Mae Cwestiwn 6, OAQ (4) 0024 (CS), wedi cael ei dynnu yn ôl.

Senedd.tv Fideo Video

### Blaenoriaethau

### Priorities

14:44 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

*7. Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer amddiffyn treftadaeth bensaernïol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0022(CS)*

*7. What are the Minister's priorities for protecting architectural heritage in North Wales? OAQ(4)0022(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Protecting buildings of outstanding historic or architectural interest across Wales is a priority for me, as well as safeguarding locally important buildings. Through the heritage Bill, the Welsh Government is reviewing current measures and policies to ensure that protection and accessibility are safeguarded.

Mae diogelu adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ledled Cymru yn flaenoriaeth i mi, yn ogystal â diogelu adeiladau sy'n bwysig yn lleol. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Bil treftadaeth, yn adolygu mesurau a pholisïau cyfredol i sicrhau bod gwarchodaeth a hygyrchedd yn cael eu diogelu.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, local authorities in my region have recently submitted their cases for partnership funding as part of the townscape heritage and the buildings at risk initiatives. However, I understand that Cadw now only meets once a year to consider these grants, which has substantially reduced flexibility for submitting cases under these schemes, potentially reducing the opportunities for partnership working. Will you consider speaking to Cadw to increase the number of days that it could meet, perhaps from one day a year to, for example, one day every quarter, to allow greater opportunities for partnership funding?

Weinidog, yn ddiweddar, mae awdurdodau lleol yn fy rhanbarth i wedi cyflwyno eu hachosion am gyllid partneriaeth yn rhan o'r mentrau treftadaeth treflun ac adeiladau mewn perygl. Fodd bynnag, rwyf ar ddeall mai dim ond unwaith y flwyddyn y mae Cadw'n cyfarfod bellach i ystyried y grantiau hyn, sydd wedi lleihau'n sylweddol yr hyblygrwydd ar gyfer cyflwyno achosion dan y cynlluniau hyn, gan leihau'r cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth o bosibl. A wnewch chi ystyried siarad â Cadw i gynyddu nifer y diwrnodau y gallai gyfarfod, efallai o un diwrnod y flwyddyn i un diwrnod bob chwarter, er enghraifft, i gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cyllid partneriaeth?

14:46 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure Members that I am very much content to consider these issues and to report back to Members.

Gallaf sicrhau'r Aelodau fy mod yn gwbl barod i ystyried y materion hyn ac i adrodd yn ôl i'r Aelodau.

14:46 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rhan o'r dreftadaeth adeiledig yn fy rhan i o'r byd yw bwthyn a chartref genedigol Kate Roberts, brenhines ein llên, fel y mae wedi cael ei galw. Rwy'n deall eich bod yn mynd i weld y bwthyn yn Rhosgadfan yn ystod yr wythnos nesaf. Rwy'n llongyfarch y Llywodraeth a Cadw ar ddiogelu dyfodol yr adeilad pwysig hwn yn y pentref. Tra byddwch chi yno, rwy'n eich gwahodd i ddod i weld pensaernïaeth hynafol tref Caernarfon, i weld y potensial i ddatblygu'r dref, o ran ei phensaernïaeth, ar gyfer y dyfodol.

Part of the built heritage of my part of the world is the cottage and birthplace of Kate Roberts, the queen of our literature, as she has been called. I understand that you will be visiting the cottage in Rhosgadfan over the coming week. I congratulate the Government and Cadw for securing the future of this important building in the village. While you are there, I invite you to come to see the ancient architecture of Caernarfon, to see the potential for developing the town, in terms of its architecture, for the future.

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Alun Ffred Jones for his kind invitation. I know that there are very interesting plans for Caernarfon in terms of further development, and much of that is relevant to my portfolio in terms of heritage. I will look very carefully at my programme for next week to see if it is possible to accommodate that further visit.

Diolchaf i Alun Ffred Jones am ei wahoddiad caredig. Gwn fod cynlluniau diddorol iawn ar gyfer Caernarfon o ran datblygiad pellach, ac mae llawer o hynny'n berthnasol i'm portffolio o ran treftadaeth. Byddaf yn edrych yn ofalus iawn ar fy rhaglen ar gyfer yr wythnos nesaf i weld a yw'n bosibl i gynnwys yr ymweliad ychwanegol hwnnw.

14:47 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'n rhyw dri mis bellach ers i'r tywydd garw achosi difrod sylweddol i'r safle treftadaeth ym Mrymbo. Rwy'n derbyn eich bod yn awyddus ym mis Ebrill i gael tystiolaeth gadarn ac asesiad gan Cadw am y difrod, ond a oes gennych ddiweddariad am bryd y bydd yr adroddiad ychwanegol ar gael?

Minister, it is now some three months since the inclement weather caused significant damage to the Brymbo heritage site. I accept that you were keen in April to gather firm evidence and to receive an assessment of the damage by Cadw, but do you have an update on when the additional report will be available?

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wrote to Ken Skates and to Mark Isherwood earlier this year, outlining current actions at Brymbo ironworks and assuring the Members of my commitment to the preservation of this historic site. Cadw has agreed to help fund the detailed structural report for this historic structure. Indeed, that should provide the basis for a detailed strategy for a sustainable restoration. I know that Members will be familiar with the situation, but it is very important that we go through the appropriate process in addressing these very important matters.

Ysgrifennais at Ken Skates a Mark Isherwood yn gynharach eleni, yn amlinellu camau gweithredu presennol yng ngwaith haearn Brymbo ac i sicrhau'r Aelodau o'm hymrwymiad i gadw'r safle hanesyddol hwn. Mae Cadw wedi cytuno i helpu i ariannu'r adroddiad strwythurol manwl ar gyfer yr adeiladwaith hanesyddol hwn. Yn wir, dylai hynny fod yn sail i strategaeth fanwl ar gyfer gwaith adfer cynaliadwy. Gwn y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r sefyllfa, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn mynd drwy'r broses briodol wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig iawn hyn.

14:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn yn galw cwestiwn 8, ond nid yw'r Aelod yma. Rwy'n ymddiheuro i'r Cynulliad

I would call question 8, but the Member is not here. I do apologise to the Assembly

*Ni ofynnwyd cwestiwn 8, OAQ(4)0017(CS).*

*Question 8, OAQ(4)0017(CS), not asked.*

### Hyrwyddo Beicio

### Promoting Cycling

14:48 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo beicio? OAQ(4)0034(CS)*

*9. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is promoting cycling? OAQ(4)0034(CS)*

14:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government promotes cycling for sport, recreation and travel throughout Wales. Travel planning projects and the provision of quality recreational and competitive cycling opportunities contribute to getting people cycling in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo beicio ar gyfer chwaraeon, hamdden a theithio ledled Cymru. Mae prosiectau cynllunio teithio a'r ddarpariaeth o gyfleoedd beicio hamdden a chystadleuol o ansawdd yn cyfrannu at gael pobl i feicio yng Nghymru.

14:49 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The UCI para-cycling road world cups are just about to start in Italy and Spain, and Welsh Paralympic champion Mark Colbourne will be flying the flag for Wales on the Great Britain team. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to support and promote para-cycling in Wales?

Mae cwpanau byd para-feicio ffordd UCI ar fin dechrau yn yr Eidal a Sbaen, a bydd y pencampwr Paralympaidd o Gymru, Mark Colbourne yn chwifio'r faner dros Gymru yn nhîm Prydain Fawr. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo para-feicio yng Nghymru?

14:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Welsh Government recognises Disability Sports Wales as the lead organisation for promoting and developing disability sports in Wales—I have mentioned Disability Sports Wales a number of times already today, which I think is a reflection of the very good work that it is carrying out throughout the country. Disability Sports Wales has delivered a talent programme for para-cycling since 2003, since when some seven Welsh athletes have represented Great Britain, either at world cup or championship level, or at three successive Paralympic Games. During that period, we have been extremely successful in winning 13 Paralympic medals. I understand from Disability Sports Wales that it is now entering into a partnership with Welsh and British cycling to appoint a para-cycling development coach to drive forward this progress and programme in Wales. We have seen some very good progress, as Rebecca Evans mentioned. We have in place some important developments to further that progress.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod Chwaraeon Anabledd Cymru fel y sefydliad arweiniol ar gyfer hyrwyddo a datblygu chwaraeon anabledd yng Nghymru—rwyf eisoes wedi crybwyll Chwaraeon Anabledd Cymru nifer o weithiau heddiw, ac rwy'n meddwl bod hynny'n adlewyrchiad o'r gwaith da iawn y mae'n ei wneud ledled y wlad. Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi cyflwyno rhaglen dalent ar gyfer para-feicio ers 2003, ac mae tua saith o athletwyr o Gymru wedi cynrychioli Prydain Fawr ers hynny, naill ai yng nghwpan y byd neu ar lefel pencampwriaeth, neu mewn Gemau Paralympaidd dair gwaith yn olynol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym ni wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ennill 13 o fedalau Paralympaidd. Caf ar ddeall gan Chwaraeon Anabledd Cymru ei fod yn awr yn mynd i bartneriaeth gyda beicio Cymru a Phrydain i benodi hyfforddwr datblygu para-feicio i fwrw ymlaen â'r cynnydd hwn a'r rhaglen hon yng Nghymru. Rydym ni wedi gweld rhywfaint o gynnydd da iawn, fel y soniodd Rebecca Evans. Mae gennym rai datblygiadau pwysig ar waith i adeiladu ymhellach ar y cynnydd hwnnw.

14:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I will be joining local residents for a cycle ride on Saturday 15 June to mark the start of Bike Week. Wheelrights, the Swansea bay cycle group, is organising a mass ride from Blackpill to Castle Square, leaving at 12.15 p.m., which will be a repeat of last year's event. What is the Minister doing to encourage groups like this? Will he join me on this particular ride, and does he agree that it would be good to see all local AMs on their bikes on this day?

Weinidog, byddaf yn ymuno â thrigolion lleol ar gyfer taith feicio ddydd Sadwrn 15 Mehefin i nodi dechrau Wythnos y Beic. Mae Wheelrights, y grŵp beicio ym mae Abertawe, yn trefnu taith fawr o Blackpill i Sgwâr y Castell, gan adael am 12.15 p.m., a fydd yn ailadrodd digwyddiad y llynedd. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog grwpiau fel hyn? A wnaiff ef ymuno â mi ar y daith benodol hon, ac a yw'n cytuno y byddai'n dda gweld yr holl ACau lleol ar eu beiciau ar y diwrnod hwn?

14:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his kind invitation and commend him on the fine example that he is setting for the rest of Wales. I am afraid that I am not able to join him for that particular cycle ride. However, last year, I cycled from north Wales to south Wales and I am keen to set further good examples in future.

Diolch i'r Aelod am ei wahoddiad caredig ac rwy'n ei gymeradwyo am osod esiampl wych i weddill Cymru. Mae'n ddrwg gennyf na allaf ymuno ag ef ar gyfer y daith feicio benodol honno. Fodd bynnag, y llynedd, fe wnes i feicio o ogledd Cymru i'r de ac rwy'n awyddus i osod esiamplau da pellach yn y dyfodol.

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae sawl un ohonom yn aml ar gefn ein beiciau, fel rydych chithau. I droi at yr hyn sy'n digwydd yn Aberystwyth a chanolbarth Cymru ar hyn o bryd, mae seiclo'n dod yn fwy poblogaidd o ran hamdden a chystadlu. Roedd gŵyl seiclo Aber Cycle Fest yr wythnos diwethaf yn Aberystwyth yn hynod lwyddiannus, yn denu miloedd i'r strydoedd i wylio'r rasio ynghyd â nifer fawr o gyfranwyr dros y penwythnos i hamddena hefyd. Mae cynllun cyffrous yn Aberystwyth ar gyfer trac seiclo ac athletau gyda'i gilydd, ac mae wedi cael cefnogaeth y cyngor sir a'r Llywodraeth o dan y Gweinidog blaenorol. Mae'n symud yn ei flaen yn weddol dda ond mae angen i bobl ddod at ei gilydd i wthio'r cynllun yn ei flaen. A wnewch chi edrych yn ffres, fel Gweinidog gweddol newydd, ar y cynllun hwn a rhoi stamp eich awdurdod ar y cynllun i sicrhau ei fod yn dod i fwcl? Bydd nifer o bobl yn y canolbarth ac Aberystwyth yn ddiolchgar iawn i gael arweiniad gennych fel Gweinidog.

Minister, many of us, like you, are often to be found on our bikes. Turning to what is currently happening in Aberystwyth and mid Wales, cycling is becoming increasingly popular competitively and for leisure. Last week's Aber Cycle Fest was extremely successful, attracting thousands of spectators onto the streets of Aberystwyth as well as a large number of cyclists to take part over the weekend. There is an exciting scheme in Aberystwyth for a joint cycling and athletics track, which had the support of the county council and the Government under the previous Minister. It is progressing fairly well but people need to come together to really push it forward. Will you look anew, as a fairly new Minister, at this scheme and give it the stamp of your authority to ensure that it is realised? Many people in Aberystwyth and mid Wales would be very grateful for your leadership as Minister.

14:52 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am happy to look at those matters in conjunction with ministerial colleagues. Through the strategic regeneration scheme, funding of some £5,000 was provided for the Aber Cycle Fest. I agree with the Member that, in that part of Wales, there is a real enthusiasm for and commitment to cycling, which is very good to see. We need to make sure that that passion is facilitated through Welsh Government partnership action.

Rwy'n hapus i ystyried y materion hynny ar y cyd â chydweithwyr gweinidogol. Darparwyd cyllid o tua £5,000 ar gyfer Gŵyl Feicio Aberystwyth drwy'r cynllun adfywio strategol. Rwy'n cytuno â'r Aelod bod brwdfrydedd go iawn am feicio yn y rhan honno o Gymru, ac ymrwymiad iddo, sy'n braf iawn ei weld. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y brwdfrydedd hwnnw'n cael ei hwyluso trwy gamau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth.

14:53 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llanwrtyd Wells has become a mecca of interesting and unusual sports. I am sure that you will have heard of its annual man versus horse race and its bog snorkelling competitions, but the town has now applied to host a round of the national mountain bike championship and is appealing to British Cycling to do so. Would the Minister support that application to British Cycling and will he come to Llanwrtyd to meet with my constituents and see the facilities available? I promise, Minister, not to make you do any bog snorkelling.

Mae Llanwrtyd wedi dod yn fecca ar gyfer chwaraeon diddorol ac anarferol. Rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed am ei ras dyn yn erbyn ceffyl flynyddol a'i gystadlaethau snorcelu cors, ond mae'r dref bellach wedi gwneud cais i gynnal rownd o'r bencampwriaeth beicio mynydd genedlaethol ac yn apelio i Feicio Prydain wneud hynny. A fyddai'r Gweinidog yn cefnogi'r cais hwnnw i Feicio Prydain ac a wnaiff ef ddod i Lanwrtyd i gwrdd â'm hetholwyr ac i weld y cyfleusterau sydd ar gael? Rwy'n addo, Weinidog, i beidio â gwneud i chi wneud unrhyw snorcelu cors.

14:53 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have tried a range of different sports and activities but bog snorkelling has not been among them to date. I am not sure that I am keen to change that position any time soon. However, I thank the Member for her invitation. I agree that Llanwrtyd Wells has done a great deal in terms of unusual sporting events in putting itself and Wales as a whole on the map and raising its profile. I would be pleased to visit. I have been to Llanwrtyd Wells before, but I would be pleased to return in this new ministerial role and meet the Member and her constituents.

Rwyf wedi rhoi cynnig ar amrywiaeth o wahanol chwaraeon a gweithgareddau, ond nid yw snorcelu cors wedi bod yn eu plith hyd yn hyn. Nid wyf yn siŵr fy mod yn awyddus i newid y sefyllfa honno yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, diolchaf i'r Aelod am ei gwahoddiad. Rwy'n cytuno bod Llanwrtyd Wells wedi gwneud llawer iawn o ran digwyddiadau chwaraeon anarferol i roi ei hun a Chymru gyfan ar y map a chodi ei phroffil. Byddwn yn falch o ymweld. Rwyf wedi bod yn Llanwrtyd o'r blaen, ond byddwn yn falch i ddychwelyd yn y swydd weinidogol newydd hon a chyfarfod â'r Aelod a'i hetholwyr.

## Hyrwyddo Treftadaeth Filwrol Cymru

## Promote Wales's Military Heritage

14:54

### Darren Millar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo treftadaeth filwrol Cymru? OAQ(4)0015(CS)*

*10. What actions is the Welsh Government taking to promote Wales' military heritage? OAQ(4)0015(CS)*

14:54

### John Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Much is being done to promote Wales's military heritage through Cadw's all-Wales interpretation plan, specifically the defence of the realm strand. Cadw and CyMAL are working with the Welsh archaeological trusts, the Heritage Lottery Fund and Imperial War Museums on ways to commemorate the first world war.

Mae llawer yn cael ei wneud i hyrwyddo treftadaeth filwrol Cymru trwy gynllun dehongli Cymru gyfan Cadw, a'r maes amddiffyn y deyrnas yn benodol. Mae Cadw a CyMAL yn gweithio gydag ymddiriedolaethau archeolegol Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Imperial War Musuems ar ffyrdd o goffáu'r rhyfel byd cyntaf.

14:54

### Darren Millar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that response, Minister. I am aware of the planning that is going on in respect of the centenary of the first world war and I welcome it very much. However, do you agree that there may be an opportunity, given the string of momentous commemoration events that will be planned, to establish a national military museum for Wales? We have a number of excellent national museums, as I am sure that you will agree, but one thing that does not feature is a national military museum. Will you consider that proposal as part of the centenary preparations?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith cynllunio sy'n digwydd o ran canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf ac rwy'n ei groesawu'n fawr iawn. Fodd bynnag, a ydych chi'n cytuno y gallai fod cyfle, o ystyried y gyfres o ddigwyddiadau coffa pwysig a fydd yn cael eu cynllunio, i sefydlu amgueddfa filwrol genedlaethol i Gymru? Mae gennym nifer o amgueddfeydd cenedlaethol gwych, fel rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, ond un peth nad oes gennym yw amgueddfa filwrol genedlaethol. A wnewch chi ystyried y cynnig hwnnw yn rhan o'r paratoadau ar gyfer y canmlwyddiant?

14:55

### John Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

As I mentioned to Members earlier, I am very open to ideas. I also said that we exist in a time of very strained public finances. Nonetheless, not everything has to happen in the next few years, and it is possible to work toward longer-term projects in partnership. I am very open to discussions, as are my officials and relevant partner organisations. We already have a number of important military museums in Wales—in Caernarfon castle, Brecon and Cardiff castle. However, that is not to say that we could not have a valuable national addition.

Fel y soniais wrth yr Aelodau'n gynharach, rwy'n agored iawn i syniadau. Dywedais hefyd ein bod yn bodoli mewn cyfnod o straen mawr ar gyllid cyhoeddus. Serch hynny, nid oes rhaid i bopeth ddigwydd yn y blynyddoedd nesaf, ac mae'n bosibl gweithio tuag at brosiectau mwy hirdymor mewn partneriaeth. Rwy'n barod iawn i drafod, fel y mae fy swyddogion a sefydliadau partner perthnasol. Mae gennym nifer o amgueddfeydd milwrol pwysig yng Nghymru eisoes —yng nghastell Caernarfon, yn Aberhonddu ac yng nghastell Caerdydd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allem gael ychwanegiad cenedlaethol gwerthfawr.

14:56

### Mick Antoniw [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, on the same theme, there are a lot of organisations in various constituencies—mine, in particular —working not only to restore but to develop memorials to those who have fallen in national service. In Llantrisant, they are attempting to establish a war memorial, while people in Tonyrefail are trying to renovate and recreate a memorial. I wonder whether there is a particular role for the Welsh Government in giving assistance to those groups that are working so hard in their communities to establish those memorials and that identification.

Weinidog, ar yr un thema, ceir llawer o sefydliadau mewn gwahanol etholaethau—a fy un i'n benodol—sy'n gweithio nid yn unig i adfer, ond i ddatblygu cofebion i'r rhai a gollwyd yn gwasanaethu eu gwlad. Yn Llantrisant, maen nhw'n ceisio sefydlu cofeb ryfel, tra bod pobl yn Nhonyrefail yn ceisio adnewyddu ac ail-greu cofeb. Tybed a oes swyddogaeth benodol i Lywodraeth Cymru o ran rhoi cymorth i'r grwpiau hynny sy'n gweithio mor galed yn eu cymunedau i sefydlu'r cofebion hynny a'r nodau hynny.

14:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Welsh Government officials and partner organisations are very keen to explore ideas and to provide advice and assistance. The Welsh Government does not normally fund the creation of new memorials; it has been more of a matter of restoring and improving existing memorials. However, that is not to say that it cannot happen. Organisations like the Heritage Lottery Fund can fund the creation of new memorials in certain circumstances. There are possibilities, and I am sure that my officials will be very willing to assist.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner yn awyddus iawn i archwilio syniadau ac i roi cyngor a chymorth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu creu cofebion newydd fel rheol; mae wedi bod yn fwy o fater o adfer a gwella cofebion sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na all ddigwydd. Gall sefydliadau fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri ariannu creu cofebion dan amgylchiadau penodol. Mae posibiliadau ar gael, ac rwy'n siŵr y bydd fy swyddogion yn barod iawn i helpu.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, the contribution of Welsh men and women to the armed forces is something that is very worthy and important for us all to recognise. I have visited all three of the military museums that you mentioned at Caernarfon, Brecon and Cardiff. However, we also have a military past that stood alone and distinct for many hundreds of years. Too little is done, in my view, to commemorate the heritage of Wales. Perhaps more should be done to inform the public about the campaigns of the Welsh princes and the history of our ancient Celtic tribes. I understand that efforts have been made to commemorate Welsh battlefield sites in recent years. What efforts will you make to encourage local museums to commemorate our separate Welsh history?

Weinidog, mae cyfraniad dynion a menywod o Gymru tuag at y lluoedd arfog yn rhywbeth sydd yn deilwng iawn ac yn bwysig i bob un ohonom ei gydnabod. Rwyf wedi ymweld â phob un o'r tair amgueddfa filwrol y soniasoch amdanynt yng Nghaernarfon, Aberhonddu a Chaerdydd. Fodd bynnag, mae gennym hefyd orffennol milwrol a oedd yn sefyll yn annibynnol ac ar wahân am nifer o gannoedd o flynyddoedd. Mae rhy ychydig yn cael ei wneud, yn fy marn i, i goffáu treftadaeth Cymru. Efallai y dylid gwneud mwy i hysbysu'r cyhoedd am ymgyrchoedd tywysogion Cymru a hanes ein llwythau Celtaidd hynafol. Rwy'n deall bod ymdrechion wedi eu gwneud i goffáu safleoedd meysydd brwydrau Cymru yn y blynyddoedd diweddar. Pa ymdrechion y byddwch chi'n eu gwneud i annog amgueddfeydd lleol i ddathlu ein hanes ar wahân yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

These are significant matters. It is right that people in Wales and beyond should be more aware of this important part of our history. The all-Wales interpretation plan and the defence of the realm project are in place, which are about that history. We have obvious vehicles for raising that profile and spreading awareness. There is renewed interest in battle sites, which are an important part of that work.

Mae'r rhain yn faterion o bwys. Mae'n iawn i ddweud y dylai pobl yng Nghymru a thu hwnt fod yn fwy ymwybodol o'r rhan bwysig hon o'n hanes. Mae cynllun dehongli Cymru gyfan a'r prosiect amddiffyn y deyrnas wedi'u sefydlu, ac yn ymwneud â'r hanes hwnnw. Mae gennym ffyrdd amlwg o godi'r proffil hwnnw a lledaenu ymwybyddiaeth. Mae diddordeb o'r newydd mewn safleoedd brwydrau, sy'n rhan bwysig o'r gwaith hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

### Sector Amgueddfeydd Annibynnol

### Independent Museum Sector

14:59 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r sector amgueddfeydd annibynnol? OAQ(4)0026(CS)*

*11. Will the Minister outline how the Welsh Government is supporting the independent museum sector? OAQ(4)0026(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Specialist advisers in CyMAL, the Welsh Government's museum, archive and library division, provide advice, support, training and grants for independent museums across Wales.

Mae cynghorwyr arbenigol yn CyMAL, isadran amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor, cefnogaeth, hyfforddiant a grantiau i amgueddfeydd annibynnol ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:59

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer. Minister, as you know, there are a great many small museums dotted around Wales that have some rare artefacts but struggle to understand how best to handle them. Although CyMAL provides free training, an awful lot of the small museums that rely on local donations cannot get to it. I wonder what you might be able to do to alleviate that problem, because these are precious treasures for Wales.

Diolch i chi am yr ateb yna. Weinidog, fel y gwyddoch, mae llawer iawn o amgueddfeydd bychan yma ac acw o gwmpas Cymru sydd â rhai arteffactau prin ond sy'n ei chael hi'n anodd gwybod beth yw'r ffordd orau o ymdrin â hwy. Er bod CyMAL yn darparu hyfforddiant am ddim, ni all llawer iawn o'r amgueddfeydd bach sy'n dibynnu ar roddion lleol gymryd mantais arno. Tybed beth allech chi ei wneud i liniaru'r broblem honno, gan fod y rhain yn drysorau gwerthfawr i Gymru.

15:00

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As the Member rightly stated, CyMAL does provide training for independent museum staff. It is a free workforce development programme and I think that that is very valuable. 'How to create displays on a shoestring' is an interesting example of a training course that is particularly relevant for smaller museums. There are funds available from the Federation of Museums and Art Galleries of Wales. That is for staff and volunteers to attend courses and, indeed, conferences. I should also mention the Association of Independent Museums' annual conference, which is further afield, but, once again, is relevant and useful.

Fel y dywedodd yr Aelod yn gywir, mae CyMAL yn darparu hyfforddiant i aelodau staff amgueddfeydd annibynnol. Rhaglen datblygu'r gweithlu am ddim yw hi, ac rwy'n credu bod hynny'n werthfawr iawn. Mae 'Sut i greu arddangosfeydd am geiniog a dimai' yn enghraifft ddiddorol o gwrs hyfforddiant sy'n arbennig o berthnasol i amgueddfeydd llai. Mae arian ar gael gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru. Mae hynny ar gyfer aelodau staff a gwirfoddolwyr i fynychu cyrsiau ac, yn wir, cynadleddau. Dylwn sôn hefyd am gynhadledd flynyddol y Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, sydd ymhellach i ffwrdd, ond, unwaith eto, sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol.

15:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:00

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have two changes to report to this week's business. The title of today's statement by the Minister for Natural Resources and Food has been amended. The Business Committee has also agreed to postpone tomorrow's Stage 3 and Stage 4 debates on the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae teitl datganiad heddiw gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi ei newid. Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd wedi cytuno i ohirio dadleuon Cam 3 a Cham 4 yfory am Fil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru). Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes sydd ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:01

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for her business statement today. Will the Minister schedule a statement concerning Operation Jasmine? Many will view the outcome of this investigation as quite unsatisfactory. However, it is widely acknowledged that Gwent Police worked effectively on this case, making significant recommendations. We need to ensure that these recommendations are fully considered and acted upon. It is vital, therefore, that we have proper arrangements to protect vulnerable adults from those who might seek to abuse and exploit them. We need to establish why it took seven years to complete the investigation and how to avoid any future incidents that may have reduced the progress of this case.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad busnes heddiw. A wnaiff y Gweinidog drefnu datganiad am Operation Jasmine? Bydd llawer yn ystyried bod canlyniad yr ymchwiliad hwn yn eithaf anfoddhaol. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang fod Heddlu Gwent wedi gweithio'n effeithiol ar yr achos hwn, gan wneud argymhellion arwyddocaol. Mae angen inni sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn llawn ac y gweithredir arnynt. Mae'n hanfodol, felly, bod gennym drefniadau priodol i amddiffyn oedolion agored i niwed rhag y rheini a allai geisio eu cam-drin a chamfanteisio arnynt. Mae angen inni gael gwybod pam y cymerodd saith mlynedd i gwblhau'r ymchwiliad a sut i osgoi unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol a allai fod wedi arafu cynnydd yr achos hwn.

15:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Graham for that question. Yesterday, I met the chief constables, and it was the deputy chief constable for Gwent who came to the meeting. I asked him for a briefing so that we can consider what lessons need to be learned. I will be looking into that report in due course.

Diolch i William Graham am y cwestiwn hwnnw. Ddoe, cyfarfûm â'r prif gwnstabliaid, a dirprwy brif gwnstabl Gwent oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnais iddo am friff er mwyn inni allu ystyried pa wersi y mae angen eu dysgu. Byddaf yn edrych ar yr adroddiad hwnnw maes o law.

15:02 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â'r goblygiadau i Gymru o ran cynlluniau Llywodraeth San Steffan i drawsnewid y system o gymorth cyfreithiol yn y gyfundrefn droseddol, ac yn benodol y bwriad i gyfyngu ar y nifer o gytundebau cyfreithiol yn y maes hwn? Er enghraifft, dim ond pedwar cytundeb fydd ar gael i wasanaethu ardal y canolbarth a'r gorllewin yn ei gyfanrwydd. Yn realistig, dim ond cwmnïau fel Stobart Group, G4S, ac yn y blaen, a fydd yn ddigon mawr i dendro am y gwaith hwn ac felly bydd cwmnïau cyfreithiol bach, lleol yn colli allan yn y gwaith hwn. Yn ogystal, bydd perygl y gallai unigolion bregus o fewn y system droseddol golli'r hawl i ddewis cyngor cyfreithiol annibynnol i fod o gymorth iddynt. Mae'r gwasanaeth troseddol yn gorgyffwrdd â nifer o agweddau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad, felly rwy'n credu y byddai'n briodol i drafod y pwnc hwn. Gofynnaf ichi ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am ddatganiad ar y pwnc hwn.

Minister, may I ask for a statement from the Counsel General regarding the implications for Wales of the Westminster Government's plans to transform the system of legal aid in the criminal justice system, and specifically the intention to restrict the number of legal contracts in this field? For example, there will be only four contracts available to serve the mid and west Wales area in its entirety. Realistically, only companies like the Stobart Group, G4S, and so on, will be large enough to tender for this work and therefore small, local law companies will lose out on this work. In addition, there is a risk that vulnerable individuals within the criminal justice system could lose the right to select independent legal advice to assist them. The criminal justice system overlaps with a number of matters that are devolved to the Assembly, so I think that it would be appropriate to discuss this subject. I ask you to ask the Counsel General for a statement on this subject.

15:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Elin Jones, for that question. You are quite right, the issues that you raised are held by the Westminster Government—the legal aid reforms that it is looking at—but they affect some of the most vulnerable people right across Wales, so it is right that we look at the issue. You could table a question to the Counsel General, who has questions on 19 June, or, failing that, I will ask him to make a written statement.

Diolch, Elin Jones, am y cwestiwn hwnnw. Rydych yn llygad eich lle: materion i'r Llywodraeth yn San Steffan yw'r rhai a godwyd gennych—y diwygiadau i gymorth cyfreithiol y maent yn edrych arnynt—ond maent yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ar draws Cymru, felly mae'n briodol ein bod yn edrych ar y mater. Gallech gyflwyno cwestiwn i'r Cwnsler Cyffredinol, sy'n derbyn cwestiynau ar 19 Mehefin, neu, fel arall, gofynnaf iddo wneud datganiad ysgrifenedig.

15:03 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have a debate on organisations that provide training in Wales? The Conservation Volunteers, which has been sub-contracted by ACT Training to provide a conservation and horticultural course based at Forest Farm in Whitchurch in my constituency of Cardiff North, has announced that it is withdrawing from Wales. TCV has been operating in Wales for many years. It is leaving 18 trainees high and dry, and they are unable to get the qualifications that they have been working towards. Could we have a debate about this, because, obviously, the uncertainty that has been created for these trainees is very regrettable and may set them back in their search for qualifications?

A gawn ni ddadl am sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant yng Nghymru? Mae Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV), sydd wedi ei is-gontractio gan Hyfforddiant ACT i ddarparu cwrs cadwraeth a garddwriaeth yn Fferm y Fforest yn yr Eglwys Newydd yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, wedi cyhoeddi ei fod yn tynnu allan o Gymru. Mae TCV wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Mae'n gadael 18 o hyfforddeion heb unman i droi, ac ni allant gael y cymwysterau y maent wedi bod yn gweithio tuag atynt. A gawn ni ddadl am hyn, oherwydd, yn amlwg, mae'r ansicrwydd sydd wedi ei greu i'r hyfforddeion hyn yn anffodus iawn ac yn rhywbeth a allai fod yn faen tramgwydd iddynt wrth geisio cael cymwysterau?

15:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

TCV has cancelled its contract, as you said, to deliver learning for unemployed adults, and its lead contractor, ACT Training, is currently working with TCV to ensure that all learners are offered an alternative learning place with ACT Training or one of its other sub-contractors so that they have the opportunity to continue their learning. I am aware that you have written to the Deputy Minister for Skills and Technology, and he will respond as a matter of urgency.

Mae TCV wedi canslo ei gontract, fel y dywedasoch, i ddarparu dysgu i oedolion di-waith, ac mae ei brif gontractwr, Hyfforddiant ACT, ar hyn o bryd yn gweithio gyda TCV i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cynnig lle dysgu arall gyda Hyfforddiant ACT neu un o'i is-gontractwyr eraill er mwyn iddynt gael cyfle i barhau â'u dysgu. Rwyf yn ymwybodol eich bod wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, a bydd yn ymateb ar fyrder.

15:05 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, last week I read in the 'Western Mail' that the Minister for Economy, Science and Transport had announced a £10 million Wales property development fund. I was surprised to find that there did not appear to have been a statement on that released to Members in the last week. I wonder whether the Minister could bring a statement to this Chamber so that it could enjoy our scrutiny.

Weinidog, yr wythnos diwethaf, darllenais yn y 'Western Mail' fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cyhoeddi cronfa datblygu eiddo gwerth £10 miliwn i Gymru. Roeddwn yn synnu o weld nad yw'n ymddangos bod datganiad wedi'i ryddhau am hynny i'r Aelodau yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Tybed a allai'r Gweinidog roi datganiad i'r Siambr hon er mwyn inni allu craffu arno.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I will ask the Minister to make a statement.

Gofynnaf i'r Gweinidog wneud datganiad.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Is it possible to have a statement either from your good self or the Minister for transport in relation to local government responsibilities for maintaining the roads that are their responsibility? Since May of last year, the deterioration in the Vale of Glamorgan in particular has been excessive and pronounced. I wonder whether the Welsh Government places any obligations on local authorities to maintain important roadways that are their responsibility so that they can be used for cycling and by cars, and to avoid damage and potential injury.

A yw'n bosibl cael datganiad naill ai gennych chi eich hun neu gan y Gweinidog trafnidiaeth ynglŷn â chyfrifoldebau llywodraeth leol dros gynnal y ffyrdd y maent yn gyfrifol amdanynt? Ers mis Mai y llynedd, bu dirywiad difrifol ac amlwg ym Mro Morgannwg yn arbennig. Tybed a yw Llywodraeth Cymru yn gosod unrhyw rwymedigaethau ar awdurdodau lleol i gynnal y ffyrdd pwysig y maent yn gyfrifol amdanynt fel y gall beiciau a cheir eu defnyddio, ac i osgoi difrod ac anafiadau posibl.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Obviously, the state of the roads is a very important issue. I know that local government had extra funding from my predecessor last winter to ensure that roads were maintained. That is an issue that local authorities have to look at.

Yn amlwg, mae cyflwr y ffyrdd yn fater pwysig iawn. Gwn fod llywodraeth leol wedi cael cyllid ychwanegol gan fy rhagflaenydd y gaeaf diwethaf er mwyn sicrhau bod y ffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw. Mae hwnnw'n fater y mae'n rhaid i awdurdodau lleol edrych arno.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

A gaf i ddod yn ôl at y pwynt a gododd Elin Jones gyda chi oherwydd rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod ni heddiw, sef y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn sylweddoli'r effaith y caiff hyn ar nifer o'n cymunedau? Rwyf eisiau croesawu unrhyw beth gan y Cwnsler Cyffredinol, ond hoffwn i wybod hefyd beth sydd gan y Llywodraeth i'w ddweud. A fydd y Prif Weinidog, er enghraifft, yn cyhoeddi'i ymateb i'r ymgynghoriad? Gofynnaf i chi, ar ran y Llywodraeth yn arbennig, i ystyried effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg a chyngor cyfreithiol yn Gymraeg yn benodol. Rwy'n gofyn hyn oherwydd nid oes sôn o gwbl yn ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan am ddiogelu hawl amddiffynnydd neu rywun sy'n defnyddio'r gyfraith yng Nghymru i gael y gwasanaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae hynny'n rhywbeth sy'n ddyletswydd ac sydd wedi ei osod yn Neddf Iaith 1993 a'r ddeddf iaith cyn honno a dweud y gwir. Mae'n bwysig ein bod yn gwarchod y ddyletswydd honno fel Llywodraeth a Chynulliad hefyd er bod hwn yn faes sydd heb ei ddatganoli. Mae hwn yn faes pwysig. A wnewch chi fel Llywodraeth ymateb i San Steffan a'i gwneud yn glir sut yr ydych yn teimlo am y newidiadau hyn?

May I return to the point raised by Elin Jones with you because I think that it is important today, which is the closing date for responding to this consultation, that we understand the impact that this will have on so many of our communities? I want to welcome anything that the Counsel General could provide, but I would also like to know what the Government has to say. Will the First Minister, for example, be publishing his response to the consultation? May I ask you, on behalf of the Government, to consider the impact of these changes on the Welsh language and legal advice through the medium of Welsh specifically? I ask this because there is no mention in the Westminster Government's consultation of safeguarding the right of a defendant or someone turning to the law in Wales to access that service through the medium of Welsh. That is something that is a duty and that has been put in place by the Welsh Language Act 1993 and the previous language Act to be honest. It is important that we protect that duty as a Government and an Assembly, even though this is a non-devolved area. This is an important area. Will you as a Government respond to Westminster and make clear your feelings about these changes?

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, as I mentioned in my answer to Elin Jones, it affects some of the most vulnerable people across Wales. You heard my answer to Elin Jones regarding the position of the Counsel General. The First Minister has responded to the consultation in Westminster and I will ask him if he is prepared to publish that response.

Fel y soniais yn fy ateb i Elin Jones, mae'n effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed ledled Cymru. Clywsoch fy ateb i Elin Jones am safbwynt y Cwnsler Cyffredinol. Mae'r Prif Weinidog wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn San Steffan a gofynnaf iddo a yw'n barod i gyhoeddi'r ymateb hwnnw.

15:07 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can we have a statement in Government time around participation in sport and to celebrate the successes that we have seen across the sporting fields? In particular I would have to mention Rhyl going back into the Welsh Premier League. You could not expect me to mention sport without mentioning Rhyl. Cardiff has also gone up and Newport has gone into the pyramid.

Weinidog, a gawn ni ddatganiad yn amser y Llywodraeth ynglŷn â chyfranogiad mewn chwaraeon ac i ddathlu'r llwyddiannau yr ydym wedi'u gweld ar draws y meysydd chwarae? Yn arbennig, byddai'n rhaid imi sôn bod y Rhyl wedi cael lle unwaith eto yn Uwch Gynghrair Cymru. Ni fyddech yn disgwyl imi sôn am chwaraeon heb grybwyll y Rhyl. Mae Caerdydd hefyd wedi mynd i fyny a Chasnewydd wedi mynd i mewn i'r pyramid.

15:08 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

They are joining Swansea.

Maent yn ymuno ag Abertawe.

15:08 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, they are joining Swansea. Well done, Mike. I would also say that Wrexham has had some successes and should build on them. However, we need to be able to support all of our teams. We also need to look at participation for those with a disability.

Ydynt, maent yn ymuno ag Abertawe. Da iawn, Mike. Byddwn hefyd yn dweud bod Wrecsam wedi cael rhai llwyddiannau, ac y dylent adeiladu ar hynny. Fodd bynnag, mae angen inni allu cefnogi pob un o'n timau. Mae angen inni hefyd edrych ar gyfranogiad pobl ag anableddau.

15:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It has been an outstanding season for Welsh football. There is a lot of work going on within Government and the Assembly currently on physical activity. You will be aware of the Communities, Equality and Local Government Committee's inquiry into physical activity. I am sure that we will have a debate on the publication of that report. The Minister for Culture and Sport, as we have just heard during questions to him, holds a wide range of meetings, not just with Sport Wales, but with other sport bodies and organisations. I know that the Minister for Culture and Sport with the Minister for Health and Social Services has the physical activity executive group, which is looking at policy areas in relation to sport.

Mae wedi bod yn dymor rhagorol i bêl-droed Cymru. Mae llawer o waith yn cael ei wneud o fewn y Llywodraeth a'r Cynulliad ar hyn o bryd ar weithgarwch corfforol. Byddwch yn ymwybodol o ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i weithgarwch corfforol. Rwyf yn siŵr y cawn ddadl pan gyhoeddir yr adroddiad hwnnw. Mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, fel yr ydym newydd glywed yn ystod cwestiynau iddo, yn cynnal amrywiaeth eang o gyfarfodydd, nid yn unig â Chwaraeon Cymru, ond â chyrff a sefydliadau chwaraeon eraill. Gwn fod gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y grŵp gweithredol ar weithgarwch corfforol, sy'n edrych ar feysydd polisi mewn perthynas â chwaraeon.

15:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as we are all aware, Hywel Dda Local Health Board's reconfiguration proposals have been referred to the Minister for health for a final decision. I understand that he will be making an announcement in the near future. As the Minister for Government business, could you please ensure that this place is able to scrutinise the Minister's final decision, because these eventual changes could have a huge effect on my constituency? It is only right and proper that we as elected representatives have an opportunity to scrutinise these issues and represent our constituents' views. Therefore, I would be grateful if you could confirm that time will be made available for an oral statement in this Chamber on the Minister's final decision on these proposals.

Weinidog, fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae cynigion ad-drefnu Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi eu cyfeirio at y Gweinidog iechyd ar gyfer penderfyniad terfynol. Rwyf ar ddeall y bydd yn gwneud cyhoeddiad yn y dyfodol agos. Fel Gweinidog busnes y Llywodraeth, a fyddech cystal â sicrhau bod y lle hwn yn gallu craffu ar benderfyniad terfynol y Gweinidog, oherwydd gallai'r newidiadau hyn yn y pen draw gael effaith enfawr ar fy etholaeth? Mae'n deg ac yn briodol ein bod ni fel cynrychiolwyr etholedig yn cael cyfle i graffu ar y materion hyn a chynrychioli barn ein hetholwyr. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y bydd amser ar gael ar gyfer datganiad llafar yn y Siambr hon am benderfyniad terfynol y Gweinidog am y cynigion hyn.

15:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will be making his determinations before the summer recess. If possible, we will ensure that time is made available.

Bydd y Gweinidog yn gwneud ei benderfyniadau cyn toriad yr haf. Os yw'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod amser ar gael.

15:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No-cold-calling zones are an important and popular successful tool in terms of deterring doorstep criminals and empowering individuals and communities. Therefore, I would welcome a statement from the Government updating the Assembly on no-cold-calling zones, and outlining any plans for promoting the further extension of the scheme.

Mae ardaloedd dim galw diwahoddiad yn ddull llwyddiannus, pwysig a phoblogaidd o atal troseddwyr stepen y drws a grymuso unigolion a chymunedau. Felly, byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ardaloedd dim galw diwahoddiad, ac yn amlinellu unrhyw gynlluniau i hyrwyddo estyn y cynllun ymhellach.

15:10 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In our programme for government we made a commitment to support the extension of no-cold-calling zones, and we are determined that communities should be able to make clear their desire not to be subject to cold calling. We have done quite a large amount of work in relation to this. We have established a baseline on the number of zones in Wales, and we continue to work with the police and local government to create more zones. We have to look at the experience of the zones that we have at the moment to inform the work going ahead. At the moment, we have 1,500 zones covering almost 40,000 residential households across Wales.

Yn ein rhaglen lywodraethu roedd ymrwymiad i gefnogi estyn ardaloedd dim galw diwahoddiad, ac rydym yn benderfynol y dylai cymunedau allu dweud yn glir nad ydynt yn dymuno derbyn galwadau diwahoddiad. Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith yn y maes hwn. Rydym wedi sefydlu llinell sylfaen ar gyfer nifer yr ardaloedd yng Nghymru, ac rydym yn parhau i gydweithio â'r heddlu a llywodraeth leol i greu mwy o ardaloedd. Mae'n rhaid inni edrych ar brofiad yr ardaloedd sydd gennym ar hyn o bryd i lywio'r gwaith yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gennym 1,500 o ardaloedd sy'n cwmpasu bron i 40,000 o gartrefi preswyl ledled Cymru.

15:11 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a statement on dementia-supportive communities. At last year's Dementia 2012 conference, the UK Prime Minister issued a challenge to make communities more dementia-friendly. In April in the Assembly, at an event attended by our First Minister, Carwyn Jones, an announcement to create dementia-supportive communities in Wales was made, which was supported by the Alzheimer's Society, the Commissioner for Older People in Wales and the Welsh Government's Deputy Minister for Social Services, among others. Funding has been provided to the Alzheimer's Society for dementia-friendly communities in England, but we are not aware of any equivalent funding for dementia-supportive communities in Wales. Therefore, a statement detailing the Welsh Government's intended support in this area is required and would be welcomed.

Galwaf am ddatganiad am gymunedau cefnogi pobl â dementia. Yng nghynhadledd Dementia 2012 y llynedd, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU her i wneud cymunedau'n fwy cyfeillgar i bobl â dementia. Yn y Cynulliad ym mis Ebrill, mewn digwyddiad lle'r oedd ein Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn bresennol, cyhoeddwyd y byddai cymunedau cefnogi pobl â dementia'n cael eu creu yng Nghymru, a chefnogwyd hynny gan Gymdeithas Clefyd Alzheimer, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ymhlith eraill. Mae cyllid wedi ei ddarparu i Gymdeithas Clefyd Alzheimer ar gyfer cymunedau cyfeillgar i bobl â dementia yn Lloegr, ond nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyllid cyfatebol ar gyfer cymunedau cefnogi pobl â dementia yng Nghymru. Felly, mae angen datganiad yn rhoi manylion y cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei ddarparu yn y maes hwn, a byddem yn croesawu hynny.

15:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A great deal of work is going on in relation to dementia services, as it is a growing problem across Wales. I know that the Minister for Health and Social Services is undertaking work in that area, and will make a statement in due course.

Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ym maes gwasanaethau dementia, gan fod hyn yn broblem sydd ar gynnydd ledled Cymru. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud gwaith yn y maes hwnnw, ac y bydd yn gwneud datganiad maes o law.

15:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would be grateful for a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on the signage system on Welsh roads. I have been petitioned by members of the Abergele Fairtrade Association, who are very concerned that the Fairtrade logo cannot be put on the entrance signs to the town because it is regarded as a trademark. The people of Abergele are very proud of the town's status as a Fairtrade town, and were very proud that Wales was the first Fairtrade nation. They want to broadcast the fact that they are supporters of the initiative. Could we have a statement on this particular issue so that things can be moved forward?

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am y system arwyddion ar ffyrdd Cymru. Rwyf wedi cael deiseb gan aelodau Cymdeithas Masnach Deg Abergele, sydd yn pryderu'n fawr am na ellir rhoi'r logo Masnach Deg ar arwyddion mynediad i'r dref oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn nod masnach. Mae pobl Abergele yn falch iawn o statws y dref fel tref Masnach Deg, ac roeddent yn falch iawn mai Cymru oedd y genedl Masnach Deg gyntaf. Maent yn awyddus i gyhoeddi'r ffaith eu bod yn cefnogi'r fenter. A gawn ni ddatganiad am y mater penodol hwn fel y gellir symud pethau ymlaen?

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was not aware that that was the case, because I have seen Fairtrade signage around Wales. I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to write to you on the issue.

Nid oeddwn yn ymwybodol bod hynny'n wir; rwyf wedi gweld arwyddion Masnach Deg ledled Cymru. Gofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ysgrifennu atoch ynglŷn â'r mater.

15:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have an update from the Minister for health regarding progress with the development of the new critical care centre at Llanfrechfa in Cwmbran? It is an ongoing issue. There is great support for the critical care centre, and I know that William Graham, Mohammad Asghar, Lynne Neagle and others have an interest in this. I have recently heard rumours that the centre will be adapted so that it will also include a degree of accident and emergency services that may be taken from Nevill Hall Hospital. I would be grateful if we could have confirmation that this is not the case. It certainly was not part of the original Gwent Clinical Futures plans, and you risk losing a degree of support for this scheme if it starts to turn into a general hospital that will take services away from other hospitals in south-east Wales.

A gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd ynglŷn â chynnydd o ran datblygu'r ganolfan gofal critigol newydd yn Llanfrechfa yng Nghwmbrân? Mae'n fater sy'n parhau. Mae llawer o gefnogaeth i'r ganolfan gofal critigol, a gwn fod William Graham, Mohammad Asghar, Lynne Neagle ac eraill wedi dangos diddordeb yn hyn. Yn ddiweddar, rwyf wedi clywed sibrydion y bydd y ganolfan yn cael ei haddasu fel y bydd hefyd yn cynnwys rhywfaint o wasanaethau damweiniau ac achosion brys wedi'u cymryd o Ysbyty Nevill Hall. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael cadarnhad nad yw hyn yn wir. Yn sicr, nid oedd yn rhan o gynlluniau gwreiddiol Dyfodol Clinigol Gwent, ac rydych mewn perygl o golli rhywfaint o gefnogaeth i'r cynllun hwn os bydd yn dechrau troi'n ysbyty cyffredinol a fydd yn mynd â gwasanaethau o ysbytai eraill yn ne-ddwyrain Cymru.

15:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will have heard the First Minister say in his answer to Members earlier that, at the current time, the Minister for Health and Social Services is considering the business case —I think that that is what he said. Therefore, I do not think that it would be the right time for the Minister to make any announcement on what services will be in the Usk CCC at present.

Byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud yn ei ateb i Aelodau yn gynharach fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar hyn o bryd, yn ystyried yr achos busnes—credaf mai dyna'r hyn a ddywedodd. Felly, nid wyf yn credu mai nawr fyddai'r amser cywir i'r Gweinidog wneud unrhyw gyhoeddiad am y gwasanaethau a fydd yn CGC Brynbuga ar hyn o bryd.

15:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:14

# Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu

# Statement: The Programme for Government Annual Report

Senedd.tv
Fideo Video

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our programme for government, published two years ago, set out clear ambitions for Wales. It is not a wish list. It is a realistic and deliverable programme comprising legislation, allocation of resources and policy initiatives designed to improve quality of life and wellbeing. In plain language, we published our detailed aims in the policy areas for which the Welsh Government holds responsibility.

Roedd ein rhaglen lywodraethu, a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl, yn nodi uchelgeisiau clir ar gyfer Cymru. Nid rhestr o ddymuniadau ydyw. Mae'n rhaglen realistig y gellir ei chyflawni sy'n cynnwys deddfwriaeth, dyrannu adnoddau a mentrau polisi i wella ansawdd bywyd a lles. Mewn iaith syml, rydym yn cyhoeddi ein nodau manwl yn y meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt.

Today, I am publishing our second annual report on that programme for government. It offers transparency and accountability at a level of detail that I am confident matches that of any administration anywhere.

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu honno. Rwyf yn hyderus ei bod yn cynnig tryloywder ac atebolrwydd cystal ag unrhyw weinyddiaeth yn unrhyw le.

The second report contains 340 indicators of performance and updates on 547 actions. It provides evidence of delivery across the whole of Government. The evidence relates to concrete outputs in areas that really matter to people: things such as the economy and jobs, the skills of our workforce, our chances of surviving cancer or heart disease, and the quality of our environment. Our annual report gives the Welsh people everything they need to properly scrutinise our delivery. What does the evidence show? It shows Wales standing up to the twin challenges of the global economy and the austerity and welfare policies of the UK Government. In the most difficult economic circumstances for generations, the key indicators show that Wales is making progress. Gross value added has grown steadily since 2010 and our relative position within the UK is improving too. So is the employment rate, helped by programmes such as Jobs Growth Wales, which has exceeded its annual target of 4,000 employment opportunities. Our Wales infrastructure investment plan is releasing £900 million for investment in transport, education and housing, along with an additional £400 million already allocated to priorities such as the Heads of the Valleys road, high-speed broadband, and bringing Cardiff Airport into public ownership to secure its future. We are making a strong commitment to innovation through the £100 million life sciences investment fund and the delivery of phase 2 of the Wales economic growth fund. We have helped 1,774 young people into apprenticeships through the Pathways to Apprenticeships programme.

Mae'r ail adroddiad yn cynnwys 340 o ddangosyddion perfformiad a diweddariadau am 547 o gamau gweithredu. Mae'n darparu tystiolaeth o gyflenwi ar draws y Llywodraeth. Mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag allbynnau pendant mewn meysydd sy'n wirioneddol bwysig i bobl: pethau fel yr economi a swyddi, sgiliau ein gweithlu, ein siawns o oroesi canser neu glefyd y galon, ac ansawdd ein hamgylchedd. Mae ein hadroddiad blynyddol yn rhoi popeth sydd ei angen ar bobl Cymru i graffu'n briodol ar ein darpariaeth. Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos? Mae'n dangos Cymru'n wynebu her ddeublyg yr economi fyd-eang a pholisïau darbodaeth a lles Llywodraeth y DU. Dan yr amgylchiadau economaidd anoddaf ers cenedlaethau, mae'r dangosyddion allweddol yn dangos bod Cymru yn gwneud cynnydd. Mae gwerth ychwanegol crynswth wedi tyfu'n gyson ers 2010 ac mae ein safle cymharol yn y DU yn gwella hefyd. Mae'r gyfradd gyflogaeth hefyd yn gwella, gyda chymorth gan raglenni megis Twf Swyddi Cymru, sydd wedi rhagori ar ei tharged blynyddol o 4,000 o gyfleoedd cyflogaeth. Mae ein cynllun i fuddsoddi yn seilwaith Cymru'n rhyddhau £900 miliwn i'w fuddsoddi mewn trafnidiaeth, addysg a thai, ynghyd â £400 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd eisoes i flaenoriaethau megis ffordd Blaenau'r Cymoedd, band eang cyflym, a sicrhau perchnogaeth gyhoeddus ar Faes Awyr Caerdydd er mwyn sicrhau ei ddyfodol. Rydym yn gwneud ymrwymiad cryf i arloesi drwy'r gronfa buddsoddi gwyddorau bywyd gwerth £100 miliwn a thrwy ddarparu cam 2 cronfa twf economaidd Cymru. Rydym wedi helpu 1,774 o bobl ifanc i gael prentisiaethau drwy'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau.

The UK Government's welfare reforms are hurting our poorest citizens hardest. Our priority is to tackle poverty by mitigating the impact of these reforms. Equally, we are addressing structural issues such as limited adult skills and the early years poverty experienced by too many of our children. The figures show the scale of the challenge and the report details the work that we are doing. We have relaunched the Communities First programme, giving it a clearer focus on health, learning and prosperity in deprived communities. We have expanded Flying Start, the early years programme, doubling the number of children who will benefit from it. We have replaced the community care grants and crisis loans schemes, ended by the UK Government, with a discretionary assistance fund and made £22 million available to local authorities to help those eligible for council tax support. We have helped some 12,500 financially-excluded adults to receive services through credit unions and we have trained more than 630 practitioners to provide financial education in schools.

Mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn taro ein dinasyddion tlotaf galetaf. Ein blaenoriaeth yw trechu tlodi drwy liniaru effaith y diwygiadau hyn. Yn yr un modd, rydym yn mynd i'r afael â materion strwythurol fel sgiliau cyfyngedig oedolion a'r tlodi a brofir gan ormod o'n plant yn eu blynyddoedd cynnar. Mae'r ffigurau yn dangos maint yr her ac mae'r adroddiad yn manylu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud. Rydym wedi ail-lansio rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gyda ffocws cliriach ar iechyd, dysgu a ffyniant mewn cymunedau difreintiedig. Rydym wedi ehangu Dechrau'n Deg, rhaglen y blynyddoedd cynnar, gan ddyblu nifer y plant a fydd yn elwa arni. Yn lle'r grantiau gofal cymunedol a'r cynlluniau benthyciadau argyfwng, y daeth Llywodraeth y DU â hwy i ben, mae gennym gronfa cymorth dewisol ac rydym wedi sicrhau bod £22 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i helpu pobl sy'n gymwys i gael cymorth y dreth gyngor. Rydym wedi helpu tua 12,500 o oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael gwasanaethau drwy undebau credyd ac wedi hyfforddi mwy na 630 o ymarferwyr i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion.

This Government is challenging teachers to improve school standards. Attainment continues to improve, but there is much still to do if we are to achieve the world-class standing to which we aspire. However, we are making progress. We have legislated on school standards and improved the skills of 430 new teachers with a Master's degree in education. We are strengthening higher education through strategic mergers, for example creating the University of South Wales, which will become the sixth largest HE institution in the UK.

Mae'r Llywodraeth hon yn herio athrawon i wella safonau ysgolion. Mae cyrhaeddiad yn parhau i wella, ond mae llawer eto i'w wneud os ydym am gyflawni'r statws byd-eang yr ydym yn anelu ato. Fodd bynnag, rydym yn gwneud cynnydd. Rydym wedi deddfu ar safonau ysgolion ac wedi gwella sgiliau 430 o athrawon newydd gyda gradd Meistr mewn addysg. Rydym yn cryfhau addysg uwch drwy uniadau strategol, er enghraifft creu Prifysgol De Cymru. Hwn fydd y chweched sefydliad AU mwyaf yn y DU.

Our national health service is at the core of this nation's identity, and defending its interests stands at the top of this Government's priorities. There are major challenges in managing unprecedented levels of demand—pressure that translates into more emergency activity, making it more difficult to achieve targets for treatment times and service access. However, these challenges are not at all exclusive to Wales and the current economic climate means that we cannot meet increased demand by simply increasing resources. Reconfiguring the health service to focus on outcomes and rebalancing provision through the community have to be an essential part of our response.

Mae ein gwasanaeth iechyd gwladol wrth wraidd hunaniaeth y genedl hon, ac amddiffyn ei fuddiannau yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth hon. Mae heriau mawr o ran rheoli lefelau galw sy'n ddigynsail—pwysau sy'n golygu mwy o weithgarwch brys, ac yn ei gwneud yn anos cyrraedd targedau o ran amseroedd trin a mynediad i wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn yn unigryw i Gymru o bell ffordd ac mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn golygu na allwn ateb y galw cynyddol dim ond drwy ddarparu mwy o adnoddau. Rhaid i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd i ganolbwyntio ar ganlyniadau, ac ailgydbwyso'r ddarpariaeth drwy'r gymuned, fod yn rhan hanfodol o'n hymateb.

The evidence shows that, in many ways, we have never been healthier. Life expectancy continues to rise and there are encouraging signs that the gap between the richest and the poorest has begun to close. Circulatory disease mortality fell by nearly half in a decade and cancer mortality fell by 19% in the same period. We have signed up some 18,000 people to My Health Online to help them manage their primary care. We have developed an online health check for the over 50s. Hospital-acquired infections have reduced by more than a third since the beginning of this administration. We are legislating to improve the availability of human organs for transplant. All of this is happening within a health service that remains true to its founding principles of a public service providing good health services for all.

Mae'r dystiolaeth yn dangos, mewn sawl ffordd, nad ydym erioed wedi bod yn iachach. Mae disgwyliad oes yn parhau i godi, ac mae arwyddion calonogol fod y bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf wedi dechrau cau. Gostyngodd marwolaethau o glefydau cylchredol bron i hanner mewn degawd a gwelwyd marwolaethau o ganser yn gostwng 19% yn yr un cyfnod. Rydym wedi cofrestru tua 18,000 o bobl ar Fy Iechyd Ar-lein i'w helpu i reoli eu gofal sylfaenol. Rydym wedi datblygu archwiliad iechyd ar-lein i bobl dros 50 oed. Mae heintiau a gafwyd yn yr ysbyty wedi gostwng dros draean ers dechrau'r weinyddiaeth hon. Rydym yn deddfu i sicrhau bod mwy o organau dynol ar gael i'w trawsblannu. Mae hyn i gyd yn digwydd mewn gwasanaeth iechyd sy'n aros yn ffyddlon i'w egwyddorion sylfaenol sef gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau iechyd da i bawb.

The programme for government is a clear plan, describing what we aim to deliver and how. It shows how we are using our resources and the investment that we lever in from the European Union to improve the lives of the people of Wales. The clarity of purpose and transparent accountability is fitting for a modern democracy and I welcome this opportunity to describe our progress.

Mae'r rhaglen lywodraethu'n gynllun clir, sy'n disgrifio'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni a sut y bwriadwn wneud hynny. Mae'n dangos sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau a'r buddsoddiad yr ydym yn ei ddenu gan yr Undeb Ewropeaidd i wella bywydau pobl Cymru. Mae'r eglurder pwrpas a'r atebolrwydd tryloyw yn briodol i ddemocratiaeth fodern ac rwyf yn croesawu'r cyfle hwn i ddisgrifio ein cynnydd.

This administration began two years ago in the depths of the toughest economic downturn in living memory. The wider economy remains stagnant, with no clear signs of recovery in view. Any Government would prefer to do its work in the context of an expanding economy, but we have to deal with the reality that we find, not the ideal that we would choose. I am the first to recognise that we have to do more. I have no interest in complacency, or settling for second best. This Government aims high and is honest about the challenges. We will continue to work tirelessly to deliver on our pledges. I am proud of the progress that we have made and I commend this report to the Assembly.

Dechreuodd y weinyddiaeth hon ddwy flynedd yn ôl yn nyfnderoedd y dirywiad economaidd anoddaf o fewn cof. Mae'r economi ehangach yn parhau i fod yn ddisymud, heb ddim arwyddion clir o adferiad i'w gweld. Byddai'n well gan unrhyw Lywodraeth wneud ei gwaith yng nghyd-destun economi sy'n ehangu, ond mae'n rhaid inni ymdrin â'r realiti yr ydym ynddo, nid y ddelfryd y byddem yn ei dewis. Fi yw'r cyntaf i gydnabod bod rhaid inni wneud mwy. Nid oes gennyf ddim diddordeb mewn hunanfoddhad, na setlo am fod yn ail. Mae'r Llywodraeth hon yn uchelgeisiol ac yn onest am yr heriau. Byddwn yn parhau i weithio'n ddiflino i gyflawni ein haddewidion. Rwyf yn falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud ac rwyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad.

15:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Before I call Members, we had a very lively session in First Minister's questions and, while heat is sometimes appropriate, I hope that we will seek to shed light on the statement in the questions and answers on it.

Cyn imi alw ar Aelodau, cawsom sesiwn fywiog iawn yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac er bod gwres weithiau'n briodol, rwyf yn gobeithio y ceisiwn daflu goleuni ar y datganiad yn y cwestiynau a'r atebion amdano.

15:21

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the First Minister for his statement this afternoon. I note the difference between last year's statement of 666 pages and this one, condensed down to 24 pages. That shows either a lack of activity, or is perhaps more of a fig leaf to cover the embarrassment into which the Government is turning here.

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Nodaf y gwahaniaeth rhwng datganiad y llynedd a oedd yn 666 o dudalennau a hwn, sydd wedi'i gywasgu i 24 tudalen. Mae hynny naill ai'n dangos diffyg gweithgarwch, neu efallai'n fwy o ddeilen ffigys i guddio embaras y Llywodraeth yn hyn o beth.

We have had a reshuffle since the last time that we looked at the programme for government. All that seems to have achieved is to keep the mates around the Cabinet table. It did not actually look at the cornerstone of what the First Minister promised, which was delivery. This document does not mention once the delivery unit and the change in mentality that was going to be brought about in this fourth term for the Labour Party here in Wales. You can see from the figures that all the Labour Party seems to be any good at doing is spending the £14.5 billion to £15 billion without offering any tangible advice in that document, or percentages, about what difference it has actually made to the lives of the people of Wales.

Bu ad-drefnu ers y tro diwethaf inni edrych ar y rhaglen lywodraethu. Mae'n ymddangos mai'r cwbl y mae hynny wedi'i gyflawni yw cadw'r ffrindiau o gwmpas bwrdd y Cabinet. Nid oedd mewn gwirionedd yn edrych ar gonglfaen yr hyn a addawodd y Prif Weinidog, sef cyflenwi. Nid yw'r ddogfen hon yn sôn unwaith am yr uned gyflenwi a'r newid yn y meddylfryd a oedd yn mynd i gael eu cyflwyno ym mhedwerydd tymor y Blaid Lafur yma yng Nghymru. Gallwch weld o'r ffigurau ei bod yn ymddangos mai'r unig beth y mae'r Blaid Lafur yn ei wneud yn dda yw gwario'r £14.5 biliwn i £15 biliwn heb gynnig dim cyngor pendant yn y ddogfen honno, na chanrannau, ynglŷn â'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud mewn gwirionedd i fywydau pobl Cymru.

Today, in First Minister's questions, as the Deputy Presiding Officer touched upon, you were pressed on numerous occasions, First Minister, to give timelines for action on certain areas that fall under your responsibility, and to explain why your Government had missed targets, particularly in health, for example. I note that there is no mention in this document of the missed health targets. I offer you, again, another chance this afternoon to address the failure to hit the cancer referral times, to talk about ambulance response times, and, above all, to get on top of the A&E debacle that is going on across Wales.

Heddiw, yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, fel y crybwyllodd y Dirprwy Lywydd, daethoch dan bwysau ar sawl achlysur, Brif Weinidog, i roi llinellau amser ar gyfer gweithredu mewn rhai meysydd yr ydych yn gyfrifol amdanynt, ac i egluro pam mae eich Llywodraeth wedi methu â chyrraedd targedau, yn enwedig ym maes iechyd, er enghraifft. Nodaf nad oes unrhyw sôn yn y ddogfen hon am y targedau iechyd a fethwyd. Rwyf yn cynnig cyfle arall ichi, unwaith eto y prynhawn yma, i ymdrin â'r methiant i fodloni'r amseroedd atgyfeirio canser, i siarad am amseroedd ymateb ambiwlansys, ac, yn anad dim, i ymdrin â'r llanastr sy'n digwydd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru.

We have to note that the dedicated professionalism of our medics and clinicians and all health support staff makes the health service work on a day-to-day basis. The lack of leadership from your Government, First Minister, is why many of these targets are not being met. Time and again, you talk about the financial problems that the health service has at the moment. We must remember that it is your Government that is making those cutbacks. You challenged the figures that we put to you today. Those figures came from the Research Service here in the Assembly. They relate to the budget lines for 2009-10 to 2014-2015 and show a decrease of £814 million. Again, another thing that is not in your update on the programme for government is the level of cuts that you are making to the health service. Will you apologise for that when you respond?

Rhaid inni nodi mai proffesiynoldeb ymroddedig ein meddygon a'n clinigwyr a'r holl staff cymorth iechyd sy'n gwneud i'r gwasanaeth iechyd weithio o ddydd i ddydd. Diffyg arweinyddiaeth gan eich Llywodraeth chi, Brif Weinidog, yw'r rheswm pam nad yw llawer o'r targedau hyn yn cael eu bodloni. Dro ar ôl tro, rydych yn sôn am broblemau ariannol y gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd. Rhaid inni gofio mai eich Llywodraeth chi sy'n gwneud y toriadau hynny. Rydych wedi herio'r ffigurau yr ydym wedi'u cyflwyno ichi heddiw. Daeth y ffigurau hynny gan y Gwasanaeth Ymchwil yma yn y Cynulliad. Maent yn ymwneud â llinellau'r gyllideb o 2009-10 i 2014-2015 ac yn dangos gostyngiad o £814 miliwn. Unwaith eto, peth arall nad oes sôn amdano yn eich diweddariad am y rhaglen lywodraethu yw lefel y toriadau yr ydych yn eu gwneud i'r gwasanaeth iechyd. A wnewch chi ymddiheuro am hynny pan fyddwch yn ymateb?

Also, importantly, you do not touch on your recruitment campaign. Twelve months last February, you launched a recruitment campaign to bring clinicians into Wales. I have pressed the Minister for Government business to ask the Minister for Health and Social Services to bring forward a statement in order to see what success the Government has had. I look in the update, and there is nothing at all to tell me what success you have had in bringing clinicians into Wales. Surely, that is one of the key figures that we would want to know, because, when we are looking at the reorganisation of the health service, or the downgrading of services as some would put it, ultimately, it is because you as a Government are unable to attract those key clinicians to Wales.

Hefyd, yn bwysig iawn, nid ydych yn sôn am eich ymgyrch recriwtio. Flwyddyn yn ôl i fis Chwefror diwethaf, lansiwyd ymgyrch recriwtio gennych i ddod â chlinigwyr i Gymru. Rwyf wedi pwyso ar Weinidog busnes y Llywodraeth i ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad er mwyn gweld pa lwyddiant a gafodd y Llywodraeth. Rwyf yn edrych ar y diweddariad, ac nid oes dim o gwbl i ddweud wrthyf pa lwyddiant yr ydych wedi'i gael o ran dod â chlinigwyr i Gymru. Yn sicr, dyna un o'r ffigurau allweddol y byddem yn awyddus i'w gwybod, oherwydd, pan fyddwn yn edrych ar ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, neu ar israddio gwasanaethau fel y byddai rhai yn ei ddisgrifio, yn y pen draw, y rheswm drosto yw eich bod fel Llywodraeth yn methu â denu'r clinigwyr allweddol hynny i Gymru.

On education, there is little or nothing in this document that shows what action you are taking to close the funding gap in higher education and secondary education between Wales and other parts of the United Kingdom. There is nothing around truancy levels and the actions that you are taking to make sure that truancy is tackled. With regard to my own region of South Wales Central, nine of the 15 worst-performing schools in relation to truancy are, sadly, located here in south Wales. Surely, those are the kinds of figures that people would want to have in any update, so that they could then see what success your Government is having. Above all, there is nothing about the key stage 2 and key stage 3 development stages that are highlighted today in Estyn's report on the sciences in our schools. There is no mention of that at all within the update, nor is there mention of the actions that your Government is supposedly taking—or not, as the case may be.

O ran addysg, nid oes fawr ddim yn y ddogfen hon sy'n dangos pa gamau yr ydych yn eu cymryd i gau'r bwlch cyllido mewn addysg uwch ac addysg uwchradd rhwng Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nid oes dim byd am lefelau triwantiaeth a'r camau yr ydych yn eu cymryd i wneud yn siŵr eich bod yn ymdrin â thriwantiaeth. O ran fy rhanbarth i, sef Canol De Cymru, yn anffodus, mae naw o'r 15 o ysgolion sy'n perfformio waethaf o ran triwantiaeth yma yn y de. Onid dyna'r math o ffigurau y byddai pobl am eu cael yn unrhyw ddiweddariad, fel y gallent wedyn weld pa lwyddiant y mae eich Llywodraeth yn ei gael? Yn anad dim, nid oes sôn am gyfnodau datblygu cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 y tynnir sylw atynt heddiw yn adroddiad Estyn am y gwyddorau yn ein hysgolion. Nid oes dim sôn am hynny o gwbl yn y diweddariad, ac nid oes sôn ychwaith am y camau yr honnir bod eich Llywodraeth yn eu cymryd—neu nad yw'n eu cymryd.

On the economy and enterprise zones, which we fully support, if you want to find out how many jobs have been created, how many businesses have been located in the zones, or how much money has been invested in enterprise zones—again, I and other Members have questioned you about this time and again—you cannot find any figures at all in the update. Surely, that is simple information that could be given to Members, given to the general public and given to the business community. A leading surveyor said last week here in Cardiff that he did not believe that one single job had been created in the Cardiff enterprise zone as a result of its status created by your Government. Is that the case? Please, enlighten us today, when you respond to the questions that I have put to you, as to how many jobs, how many businesses, and how much investment has your Government made in the enterprise zones?

O ran yr economi ac ardaloedd menter, yr ydym yn eu cefnogi'n llwyr, os ydych am gael gwybod faint o swyddi sydd wedi eu creu, faint o fusnesau sydd wedi eu lleoli yn y parthau, neu faint o arian sydd wedi'i fuddsoddi mewn ardaloedd menter—unwaith eto, rwyf fi ac Aelodau eraill wedi eich holi am hyn dro ar ôl tro—ni allwch ddod o hyd i unrhyw ffigurau o gwbl yn y diweddariad. Onid yw honno'n wybodaeth syml y gellid ei rhoi i Aelodau, ei rhoi i'r cyhoedd a'i rhoi i'r gymuned fusnes? Dywedodd syrfëwr blaenllaw yr wythnos diwethaf yma yng Nghaerdydd nad oedd yn credu bod un swydd wedi ei chreu yn ardal fenter Caerdydd o ganlyniad i'w statws a grëwyd gan eich Llywodraeth chi. A yw hynny'n wir? Os gwelwch yn dda, dywedwch wrthym heddiw, pan fyddwch yn ateb y cwestiynau yr wyf wedi'u gofyn ichi, faint o swyddi, faint o fusnesau, a faint o fuddsoddiad a fu gan eich Llywodraeth yn y parthau menter?

As to tourism, a large part of the Welsh economy, and a growing part of the Welsh economy, there is no mention at all in this document of what your Government is doing or seeking to achieve around tourism. We all know that the international tourist figures have declined dramatically over the last four years, from 1.1 million down to 850,000. Yet you have chosen to ignore that vital part of the Welsh economy, which is projected to grow to 13% of the overall economy here in Wales. So, I am grateful for the update, but, other than filling a few pages of a colourful document, I am not quite sure exactly what it does tell us.

O ran twristiaeth, sy'n rhan fawr o economi Cymru, ac yn rhan gynyddol o economi Cymru, nid oes sôn o gwbl yn y ddogfen hon am yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud neu'n ceisio ei gyflawni ym maes twristiaeth. Rydym i gyd yn gwybod bod ffigurau twristiaeth ryngwladol wedi gostwng yn ddramatig dros y pedair blynedd diwethaf, o 1.1 miliwn i 850,000. Ac eto, rydych wedi dewis anwybyddu'r rhan hanfodol honno o economi Cymru, y rhagwelir y bydd yn tyfu i 13% o gyfanswm yr economi yma yng Nghymru. Felly, rwyf yn ddiolchgar am y diweddariad, ond, heblaw llenwi rhai tudalennau mewn dogfen liwgar, nid wyf yn gwybod beth yn union y mae'n ei ddweud wrthym.

It goes on to talk about what your Government is doing around housing. However, you are not able to tell us what schemes you are bringing forward now that you have shelved NewBuy Cymru. Surely that is the type of thing that should be in this document, informing us of the actions of your Government. However, you are not providing that. I fear that this document is going the way that my colleague, Nick Ramsay, highlighted when you first brought forward your programme for government. He highlighted his own green fingers in growing sunflowers. He pointed out that, after a certain time, the sunflower actually died. Well, going from 666 pages to 24 pages indicates that the ambition and the beliefs that your Government professed at the start of this Assembly are dying. Unfortunately, it is the people of Wales who are suffering. We need delivery, First Minister, and we cannot wait any longer.

Mae'n mynd ymlaen i sôn am yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud ym maes tai. Fodd bynnag, ni allwch ddweud wrthym pa gynlluniau yr ydych yn eu cyflwyno nawr ar ôl rhoi'r gorau i NewBuy Cymru. Onid dyna'r math o beth a ddylai fod yn y ddogfen hon, yn ein hysbysu am weithredoedd eich Llywodraeth? Fodd bynnag, nid ydych yn darparu hynny. Rwyf yn ofni bod y ddogfen hon yn mynd y ffordd yr awgrymodd fy nghyd-weithiwr, Nick Ramsay, pan gyflwynasoch eich rhaglen lywodraethu am y tro cyntaf. Tynnodd sylw at y ffaith ei fod yn hoff o arddio a thyfu blodau haul. Nododd fod y blodyn haul, ar ôl cyfnod penodol, yn marw. Wel, mae mynd o 666 o dudalennau i 24 o dudalennau yn dangos bod yr uchelgais a'r credoau y soniodd eich Llywodraeth amdanynt ar ddechrau'r Cynulliad hwn yn marw. Yn anffodus, pobl Cymru sy'n dioddef. Mae angen cyflenwi, Brif Weinidog, ac ni allwn aros yn hwy.

15:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of the opposition does not seem to have seen the online version of the document. He is referring to this document I have here all the time. I do not know why that is. Perhaps if he were to look at the online version, he might get some of the answers he seeks.

Nid yw'n ymddangos bod arweinydd yr wrthblaid wedi gweld fersiwn ar-lein y ddogfen. Mae'n cyfeirio at y ddogfen hon sydd gennyf yma drwy'r amser. Nid wyf yn gwybod pam. Efallai, pe bai'n edrych ar y fersiwn ar-lein, y byddai'n cael rhai o'r atebion y mae'n chwilio amdanynt.

I do not remember producing a statement of 666 pages to the Assembly last year; I am sure that I would have been upbraided had I tried to do that.

Nid wyf yn cofio cynhyrchu datganiad o 666 o dudalennau i'r Cynulliad y llynedd; rwyf yn siŵr y byddwn wedi cael fy ngheryddu am geisio gwneud hynny.

He referred to cancer referral times, and it is true to say that they are disappointing. I do not seek to hide that. Yes, they improved in March, but there is, it is quite true, some way to go. The same is true of ambulance response times. Even though they have moved in the right direction over the course of the past month, that momentum has to be continued in the future.

Cyfeiriodd at amseroedd atgyfeirio canser, ac mae'n wir dweud eu bod yn siomedig. Nid wyf yn ceisio cuddio hynny. Do, fe wnaethant wella ym mis Mawrth, ond mae'n hollol wir bod cryn ffordd i fynd. Mae'r un peth yn wir am amseroedd ymateb ambiwlansys. Er eu bod wedi symud i'r cyfeiriad iawn yn ystod y mis diwethaf, rhaid i'r momentwm hwnnw barhau yn y dyfodol.

He made specific reference to issues such as education. We know that school spending has improved in relation to the rest of the UK. Truancy figures have also improved. If he looks at the figures for education, he will see that progress is being made. That is not to say, of course, that more cannot be done. However, I do not believe that a more transparent document has been produced by any Government anywhere, certainly not elsewhere in the UK.

Cyfeiriodd yn benodol at faterion megis addysg. Rydym yn gwybod bod gwariant ysgolion wedi gwella o'i gymharu â gweddill y DU. Mae ffigurau triwantiaeth hefyd wedi gwella. Os bydd yn edrych ar y ffigurau ar gyfer addysg, bydd yn gweld bod cynnydd yn cael ei wneud. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, na ellir gwneud mwy. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod unrhyw Lywodraeth yn unman wedi cynhyrchu dogfen fwy tryloyw, yn sicr nid yn unman arall yn y DU.

I can tell him that, as far as Jobs Growth Wales is concerned, 6,000 opportunities have been created as a result of Jobs Growth Wales. It has been probably the most successful job creation scheme ever launched anywhere in the UK at any time. That is something in which I take great pride.

Gallaf ddweud wrtho, o ran Twf Swyddi Cymru, bod 6,000 o gyfleoedd wedi eu creu o ganlyniad i Twf Swyddi Cymru. Mae'n debyg mai hwn yw'r cynllun creu swyddi mwyaf llwyddiannus a lansiwyd erioed yn unrhyw le yn y DU ar unrhyw adeg. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ymfalchïo'n fawr ynddo.

We have delivered on our proposals to increase the number of community support officers. There are more GP surgeries now that are open at more convenient hours for people. We have online health checks for the over 50s, as we said we would deliver. School spending is increasing in line with what we said would happen, and, indeed, we are keeping our pledge with regard to Flying Start. The public can judge for itself. The document is very accessible online. People can see what progress has been made, and they will also see where more progress needs to be made.

Rydym wedi gwireddu ein cynigion i gynyddu nifer y swyddogion cymorth cymunedol. Mae mwy o feddygfeydd teulu bellach ar agor yn ystod oriau sy'n fwy cyfleus i bobl. Mae gennym archwiliadau iechyd ar-lein i bobl dros 50 oed, y dywedasom y byddem yn eu cyflenwi. Mae gwariant ysgolion yn cynyddu'n unol â'r hyn y dywedasom y byddai'n digwydd, ac, yn wir, rydym yn cadw ein haddewid o ran Dechrau'n Deg. Gall y cyhoedd farnu drostynt eu hunain. Mae'r ddogfen yn hygyrch iawn ar-lein. Gall pobl weld pa gynnydd sydd wedi ei wneud, a byddant hefyd yn gweld lle mae angen gwneud mwy o gynnydd.

During the course of today, I came into possession of the Welsh Conservative alternative programme for government. I do commend the leader of the opposition on producing an alternative programme. There it is: a few pages, six pages—well, three full pages. It did surprise me to see what was in it. First of all, he claims that there is an £814 million debt. What he said was that health spending was £814 million lower than it was in 2009. That is what he said; he said that it had gone down physically in terms of numbers. That is not right. He should check his figures on that, because that is simply not right. He is suggesting that health spending has gone down since 2009. I know that he is not good with figures, but that is clearly not correct.

Yn ystod heddiw, cefais afael ar raglen lywodraethu amgen Ceidwadwyr Cymru. Rwyf yn cymeradwyo arweinydd yr wrthblaid am gynhyrchu rhaglen amgen. Dyna hi: ychydig dudalennau, chwe thudalen—wel, tair tudalen lawn. Cefais fy synnu o weld beth oedd ynddi. Yn gyntaf oll, mae'n honni bod dyled o £814 miliwn. Yr hyn a ddywedodd oedd bod gwariant ar iechyd £814 miliwn yn is nag yr oedd yn 2009. Dyna a ddywedodd; dywedodd ei fod wedi gostwng yn ffisegol o ran niferoedd. Nid yw hynny'n wir. Dylai wirio ei ffigurau yn hynny o beth, oherwydd nid yw hynny'n wir. Mae'n awgrymu bod gwariant ar iechyd wedi gostwng ers 2009. Gwn nad yw'n dda gyda ffigurau, ond mae'n amlwg nad yw hynny'n gywir.

Secondly, he claims these figures are right—he has been using £500 million for a long time and now suddenly it is £800 million. Therefore, are the original figures flawed? The ones he used before must have been flawed if he claims that these figures are right. That is a question for him to answer. The other thing that his programme for government puts forward is around £1 billion of spending that does not exist; that money that is not there. He cannot say on the one hand that there must be a reduction in the UK's deficit and a reduction in Government spending and then, on the other, pretend that in Wales there is somehow more money than ever. That is what he is trying to say. He cannot have it both ways in that regard.

Yn ail, mae'n honni bod y ffigurau hyn yn gywir—mae wedi bod yn defnyddio £500 miliwn am amser hir ac nawr yn sydyn mae'n £800 miliwn. Felly, a yw'r ffigurau gwreiddiol yn ddiffygiol? Mae'n rhaid mai'r rhai yr oedd yn eu defnyddio o'r blaen oedd yn ddiffygiol os yw'n honni bod y ffigurau hyn yn gywir. Mae hwnnw'n gwestiwn iddo ei ateb. Y peth arall y mae ei raglen lywodraethu'n ei gyflwyno yw tua £1 biliwn o wariant nad yw'n bodoli; nid yw'r arian hwnnw yno. Ni all ddweud ar y naill law fod rhaid gostwng diffyg y DU a gostwng gwariant y Llywodraeth ac yna, ar y llaw arall, esgus bod mwy o arian nag erioed yng Nghymru rywsut. Dyna'r hyn y mae'n ceisio ei ddweud. Ni all ei chael bob ffordd.

Turning to some of the things he mentions in this alternative programme, he says, for example, that his government—a Welsh Conservative government; suspend your disbelief here—would have introduced a food hygiene Bill for Wales. Funnily enough, I thought that had been done because I remember putting the seal on it. Whether this has been cut and pasted from 2011, I just do not know. He talks about implementing private finance initiatives to build schools and a tuition fee policy that would mean that Welsh students who studied at English universities would not miss out in the long term. I do not know what that means and I am not sure what the tuition fees policy actually says.

A throi at rai o'r pethau y mae'n sôn amdanynt yn y rhaglen amgen hon, mae'n dweud, er enghraifft, y byddai ei lywodraeth, sef llywodraeth Ceidwadwyr Cymru—gwn fod hynny'n beth anghredadwy—wedi cyflwyno Bil hylendid bwyd ar gyfer Cymru. Yn rhyfedd ddigon, roeddwn yn meddwl bod hynny wedi ei wneud am fy mod yn cofio rhoi sêl arno. Tybed a yw hyn wedi cael ei dorri a'i ludo o 2011? Nid wyf yn gwybod. Mae'n sôn am roi mentrau cyllid preifat ar waith i adeiladu ysgolion a pholisi ffioedd dysgu a fyddai'n golygu na fyddai myfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Lloegr ar eu colled yn y tymor hir. Nid wyf yn gwybod beth y mae hynny'n ei olygu, ac nid wyf yn siŵr beth y mae'r polisi ffioedd dysgu yn ei ddweud mewn gwirionedd.

He talks about other things in his programme for government, namely forbidding charity shops from selling certain items; I do not know whether we have the competence to do that, but that is certainly what he says. He talks about the devolution of the Severn crossings, about which I entirely agree. However, while I agree with his view on that, I was not aware that it was within our power to do that. He talks about working with the interested parties of the airport. We have done more than that—we have secured its future. His party wanted to see it closed. That is what he wanted to do. He talks about working with the UK Government to put an M4 relief road in place. Again, that is something that we are trying to do. He talks about cross-border collaboration, working with Natural Resources Wales and requiring strategic flood consequence assessments to be built into local development plans, despite the cost to local authorities, of course.

Mae'n sôn am bethau eraill yn ei raglen lywodraethu, sef gwahardd siopau elusen rhag gwerthu rhai eitemau; nid wyf yn gwybod a oes gennym hawl i wneud hynny, ond dyna'n sicr yw'r hyn y mae'n ei ddweud. Mae'n sôn am ddatganoli pontydd Hafren, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â hynny. Fodd bynnag, er fy mod yn cytuno â'i farn am hynny, nid oeddwn yn ymwybodol ei bod o fewn ein gallu i wneud hynny. Mae'n sôn am gydweithio â'r partïon â diddordeb yn y maes awyr. Rydym wedi gwneud mwy na hynny—rydym wedi sicrhau ei ddyfodol. Roedd ei blaid ef am ei weld cau'r maes awyr. Dyna'r hyn yr oedd ef am ei wneud. Mae'n sôn am gydweithio â Llywodraeth y DU i adeiladu ffordd liniaru'r M4. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ceisio ei wneud. Mae'n sôn am gydweithio traws-ffiniol, gan gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru a'i gwneud yn ofynnol cynnwys asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd mewn cynlluniau datblygu lleol, er gwaetha'r gost i awdurdodau lleol, wrth gwrs.

The difference between us and him is this: we produce a programme for government that is transparent and open and costed. What he has produced is a wish list worth more than £1 billion—some things have already been done, other things that he has no hope of putting into place—in a programme for government contained within an entire six pages of A4. The difference between us and the Conservative Party is this: we have a detailed programme for government and we are implementing change for the better for the people of Wales. All it has come up with is six pages of the same rehashed stuff that it had back in 2011. It shows that we are dynamic and it shows that it is lazy.

Y gwahaniaeth rhyngom ni ac ef yw hyn: rydym yn cynhyrchu rhaglen lywodraethu sy'n dryloyw ac yn agored ac wedi'i chostio. Yr hyn y mae ef wedi'i wneud yw cynhyrchu rhestr ddymuniadau gwerth dros £1 biliwn—rhai pethau sydd wedi cael eu gwneud yn barod, a phethau eraill nad oes ganddo ddim gobaith o'u rhoi ar waith—mewn rhaglen lywodraethu sy'n gyfanswm o chwe thudalen A4. Y gwahaniaeth rhyngom ni a'r Blaid Geidwadol yw hyn: mae gennym ni raglen lywodraethu fanwl ac rydym yn gweithredu newid er gwell i bobl Cymru. Y cwbl y maent hwy wedi'i lunio yw chwe thudalen yn ailbobi'r un pethau ag a oedd ganddynt yn ôl yn 2011. Mae'n dangos ein bod ni'n ddeinamig ac mae'n dangos eu bod hwy'n ddiog.

15:33 **Leanne Wood** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have participated in a number of very grim debates in the Senedd, but today takes the biscuit. First Minister, you are here to answer questions on your programme for government. The Tories will never be in government in Wales, so they do not have to answer questions about their programme of government, do they? Listening to your statement, First Minister, you would have us believe that everything in this country is going very well. People's experiences do not match that and pedantic nit-picking over the figures will not improve matters either.

Rwyf wedi cymryd rhan mewn nifer o ddadleuon digalon iawn yn y Senedd, ond dyma'r ddadl waethaf erioed. Brif Weinidog, rydych yma i ateb cwestiynau am eich rhaglen lywodraethu chi. Ni fydd y Torïaid byth mewn llywodraeth yng Nghymru, felly nid oes rhaid iddynt ateb cwestiynau am eu rhaglen lywodraethu, nac oes? O wrando ar eich datganiad, Brif Weinidog, rydych am inni gredu bod popeth yn y wlad hon yn mynd yn dda iawn. Nid yw profiadau pobl yn cyd-fynd â hynny ac ni fydd pigo beiau pedantig ynglŷn â'r ffigurau'n gwella pethau ychwaith.

I do not have time to ask all the questions of you here this afternoon, First Minister, so I will focus on a few areas. Only this morning, the new director of the Institute for Welsh Affairs said that your Government is failing to deliver on education and on health. The banding introduced at secondary school level has been similar to league tables and there are concerns about the way in which regional consortia are operating. Failures of local education authorities such as Blaenau Gwent and others is also very worrying. I would be grateful to hear whether you are content that you are making significant progress on improving the situation in these local authorities and what you intend to do if education standards in general are not improved.

Nid oes gennyf amser i ofyn yr holl gwestiynau ichi yma y prynhawn yma, Brif Weinidog, felly rwyf am ganolbwyntio ar rai meysydd. Dim ond y bore yma, dywedodd cyfarwyddwr newydd y Sefydliad Materion Cymreig fod eich Llywodraeth yn methu â darparu ar addysg ac ar iechyd. Mae'r bandio a gyflwynwyd ar lefel ysgolion uwchradd wedi bod yn debyg i dablau cynghrair ac mae pryderon am y ffordd y mae consortia rhanbarthol yn gweithredu. Mae methiannau awdurdodau addysg lleol megis Blaenau Gwent ac eraill hefyd yn destun pryder gwirioneddol. Byddwn yn ddiolchgar cael clywed a ydych yn fodlon eich bod yn gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r sefyllfa yn yr awdurdodau lleol hyn, a chael clywed am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud os na fydd safonau addysg yn gyffredinol yn gwella.

On health, you claim that parts of the Welsh national health service are on the point of collapse if changes are not made. We have seen 11 months of failed ambulance targets—I think we can now call that a persistent failure—and reorganisations and cut services being blamed on a failure to recruit enough doctors. As part of your programme for government, how do you plan to increase the number of doctors, and how do you plan to retain them once they are here? You have already been asked how you intend to improve ambulance response times. You did not answer that question just now, so I would be grateful if you could perhaps have a go this time.

O ran iechyd, rydych yn honni bod rhannau o wasanaeth iechyd gwladol Cymru ar fin dymchwel oni wneir newidiadau. Rydym wedi gweld 11 mis o fethu targedau ambiwlansys—rwyf yn meddwl y gallwn bellach alw hynny'n fethiant parhaus—ac mae methiant i recriwtio digon o feddygon yn cael y bai am ad-drefnu a thorri gwasanaethau. Fel rhan o'ch rhaglen lywodraethu, sut ydych chi'n bwriadu cynyddu nifer y meddygon, a sut ydych chi'n bwriadu eu cadw pan fyddant yma? Gofynnwyd ichi eisoes sut yr ydych yn bwriadu gwella amseroedd ymateb ambiwlansys. Ni wnaethoch ateb y cwestiwn hwnnw, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech efallai roi cynnig arni y tro hwn.

First Minister, we would like to know what you intend to do to reverse the position of decline in the number of Welsh speakers, as shown by the 2011 census, as well as what targets you have. We would also like to know what your alternative plans are for funding infrastructure projects, instead of the discredited private finance initiative. How exactly will you measure whether poverty is reduced? What are your targets on that?

Brif Weinidog, hoffem wybod beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i wyrdroi sefyllfa'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, fel y dangosodd cyfrifiad 2011, yn ogystal â pha dargedau sydd gennych. Hoffem hefyd wybod beth yw eich cynlluniau amgen i ariannu prosiectau seilwaith, yn hytrach na'r fenter cyllid preifat sydd wedi colli ei hygrededd. Sut yn union y byddwch yn mesur a yw tlodi'n cael ei leihau? Beth yw eich targedau yn hynny o beth?

Finally, First Minister, on fairness, equality and local government, the Welsh Government is yet to make a statement on the senior pay scandal at Caerphilly County Borough Council. At the same time, you have rejected Plaid Cymru's proposals to control senior pay, without putting forward any alternative plans of your own. Will you accept our amendments to the Local Government (Democracy) Wales) Bill?

Yn olaf, Brif Weinidog, o ran tegwch, cydraddoldeb a llywodraeth leol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad eto am sgandal cyflogau uwch swyddogion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ar yr un pryd, rydych wedi gwrthod cynigion Plaid Cymru i reoli cyflogau uwch swyddogion, heb gyflwyno dim cynlluniau amgen eich hun. A wnewch chi dderbyn ein gwelliannau i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)?

15:36

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I listened carefully to what the Leader of Plaid Cymru said. First, she gave the impression that I had given the impression that everything was fine; I did not say that, and I was very careful not to, because that would not be a fair representation of how things are. There are certainly areas where improvement needs to be made, and the fact that we have published a programme for government is a clear indication that we are willing to be judged on the situation as it is. I find it odd that she suggests that talking about figures and finance is nit-picking, as if it were an irrelevant issue. It is not an irrelevant issue. What is affordable, and what is value, is at the heart of what any Government delivers. However, for her, it seems to be something that is something of a side issue. That is an unfortunate comment.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Arweinydd Plaid Cymru. Yn gyntaf, rhoddodd yr argraff fy mod i wedi rhoi'r argraff fod popeth yn iawn; ni ddywedais hynny, ac roeddwn yn ofalus iawn i beidio â dweud hynny, gan na fyddai hynny'n cyfleu'n deg sut y mae pethau. Yn sicr mae angen gwella mewn rhai meysydd, ac mae'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi rhaglen lywodraethu'n arwydd clir ein bod yn fodlon cael ein barnu ar y sefyllfa fel y mae. Mae'n beth rhyfedd i mi ei bod yn awgrymu mai pigo beiau yw siarad am ffigurau a chyllid, fel pe bai'n fater amherthnasol. Nid yw'n fater amherthnasol. Mae'r hyn sy'n fforddiadwy, a beth yw gwerth, wrth wraidd yr hyn y mae unrhyw Lywodraeth yn ei gyflenwi. Fodd bynnag, iddi hi, mae'n ymddangos ei fod yn fater ymylol braidd. Mae hwnnw'n sylw anffodus.

I listened to what the director of the Institute of Welsh Affairs said this morning. He also praised the Welsh Government for what it was doing. Therefore, her comment was taken a little out of context. It is true to say that he identified areas where there needed to be improvement. That much is true, but it would be wrong to give the impression that, somehow, it was a condemnation of all that the Government is doing—that is not what he said.

Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig y bore yma. Rhoddodd ganmoliaeth i Lywodraeth Cymru hefyd am yr hyn yr oedd yn ei wneud. Felly, cafodd ei sylw ei gymryd allan o'i gyd-destun braidd. Mae'n wir dweud ei fod wedi nodi meysydd lle'r oedd angen gwella. Mae hynny'n wir, ond byddai'n anghywir rhoi'r argraff, rywsut, ei fod yn gondemniad o bopeth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud—nid dyna a ddywedodd.

On health, I am not sure now what she is arguing—is she saying that there does not need to be change, or that there does need to be change? The argument that the Government has always put forward—and this argument is put forward most strongly by clinicians themselves—is that there needs to be change, for several reasons. First, if there is no change, and things stay as they are, services will begin to collapse in an unmanaged way. It will simply be a question of who loses their accident and emergency consultants first—that will be the first accident and emergency department that will start to lose services. That is not a managed way of doing things. It means that services will not be provided in some areas of Wales, and I do not believe that that is the right way for the Government to go. If it was simply a question of keeping things as they were and things would be fine, does she not think that we would have done that? That would certainly be the easiest option, but we know that it is not possible. We know that this is not what clinicians are telling us, and we know that there must be change.

O ran iechyd, nid wyf yn siŵr beth yw ei dadl nawr—a yw hi'n dweud nad oes angen newid, ynteu bod angen newid? Y ddadl y mae'r Llywodraeth wedi ei chyflwyno erioed—ac sy'n cael ei chyflwyno gryfaf gan glinigwyr eu hunain—yw bod angen newid, am nifer o resymau. Yn gyntaf, os nad oes newid, a bod pethau'n aros fel y maent, bydd gwasanaethau'n dechrau dymchwel mewn modd direolaeth. Bydd yn fater syml o bwy sy'n colli eu hymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys gyntaf—dyna'r adran damweiniau ac achosion brys gyntaf a fydd yn dechrau colli gwasanaethau. Nid yw hynny'n ffordd reoledig o wneud pethau. Mae'n golygu na fydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn rhai rhannau o Gymru, ac nid wyf yn credu mai dyna'r trywydd iawn i'r Llywodraeth. Pe bai'n fater syml o gadw pethau fel y maent ac felly y byddai pethau'n iawn, onid yw hi'n meddwl y byddem wedi gwneud hynny? Yn sicr, dyna fyddai'r dewis mwyaf hawdd, ond gwyddom nad yw'n bosibl. Gwyddom nad dyna y mae clinigwyr yn ei ddweud wrthym, a gwyddom fod yn rhaid newid pethau.

Wales must be seen as an environment where there is a substantial amount of training opportunity. If things carry on in the future without change, that will just not be the case—we will not attract trainees here. If you do not attract trainees, you will not attract consultants, and we will end up with services that spiral downwards. We as a Government are not prepared to accept that scenario. We know that there needs to be change, and change for the better, in order to attract more consultants and more trainees in the future. We cannot afford to have Welsh hospitals being seen as being too small to provide training opportunities, because that puts us at a competitive disadvantage with hospitals in bigger cities.

Rhaid i Gymru gael ei hystyried yn amgylchedd lle mae cryn dipyn o gyfleoedd hyfforddi. Os bydd pethau'n parhau yn y dyfodol heb newid, ni fydd hynny'n digwydd—ni fyddwn yn denu hyfforddeion yma. Os nad ydych yn denu hyfforddeion, ni fyddwch yn denu ymgynghorwyr, ac yn y pen draw bydd ein gwasanaethau'n troelli tuag i lawr. Nid ydym fel Llywodraeth yn barod i dderbyn y sefyllfa honno. Rydym yn gwybod bod angen newid, a newid er gwell, er mwyn denu rhagor o ymgynghorwyr a rhagor o hyfforddeion yn y dyfodol. Ni allwn fforddio sefyllfa lle mae pobl yn ystyried bod ysbytai Cymru yn rhy fach i ddarparu cyfleoedd hyfforddi, oherwydd mae hynny'n ein rhoi dan anfantais gystadleuol o gymharu ag ysbytai mewn dinasoedd mwy.

She asked a question about ambulances. She is right to point out, of course, that the targets have been missed again. Things have improved since last month. She asked what is being done. She will be aware of the McClelland review, and the Minister for Health and Social Services is looking to take forward the proposals that emanate from that review. However, I would be the first to say that, of course, the target has not been met, and that, of course, the target must be met in the future.

Gofynnodd gwestiwn am ambiwlansys. Mae hi'n gywir i dynnu sylw, wrth gwrs, at y ffaith bod y targedau wedi eu methu eto. Mae pethau wedi gwella ers y mis diwethaf. Gofynnodd beth sy'n cael ei wneud. Bydd hi'n ymwybodol o adolygiad McClelland, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, fi fyddai'r cyntaf i ddweud, wrth gwrs, nad yw'r targed wedi ei gyrraedd, ac, wrth gwrs, bod rhaid cyrraedd y targed yn y dyfodol.

She asked about Welsh speakers. On 4 July, as I announced on the 'maes' of the Urdd Eisteddfod last week, there will be 'Y Gynhadledd Fawr'. The intention of that conference—'y gynhadledd'—is to ensure that we hear the views, not just of those who are campaigners, and those who are politically involved, as it were, in the Welsh language, although their views are important, but that we also hear the views of people in communities on the ground. We need to ask why it is that, even in parts of Wales where there are still a substantial number of Welsh speakers in the population, people—and particularly younger people—do not use the language. There is the confidence problem that many Welsh speakers suffer from, where they will not use the Welsh language in official circumstances, but prefer to stick to English instead. The event itself is not the end of it all—indeed, it must be the start of a process that leads to the improved use of the Welsh language, and improved numbers of Welsh speakers. I recognise that more than anybody.

Gofynnodd am siaradwyr Cymraeg. Ar 4 Gorffennaf, fel y cyhoeddais ar faes Eisteddfod yr Urdd yr wythnos diwethaf, cynhelir 'Y Gynhadledd Fawr'. Bwriad y gynhadledd honno yw sicrhau ein bod yn clywed barn, nid yn unig y rhai sy'n ymgyrchwyr, a'r rhai sy'n cymryd rhan yn wleidyddol, fel petai, yn yr iaith Gymraeg, er bod eu barn yn bwysig, ond ein bod hefyd yn clywed barn pobl mewn cymunedau ar lawr gwlad. Mae angen inni ofyn pam, hyd yn oed yn y rhannau o Gymru lle mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth, y mae pobl—ac yn enwedig pobl iau—yn dewis peidio â defnyddio'r iaith. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn dioddef o broblem hyder, lle na fyddant yn defnyddio'r iaith Gymraeg mewn amgylchiadau swyddogol, ond yn dewis cadw at y Saesneg yn lle hynny. Nid y digwyddiad ei hun fydd diwedd hyn i gyd—yn wir, rhaid iddo fod yn ddechrau ar broses sy'n arwain at fwy o ddefnydd ar y Gymraeg, ac at niferoedd gwell o siaradwyr Cymraeg. Rwyf fi'n cydnabod hynny'n fwy na neb.

She asked about poverty. The gross value added figures, the gross disposable household income figures and other figures are available, and they are updated on a regular basis.

Gofynnodd am dlodi. Mae'r ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, y ffigurau incwm aelwydydd crynswth i'w wario a ffigurau eraill ar gael, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

She asked about the alternative to PFI. The Wales infrastructure investment plan has indicated how we intend to take forward the issue of capital investments in the future. We need borrowing powers. I agree with the Conservatives when they say in their alternative programme for government that there is a need to improve the M4, but they seem to indicate that they would work with UK Government to do that as some kind of joint package. That is not something that I think works. We need borrowing powers along the same lines as Scotland and Northern Ireland for equity's sake and then we can look to invest in the same way that Scotland and Northern Ireland can. It would not be right for us to find ourselves in a situation in which capital projects could not go ahead in Wales because they were in Wales, whereas they could go ahead in England, Scotland and Northern Ireland. That would be clearly wrong, in principle and in terms of equality.

Holodd am y dewis arall yn lle'r fenter cyllid preifat. Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n nodi sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol. Mae angen pwerau benthyca arnom. Rwyf yn cytuno â'r Ceidwadwyr pan ddywedant yn eu rhaglen lywodraethu amgen fod angen gwella'r M4, ond mae'n ymddangos eu bod yn awgrymu y byddent yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud hynny fel rhyw fath o becyn ar y cyd. Nid yw hynny'n rhywbeth sy'n gweithio yn fy marn i. Mae arnom angen pwerau benthyca tebyg i rai'r Alban a Gogledd Iwerddon er tegwch ac yna gallwn geisio buddsoddi yn yr un ffordd ag y mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu ei wneud. Ni fyddai'n iawn inni ein cael ein hunain mewn sefyllfa lle na all prosiectau cyfalaf fynd rhagddynt yng Nghymru oherwydd eu bod yng Nghymru, ond eu bod yn gallu mynd rhagddynt yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddai hynny'n amlwg yn anghywir, mewn egwyddor ac o ran cydraddoldeb.

She asked a question about, as she put it, the senior pay scandal. May I say clearly that, at a time when many people are in fear about their jobs and when many people, particularly in the public sector, have not seen their pay increase for some years, there is an obligation on senior staff to be an example? I do not believe that there has been that example or that leadership in all circumstances. I am unconvinced, however, that legislation is needed. Local authorities are answerable to their local communities, and it is for local authorities to explain why they feel the need to pay substantial amounts of money to senior staff. Electors can judge them on that. That is a more democratic way of assessing the performance of local authorities in this regard than by passing a law that would remove that level of democratic accountability, although I accept that substantial pay rises for senior staff in some local authorities at this moment in time do not give the best impression.

Gofynnodd gwestiwn am sgandal cyflogau uwch swyddogion, yn ei geiriau hi. Hoffwn ddweud yn glir, ar adeg pan fo llawer o bobl yn ofni am eu swyddi a llawer o bobl, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, heb weld eu cyflog yn cynyddu ers rhai blynyddoedd, ei bod yn gyfrifoldeb ar staff uwch i ddangos esiampl. Nid wyf yn credu bod yr esiampl na'r arweinyddiaeth honno wedi eu rhoi bob amser. Nid wyf yn argyhoeddedig, fodd bynnag, fod angen deddfu. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'w cymunedau lleol, a lle awdurdodau lleol yw egluro pam y maent yn teimlo bod angen iddynt dalu symiau sylweddol o arian i uwch staff. Gall etholwyr eu barnu ar hynny. Mae hynny'n ffordd fwy democrataidd o asesu perfformiad awdurdodau lleol yn hyn o beth na thrwy basio deddf a fyddai'n cael gwared ar y lefel honno o atebolrwydd democrataidd, er fy mod yn derbyn nad yw codiadau cyflog sylweddol i staff uwch mewn rhai awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn rhoi'r argraff orau.

15:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I begin by thanking the First Minister for his statement. I note the publication of the Government's latest annual report, although I generally believe it to be a less than useful analysis of the state of the country and of the state of the Government. I appreciate that the First Minister has said that there is more than just this document available if you care to go on to the Government's website. I have clicked on at least five different indicators and the performance data are blank for each one. I am not quite sure whether that is a glitch or whether that is the report.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Nodaf gyhoeddi adroddiad blynyddol diweddaraf y Llywodraeth, er fy mod yn gyffredinol yn credu ei fod yn ddadansoddiad llai na defnyddiol o gyflwr y wlad ac o gyflwr y Llywodraeth. Rwyf yn cydnabod bod y Prif Weinidog wedi dweud bod mwy na dim ond y ddogfen hon ar gael drwy fynd i wefan y Llywodraeth. Rwyf wedi clicio ar o leiaf bum dangosydd gwahanol ac mae'r data perfformiad yn wag ar gyfer pob un. Nid wyf yn hollol siŵr ai nam yw hynny ynteu ai dyna yw'r adroddiad.

The document that we have before us this afternoon is limited because it is a narrative, and you would not expect a narrative to contain the information that would be truly useful. It is a narrative of what the Government has done. Those actions vary from attending meetings—although one would have thought that that was a given rather than being something noteworthy—to congratulating itself for introducing legislation that has yet to pass the Chamber, which seems a little bit premature, via the publication of quite a number of plans, strategies and actions, although there is no indication in the narrative as to whether any of those have been completed and delivered. I am sure, of course, that all of this activity is worthy and that it is keeping people very busy.

Mae'r ddogfen sydd gennym ger ein bron y prynhawn yma yn gyfyngedig oherwydd mai naratif ydyw, ac ni fyddech yn disgwyl i naratif gynnwys y wybodaeth a fyddai'n wirioneddol ddefnyddiol. Mae'n naratif o'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud. Mae'r camau gweithredu hynny'n amrywio o fynychu cyfarfodydd—er y byddai rhywun yn meddwl y gellid cymryd hynny'n ganiataol yn hytrach na'i fod yn rhywbeth nodedig—i'w llongyfarch eu hunain am gyflwyno deddfwriaeth nad yw eto wedi pasio'r Siambr, sy'n ymddangos braidd yn gynamserol, drwy gyhoeddi nifer sylweddol o gynlluniau, strategaethau a chamau gweithredu, er nad oes awgrym yn y naratif a oes unrhyw un o'r rhain wedi eu cwblhau a'u cyflenwi. Rwyf yn siŵr, wrth gwrs, bod yr holl weithgarwch hwn yn deilwng a'i fod yn cadw pobl yn brysur iawn.

However, if the First Minister wanted to live up to the hype of his introduction, he perhaps would have created a document that reflected, first, the commitments that were published in the first document. There is no run-through; you cannot take what was in the first sunflower document and see clearly in this third one what is happening. Perhaps it could have been even more radical and included comparative data based on baselines, namely where the Government started and where it is now. Perhaps it could have been super-radical and benchmarked our performance against that of our nearest neighbours or, even better than that, it could have benchmarked our performance against those of the world leaders in educating their citizens, in driving the economy forward and in treating and providing a health service for their citizens. However, I suppose that the chances of getting that out of the Government are the same as me winning the lottery, and I do not even play the lottery.

Fodd bynnag, pe bai'r Prif Weinidog yn awyddus i wireddu broliant ei gyflwyniad, efallai y byddai wedi creu dogfen a oedd yn adlewyrchu, yn gyntaf, yr ymrwymiadau a gyhoeddwyd yn y ddogfen gyntaf. Nid oes arweiniad; ni allwch gymryd yr hyn a oedd yn y ddogfen blodyn haul gyntaf a gweld yn glir yn y drydedd ddogfen hon beth sy'n digwydd. Efallai y gallai fod wedi bod hyd yn oed yn fwy radical a chynnwys data cymharol yn seiliedig ar linellau sylfaen, sef lle y dechreuodd y Llywodraeth a lle y mae yn awr. Efallai y gallai fod wedi bod yn radical dros ben a meincnodi ein perfformiad yn erbyn ein cymdogion agosaf, neu, hyd yn oed yn well na hynny, feincnodi ein perfformiad yn erbyn arweinwyr y byd o ran addysgu eu dinasyddion, gyrru'r economi yn ei blaen a thrin dinasyddion a darparu gwasanaeth iechyd ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'n debyg bod yr un siawns o gael hynny gan y Llywodraeth ag i mi ennill y loteri, ac nid wyf hyd yn oed yn chwarae'r loteri.

I will now turn to some questions for the First Minister. A key action on the economy was the introduction of the enterprise zones, which was included in the first document. Could the First Minister outline how many jobs he believes have been created as a result of that initiative, which is an initiative that I support and commend the Government for adopting? Could he also make a statement on the commitment within the Government's programme that said that there was a plan to promote trade and investment opportunities through targeted trade missions and offices? The level of Welsh exports over the last quarter has fallen more than that of any other part of the UK. Can the First Minister explain why Welsh exports to non-EU countries, such as Asia, the far east and America—which are all places that the First Minister has been very busy visiting in order to sell Wales to the world—have fallen by 7.5% which, again, is worse than in the rest of the UK? Could you outline how you believe those have been successful?

Trof yn awr at rai cwestiynau i'r Prif Weinidog. Un o'r camau gweithredu allweddol ar yr economi oedd cyflwyno'r ardaloedd menter; roedd hynny wedi'i gynnwys yn y ddogfen gyntaf. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu faint o swyddi y mae'n credu eu bod wedi eu creu o ganlyniad i'r fenter, sy'n fenter yr wyf yn ei chefnogi ac yn canmol y Llywodraeth am ei mabwysiadu? A allai hefyd wneud datganiad am yr ymrwymiad yn rhaglen y Llywodraeth a oedd yn sôn am gynllun i hyrwyddo cyfleoedd masnach a buddsoddi drwy deithiau masnach wedi'u targedu a swyddfeydd? Mae lefel yr allforion o Gymru yn ystod y chwarter diwethaf wedi gostwng yn fwy nag yn unrhyw ran arall o'r DU. A all y Prif Weinidog egluro pam mae allforion o Gymru i wledydd nad ydynt yn yr UE, megis Asia, y dwyrain pell ac America—sydd i gyd yn fannau y mae'r Prif Weinidog wedi bod yn brysur iawn yn ymweld â hwy er mwyn gwerthu Cymru i'r byd—wedi gostwng 7.5% sydd, unwaith eto, yn waeth nag yng ngweddill y DU? A wnewch chi amlinellu sut yr ydych yn credu bod y rheini wedi bod yn llwyddiannus?

On health, a key commitment in your programme for government was improving ambulance response times. You have admitted today that you are not meeting your targets. You have not done so for 11 months. Please could you outline today the steps you will take to address that failure? You also admitted today that the accident and emergency waiting time targets are missed and are not as good as you would like them to be. I am thankful to you, First Minister, for acknowledging that. You say that there is more work to be done. Could you please outline, First Minister, what steps you will take to improve the situation in our accident and emergency departments? Before you give me a lecture on the need for service reconfiguration, First Minister, I should say that you do not have to lecture me about it; we have, as Liberal Democrats, tried to engage with the Government on this. However, I will tell you this: my ability to do that is stretched pretty thin when I see members of your own Cabinet not convinced by the arguments that you are putting. Do not demand from the opposition an acceptance of these policies and actions and then criticise us for not doing so when you have not convinced not only your backbenchers in some cases, but members around your Cabinet table, whom you tolerate in speaking out against your plans.

O ran iechyd, un o ymrwymiadau allweddol eich rhaglen lywodraethu oedd gwella amseroedd ymateb ambiwlansys. Rydych wedi cyfaddef heddiw nad ydych yn cyrraedd eich targedau. Nid ydych yn gwneud hynny ers 11 mis. A fyddech cystal ag amlinellu heddiw y camau y byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r methiant hwnnw? Rydych hefyd wedi derbyn heddiw bod targedau amseroedd aros damweiniau ac achosion brys yn cael eu methu ac nad ydynt cystal ag yr hoffech iddynt fod. Rwyf yn ddiolchgar ichi, Brif Weinidog, am gydnabod hynny. Rydych yn dweud bod mwy o waith i'w wneud. A wnewch chi amlinellu, os gwelwch yn dda, Brif Weinidog, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r sefyllfa yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys? Cyn ichi roi darlith imi am yr angen i ad-drefnu gwasanaethau, Brif Weinidog, dylwn ddweud nad oes rhaid ichi roi darlith imi am hynny; rydym, fel Democratiaid Rhyddfrydol, wedi ceisio ymgysylltu â'r Llywodraeth yn hyn o beth. Fodd bynnag, dywedaf hyn wrthych: caiff fy ngallu i wneud hynny ei ymestyn yn eithaf tenau pan welaf rai o aelodau eich Cabinet chi eich hun nad yw eich dadleuon yn eu hargyhoeddi. Peidiwch â mynnu bod yr wrthblaid yn derbyn y polisïau a'r camau gweithredu hyn ac yna ein beirniadu am beidio â gwneud hynny pan nad ydych wedi argyhoeddi, nid yn unig eich meincwyr cefn, mewn rhai achosion, ond rhai o'r aelodau o amgylch bwrdd y Cabinet, yr ydych yn caniatáu iddynt siarad yn erbyn eich cynlluniau.

15:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well said.

Clywch, clywch.

15:47 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

There have been no changes.

Nid oes dim newidiadau wedi bod.

15:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government also gave a very clear commitment on cancer waiting times targets. Again, you have been honest and upfront, and you have acknowledged that your Government has not met those. You did say that they would be met by the end of March, but they have not been met. Could you outline to us what new steps your Government will now take to ensure that that does not happen again?

Roedd y rhaglen lywodraethu hefyd yn rhoi ymrwymiad clir iawn ar dargedau amseroedd aros canser. Unwaith eto, rydych wedi bod yn onest ac yn agored, ac rydych wedi cydnabod nad yw eich Llywodraeth wedi eu cyrraedd. Dywedasoch y byddent yn cael eu cyrraedd erbyn diwedd mis Mawrth, ond nid ydynt wedi eu cyrraedd. A wnewch chi amlinellu inni ba gamau newydd y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd nawr i sicrhau nad yw hynny'n digwydd eto?

In the programme for government, you said that one of your key measures to track progress was the percentage of schools inspected and graded as 'good' or 'excellent' by Estyn, yet, according to Estyn, those figures dropped last year. Could you outline what new steps that you will take to ensure that that situation will be turned around and that the commitment you made will be met? The steps taken so far have led to a decrease, so we obviously need a new approach.

Yn y rhaglen lywodraethu, dywedasoch mai un o'ch mesurau allweddol i olrhain cynnydd oedd canran yr ysgolion a gafodd eu harolygu a'u graddio'n rhai 'da' neu 'ragorol' gan Estyn, ac eto, yn ôl Estyn, gostwng wnaeth y ffigurau hynny y llynedd. A wnewch chi amlinellu pa gamau newydd y byddwch yn eu cymryd i sicrhau y caiff y sefyllfa honno ei gwyrdroi ac y bydd yr ymrwymiad a wnaethoch yn cael ei fodloni? Mae'r camau a gymerwyd hyd yma wedi arwain at ostyngiad, felly yn amlwg mae angen ymagwedd newydd arnom.

You said in your programme for government that you would publish a children and young people Bill. Could you outline to the Assembly when that commitment will be fulfilled? You also said in your programme for government that you would publish a delivery plan to support the existing food strategy 'Food for Wales, Food from Wales'. A quick look at the website that was last updated at the end of 2012 shows that you are still thinking about doing a delivery plan. That is three years into the strategy, and two and a bit years into this Government. Could you tell us when there will be a delivery plan for the Government's 'Food for Wales, Food from Wales' strategy?

Dywedasoch yn eich rhaglen lywodraethu y byddech yn cyhoeddi Bil plant a phobl ifanc. A wnewch chi amlinellu i'r Cynulliad pa bryd y caiff yr ymrwymiad hwnnw ei gyflawni? Dywedasoch hefyd yn eich rhaglen lywodraethu y byddech yn cyhoeddi cynllun cyflenwi i ategu'r strategaeth fwyd bresennol 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru'. Mae golwg gyflym ar y wefan a ddiweddarwyd ddiwethaf ddiwedd 2012 yn dangos eich bod yn dal i feddwl am wneud cynllun cyflenwi. Mae hynny dair blynedd i mewn i'r strategaeth, a dwy ac ychydig o flynyddoedd i mewn i'r Llywodraeth hon. A wnewch chi ddweud wrthym pryd y ceir cynllun cyflenwi ar gyfer strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru' y Llywodraeth?

Finally, on the issue of Communities First, I welcome the fact that the Government has revamped this programme to try to address some of the issues that have occurred in the past, where the Communities First investment, which was substantial amounts of money, has not delivered the outcomes the Government have previously wanted. The new Minister has been asked repeatedly in this Chamber by Welsh Liberal Democrats what the new outcome targets for that investment will be so that we know that that money has delivered for those poorest of our communities. He has not been able to provide those outcome indicators for us. Could you do so this afternoon?

Yn olaf, o ran Cymunedau yn Gyntaf, rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi ailwampio'r rhaglen hon i geisio rhoi sylw i rai o'r materion sydd wedi codi yn y gorffennol, lle nad yw'r buddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf, a oedd yn symiau sylweddol o arian, wedi cyflawni'r canlyniadau yr oedd y Llywodraeth am eu gweld. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gofyn cwestiynau i'r Gweinidog newydd dro ar ôl tro yn y Siambr am beth fydd targedau canlyniadau newydd y buddsoddiad hwnnw er mwyn inni gael gwybod bod yr arian wedi darparu ar gyfer y rhai tlotaf yn ein cymunedau. Nid yw wedi gallu rhoi'r dangosyddion canlyniadau hynny inni. A allech chi wneud hynny y prynhawn yma?

15:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First, I am surprised to hear the leader of the Liberal Democrats complaining that there is too much information available. Some of it might appear trivial, but it is important that it is there. However, she does understand, at least, that the annex that appears on the website does in fact contain the indicators, rather than the 24 pages that the leader of the opposition alluded to—he clearly had not seen the annex and the actions included therein.

Yn gyntaf, rwyf yn synnu o glywed arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cwyno bod gormod o wybodaeth ar gael. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn ymddangos yn ddibwys, ond mae'n bwysig ei bod yno. Fodd bynnag, mae hi'n deall, o leiaf, mai'r atodiad sy'n ymddangos ar y wefan sydd mewn gwirionedd yn cynnwys y dangosyddion, yn hytrach na'r 24 tudalen y cyfeiriodd arweinydd yr wrthblaid atynt—yn amlwg, nid oedd ef wedi gweld yr atodiad a'r camau a gynhwysir ynddo.

With regard to enterprise zones, she asks how they are developing. The Minister has said on many occasions that some are being taken forward—yes, it is true—at different rates to others. We already have a job announcement in the Haven waterway zone, and we expect to see more in the pipeline, particularly for Ebbw Vale and for Deeside. The Cardiff enterprise zone will take a little longer, but I have been in discussions with financial institutions that are looking very carefully at the Cardiff enterprise zone with a view to coming to it. It is important that there are offices available, and that is something that we as a Government are looking to ensure.

O ran ardaloedd menter, mae'n gofyn sut y maent yn datblygu. Mae'r Gweinidog wedi dweud ar sawl achlysur bod rhai yn cael eu datblygu—ydy, mae'n wir—ar gyfraddau gwahanol i eraill. Mae gennym eisoes gyhoeddiad swyddi yn ardal dyfrffordd Aberdaugleddau, ac rydym yn disgwyl gweld mwy ar y gweill, yn enwedig yng Nglynebwy a Glannau Dyfrdwy. Bydd ardal fenter Caerdydd yn cymryd ychydig yn fwy o amser, ond rwyf wedi bod yn trafod â sefydliadau ariannol sy'n edrych yn ofalus iawn ar ardal fenter Caerdydd gyda golwg ar ddod yno. Mae'n bwysig bod swyddfeydd ar gael, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni fel Llywodraeth yn ceisio ei sicrhau.

She talks about exports. I can give her an answer as to why Welsh exports have dropped in one word: petroleum—it is because of the Valero shutdown. If you look at the drop in export figures in that quarter, it is almost entirely due to the shutdown of Valero, and petroleum exports were the most affected. We are substantial exporters of petroleum products, and when one of our refineries goes down for maintenance, it affects quite radically our export figures. So, that explanation is an easy one to give.

Mae'n sôn am allforion. Gallaf roi ateb i'r cwestiwn ynghylch pam mae allforion o Gymru wedi gostwng iddi mewn un gair: petrolewm—mae hyn oherwydd bod Valero wedi cau. Os edrychwch ar y gostyngiad yn ffigurau allforio'r chwarter hwnnw, mae bron yn gyfan gwbl oherwydd cau Valero, ac allforion petrolewm oedd y rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt. Rydym yn allforio llawer iawn o gynhyrchion petrolewm, a phan fydd un o'n purfeydd yn cau ar gyfer gwaith cynnal a chadw, mae'n cael effaith fawr iawn ar ein ffigurau allforio. Felly, mae'r eglurhad hwnnw yn un hawdd.

In terms of health, it is as I say: waiting times are difficult for us—and we acknowledge that as a Government—as are ambulance waiting times. Things are moving in the right direction. It is early days, but I am not saying that because of the figures in March, which are better, everything is therefore fine. I accept that. These problems are not unique to Wales; they do exist elsewhere in the UK. Partially, if not significantly, it is down to the fact that we are seeing an enormous number of emergency admissions. The number of emergency admissions in the last 10 years has risen 68% in Wales. That is a significant amount of extra, unscheduled care that the system has to cope with. It is true to say that that must be dealt with, and I know that the Minister for health is working with the local health boards on A&E times and on cancer waiting times, which are clearly important, although I would point out that cancer mortality has reduced substantially over the course of the past decade.

O ran iechyd, fel yr wyf yn ei ddweud, mae amseroedd aros yn anodd inni—ac rydym yn cydnabod hynny fel Llywodraeth—fel y mae amseroedd aros ambiwlansys. Mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'n ddyddiau cynnar, ond nid wyf yn dweud bod popeth yn iawn oherwydd bod ffigurau mis Mawrth yn well. Rwyf yn derbyn hynny. Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i Gymru; mae mannau eraill yn y DU hefyd yn cael y problemau hyn. Yn rhannol, os nad yn sylweddol, mae hyn oherwydd ein bod yn gweld nifer enfawr o dderbyniadau brys. Mae nifer y derbyniadau brys yn ystod y 10 mlynedd diwethaf wedi codi 68% yng Nghymru. Mae hynny'n swm sylweddol o ofal ychwanegol, heb ei drefnu y mae'r system yn gorfod ymdopi ag ef. Mae'n wir dweud bod yn rhaid ymdrin â hynny, a gwn fod y Gweinidog iechyd yn cydweithio â'r byrddau iechyd lleol ar amseroedd adrannau damweiniau ac achosion brys ac ar amseroedd aros canser, sydd yn amlwg yn bwysig, er y byddwn yn nodi bod marwolaethau canser wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf.

On reconfiguration, I appreciate that she has never been someone who was against reconfiguration in principle, and she has made that very clear. There are differing views in this Chamber as to the need for reconfiguration and how far it goes, but nobody on these benches has argued against the principle of reconfiguration. That much I can say to her. There is nobody on these benches who says that reconfiguration need not take place. Inevitably, there will be Members, rightly so, who will make a case for their local hospital, and there is no difficulty in that, but no-one here argues that reconfiguration is wrong in principle or in policy. That is the difference.

O ran ad-drefnu, rwyf yn cydnabod na fu hi erioed yn rhywun a oedd yn erbyn ad-drefnu mewn egwyddor, ac mae wedi gwneud hynny'n glir iawn. Mae gwahaniaeth barn yn y Siambr hon ynghylch a oes angen ad-drefnu a pha mor bell y mae'n mynd, ond nid oes neb ar y meinciau hyn wedi dadlau yn erbyn egwyddor ad-drefnu. Gallaf ddweud cymaint â hynny wrthi. Nid oes neb ar y meinciau hyn yn dweud nad oes angen ad-drefnu. Yn anochel, bydd rhai Aelodau, yn briodol felly, yn gwneud achos dros eu hysbyty lleol, ac nid oes anhawster ynghylch hynny, ond nid oes neb yma yn dadlau bod ad-drefnu'n anghywir mewn egwyddor neu o safbwynt polisi. Dyna'r gwahaniaeth.

In terms of Estyn and the reports that it has produced, the Minister for education has on many occasions given indications of what his plans are for education. However, the children and young people Bill, it is true, is not in the current legislative programme, but it is still something that is being looked at. I do remember a time in the first year of this Assembly when we were accused of not having any legislation to bring forward. We do now, and I think that in the first year of the Assembly there was probably some merit in that. In future, incoming Governments in this place will probably want to get legislation up and running as quickly as possible, and that is certainly something that we have learned as a new institution, as we were in March 2011 with regard to primary legislation. As we said we would, we brought forward a substantial legislative programme, and that, of course, is ongoing.

O ran Estyn a'r adroddiadau y mae wedi'u cynhyrchu, mae'r Gweinidog addysg wedi nodi ar sawl achlysur beth yw ei gynlluniau ar gyfer addysg. Fodd bynnag, mae'n wir nad yw'r Bil plant a phobl ifanc yn rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol, ond mae'n dal yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried. Rwyf yn cofio adeg yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn pan gawsom ein cyhuddo o beidio â bod ag unrhyw ddeddfwriaeth i'w chyflwyno. Mae gennym ddeddfwriaeth yn awr, ac rwyf yn credu, yn ôl pob tebyg, bod rhywfaint o werth i hynny ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad. Yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd Llywodraethau newydd yn y lle hwn am sicrhau bod deddfwriaeth ar waith cyn gynted â phosibl, ac mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr ydym wedi ei ddysgu fel sefydliad newydd, fel yr oeddem ym mis Mawrth 2011 o ran deddfwriaeth sylfaenol. Fel y dywedasom y byddem yn ei wneud, rydym wedi cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol sylweddol, ac mae honno, wrth gwrs, yn un barhaus.

On food from Wales, that again is something that is being taken forward. We have of course been working very hard on Welsh food exports—HCC has its tenth anniversary dinner tonight with its lamb and beef. I was the Minister at the time that organisation was set up, and it has proven to be extremely successful in terms of exporting outside the traditional export countries of southern Europe that was true at the start of the last decade.

O ran bwyd o Gymru, mae hynny eto yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu. Wrth gwrs, rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar allforion bwyd Cymreig—mae HCC yn cael cinio i ddathlu ei ddegfed pen-blwydd heno gyda'i gig oen a'i gig eidion. Fi oedd y Gweinidog pan gafodd y sefydliad hwnnw ei sefydlu, ac mae wedi profi'n hynod lwyddiannus o ran allforio y tu allan i wledydd allforio traddodiadol de Ewrop a oedd yn digwydd ddechrau'r degawd diwethaf.

With Communities First, it has been a tremendously successful scheme. I have been to communities up and down Wales, Caia Park in Wrexham being one of them, where people have seen a real difference. Yes, it has not been universally effective, that much is true, but I do not think that any scheme can be. However, the fact that one or two schemes have not been as effective as they might have been does not condemn the entire scheme, because there are schemes that I have seen with my own eyes that have worked very well, and the same will apply to the future scheme.

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn gynllun hynod lwyddiannus. Rwyf wedi bod i gymunedau ar hyd a lled Cymru, a Pharc Caia yn Wrecsam yn un ohonynt, lle mae pobl wedi gweld gwahaniaeth go iawn. Nac ydyw, nid yw wedi bod yn effeithiol ym mhobman, mae hynny'n wir, ond nid wyf yn meddwl y gall unrhyw gynllun fod. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad yw un neu ddau o gynlluniau wedi bod mor effeithiol ag y gallent fod yn condemnio'r cynllun cyfan, oherwydd rwyf wedi gweld cynlluniau â'm llygaid fy hun sydd wedi gweithio'n dda iawn, a bydd yr un peth yn wir am gynllun y dyfodol.

As I say, I appreciate the fact that Members have not had an enormous amount of time to go through the indicators—there is a substantial number. Where there is a large number of indicators, it is inevitable that some will not be as good as others, and there is of course the opportunity for other parties to pick up on those indicators. That is democracy. From our point of view, however, the case that we would make is that on the majority of indicators, we have performed well. In terms of manifesto commitments, we are taking them forward. In terms of legislation, there is a full programme, although we recognise that there are still some areas where further improvement is needed.

Fel y dywedais, rwyf yn cydnabod y ffaith nad yw Aelodau wedi cael llawer iawn o amser i fynd trwy'r dangosyddion—mae nifer sylweddol ohonynt. Lle ceir nifer mawr o ddangosyddion, mae'n anochel na fydd rhai cystal ag eraill, ac wrth gwrs mae cyfle i bleidiau eraill dynnu sylw at y dangosyddion hynny. Dyna ddemocratiaeth ichi. O'n safbwynt ni, fodd bynnag, yr achos yr hoffem ei wneud yw ein bod wedi gwneud yn dda ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion. O ran ymrwymiadau'r maniffesto, rydym yn bwrw ymlaen â hwy. O ran deddfwriaeth, mae rhaglen lawn, er ein bod yn cydnabod bod angen gwella rhai meysydd ymhellach o hyd.

15:55 **Mike Hedges** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First of all, I congratulate the Welsh Government on the amount of progress it has made so far, despite the huge budget cuts from the Westminster Government. Can the First Minister remind the Chamber of the size of those cuts? Will he agree that Communities First and Flying Start show the Labour Government's commitment to the poorest people in our society? Will he compare the Welsh Labour Government here, which is providing 430 more police community support officers within two years, with the 20% cut in police numbers by the Westminster Government? I understand that the Welsh Labour Government will fail to reach 500 PCSOs, because it will reach 545.

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru ar y cynnydd y mae wedi'i wneud hyd yma, er gwaethaf y toriadau enfawr i'r gyllideb gan Lywodraeth San Steffan. A all y Prif Weinidog atgoffa'r Siambr o faint y toriadau hynny? A yw'n cytuno bod Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth Lafur i'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas? A wnaiff gymharu'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru, sy'n darparu 430 yn fwy o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o fewn dwy flynedd, â niferoedd yr heddlu sydd wedi'u gostwng 20% gan Lywodraeth San Steffan? Rwyf ar ddeall y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn methu â chyrraedd 500 o swyddogion cymorth cymunedol, oherwydd bydd yn cyrraedd 545.

15:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Member for his question, which illustrates the commitment that we have put forward in terms of CSOs, and our delivery on that commitment. Let me give some background here: this is against the background of a 7.5% revenue cut over three years, and a 40% cut in capital. There are further cuts on the way following the comprehensive spending review, particularly in terms of revenue. The capital cuts, even though they are substantial, can in many ways be more easily managed—you just do not do things in future. Revenue is far more difficult to manage, particularly when the cuts are so severe. Despite that, we have delivered on our key manifesto commitments; either we have delivered, or we are on the way to delivering on them.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, sy'n dangos yr ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud o ran swyddogion cymorth cymunedol, a'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni ar yr ymrwymiad hwnnw. Gadewch imi roi ychydig o'r cefndir ichi: mae hyn yng nghyd-destun toriad refeniw 7.5% dros gyfnod o dair blynedd, a gostyngiad 40% mewn cyfalaf. Mae toriadau pellach ar y ffordd yn sgil yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, yn enwedig o ran refeniw. Gall y toriadau cyfalaf, er eu bod yn sylweddol, mewn sawl ffordd fod yn haws eu rheoli—dim ond peidio â gwneud pethau yn y dyfodol yr ydych. Mae refeniw yn llawer anos ei reoli, yn enwedig pan fydd y toriadau mor ddifrifol. Er gwaethaf hynny, rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau allweddol yn y maniffesto; naill ai rydym wedi eu cyflawni, neu rydym ar y ffordd i'w cyflawni.

It is a perfectly fair point to throw into any debate: when opposition parties put forward incredibly expensive schemes that are not properly costed, and suggest that those schemes form an alternative, they are subject to scrutiny in the same way as Government. The leader of the opposition has put his party forward as a government in waiting; it is therefore perfectly proper that his programme for government, if I can call it that, is put under the spotlight as well. We are not afraid of that; the question is, is he?

Mae'n bwynt cwbl deg i'w daflu i mewn i unrhyw drafodaeth: pan fydd gwrthbleidiau'n cyflwyno cynlluniau hynod ddrud heb eu costio'n iawn, ac yn awgrymu bod y cynlluniau hynny'n ddewis arall dilys, maent yn destun craffu yn yr un modd â'r Llywodraeth. Mae arweinydd yr wrthblaid wedi cyflwyno ei blaid fel y llywodraeth nesaf; mae'n gwbl briodol felly fod ei raglen lywodraethu, os caf ei galw'n hynny, yn cael ei rhoi dan y chwyddwydr hefyd. Nid oes ofn hynny arnom ni; y cwestiwn yw, a oes ofn arno ef?

15:57 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, your programme for government states that you aim to tackle poverty. The previous Minister for heritage made it plain that it was his intention to use our historic and cultural assets to tackle poverty. To ask about one example, as part of the deal for receiving public money, National Museum Wales published its child poverty strategy titled 'Transforming Children's Futures'. As far as I can discern, there is no thought-out operational plan to deliver on that strategy. You say that this Assembly is all about delivery, so can you explain how your Government can tell that the 'Transforming Children's Futures' strategy has transformed the future of a single child, and therefore contributed to meeting the aim of your programme for government?

Brif Weinidog, mae eich rhaglen lywodraethu'n datgan eich bod yn anelu at drechu tlodi. Gwnaeth y Gweinidog treftadaeth blaenorol hi'n glir mai ei fwriad oedd defnyddio ein hasedau hanesyddol a diwylliannol i drechu tlodi. Ynghylch un enghraifft, fel rhan o'r fargen ar gyfer derbyn arian cyhoeddus, cyhoeddodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ei strategaeth tlodi plant o'r enw 'Trawsnewid Dyfodol Plant'. Cyn belled ag y gallaf ddirnad, nid oes cynllun gweithredol synhwyrol i gyflawni'r strategaeth honno. Rydych yn dweud bod y Cynulliad hwn yn ymwneud â chyflenwi, felly a allwch egluro sut y gall eich Llywodraeth ddweud bod y strategaeth 'Trawsnewid Dyfodol Plant' wedi trawsnewid dyfodol un plentyn, ac felly wedi cyfrannu at fodloni nod eich rhaglen lywodraethu?

15:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Visitor levels. One of the things that we did as a Government—in the days of the Labour-LibDem coalition, in fact—was to introduce free entry to the national museums and galleries of Wales. Since that time, there has been a substantial number of visitors, and 1,690,000 now visit the national museum and the national library. That is a good indicator that large numbers of people, particularly children, I suspect, have been able to visit the museums, whereas in the past they would not have been able to do so. That is an example of providing an opportunity for children; removing the charge for entry to museums has led to more and more children, and more and more families, visiting the museums of Wales in a way that would not have been possible had charges still been in place.

Lefelau ymwelwyr. Un o'r pethau a wnaethom fel Llywodraeth—yn nyddiau'r glymblaid Llafur-Democratiaid Rhyddfrydol, yn wir—oedd cyflwyno mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Cymru. Ers hynny, bu nifer sylweddol o ymwelwyr, ac mae 1,690,000 nawr yn ymweld â'r amgueddfa genedlaethol a'r llyfrgell genedlaethol. Mae hynny'n arwydd da fod llawer iawn o bobl, yn enwedig plant, mae'n siŵr gen i, wedi gallu ymweld â'r amgueddfeydd, lle na fyddent, yn y gorffennol, wedi gallu gwneud hynny. Mae hynny'n enghraifft o roi cyfle i blant; mae cael gwared ar y tâl mynediad i amgueddfeydd wedi arwain at fwy a mwy o blant, a mwy a mwy o deuluoedd, yn ymweld ag amgueddfeydd Cymru mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosibl pe bai'r taliadau'n dal i fodoli.

15:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn gyntaf, hoffwn wneud un sylw ynglŷn â'r datganiad ei hun. Mae wedi cael ei wneud yn uniaith Saesneg, fel bron pob un o ddatganiadau'r Llywodraeth. Roeddech ar faes Eisteddfod yr Urdd yn sôn am ddyfodol yr iaith a pha mor bwysig ydyw i'r Gymraeg fod yn iaith y gweithle, ac eto nid ydych yn ei gwneud yn iaith y lle hwn, sydd hefyd yn weithle. Beth sy'n od yw bod y datganiad yn dilyn gair am air yr hyn sydd yn y rhagair, ac felly mae wedi cael ei gyfieithu, ond nid yw ar gael yn swyddogol yn y Siambr. Pam mae'n bolisi gan y Llywodraeth i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn ei datganiadau?

First, I would like to make one comment on the statement itself. It has been made available in English only, as is the case with most Government statements. You were in the Urdd Eisteddfod talking about the future of the language and how important it is for Welsh to be the language of the workplace, and yet you do not make it the language of this place, which is also a workplace. What is strange is that the statement follows word for word what is contained in the foreword, which means that it has already been translated but not made officially available in the Chamber. Why is it the Government's policy to not use the Welsh language in its statements?

Problem fawr, wrth gwrs, gyda'r adroddiad fel y mae, yw ei bod yn amhosibl gweld dilyniant o'r naill flwyddyn i'r llall a chymharu'r twf a chynnydd sydd wedi bod o ran gweithgaredd y Llywodraeth oherwydd bod y fformat yn wahanol. Ond dyna ni.

A major problem, of course, with the report as it stands, is that it is impossible to see a continuum from one year to the next in order to compare the growth and progress of Government activity because the format is different. But there we go.

Hoffwn gyfeirio at ddau neu dri o bethau penodol o ran y cynnwys. Rydych chi wedi sôn am ba mor bwysig yw sicrhau hyfforddiant o safon uchel yn y gwasanaeth iechyd. Rwy'n cytuno 100% â chi. Rydych yn sôn bod hynny o reidrwydd yn arwain at arbenigo mewn rhai ysbytai. Pam nad ydym wedi gweld cynllun tebyg yng ngogledd Cymru, lle mae'r gallu i recriwtio staff meddygol yn rheswm sy'n cael ei roi dro ar ôl tro ar gyfer pam fod unedau'n gorfod cau neu symud? Nid oes gair ynglŷn â gwella a chryfhau hyfforddi o fewn y gwasanaeth iechyd yn y gogledd, eto, rydych yn cydnabod mai dyna un o'r ffactorau pwysicaf o ran recriwtio a chadw staff meddygol mewn gwahanol rannau o Gymru.

I would like to refer to two or three specific points in terms of the content. You have mentioned how important it is to secure high-quality training within the health service. I agree 100% with you. You say that that would necessarily lead to specialisms within certain hospitals. Why have we not seen a similar scheme in north Wales, where the recruitment of medical staff is a reason given time and again as to why units have to close or be moved? There is no mention of improving and strengthening training within the health service in north Wales, yet you acknowledge that that is one of the most important factors in terms of the recruitment and retention of medical staff in various parts of Wales.

Mae cyfeiriad hefyd at ffigurau GVA, sy'n ddigon teg, ond, mewn gwirionedd, ffigurau sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru'n Un yw'r rhain. Rydych yn cyfeirio at 2010 ynddynt, ond yr hyn yr hoffwn ei weld yw ffigurau GVA cyfredol i Gymru. A oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud i'r cyfeiriad hwnnw fel ein bod yn cael gweld beth yw'r sefyllfa gyfredol a gweld sut mae'r economi yn perfformio?

There is also reference to GVA figures, which is fair enough, but in reality they are figures relevant to the One Wales Government. You refer in them to 2010, but what I want to see are the current GVA figures for Wales. Has there been any progress in that regard, so that we can see the current situation and see how the economy is performing?

Gan gyfeirio at 'Jobs Growth Wales', rydych yn hollol iawn i ymfalchïo yn y llwyddiant o ran nifer y bobl ifanc—dros 4,000 ohonynt. Hyd yn hyn, yn ôl fy nehongliad i o'r ffigurau, mae tua 1,000 o bobl wedi cyflawni'r chwe mis, ond nid oes cyfeiriad at faint o bobl sydd wedi gadael y cynllun. Mae'r wybodaeth sydd gennym yn nodi efallai bod hyd at draean y bobl ifanc wedi gadael y cynllun cyn diwedd y chwe mis. Os yw hynny'n wir, a yw'n dderbyniol? Os nad yw hynny'n dderbyniol, beth fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod y ffigurau hynny'n gwella? A ydych yn deall pam fod pobl yn gadael y cynllun hwn, sydd â llawer iawn i'w ganmol ynddo?

With reference to Jobs Growth Wales, you are entirely right to take pride in the success in terms of the number of young people—over 4,000 of them. To date, according to my interpretation of the figures, around 1,000 people have completed the six months but there is no reference to how many have fallen out of the scheme. The information that we have suggests that up to a third of those have not completed the six month scheme. If that is true, is it acceptable? If it is not acceptable, what will you do to ensure that those figures improve? Do you know why people are leaving this scheme, which has much to commend it?

Rwyf hefyd am gyfeirio at Gymunedau yn Gyntaf. Yr hyn na allaf ei ddeall yw, os oedd Cymunedau yn Gyntaf yn gynllun mor ardderchog, pam bod angen ei newid. Wrth gwrs, rydym yn deall nad un neu ddwy enghraifft o fethiant a oedd yn gyfrifol am newid Cymunedau yn Gyntaf. Y gwir amdani yw nad oedd yn cyflawni ei amcanion. Y broblem gyda Chymunedau yn Gyntaf ar ôl ei ailwampio oedd iddo ddiflannu, fwy neu lai, o ardaloedd gwledig a threfi bach Cymru. Mae'r cynlluniau bellach bron i'w gweld yn unig yn yr etholaethau Llafur, a hynny oherwydd bod cymunedau yno sy'n ddifreintiedig iawn. Ond nid yw hynny'n golygu nad oes tlodi mewn trefi ar hyd a lled Cymru nac yng nghefn gwlad Cymru. Fe'm hatgoffwyd yn ddiweddar, gan uned arbennig sy'n ceisio hyrwyddo mynediad at addysg uwch a bellach, bod diflaniad swyddogion Cymunedau yn Gyntaf o drefi a phentrefi cefn gwlad yn golygu nad oes ganddynt bellach unrhyw ffordd o gysylltu â'r union deuluoedd ac unigolion sydd ag arnynt angen eu cefnogaeth er mwyn gwella eu cyfleoedd. Beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i gywiro'r diffyg hwn oherwydd yr ailwampio a fu ar gynllun Cymunedau yn Gyntaf?

I will also refer to Communities First. What I cannot understand is why, if Communities First was such an excellent scheme, it had to be changed. Of course, we understand that Communities First was not changed as a result of one or two examples of failure. The truth is that it did not reach its objectives. The problem with Communities First after its reorganisation is that it has more or less disappeared from rural Wales and from Wales's smaller towns. The schemes are almost all now to be found in Labour constituencies, and the reason for that is that there are communities there where there is great deprivation. However, that does not mean that there is not poverty elsewhere in Wales and in rural Wales. I was reminded of this recently by a special unit that is trying to promote access to higher and further education, which said that the disappearance of Communities First officials from towns and villages in rural Wales has meant that they now have no access to the very families and individuals who need their help in order to take them into education in order to improve their life chances. What does the Government intend to do to correct this deficit because of the reorganisation of Communities First?

Gobeithio y cawn ddadl ar yr adroddiad hwn yn y dyfodol, ar ôl inni gael amser i edrych yn fanwl ar y wybodaeth sydd ynddo ac i geisio mesur a phwyso llwyddiant neu aflwyddiant y Llywodraeth.

I hope that we can have a debate on this report in the future, once we have had time to digest the information contained within it and to assess the success or failure of the Government.

16:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dechreuaf drwy ymddiheuro bod y datganiad yn uniaith Saesneg. Y rheswm am hynny oedd imi godi'r sgript uniaith Saesneg ar y ffordd i'r Siambr. Weithiau, rwy'n cyfieithu wrth siarad, ond nid yw mor rhwydd â hynny. Dyna pam roedd y datganiad yn uniaith Saesneg. Nid wyf yn gwneud hynny'n arferol ac rwy'n cymryd y feirniadaeth ynglŷn â hynny.

I start by apologising for the fact that the statement was in English only. The reason for that was that I picked up the English script on the way to the Chamber. I sometimes translate as I speak, but it is not always easy. That is why the statement was in English only. That is not my usual practice and I take that criticism.

O ran hyfforddiant a recriwtio, mae'n bwysig bod strwythur ar waith sy'n golygu bod meddygon eisiau dod i hyfforddi yng Nghymru. Barn llawer iawn o arbenigwyr yw nad yw'r strwythur yno i'r dyfodol. Yr ofn sydd gennym yw y bydd pobl yn dewis peidio â dod i Gymru, ac y byddant yn mynd i leoedd eraill i hyfforddi. Os digwydd hynny, bydd gwasanaethau'n mynd i lawr ac i lawr. Mae'n bwysig cael y strwythur yn iawn i sicrhau bod pobl eisiau dod i Gymru i hyfforddi pobl eraill a hefyd i ddod yma i hyfforddi fel myfyrwyr. Mae recriwtio ynghlwm â strwythur. Os nad yw meddygon yn meddwl bod y strwythur yn iawn, ni fyddant yn dod yma. Ni fyddant eisiau cael eu hyfforddi mewn lle heb y strwythur iawn. Mae'n bwysig dros ben bod gennym strwythur sy'n rhoi mwy o gyfle i bobl ddod i Gymru yn ôl y colegau brenhinol.

In terms of training and recruitment, it is important that we have a structure that leads to doctors wanting to come to Wales to train. Many specialists are of the opinion that that structure does not exist for the future. Our concern is that people will choose not to come to Wales, and that they will go elsewhere to train. If that happens, services will go downhill. It is important that we have the right structure so that people want to come to Wales to train others and also that they want to come to Wales to train as students. Recruitment goes hand in hand with structure. If doctors feel that the structure is not right, they will not come here. They will not want to train in a place that does not have the right structure. According to the royal colleges, it is vital that we have a structure that provides people with more opportunities to come to Wales.

O ran 'Jobs Growth Wales', mae tua 79% o'r bobl sydd yn ei gwblhau yn cael swydd. Mae'n wir i ddweud bod rhai yn gadael; mae rhai yn mynd gan nad ydynt yn gallu mynd drwy'r cwrs cyfan; mae rhai yn mynd oherwydd bod swyddi'n cael eu cynnig iddynt mewn mannau eraill; ac mae rhai yn mynd oherwydd eu bod yn mynd i astudio mewn rhyw goleg. Nid yw pawb sy'n gadael y cynllun yn ddi-waith o achos hynny. Gan mai ffigurau newydd yw'r rhain, rydym yn ystyried beth sy'n gwneud i bobl nad ydynt yn mynd ymlaen i swydd, brentisiaeth neu addysg bellach adael y cyrsiau hyn. Rydym am sicrhau bod nifer y rhai sy'n llwyddiannus yn cynyddu. Fodd bynnag, o ystyried y ffigurau, mae'r cynllun wedi bod yn un llwyddiannus dros ben o'i gymharu â chynlluniau yn y gorffennol.

In terms of Jobs Growth Wales, around 79% of people who complete the scheme gain employment. It is the case that some fall by the wayside; some leave because they cannot complete the entire course or because they are offered a job elsewhere; and others leave in order to study at college. So, not everyone who leaves the scheme is unemployed as a result. Given that these are new figures, we are giving consideration to the factors that cause people who do not go on to a job, an apprenticeship or further education to leave these courses. We want to ensure an increase in the number of people who successfully complete the courses. However, if you take the current figures into account and compare them with those for previous schemes, you will see that the scheme has been very successful.

O ran y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, y nod oedd sicrhau bod gennym system sy'n delifro yn y ffordd fwyaf effeithiol. Roedd hynny'n golygu bod yn rhaid creu cyrff a oedd yn fwy na'r rhai o'r blaen. Mae'n wir dweud y bydd yn rhaid i rai cymunedau efallai ystyried ffyrdd eraill o gael eu helpu, ac mae'r Gweinidog wrthi'n ystyried a oes ffordd o helpu'r cymunedau hynny nad ydynt yn gallu cael cymorth o raglenni Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd.

Turning to Communities First programmes, the aim was to ensure that we have a system that delivers in the most effective manner possible. That meant having to create bodies that are bigger than the previous ones. It is true that some communities will perhaps have to consider other ways of gaining assistance, and the Minister is currently considering whether there are ways of assisting those communities who cannot access Communities First programmes at present.

16:06

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I welcome the opportunity to make a contribution to this statement. However, you might want to be aware that, because the Welsh Government's e-mail system was not working, we only received copies of the report at 3.15 p.m. today, which may well be why we were not able to access the data that you were talking about.

Brif Weinidog, rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y datganiad hwn. Fodd bynnag, efallai yr hoffech wybod, gan nad oedd system e-bost Llywodraeth Cymru'n gweithio, mai dim ond am 3.15 p.m. heddiw y cawsom gopïau o'r adroddiad, a gallai hynny egluro pam nad oeddem yn gallu gweld y data yr oeddech yn sôn amdano.

You have talked about openness and transparency in your answers today. However, it is regrettable that there continues to be a lack of openness about the programme for government. In particular, you may recall your speech to the Assembly about setting up the delivery unit. There is nothing in this report that indicates what key performance indicators your delivery unit is using. In fact, there are very few key performance indicators throughout the report. Perhaps you would like to explain why you continue to stonewall, when you said only today that you were willing to be judged on the situation as it is. If you are willing for those data to be open and transparent, you should release them.

Rydych wedi sôn am fod yn agored ac yn dryloyw yn eich atebion heddiw. Fodd bynnag, mae'n anffodus bod diffyg o hyd o ran bod yn agored o safbwynt y rhaglen lywodraethu. Yn benodol, efallai y cofiwch eich araith i'r Cynulliad am sefydlu'r uned gyflenwi. Nid oes dim yn yr adroddiad hwn sy'n dangos pa ddangosyddion perfformiad allweddol y mae eich uned gyflawni yn eu defnyddio. Yn wir, ychydig iawn o ddangosyddion perfformiad allweddol sydd drwy gydol yr adroddiad. Efallai yr hoffech egluro pam yr ydych yn dal i wrthod ymateb, a chithau wedi dweud heddiw eich bod yn barod i gael eich barnu ar y sefyllfa fel y mae. Os ydych yn fodlon i'r data hynny fod yn agored ac yn dryloyw, dylech eu rhyddhau.

The report talks about the gross value added figures, which are described as having improved in absolute terms. I realise that Alun Ffred Jones raised this earlier, but as Kirsty Williams suggested, if the figures had been benchmarked against our comparators, the real information is that Wales fell significantly behind the rest of the UK in terms of GVA per head, and that the figure is the lowest among the devolved countries and the English regions.

Mae'r adroddiad yn sôn am y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth; dywedir eu bod wedi gwella mewn termau absoliwt. Rwyf yn sylweddoli bod Alun Ffred Jones eisoes wedi codi hyn, ond fel yr awgrymodd Kirsty Williams, pe bai'r ffigurau wedi'u meincnodi yn erbyn ein cymaryddion, y wybodaeth go iawn yw bod Cymru ar ei hôl hi'n sylweddol o gymharu â gweddill y DU o ran GYC y pen, a bod y ffigur yr isaf ymhlith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

Many may well ask where the results on broadband are for communities in rural Wales. The programme for government stated that rural communities should have acceptable access to broadband, that notspots should be eliminated and that there should be fair and equal access to higher broadband speeds across the whole of Wales. However, the reality is that while superfast broadband is rolled out elsewhere, rural communities and businesses still lack a reliable basic service. There are an estimated 90,000 homes in Wales that do not receive even a basic 2 Mbps broadband service. More than 800 of the 5,000 people who applied for funding under the Welsh Government's broadband support scheme by March of this year have been turned down.

Mae'n siŵr y bydd llawer yn gofyn ble mae'r canlyniadau ar fand eang ar gyfer cymunedau yng Nghymru wledig. Roedd y rhaglen lywodraethu'n datgan y dylai cymunedau gwledig gael mynediad derbyniol i fand eang, y dylid dileu mannau gwan ac y dylid cael mynediad teg a chyfartal at gyflymder band eang uwch ledled Cymru. Fodd bynnag, y realiti yw, er bod band eang cyflym iawn yn cael ei gyflwyno mewn mannau eraill, fod cymunedau a busnesau gwledig yn dal heb wasanaeth sylfaenol dibynadwy. Amcangyfrif bod 90,000 o gartrefi yng Nghymru nad ydynt yn derbyn hyd yn oed wasanaeth band eang sylfaenol 2 Mbps. Mae mwy nag 800 o'r 5,000 o bobl a wnaeth gais am gyllid dan gynllun cymorth band eang Llywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth eleni wedi eu gwrthod.

On your bovine TB strategy, more than 9,000 cattle were slaughtered last year—an annual increase of 15%. The programme for government said that the Welsh Government's approach would be science-led, but the u-turn on the previous eradication policy, which had cross-party support, has led to the resignation of your own scientific adviser and the co-chair of the Welsh Government's science advisory council.

O ran eich strategaeth TB mewn gwartheg, cafodd dros 9,000 o wartheg eu difa y llynedd—15% o gynnydd blynyddol. Roedd y rhaglen lywodraethu'n dweud y byddai ymagwedd Llywodraeth Cymru'n cael ei harwain gan wyddoniaeth, ond mae'r tro pedol ar y polisi dileu blaenorol, a'i gefnogaeth drawsbleidiol, wedi arwain at ymddiswyddiad eich ymgynghorydd gwyddonol eich hun a chyd-gadeirydd cyngor ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar wyddoniaeth.

Finally, on fuel poverty, a quarter of all households were affected this winter. That figure will be even higher in rural areas, which have a greater proportion of hard-to-heat homes and no access to mains gas, so they do not have the opportunity to switch to better tariffs on dual-fuel schemes. The programme for government continues to be undermined by the Welsh Government's reluctance to hold itself accountable and set clear, measurable targets. We have the information, but we cannot see whether or not those results are a result of your policy, other policies elsewhere, or nothing to do with the Government at all. That transparency and those data need to be provided to the Assembly.

Yn olaf, o ran tlodi tanwydd, effeithiwyd ar chwarter yr holl aelwydydd y gaeaf hwn. Bydd y ffigur hwnnw hyd yn oed yn uwch mewn ardaloedd gwledig, lle ceir cyfran uwch o gartrefi sy'n anodd eu gwresogi ac nad yw'r prif gyflenwad nwy ar gael iddynt, sy'n golygu nad ydynt yn cael cyfle i newid i well tariffau ar gynlluniau tanwydd deuol. Mae'r rhaglen lywodraethu'n parhau i gael ei thanseilio gan amharodrwydd Llywodraeth Cymru i'w dal ei hun yn atebol a gosod targedau clir, mesuradwy. Mae'r wybodaeth gennym, ond ni allwn weld a yw'r canlyniadau hynny'n digwydd oherwydd eich polisi chi, polisïau eraill mewn mannau eraill, neu'n ddim byd i'w wneud â'r Llywodraeth o gwbl. Mae angen darparu'r tryloywder a'r data hynny i'r Cynulliad.

16:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am surprised that the Member says that she was not aware of the document, because others in the Chamber were, and the leader of the Liberal Democrats was. It is a matter for her as to whether she accessed the annex in time. She accused us of not being open, but I am looking at 173 pages of information and indicators. I am looking at them now. [Interruption.] I can see them. If the leader of the opposition wants the web address, I can give it to him. It is there; I am looking at them. If he has not been bothered to look at it, it is a matter for him, is it not? There is our openness, and I am sure that, in time, as Alun Ffred Jones said, there will be further questions as a result of the 173 pages that everyone else can access, but apparently those on the Conservative benches cannot.

Rwyf yn synnu bod yr Aelod yn dweud nad oedd yn ymwybodol o'r ddogfen, oherwydd roedd pobl eraill yn y Siambr yn ymwybodol ohoni, gan gynnwys arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Mater iddi hi oedd sicrhau ei bod yn gweld yr atodiad mewn pryd. Mae hi wedi ein cyhuddo o beidio â bod yn agored, ond rwyf yn edrych ar 173 o dudalennau o wybodaeth a dangosyddion. Rwyf yn edrych arnynt nawr. [Torri ar draws.] Gallaf eu gweld. Os hoffai arweinydd yr wrthblaid gael y cyfeiriad ar y we, gallaf ei roi iddo. Mae yno; rwyf yn edrych arnynt. Os nad yw wedi trafferthu i edrych arnynt, mater iddo ef yw hynny, does bosibl? Dyma ni'n bod yn agored, ac rwyf yn siŵr, ymhen amser, fel y dywedodd Alun Ffred Jones, y bydd mwy o gwestiynau yn sgil y 173 o dudalennau sydd ar gael i bawb arall, heblaw'r rheini ar y meinciau Ceidwadol, mae'n debyg.

When it comes to GVA figures, I must apologise to Alun Ffred Jones, who asked me about the gathering of Welsh GVA figures. I see that he has gone now, but this is something that I am still looking at with the chief economist to see how practical that might be. The Member said that GVA figures have dropped, but they have not dropped, nor have they dropped in relation to rest of the UK over the course of the past year. Once again, those figures need to be looked at—[Interruption.] No, not even per head. Those figures need to be looked at very carefully on her part.

O ran ffigurau GYC, rhaid imi ymddiheuro i Alun Ffred Jones, a ofynnodd imi ynghylch casglu ffigurau GYC Cymru. Gwelaf ei fod wedi gadael yn awr, ond mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn dal i edrych arno gyda'r prif economegydd i weld pa mor ymarferol y byddai hynny. Dywedodd yr Aelod fod ffigurau GYC wedi gostwng, ond nid ydynt wedi gostwng, ac nid ydynt wedi gostwng o gymharu â gweddill y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Unwaith eto, mae angen edrych ar y ffigurau hynny—[Torri ar draws.] Na, nid hyd yn oed y pen. Mae angen iddi edrych yn ofalus iawn ar y ffigurau hynny.

In terms of broadband, she will be aware, as Members are in this Chamber, that we have a commitment to provide 96% of homes and businesses in Wales with access to fast fibre broadband by the end of 2015. That is not a commitment matched anywhere else in the UK. It will mean that there are many rural communities in Wales that will have broadband that would never have had broadband had it been left to the market, because the market, quite frankly, is not interested in communities that small. That is a sign of our commitment to rural Wales.

O ran band eang, bydd hi'n ymwybodol, fel y mae Aelodau yn y Siambr hon, ein bod wedi ymrwymo i ddarparu mynediad i fand eang ffibr cyflym i 96% o gartrefi a busnesau yng Nghymru erbyn diwedd 2015. Nid yw hynny'n ymrwymiad yn unman arall yn y DU. Bydd yn golygu bod llawer o gymunedau gwledig yng Nghymru a fydd yn cael band eang na fyddent byth wedi cael band eang pe bai'n fater i'r farchnad, oherwydd nid oes gan y farchnad, a dweud y gwir, ddim diddordeb mewn cymunedau mor fach â hynny. Mae hynny'n arwydd o'n hymrwymiad i'r Gymru wledig.

In terms of bovine TB, I can tell her that, in her party's alternative programme for government—I do not know whether she has seen it—when it comes to bovine TB, it talks only about vaccination. You can see it for yourself. It talks about a science-led strategy leading to long-term vaccination. There is nothing whatsoever there about culling. She may not know this, because I do not know how far these things are shared in the Conservative group, but there is no mention of any strategy other than vaccination. Therefore, in reality, her party is supporting our plans. That is what its programme for government says.

O ran TB mewn gwartheg, gallaf ddweud wrthi, nad yw rhaglen lywodraethu amgen ei phlaid—nid wyf yn gwybod a yw wedi'i gweld—o ran TB mewn gwartheg, ond yn sôn am frechu. Gallwch weld drosoch eich hun. Mae'n sôn am strategaeth a arweinir gan wyddoniaeth sy'n arwain at frechu hirdymor. Nid oes dim byd o gwbl yno am ddifa. Efallai na fydd hi'n gwybod hyn, gan nad wyf yn gwybod i ba raddau y caiff y pethau hyn eu rhannu yn y grŵp Ceidwadol, ond nid oes sôn am ddim un strategaeth heblaw brechu. Felly, mewn gwirionedd, mae ei phlaid hi'n cefnogi ein cynlluniau. Dyna y mae ei rhaglen lywodraethu'n ei ddweud.

In terms of energy bills, it is right to say that there are people who find it very difficult to pay oil bills at the moment, but there is a duty on the UK Government as well to ensure that heating bills come down, particularly when it comes to oil. We cannot continue with the situation where energy in the UK is perceived to be far more expensive than in other places in Europe. That is bound to be of disadvantage to us in the future. Time and again, the Minister and I hear from companies that are looking to invest here or from those who are already in Wales that our energy prices are far too high. That must be addressed. We have made this point to numerous UK Government Ministers as well.

O ran biliau ynni, mae'n wir dweud bod rhai pobl yn ei chael yn anodd iawn talu biliau olew ar hyn o bryd, ond mae'n ddyletswydd hefyd ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod biliau gwresogi yn gostwng, yn enwedig o ran olew. Ni allwn barhau â'r sefyllfa lle ystyrir bod ynni yn y DU yn llawer mwy costus nag mewn mannau eraill yn Ewrop. Mae hynny'n sicr o beri anfantais inni yn y dyfodol. Dro ar ôl tro, mae'r Gweinidog a minnau'n clywed gan gwmnïau sy'n awyddus i fuddsoddi yma, neu gan y rheini sydd eisoes yng Nghymru, fod ein prisiau ynni yn rhy uchel o lawer. Rhaid unioni hynny. Rydym wedi gwneud y pwynt hwn i nifer o Weinidogion Llywodraeth y DU yn ogystal.

On that basis, I do not think that there is much that I can add to what she has said, other than to say that she should look at her party's alternative programme for government and she will see there what it says about bovine TB.

Felly, nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu rhyw lawer at yr hyn y mae wedi'i ddweud, ac eithrio dweud y dylai edrych ar raglen lywodraethu amgen ei phlaid i weld beth y mae'n ei ddweud am TB mewn gwartheg.

16:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have time for one last contribution. There is one minute for one question. I call on Mark Isherwood. [Laughter.]

Mae gennym amser i gael un cyfraniad olaf. Mae un munud ar gyfer un cwestiwn. Galwaf ar Mark Isherwood. [Chwerthin.]

16:13 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that you will allow for the laughter in my minute.

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn caniatáu ar gyfer y chwerthin yn fy munud.

First Minister, why does your annual report refer to an increase in the rate of new house building between 2010-11 and 2011-12, when the official figures from the National House-Building Council, which is a non-profit organisation, show that, in fact, the 2011-12 figures were down on the previous year, which were themselves down from the year before that? In fact, the first quarter of this year was still 50% down on 2007 and lagging behind the rates across the rest of the UK.

Brif Weinidog, pam mae eich adroddiad blynyddol yn cyfeirio at gynnydd yng nghyfradd adeiladu tai newydd rhwng 2010-11 a 2011-12, pan fo'r ffigurau swyddogol gan y Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol, sy'n sefydliad dielw, yn dangos, mewn gwirionedd, bod ffigurau 2011-12 yn is na'r flwyddyn flaenorol, a bod y rheini'n is na'r flwyddyn cyn hynny? Yn wir, roedd chwarter cyntaf eleni'n dal i fod 50% yn is na 2007 ac yn llusgo y tu ôl i'r cyfraddau ledled gweddill y DU.

16:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The rate of new house building did increase between 2010-11 and 2011-12. That growth came from a recovery in the private sector. We have no reason to suggest that the figures that we included in our own annex are incorrect.

Fe gynyddodd cyfraddau adeiladu tai newydd rhwng 2010-11 a 2011-12. Daeth y twf hwnnw o adferiad yn y sector preifat. Nid oes gennym reswm i awgrymu bod y ffigurau sydd gennym yn ein hatodiad ein hunain yn anghywir.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

16:14

## Pwynt o Drefn

## Point of Order

Senedd.tv Fideo Video

**Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I would like to raise a point of order regarding the availability of the information that the First Minister has alluded to, which has supposedly been made available to Members. The annex that the First Minister alluded to that would support this document was not available for consideration by Members until 3.40 p.m. I believe that this statement started at 3.20 p.m. Throughout his responses, the First Minister has alluded to Members' ability to access more information if they needed to do so. Could the Deputy Presiding Officer confirm who governs the supporting documents so that Members can question Government Ministers? If it is found that the First Minister was under the wrong impression about these documents being available, will he apologise for his inaccuracies?

Hoffwn godi pwynt o drefn ynghylch argaeledd y wybodaeth y mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio ati, ac sydd yn ôl pob sôn ar gael i'r Aelodau. Nid oedd yr atodiad y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato a fyddai'n ategu'r ddogfen hon ar gael i'r Aelodau ei ystyried tan 3:40 p.m. Credaf i'r datganiad hwn ddechrau am 3:20 p.m. Drwy gydol ei ymatebion, mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at allu'r Aelodau i gael mwy o wybodaeth pe bai angen iddynt wneud hynny. A allai'r Dirprwy Lywydd gadarnhau pwy sy'n rheoli'r dogfennau ategol fel y gall yr Aelodau holi Gweinidogion y Llywodraeth? Os ceir bod y Prif Weinidog dan gamargraff am argaeledd y dogfennau hyn, a wnaiff ymddiheuro am ei gamgymeriadau?

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you want to make any response, First Minister?

A ydych am ymateb, Brif Weinidog?

16:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no reason to doubt what I have said, but I will of course investigate the matter.

Nid oes dim rheswm i amau'r hyn yr wyf wedi'i ddweud, ond byddaf wrth gwrs yn ymchwilio i'r mater.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We obviously expect all documentation that is referred to in statements to be available. There is some doubt as to what was available this afternoon. We will all review the Record. I am sure that any oversight, if it did occur, was just that and was inadvertent and the First Minister and other Ministers will take note. At the moment, I would have to review the Record and what happened in terms of the documents before I could make a final judgment.

Rydym wrth gwrs yn disgwyl i bob dogfen y cyfeirir ati mewn datganiadau fod ar gael. Mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch yr hyn a oedd ar gael y prynhawn yma. Byddwn i gyd yn edrych ar y Cofnod. Rwyf yn siŵr bod unrhyw gamgymeriad, os bu camgymeriad, yn ddim ond camgymeriad ac yn anfwriadol, a bydd y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill yn cymryd sylw o hynny. Ar hyn o bryd, byddai'n rhaid imi edrych ar y Cofnod a'r hyn a ddigwyddodd o ran y dogfennau cyn imi lunio barn derfynol.

16:16

## Datganiad: Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ac Ymateb i'r Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur

## Statement: The Pollinator Action Plan and Response to the State of Nature Report

Senedd.tv Fideo Video

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

More than half the wildlife species found in the UK are declining and a large number of them are threatened with extinction, according to the recent 'State of Nature' report, which has brought together the work of many different environmental organisations.

Mae mwy na hanner y rhywogaethau bywyd gwyllt a geir yn y DU yn dirywio ac mae nifer fawr ohonynt mewn perygl o ddiflannu, yn ôl adroddiad diweddar 'State of Nature', sydd wedi dwyn gwaith llawer o wahanol sefydliadau amgylcheddol ynghyd.

*Daeth Angela Burns i'r Gadair am 4.16 p.m.*

*Angela Burns took to the Chair at 4.16 p.m.*

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

Although the report presents some notable conservation success stories, such as increases in species such as horseshoe bat, red kite and otter, the report clearly highlights dramatic declines in a range of species. It is clear that we cannot have more of the same or continue as we are. I will, therefore, be hosting a summit at the Royal Welsh Show to discuss our ambition, the need for change, and how we can take this forward together. I have invited the organisations that contributed to the report to join with others, especially those who make their living from our land and sea and who are the stewards of our biodiversity, to put forward suggestions on what collective action can be taken to address these important issues. As a first step we need to improve the robustness of our Welsh data. We will, therefore, produce an audit of the data we have available in Wales to start working towards benchmarking our progress in time for the summit.

Er bod yr adroddiad yn cyflwyno rhai hanesion o lwyddiant cadwraeth nodedig, megis cynnydd mewn rhywogaethau fel ystlumod trwyn pedol, y barcud a'r dyfrgi, mae'r adroddiad yn dangos yn glir y ceir dirywiad dramatig mewn ystod o rywogaethau. Mae'n amlwg na allwn gael mwy o'r un fath na pharhau ar yr un trywydd. Byddaf, felly, yn cynnal uwchgynhadledd yn Sioe Frenhinol Cymru i drafod ein huchelgais, yr angen am newid, a sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn gyda'n gilydd. Rwyf wedi gwahodd y sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad i ymuno ag eraill, yn enwedig y rhai sy'n ennill eu bywoliaeth oddi ar ein tir a'n môr ac sydd yn stiwardiaid i'n bioamrywiaeth, i roi awgrymiadau ar ba gamau gweithredu ar y cyd y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn. Fel cam cyntaf, mae angen i ni sicrhau bod y data ar gyfer Cymru'n fwy cadarn. Byddwn, felly, yn cynnal archwiliad o'r data sydd ar gael yng Nghymru i ddechrau gweithio tuag at feincnodi ein datblygiad mewn pryd ar gyfer yr uwchgynhadledd.

As Minister for the new natural resources and food portfolio, I am committed to ensuring that opportunities for the environment and the economy go hand in hand. Good environmental practice is good economic practice. I am concerned that too often we have put the two issues in opposition, both in the way in which we have regulated nature, and the way in which economic activity impacts on our environment. My new department of natural resources and food, the new Natural Resources Wales and our future environment Bill provide a platform to deliver on this. It will offer new ways of managing land and water that provide multiple benefits and generate new markets and income from environmental services. I am currently looking hard at how the next rural development plan can support interventions that deliver viable farm and forestry businesses while also delivering positive environmental outcomes. This is what businesses in other sectors are already looking to do, namely making money by being more resource efficient, reducing their waste, and increasing their resilience to environmental changes.

Fel y Gweinidog dros y portffolio newydd ar gyfer cyfoeth naturiol a bwyd, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer yr amgylchedd a'r economi yn mynd law yn llaw. Mae arfer amgylcheddol da yn arfer economaidd da. Rwyf yn pryderu ein bod yn rhy aml yn gorfod gosod y ddau fater yn groes i'w gilydd, yn y ffordd yr ydym wedi rheoleiddio natur, a'r ffordd y mae gweithgarwch economaidd yn effeithio ar ein hamgylchedd. Mae fy adran newydd ar gyfer cyfoeth naturiol a bwyd, y sefydliad newydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Bil amgylchedd yn y dyfodol yn darparu llwyfan i gyflawni hyn. Bydd yn cynnig ffyrdd newydd o reoli tir a dŵr sy'n darparu buddion lluosog ac yn creu marchnadoedd ac incwm newydd o wasanaethau amgylcheddol. Rwyf ar hyn o bryd yn edrych yn fanwl ar sut y gall y cynllun datblygu gwledig nesaf gefnogi ymyriadau sy'n sicrhau busnesau fferm a choedwigaeth hyfyw yn ogystal â chyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Dyma beth mae busnesau mewn sectorau eraill eisoes yn ceisio ei wneud, sef gwneud arian trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan leihau eu gwastraff, a chynyddu eu gallu i wrthsefyll newidiadau amgylcheddol.

The Welsh Government is committed to delivering the European Union biodiversity strategy commitment of halting and, where possible, reversing the decline of biodiversity by 2020. However, in this complex area, this is not something we can achieve alone. Our new biodiversity strategy board met for the first time last week. This will help to identify and set much clearer priorities for biodiversity action in Wales, and to support the development of a biodiversity strategy for Wales to ensure that priorities are effectively delivered. The role of Natural Resources Wales, the Wales biodiversity partnership, together with the identification of appropriate actions under the next rural development plan, will be crucial in making this happen. I also announced last week that I am making £1.5 million available over the next two years for practical projects through the resilient ecosystems fund. The forthcoming environment Bill will also equip Natural Resources Wales with a consistent set of powers to support the sustainable use of land and water.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r ymrwymiad yn strategaeth bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd o atal a, lle bo modd, gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2020. Fodd bynnag, yn y maes cymhleth hwn, nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain. Cyfarfu ein bwrdd strategaeth bioamrywiaeth newydd am y tro cyntaf yr wythnos diwethaf. Bydd hyn yn helpu i nodi a phennu blaenoriaethau llawer cliriach ar gyfer gweithredu ym maes bioamrywiaeth yng Nghymru, ac i gefnogi datblygiad strategaeth bioamrywiaeth ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd rôl Cyfoeth Naturiol Cymru, sef partneriaeth bioamrywiaeth Cymru, ynghyd â chamau gweithredu priodol o dan y cynllun datblygu gwledig nesaf, yn hanfodol i wneud i hyn ddigwydd. Hefyd cyhoeddais yr wythnos diwethaf fy mod yn trefnu bod £1.5 miliwn ar gael dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer prosiectau ymarferol drwy'r gronfa cryfder ecosystemau. Bydd y Bil amgylchedd arfaethedig hefyd yn rhoi set gyson o bwerau i sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r defnydd cynaliadwy o dir a dŵr.

A positive example of how a co-operative approach can be applied is through the development of the action plan for pollinators. Pollination has been valued at £430 million in the United Kingdom, and the cost of hand pollination, if we were to lose this valuable service, has been estimated at £1.8 billion per year to the UK. Pollinators are important in Wales for the production of crops and the diversity of plant species, habitats and wildlife. Pollinators make an important contribution to our economy and make Wales a better place for people to enjoy, visit and live.

Un enghraifft gadarnhaol o sut y gellir defnyddio dull cydweithredol yw datblygiad y cynllun gweithredu ar gyfer pryfed peillio. Pennwyd gwerth o £430 miliwn i beillio yn y Deyrnas Unedig, ac amcangyfrifwyd y byddai peillio â llaw, pe byddem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn i'r DU. Mae peillwyr yn bwysig yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu cnydau ac ar gyfer amrywiaeth ein rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae peillwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'n heconomi ac yn gwneud Cymru'n lle gwell i bobl ei fwynhau, ymweld ag ef a byw ynddo.

The action plan identifies the main pressures on pollinators, and suggests the outcomes and actions needed to address them. These are: creating and promoting diverse and connected flowering habitats across farmland, the wider countryside and the urban environment; supporting healthy populations of pollinators in Wales; better informing people of the importance of pollinators and their management; and joining up policy and putting in place governance to support pollinators based on a sound evidence base. The audit of biodiversity data will be the first step towards achieving this.

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r prif bwysau ar beillwyr, ac yn awgrymu'r canlyniadau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i ymdrin â hwy. Y rhain yw: creu a hybu cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir amaeth, cefn gwlad ehangach a'r amgylchedd trefol; cynnal poblogaethau iach o beillwyr yng Nghymru; hysbysu pobl yn well am bwysigrwydd peillwyr a'u rheolaeth; a chydgysylltu polisi a sefydlu trefniadau llywodraethu i gefnogi peillwyr yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Archwiliad o ddata bioamrywiaeth fydd y cam cyntaf tuag at gyflawni hyn.

I am pleased that in this European Week of Bees and Pollination, I can present a clear steer with a message that pollination is an essential service provided by the environment that we do not want to lose and cannot afford to lose. The consultation on the draft plan closes today, and has been well received. The plan is the first of its kind, and provides a good example of how an ecosystem service can be provided through many of our other policies and strategies.

Rwyf yn falch o allu cyflwyno cyfeiriad clir, a hithau'n Wythnos Ewropeaidd Gwenyn a Pheillio, gyda neges fod peillio yn wasanaeth hanfodol a ddarperir gan yr amgylchedd nad ydym eisiau ei golli ac na allwn fforddio ei golli. Daw'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft i ben heddiw, ac mae wedi cael derbyniad da. Y cynllun hwn yw'r cyntaf o'i fath, ac mae'n darparu enghraifft dda o sut y gellir darparu gwasanaeth ecosystem drwy lawer o'n polisïau a'n strategaethau eraill.

Many actions have been identified which the consultation responses will help to prioritise. A task and finish group will take forward the implementation of the plan, and I will announce the next steps when I launch the final action plan for pollinators at the Royal Welsh Show.

Mae nifer o gamau wedi cael eu nodi, a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i'w blaenoriaethu. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun, a byddaf yn cyhoeddi'r camau nesaf pan fyddaf yn lansio'r cynllun gweithredu terfynol ar gyfer pryfed peillio yn Sioe Frenhinol Cymru.

16:21

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Antoinette Sandbach.

Galwaf Antoinette Sandbach.

16:21

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for this statement. The 'State of Nature' report paints an alarming picture of Welsh wildlife and the environment. However, it is edged with a note of caution. It said that it was only able to present quantitative trends for about 5% of the UK's species. It is important to note that farmland bird species continue to decline. They are found in fewer places than at any time in the last two decades, and one in six plant species are threatened in Wales. Almost 60% of Welsh flowering plants are declining, which poses a particular threat to insect pollinators.

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad hwn. Mae adroddiad 'State of Nature' yn rhoi darlun brawychus o fywyd gwyllt Cymru a'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae ynddo hefyd nodyn o rybudd. Mae'n dweud nad oedd ond yn gallu cyflwyno tueddiadau meintiol ar gyfer tua 5% o rywogaethau'r DU. Mae'n bwysig nodi bod rhywogaethau adar tir amaeth yn parhau i ostwng. Maent i'w gweld mewn llai o leoedd nag ar unrhyw adeg yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, ac mae un o bob chwech o rywogaethau planhigion dan fygythiad yng Nghymru. Mae bron i 60% o blanhigion blodeuol Cymru yn dirywio, sy'n peri bygythiad arbennig i bryfed peillio.

However, there are some quick wins that you could get, Minister. I do not know if you are aware of the Plantlife campaign that encourages local councils not to cut their grass verges. That has two wins: it is a win on the wildlife front as it would create wildlife corridors, and it is cheaper for councils because they would save money. I would urge you to look at that.

Fodd bynnag, mae rhai buddugoliaethau cyflym y gallech eu cael, Weinidog. Nid wyf yn gwybod a ydych yn ymwybodol o'r ymgyrch Plantlife sy'n annog cynghorau lleol i beidio â thorri eu lleiniau glas. Mae i hynny ddwy fantais: mae'n fantais o ran bywyd gwyllt gan y byddai'n creu coridorau bywyd gwyllt, ac mae'n rhatach i gynghorau oherwydd y byddent yn arbed arian. Byddwn yn eich annog i edrych ar hynny.

I listened with interest to your comments on the draft action plan for pollinators. As you know, I have my Bee Aware debate next week, and I look forward to discussing this in greater detail during my debate on bees, pollinators and science next week. The draft action plan has many welcome proposals, particularly in recognising the value of pollination in policy and getting guidance to farmers and landowners through Farming Connect and National Resources Wales. However, there is only a commitment for additional funding towards the national bee unit, which concentrates on managed honey bees. Will you look at widening that out to support the monitoring of other wild pollinators, as one of the main difficulties in understanding the threats to pollinators is the lack of good data?

Gwrandewais â diddordeb ar eich sylwadau ar y cynllun gweithredu drafft ar gyfer pryfed peillio. Fel y gwyddoch, mae gennyf fy nadl Gwybod am y Gwenyn yr wythnos nesaf, ac edrychaf ymlaen at drafod hyn yn fanylach yn ystod fy nadl ar wenyn, peillwyr a gwyddoniaeth yr wythnos nesaf. Mae llawer o gynigion derbyniol yn y cynllun gweithredu drafft, yn enwedig o ran cydnabod gwerth peillio mewn polisi a chael arweiniad i ffermwyr a thirfeddianwyr drwy Gyswllt Ffermio a Chyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, ni cheir ond ymrwymiad i roi cyllid ychwanegol tuag at yr uned wenyn genedlaethol, sy'n canolbwyntio ar wenyn mêl a reolir. A wnewch chi ystyried ehangu hwnnw i gefnogi'r gwaith o fonitro peillwyr gwyllt eraill, gan mai un o'r prif anawsterau er mwyn deall y bygythiadau i beillwyr yw'r diffyg data da?

Can you also state whether you are willing to look at more innovative ideas to improve the availability of habitat and food sources for pollinators, such as partnerships between landowners, the third sector and local volunteers, such as sowing wildflowers on unproductive pieces of farmland? I note your £1.5 million fund for the resilient—

A allwch chi hefyd ddweud a ydych yn barod i edrych ar syniadau mwy arloesol i sicrhau bod cynefinoedd a ffynonellau bwyd ar gael ar gyfer peillwyr, megis partneriaethau rhwng tirfeddianwyr, y trydydd sector a gwirfoddolwyr lleol, megis hau blodau gwyllt ar ddarnau anghynhyrchiol o dir fferm? Sylwaf ar eich £1.5 miliwn ar gyfer y gronfa—

16:23

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:23

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is a statement.

Trefn. Datganiad yw hwn.

16:23

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I note the £1.5 million for the resilient ecosystems fund, but could you create a smaller fund that could be accessed easily and simply by local groups to do small-scale projects, whether they are landowners or others, so that one-on-one projects could be easily done?

Nodaf y £1.5 miliwn ar gyfer y gronfa cryfder ecosystemau, ond a allech chi greu cronfa lai y gellid ei defnyddio yn hawdd ac yn syml gan grwpiau lleol, p'un ai'n dirfeddianwyr neu eraill, i gynnal prosiectau ar raddfa fach fel y gellid cynnal prosiectau un ar un yn hawdd?

Can you confirm whether you will reconsider your approach to Glastir to develop an entry-level scheme that is simpler and easier for farmers to enter, as without participation from farmers in agri-environment schemes, particularly broader participation, it is unlikely that declines in biodiversity will be reversed?

A allwch chi gadarnhau pa un a fyddwch yn ailystyried eich agwedd at Glastir i ddatblygu cynllun lefel mynediad sy'n symlach ac yn haws i ffermwyr fanteisio arno, oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd dirywiad mewn bioamrywiaeth yn cael ei wrthdroi heb i ffermwyr gymryd rhan, a chymryd rhan ehangach yn arbennig, mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd?

Finally, the 'State of Nature' report also highlights the value of the uplands, as well as specific threats to wildlife from land abandonment and the loss of traditional management practices. Will you confirm your willingness to consider introducing a dedicated support scheme for upland areas under the next rural development plan, as recommended by your Government's uplands forum? I do not know if you heard that last question, Minister, but that was my final question. Thank you.

Yn olaf, mae'r adroddiad 'State of Nature' hefyd yn tynnu sylw at werth yr ucheldir, yn ogystal â bygythiadau penodol i fywyd gwyllt yn sgil gadael tir yn segur a cholli arferion rheoli traddodiadol. A wnewch chi gadarnhau eich parodrwydd i ystyried cyflwyno cynllun cymorth penodol ar gyfer ardaloedd yr ucheldir o dan y cynllun datblygu gwledig nesaf, fel yr argymhellwyd gan fforwm ucheldiroedd eich Llywodraeth? Nid wyf yn gwybod a wnaethoch chi glywed y cwestiwn diwethaf, Weinidog, ond dyna oedd fy nghwestiwn olaf. Diolch yn fawr.

16:24

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Antoinette, and please accept my apologies for not introducing you correctly as the spokesperson for the Welsh Conservatives.

Diolch i chi, Antoinette, a derbyniwch fy ymddiheuriadau os gwelwch yn dda am beidio â'ch cyflwyno'n gywir fel y llefarydd ar ran y Ceidwadwyr Cymreig.

16:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the final point that Antoinette made, and I appreciate her very positive remarks on this matter, I think that when we look hard at what we are doing—I say 'we' in a wider sense, meaning Government and society; and I appreciate the points that you made about data issues—I think that we need to look at the much bigger picture of where we are going with biodiversity and what the report tells us in terms of broad trends and the data that are emerging from this work. It is clear that, from my point of view, we cannot carry on doing what we are doing, because what we are doing is not working. That means that we need to ask fundamental questions about how we manage the land in Wales. Sustainable land management processes that we have had in place, perhaps for generations, might need to be revisited, because we simply cannot carry on the way we are.

Ar y pwynt olaf a wnaeth Antoinette, ac rwyf yn gwerthfawrogi ei sylwadau cadarnhaol iawn ar y mater hwn, wrth edrych yn ofalus ar yr hyn yr ydym yn ei wneud—dywedaf 'ni' yn yr ystyr ehangach, sy'n golygu'r Llywodraeth a chymdeithas; ac rwyf yn gwerthfawrogi'r pwyntiau a wnaethoch ynglŷn â data—credaf fod angen inni edrych ar y darlun mwy o ran ble'r ydym yn mynd gyda bioamrywiaeth a'r hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud wrthym o ran tueddiadau eang a'r data sy'n deillio o'r gwaith hwn. Mae'n amlwg, o'm safbwynt i, na allwn barhau i wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud, oherwydd nad yw'r hyn yr ydym yn ei wneud yn gweithio. Mae hynny'n golygu bod angen i ni ofyn cwestiynau sylfaenol am sut yr ydym yn rheoli tir yng Nghymru. Efallai y bydd raid ailystyried prosesau rheoli tir cynaliadwy sydd wedi bod ar waith, efallai am genedlaethau, oherwydd na allwn barhau fel ag yr ydym.

So, yes, I will review Glastir and the points that you have raised. We need to carry out a review in any case, to ensure that the new Glastir fits within the new CAP arrangements. I hope that the new CAP will be agreed by the end of this month. If that is so, then I will look towards bringing forward any review of Glastir, to make it easier for people to enter. That is a fair point; I think that it needs to be less complex. It also needs to focus on the habitats that are crucial to us and that we are clearly not preserving or enhancing at the moment.

Felly, byddaf, fe fyddaf yn adolygu Glastir a'r pwyntiau yr ydych wedi'u codi. Mae angen i ni gynnal adolygiad beth bynnag, er mwyn sicrhau bod y Glastir newydd yn cyd-fynd â threfniadau newydd y PAC. Rwyf yn gobeithio y bydd y PAC newydd yn cael ei gytuno erbyn diwedd y mis hwn. Os felly, byddaf yn edrych tuag at ddwyn ymlaen unrhyw adolygiad o Glastir, i'w gwneud yn haws i bobl gymryd rhan. Mae hwnnw'n bwynt teg; rwyf yn meddwl bod angen iddo fod yn llai cymhleth. Mae angen hefyd iddo ganolbwyntio ar y cynefinoedd sy'n hanfodol inni ac nad ydym yn amlwg yn eu cadw nac yn eu gwella ar hyn o bryd.

This is why I wanted to bring forward a response to the 'State of Nature' report—and not wait until the autumn—and focus a debate on this in the Royal Welsh Show. The matters that it reports upon are simply too important for us to put to one side. The points that you make, from grass verges to the Bee Aware debate next week, are certainly issues that the Government will look at and that I personally, as a Minister, support. The innovative ideas that you have talked about in terms of partnerships and the widening funding issues are other issues that I certainly will consider. What is key for us is that we have a debate as a country, a nation and a people about how we manage our land. This needs to be a positive debate, not one in which fingers are pointed at any group of people, any profession or any particular landowners. We need to have a positive debate about working together as a society to ensure that, in the future, generations to come do not face the crisis of biodiversity that they are potentially facing if some of these figures are accurate.

Dyma pam yr wyf yn awyddus i gyflwyno ymateb i adroddiad 'State of Nature'—a pheidio ag aros tan yr hydref—a chanolbwyntio trafodaeth ar hyn yn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r materion y mae'n eu trafod, yn syml, yn rhy bwysig i ni eu rhoi i un ochr. Mae'r pwyntiau a wnewch, o leiniau glas i'r ddadl Gwybod am y Gwenyn yr wythnos nesaf, yn sicr yn faterion y bydd y Llywodraeth yn edrych arnynt ac y byddaf i yn bersonol, fel Gweinidog, yn eu cefnogi. Mae'r syniadau arloesol yr ydych wedi sôn amdanynt o ran partneriaethau ac ehangu cyllid yn faterion eraill y byddaf yn sicr yn eu hystyried. Yr hyn sy'n allweddol i ni yw ein bod yn cael dadl fel gwlad, fel cenedl ac fel pobl am sut yr ydym yn rheoli ein tir. Mae angen i hon fod yn ddadl gadarnhaol, nid un ble mae bysedd yn cael eu pwyntio at unrhyw grŵp o bobl, unrhyw broffesiwn nac unrhyw dirfeddianwyr penodol. Mae angen inni gael dadl gadarnhaol ynglŷn â gweithio gyda'n gilydd fel cymdeithas i sicrhau, yn y dyfodol, nad yw cenedlaethau i ddod yn wynebu'r argyfwng bioamrywiaeth y gallent ei wynebu o bosibl os yw rhai o'r ffigurau hyn yn gywir.

16:27 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the spokesperson for Plaid Cymru, Llyr Huws Gruffydd.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Llyr Huws Gruffydd.

16:28 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r datganiad y mae'r Gweinidog wedi'i gyhoeddi heddiw. I ddweud y gwir, byddwn i'n taeru ei fod wedi darllen fy mlog i ar wefan Plaid Cymru ryw wythnos yn ôl, ond rwy'n siŵr bod ganddo bethau gwell i'w gwneud. Dyna'r union beth yr oeddwn i'n galw amdano hefyd y bore yma mewn cynhadledd i'r wasg. Felly, rwy'n croesawu'r uwchgynhadledd hon sydd wedi cael ei chyhoeddi yn y datganiad, oherwydd, yn rhy aml o lawer, mae'r drafodaeth yn cael ei pholareiddio rhwng cadwraeth ac amaethwyr. Rwy'n meddwl ei bod hi'n hen bryd inni gael deialog er mwyn gallu adeiladu ar y tir cyffredin ac er mwyn gallu mynd ati i wyntyllu rhai o'r meysydd lle mae anghydweld. Rwy'n gofyn ichi eto i ategu—er eich bod wedi gwneud yn eich ateb diwethaf—mai cychwyn proses ehangach yw hyn, nid un digwyddiad â ffanffer a phenawdau yn y sioe frenhinol, ond cychwyn proses hirach a fydd, yn y pen draw, yn caniatáu inni wireddu'r nod o wella cynhyrchiant yng Nghymru, a gwella bioamrywiaeth yr un pryd.

I welcome the statement made by the Minister today. I could have sworn that he had read my blog on the Plaid Cymru website around a week ago, but I am sure that he has better things to do with his time. These are the exact things that I was calling for in a press conference this morning. So, I welcome this summit that has been announced in today's statement, because, far too often, the debate is polarised between conservation and agriculture. I think that it is about time that we had a dialogue so that we can build on the common ground that exists, but also so that we can air some of the areas where there might be disagreement. I would ask you to highlight once again—although you have done so in your last response—that this is part of a wider process, not a single event with a fanfare and headlines at the Royal Welsh Show, but the start of a longer term process that will eventually allow us to achieve the aim of improving productivity in Wales, and improve biodiversity simultaneously.

Mae dwy broblem sylfaenol yn wynebu cefn gwlad, sef cydnerthedd y diwydiant amaethyddol, fel rydych wedi cydnabod wrth gyhoeddi adolygiad annibynnol o dan arweinyddiaeth Kevin Roberts, a hefyd yr hyn sydd wedi cael ei amlygu yn yr adroddiad hwn ynglŷn â chyflwr bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Wrth gwrs, mae datrysiad i'r ddwy her yn gorfod mynd law yn llaw, fel rydych wedi dweud. Fodd bynnag, hoffwn ofyn ichi esbonio sut fydd adolygiad annibynnol Kevin Roberts o gydnerthedd y diwydiant yn cyfrannu at y drafodaeth hon ac, efallai, at y digwyddiad yn y sioe.

There are two fundamental problems facing rural areas: the viability of the agriculture industry, as you have acknowledged in announcing an independent review led by Kevin Roberts, and also what has been highlighted in this report in terms of the state of biodiversity and wildlife. Of course, the solution to both challenges will have to go hand in hand, as you have already said. However, I would like to ask you to explain how an independent review led by Kevin Roberts of the viability of the industry will contribute to this debate and, perhaps, to the event that you have proposed in the show.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cynllun gweithredu drafft sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer pryfed peillio. Serch hynny, a ydych yn cytuno bod gwahardd neonicotinoids ar ei ben ei hun, fel sydd wedi digwydd, yn rhy simplistig i raddau, ac yn rhy 'one-dimensional', a bod angen ymateb llawer mwy holistig, fel sydd yn y cynllun drafft, sy'n cwmpasu nid dim ond bygythiad plaladdwyr, ond hefyd adfer cynefinoedd, iechyd nythod a bygythiad clefydau a pharasitiaid ac yn y blaen?

I also welcome the draft action plan that has been published for pollinators. Do you agree that banning neonicotinoids alone, as has happened, is too simplistic to an extent, and too one-dimensional, and that we need a far more holistic response, as in the draft scheme, which encompasses not just the threat of pesticides, but also the restoration of habitats, the health of nests, the threats of disease and parasites and so on?

Yng ngoleuni gwrthwynebiad Llywodraeth San Steffan i'r gwaharddiad, a fyddech chi'n cefnogi galwadau i ddatganoli'r rheolaeth sydd gan San Steffan dros blaladdwyr yng Nghymru? Efallai nad oeddech yn disgwyl y cwestiwn hwnnw, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich ateb. Yn sicr, edrychaf ymlaen at weld mabwysiadau cynllun gweithredu ar gyfer pryfed peillio, gan obeithio y bydd yn gynllun cynhwysfawr a chaiff ei gyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.

In the light of the Westminster Government's opposition to the ban, would you support calls to devolve the control that the Westminster Government has over pesticides in Wales? Perhaps you were not expecting that question, but I would be interested to hear your response. Certainly, I look forward to seeing the adoption of an action plan for pollinators in the hope that it will be a comprehensive plan that will be introduced as soon as possible.

16:30 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llyr, am eich geiriau caredig. Gobeithio na fyddaf yn eich siomi'n ormodol wrth ddweud nad wyf wedi darllen eich blog. Efallai gwnaf ymdrech i wneud ar ôl y drafodaeth hon. Roeddwn yn y Gelli am y rhan fwyaf o'r wythnos diwethaf, ac nid oedd 'access' i'r we gennyf. Felly, nid wyf wedi cael cyfle i drafod hyn gyda chi, ond hoffwn wneud.

Thank you, Llyr, for your kind words. I hope that I will not disappoint you too much in saying that I have not read your blog. I will make an effort to do so after this debate, perhaps. I was in Hay on Wye for most of last week, and I did not have access to the internet. So, I have not had an opportunity to discuss this with you, but I would like to do so.

Hoffwn gadarnhau'n gyntaf mai cychwyn ar broses hirach yw hwn, ond nid wyf eisiau i'r trafod fod yn broses hir dymor ychwaith. Mae angen inni drafod a chael y sgwrs genedlaethol hon amboutu sut i symud ymlaen, ond nid wyf eisiau i'r sgwrs honno barhau am y flwyddyn nesaf. Rwyf eisiau i ni gael sgwrs—sydd yn cael ei lansio heddiw, efallai—a chael y drafodaeth yn y sioe, ac wedyn symud ymlaen.

I would like to confirm first of all that this is the beginning of a longer process, but I do not want discussion to be a long-term process. We need to discuss and have this national conversation about to move forward, but I do not want that conversation to continue for the next year. I want us to have a conversation—which is being launched today, perhaps—and have the discussion in the show, and then to move forward.

Mae'n rhaid inni ystyried beth fyddwn yn ei wneud gyda Glastir, fel yr wyf wedi dweud mewn ymateb i Antoinette, ac mae'n rhaid i hynny fod yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Wedyn, mae'n rhaid i ni edrych ar y cynllun datblygu gwledig yn ei gyfanrwydd ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Fodd bynnag, rwyf eisiau sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar weithredu, ac edrych ar yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud ac ar ein cynlluniau, ac wedyn gweithredu'r cynlluniau. Nid wyf am dreulio'r misoedd a'r blynyddoedd nesaf yn trafod y 'crisis' sy'n ein hwynebu heb wneud dim byd amdano.

We need to consider what we are to do with Glastir, as I said in response to Antoinette, and that has to be central to what we are doing. Then, we need to look at the rural development plan in its entirety for the next seven years. However, I want to ensure that we concentrate on taking action, and look at what we can do and at our plans, and then implement the plans. I do not want to spend the next few months and years discussing the crisis that faces us without doing anything about it.

Felly, ie, cychwyn proses yw hwn, ond mae'n rhaid i'r broses ddod i ben ac mae'n rhaid inni weithredu. Rydych chi'n hollol gywir i ddweud bod y diwydiant amaethyddol yn rhan allweddol o hyn. Dyna'r union reswm y dywedais wrth Antoinette fy mod eisiau i hon fod yn broses bositif, lle'r ydym yn cydnabod ac yn deall yr her sydd yn ein hwynebu ac yn mynd ati i ymateb i hynny, a sicrhau ein bod yn gwneud hynny ar y cyd â'r diwydiant amaethyddol, y bobl sydd biau'r tir, a phoblogaeth Cymru, a sicrhau ein bod yn cydweithio. Credaf fod gan y Llywodraeth rôl yn arwain ar hyn, ond mae'n rhaid i ni gydweithio â phobl er mwyn gwneud hyn.

Therefore, yes, this is the beginning of a process, but the process will have to come to an end and we need to take action. You are quite right to say that the agriculture industry is a vital part of this. That is exactly why I said to Antoinette that I want this to be a positive process, whereby we recognise and understand the challenge that we face and go on to respond to that, and ensure that we do so in collaboration with the agriculture industry, the landowners, and the population of Wales, and ensure that we work together. I think that the Government has a role in leading on this, but we need to work with others to do this.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â Kevin Roberts, ar hyn o bryd rwy'n aros i glywed yr hyn sydd ganddo i'w ddweud. Rwy'n disgwyl adroddiad interim ganddo cyn diwedd y tymor hwn, ac, wedi i mi dderbyn hynny, byddaf yn hapus iawn i wneud datganiad pellach.

In terms of your question about Kevin Roberts, at present I am waiting to hear what he has to say. I expect an interim report from him before the end of this term, and, having received that, I will be very happy to make a further statement.

Rydych wedi gofyn am 'neonics'. Rydych chi'n gywir i ddweud, ac rwy'n cytuno, bod angen 'approach' tipyn yn fwy holistig. Hyd yn hyn, rwyf wedi cefnogi safbwynt y Deyrnas Unedig a'r 'approach' mae wedi ei gymryd a'r ffordd rydym wedi pleidleisio yng Nghyngor y Gweinidogion, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ystyried o ddifrif y dystiolaeth sydd gennym ac sy'n dod atom. Er ein bod wedi dilyn yr hyn sydd gan DEFRA i'w ddweud hyd at heddiw, rwyf yn ystyried i ble fyddwn yn mynd o hyn ymlaen. Efallai byddwn yn cymryd safbwynt tynnach yn y dyfodol nag yr ydym wedi ei gymryd hyd yn hyn, gan ddibynnu ar y fath o dystiolaeth a fydd gennym. Fodd bynnag, nid yw 'neonics' yn 'issue' mawr i ni yng Nghymru fel y maen nhw i rai yn Lloegr.

You asked about neonics. You are right to say, and I agree, that we need a more holistic approach. So far, I have supported the view of the UK and the approach that it has taken and the way that we have voted in the Council of Ministers, but I think that we need to seriously consider the evidence that we have and that we will receive. Although we have followed what DEFRA has to say so far, I am considering where we should go next. We may take a firmer stance in future than we have taken so far, depending on the evidence that we will have. However, neonics are not a major issue for us in Wales, as they are for some in England.

16:34

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the spokesperson for the Liberal Democrats, William Powell.

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, William Powell.

16:34 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to add my thanks to the Minister for his statement today, which is very timely in a number of ways. I also thank him for the sober and non-partisan tone that he has set today in the discussions, which is particularly valuable given the gravity of the situation, which the report released just a fortnight ago indicates. The announcement of this action plan by your predecessor last year was a welcome step, and I am pleased to see that you are now taking it forward in the new portfolio, and also stressing the central role that farmers have as custodians of the land and of our natural environment.

Hoffwn ychwanegu fy niolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw, sy'n amserol iawn mewn sawl ffordd. Rwyf hefyd yn diolch iddo am y naws bwyllog ac amhleidiol y mae wedi'i gosod heddiw yn y trafodaethau, sy'n arbennig o werthfawr o ystyried difrifoldeb y sefyllfa, fel y'i dangosir yn yr adroddiad a ryddhawyd dim ond pythefnos yn ôl. Roedd cyhoeddiad y cynllun gweithredu hwn gan eich rhagflaenydd y llynedd yn gam i'w groesawu, ac rwyf yn falch o weld eich bod yn awr yn symud ymlaen â hyn yn y portffolio newydd, a hefyd yn pwysleisio'r rôl ganolog sydd gan ffermwyr fel ceidwaid y tir a'n hamgylchedd naturiol.

Pollinators, as we are all aware, play a central role in our ecosystem and, without them, it would, effectively, collapse. It is for this reason that it is fitting that the consultation should be considered alongside the 'State of Nature' report, which was released so recently. That report contains, as has already been mentioned, a number of worrying statistics about the future of our environment, and those are addressed, in part at least, in the statement that you have made. In total, the report shows that more than one in six plant species is threatened in Wales and 38 flowering plants are believed to have become extinct in the last 50 years alone. Naturally, such data would worry anyone with any more than a passing interest in our pollinator species, especially when, as the data show, of Wales's 43 butterfly species, 10 are in severe decline and a further 17 are considered to be on a downward trend. However, there is also positive news, and one of the most heartening pieces of news is that the number of registered beekeepers seems to be on a generally upward trend.

Mae peillwyr, fel yr ydym i gyd yn ymwybodol, yn chwarae rhan ganolog yn ein hecosystem ac, hebddynt, byddai, i bob pwrpas, yn chwalu. Am y rheswm hwn, mae'n briodol ystyried yr ymgynghoriad ochr yn ochr ag adroddiad 'State of Nature', a ryddhawyd mor ddiweddar. Mae'r adroddiad, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cynnwys nifer o ystadegau sy'n peri gofid am ddyfodol ein hamgylchedd, a rhoddir sylw i'r rhain, yn rhannol o leiaf, yn y datganiad yr ydych wedi'i wneud. Drwyddi draw, mae'r adroddiad yn dangos bod mwy nag un o bob chwech o rywogaethau o blanhigion o dan fygythiad yng Nghymru a chredir bod 38 planhigyn blodeuol wedi diflannu yn y 50 mlynedd diwethaf yn unig. Yn naturiol, byddai data o'r fath yn poeni unrhyw un sydd â mwy na diddordeb didaro yn ein rhywogaethau peillwyr, yn enwedig pan fo'r data yn dangos bod 10 o'r 43 o rywogaethau glöynnod byw yng Nghymru yn dirywio'n ddifrifol, a bod y duedd ar gyfer 17 arall yn cael ei hystyried i fod ar i lawr. Fodd bynnag, mae newyddion cadarnhaol hefyd, ac un o'r darnau mwyaf calonogol o newyddion yw bod nifer y gwenynwyr cofrestredig yn ymddangos fel petai ar i fyny yn gyffredinol.

With those data in mind, I have a number of specific questions as to how you propose to take the action plan forward. The draft action plan states that an estimated 25% of beekeepers in Wales are not presently officially registered. Minister, do you consider that a lack of greater registration could have a negative impact on the effectiveness of the overall plan? What action could we take to encourage a greater level of registration so that we can communicate with that important sector of the community?

Gyda'r data hynny mewn golwg, mae gennyf nifer o gwestiynau penodol ynghylch sut yr ydych yn bwriadu symud y cynllun gweithredu yn ei flaen. Mae'r cynllun gweithredu drafft yn nodi bod tua 25% o wenynwyr Cymru heb eu cofrestru'n swyddogol ar hyn o bryd. Weinidog, a ydych o'r farn y gallai'r cynllun fod yn llai effeithiol yn gyffredinol os na cheir mwy o gofrestru? Pa gamau allwn ni eu cymryd i annog mwy o bobl i gofrestru fel y gallwn gyfathrebu â'r sector pwysig hwnnw o'r gymuned?

In addition, the move towards monocultures has been highlighted as a key factor in pollinators' decline, especially in our lowland areas. What further steps do you think are feasible in areas not covered by Glastir contracts to improve these areas and to improve the quality of the biodiversity?

Yn ogystal, amlygwyd y symudiad tuag at ffermio ungnwd fel ffactor allweddol yn nirywiad pryfed peillio, yn enwedig yn ein hardaloedd iseldir. Pa gamau ychwanegol sy'n ymarferol, yn eich barn chi, mewn ardaloedd nad ydynt yn dod o dan gontractau Glastir i wella'r ardaloedd hyn ac i wella ansawdd y fioamrywiaeth?

In terms of climate change, it is clear that we are facing an ever-shifting set of goalposts when it comes to monitoring species levels. To this end, will you please outline how you intend to strike an effective balance between understanding how pollinator species are being affected by human practices and understanding how they have been impacted by our changing climate?

O ran newid yn yr hinsawdd, mae'n amlwg bod y pyst gôl yn symud yn gyson pan ddaw'n fater o fonitro lefelau rhywogaethau. I'r perwyl hwn, a wnewch chi amlinellu sut yr ydych yn bwriadu sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng deall sut y mae rhywogaethau peillwyr yn cael eu heffeithio gan arferion pobl a deall sut y maent wedi cael eu heffeithio gan y newid yn ein hinsawdd?

Reference has already been made to the trunk road estate biodiversity action plan, and I encourage you to give a lead to local authorities throughout Wales in this respect. Can you please expand upon what specific modifications you think are possible in the light of this specific action?

Cyfeiriwyd eisoes at gynllun gweithredu bioamrywiaeth yr ystad gefnffyrdd, ac rwyf yn eich annog i roi arweiniad i awdurdodau lleol ledled Cymru yn hyn o beth. A allech chi ymhelaethu ar ba addasiadau penodol yn eich barn chi sy'n bosibl yng ngoleuni'r cynllun gweithredu penodol hwn?

Finally, a key player in this debate is the Welsh Beekeepers' Association, and I pay tribute to it and to the work of Peter Guthrie, who heads up the relevant section of beekeepers at the Royal Welsh Show and who has done a lot of valuable work in this area. Will you please outline what meetings you envisage having with this key stakeholder group between today's consultation end and the publication of the plan at the Royal Welsh Show at the end of next month?

Yn olaf, un chwaraewr allweddol yn y ddadl hon yw Cymdeithas Gwenynwyr Cymru, a thalaf deyrnged iddi hi ac i waith Peter Guthrie, sy'n arwain yr adran berthnasol o wenynwyr yn Sioe Frenhinol Cymru ac sydd wedi gwneud llawer o waith gwerthfawr yn y maes hwn. A wnewch chi amlinellu os gwelwch yn dda pa gyfarfodydd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn eu cael gyda'r grŵp rhanddeiliaid allweddol hwn rhwng diwedd yr ymgynghoriad heddiw a chyhoeddiad y cynllun yn Sioe Frenhinol Cymru ddiwedd y mis nesaf?

16:38

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Liberal Democrat spokesperson for his warm words at the beginning of his statement—throughout his statement, I should say. I should also take this opportunity, as he did, to congratulate my colleague, John Griffiths, who introduced this pollinator plan last year at the Royal Welsh Show. It was John's drive and vision that has meant that the draft action plan in front of us is the only one available from any of the administrations in the United Kingdom. We should be proud and grateful to John for the work that he has done in promoting and driving this work forward.

Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei eiriau gwresog ar ddechrau ei ddatganiad—drwy gydol ei ddatganiad, dylwn ddweud. Dylwn hefyd gymryd y cyfle hwn, fel y gwnaeth ef, i longyfarch fy nghyd-Aelod, John Griffiths, a gyflwynodd y cynllun hwn ar gyfer pryfed peillio'r llynedd yn Sioe Frenhinol Cymru. Diolch i frwdfrydedd a gweledigaeth John, y cynllun gweithredu drafft sydd ger ein bron yw'r unig un sydd ar gael gan unrhyw un o'r gweinyddiaethau yn y Deyrnas Unedig. Dylem fod yn falch ac yn ddiolchgar i John am y gwaith y mae wedi'i wneud i hyrwyddo a gyrru'r gwaith hwn ymlaen.

On the approach that we are taking, you are right in what you said, Bill. I want to take a non-partisan approach to this, in terms of the politics of this place and also the way in which we conduct the debate in the country. These issues are too important for us to play politics with them. They are simply too important for us to do that. The way in which we manage the land of Wales is fundamental to the future of this place and it is fundamental to the future of our country.

O ran y dull yr ydym yn ei fabwysiadu, rydych yn iawn yn yr hyn a ddywedwch, Bill. Rwyf am gymryd agwedd amhleidiol at hyn, o ran gwleidyddiaeth y lle hwn a hefyd y ffordd yr ydym yn cynnal y ddadl trwy'r Gymru. Mae'r materion hyn yn rhy bwysig i ni i chwarae gwleidyddiaeth â nhw. Maent yn llawer rhy bwysig i ni i wneud hynny. Mae'r ffordd yr ydym yn rheoli tir yng Nghymru yn hanfodol i ddyfodol y lle hwn ac mae'n hanfodol i ddyfodol ein gwlad.

We have to ensure that we have sustainable land management in place that will ensure that the conflict that we have seen all too often in the past between the demands of food production and environmental management is a thing of the past and not of the future. We need to ensure that we are able to dismiss those who try to polarise this debate, and that we focus in on a positive debate about what we can do to ensure that the declines in biodiversity are stabilised and reversed.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym drefniadau rheoli tir cynaliadwy ar waith a fydd yn sicrhau bod y gwrthdaro a welwyd yn rhy aml yn y gorffennol rhwng gofynion cynhyrchu bwyd a rheoli amgylcheddol yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol ac nid i'r dyfodol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu diystyru'r rhai sy'n ceisio polareiddio'r ddadl hon, a'n bod yn canolbwyntio ar ddadl gadarnhaol am yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn cael eu sefydlogi a'i wyrdroi.

In terms of the questions that you asked, it is clearly important that beekeepers are registered. That means that we can provide the support that we wish to provide for them. I would encourage all those who currently keep bees to register with the Welsh Government and access the support and training information that we can help to provide them with. We want to be able to do that. Bill Powell referred to monocultures in lowland Wales. There are monocultures throughout Wales—in upland and lowland Wales. One of the lessons that I think we are learning is that the decline, for example, of cattle in the less favoured area has not been a good thing for the farm businesses involved or for the environment itself. So, I think that we do need to look again at how we support different farming practices in Wales, and work with the industry again to ensure that we have a very vibrant countryside across the whole of Wales. That is why I make a commitment to review Glastir again, but to review it in a far more fundamental way than we have done in the past. In the past, we have looked at the mechanics and the processes of Glastir. That is certainly what I wanted to do last year. Now, this is an opportunity for us to ask fundamental questions about our agri-environment schemes, what they are there to achieve, and what and how we want them to succeed. I want to ask very fundamental questions, not only about how this Government—or any Government—manages those programmes, but what those programmes are there to achieve. We all need to ask ourselves some very hard and searching questions about that.

O ran y cwestiynau a ofynnwyd gennych, mae'n amlwg yn bwysig bod gwenynwyr yn cael eu cofrestru. Mae hynny'n golygu ein bod yn gallu darparu'r gefnogaeth yr ydym am ei darparu ar eu cyfer. Byddwn yn annog pawb sy'n cadw gwenyn ar hyn o bryd i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru a manteisio ar y wybodaeth am gefnogaeth a hyfforddiant y gallwn helpu i'w rhoi iddynt. Rydym eisiau gallu gwneud hynny. Cyfeiriodd Bill Powell at ffermio ungnwd yn iseldir Cymru. Ceir ffermio ungnwd ledled Cymru—yn ucheldir ac iseldir Cymru. Un o'r gwersi yr wyf yn meddwl ein bod yn ei dysgu yw nad yw dirywiad gwartheg yn yr ardal lai ffafriol, er enghraifft, wedi bod yn beth da i'r busnesau fferm nac i'r amgylchedd ei hun. Felly, rwyf yn meddwl bod angen inni edrych eto ar sut yr ydym yn cefnogi gwahanol arferion ffermio yng Nghymru, ac yn gweithio gyda'r diwydiant unwaith eto er mwyn sicrhau bod gennym gefn gwlad bywiog iawn ar draws Cymru gyfan. Dyna pam yr wyf yn gwneud ymrwymiad i adolygu Glastir eto, ond i'w adolygu mewn ffordd lawer mwy sylfaenol nag a wnaed yn y gorffennol. Yn y gorffennol, rydym wedi edrych ar fecanwaith a phrosesau Glastir. Dyna'n sicr yr oeddwn eisiau ei wneud y flwyddyn diwethaf. Yn awr, mae hwn yn gyfle i ni ofyn cwestiynau sylfaenol am ein cynlluniau amaeth-amgylchedd, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a beth a sut yr ydym am iddynt lwyddo. Rwyf am ofyn cwestiynau sylfaenol iawn, nid yn unig am sut y mae'r Llywodraeth hon—neu unrhyw Lywodraeth—yn rheoli'r rhaglenni hynny, ond yr hyn y bwriedir i'r rhaglenni hynny ei gyflawni. Mae angen i ni i gyd ofyn rhai cwestiynau anodd a threiddgar iawn.

I understand the points that you make about the Welsh Beekeepers' Association. I do not have any plans or any diary commitments to meet the association at the moment, but I am very happy to do so, of course. Although the consultation closes today, I am also happy to include contributions from the debate that Antoinette is hosting next week in order to ensure that any contributions made in this place during that debate are also included as part of the consultation.

Rwyf yn deall y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud am Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau nac unrhyw ymrwymiadau yn y dyddiadur i gwrdd â'r gymdeithas ar hyn o bryd, ond rwyf yn hapus iawn i wneud hynny, wrth gwrs. Er bod yr ymgynghoriad yn dod i ben heddiw, rwyf hefyd yn hapus i gynnwys cyfraniadau o'r ddadl y mae Antoinette yn ei chynnal yr wythnos nesaf er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfraniadau a wneir yn y lle hwn yn ystod y ddadl honno hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad.

16:42

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The decline in the bee population is not just an agricultural or rural issue; it is an issue that affects us all. Without the bees we do not have the pollinators that enable our fruit trees, some of our grains, and our wildflowers to be pollinated. So, this is an issue for us all, not just for our rural communities. We need to ensure that we have an increased and plentiful supply of locally produced foods so that it is available to the whole of the population.

Nid mater i amaethyddiaeth neu gefn gwlad yn unig yw'r dirywiad yn y boblogaeth gwenyn; mae'n fater sy'n effeithio ar bob un ohonom. Heb y gwenyn nid oes gennym y peillwyr sy'n galluogi ein coed ffrwythau, rhai o'n cnydau grawn, a'n blodau gwyllt i gael eu peillio. Felly, mae hwn yn fater i ni i gyd, nid yn unig i'n cymunedau gwledig. Mae angen i ni sicrhau bod gennym gyflenwad cynyddol a helaeth o fwydydd a gynhyrchir yn lleol fel ei fod ar gael i'r boblogaeth gyfan.

I am delighted that the European Commission has announced this two-year ban on these three pesticides. There seems to be very clear evidence of the impact of these pesticides on the bee population, which is contributing to its decline. The two-year ban will enable us to see whether not using these pesticides improves the numbers of bees that we have. So, it was very disappointing to me that the UK Government was resisting this ban, because of the evidence involved. I would like some clarification from the Minister as to whether he supported the UK Government against the European Commission, as that was not entirely clear from his remarks. The ban was also supported by the Environmental Audit Committee in the House of Commons.

Rwyf wrth fy modd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi'r gwaharddiad dwy flynedd hwn ar y tri phlaladdwr. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth glir iawn o effaith y plaladdwyr hyn ar y boblogaeth gwenyn, sy'n cyfrannu at ei dirywiad. Bydd y gwaharddiad dwy flynedd yn ein galluogi i weld p'un a yw peidio â defnyddio'r plaladdwyr hyn yn cynyddu nifer y gwenyn. Felly, roedd yn destun siom fawr iawn imi fod Llywodraeth y DU yn gwrthwynebu'r gwaharddiad hwn, oherwydd y dystiolaeth dan sylw. Hoffwn gael eglurhad gan y Gweinidog p'un a yw'n cefnogi Llywodraeth y DU yn erbyn y Comisiwn Ewropeaidd, gan nad oedd hynny'n hollol glir o'i sylwadau. Cafodd y gwaharddiad ei gefnogi hefyd gan y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol yn Nhŷ'r Cyffredin.

I am very pleased that distributors like B&Q and Homebase have already banned these pesticides, and that Waitrose is also removing them from all of its supply chains, in terms of what it sells as well as what it produces. As this ban does not actually come into force until December, what action will the Minister promote to suppress the use of these pesticides in this agricultural season? Would you also acknowledge the importance of encouraging more people to keep bees? For example, Llanedeyrn Primary School, in my constituency, has just started its own wild bee hive, which seems an excellent opportunity to educate children and to increase the bee population. I wonder whether the Minister has any plans along these lines for the discussions that he is going to be having at the Royal Welsh.

Rwyf yn falch iawn bod dosbarthwyr fel B&Q a Homebase eisoes wedi gwahardd y plaladdwyr hyn, a bod Waitrose hefyd yn cael gwared arnynt o bob un o'i gadwyni cyflenwi, o ran yr hyn y mae'n ei werthu yn ogystal â'r hyn y mae'n ei gynhyrchu. Gan nad yw'r gwaharddiad hwn yn dod i rym mewn gwirionedd tan fis Rhagfyr, pa gamau fydd y Gweinidog yn eu hyrwyddo i atal y defnydd o'r plaladdwyr hyn yn y tymor amaethyddol hwn? A fyddech hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i annog mwy o bobl i gadw gwenyn? Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Llanedeyrn, yn fy etholaeth i, newydd ddechrau ei chwch gwenyn gwyllt ei hun, sy'n ymddangos yn gyfle gwych i addysgu plant ac i gynyddu'r boblogaeth gwenyn. Tybed a oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau tebyg i hyn ar gyfer y trafodaethau y mae'n mynd i'w cael yn Sioe Frenhinol Cymru?

16:45

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it appropriate that the only person in this place who does not represent a single farm should make the point that this is something for all of us, and not simply for the agricultural industry. You are absolutely right, certainly with regard to what we say about locally produced food and how we produce food. I would agree with all the remarks that you made on that point.

Rwyf yn credu ei bod yn briodol y dylai'r unig berson yn y lle hwn nad yw'n cynrychioli'r un fferm wneud y pwynt bod hyn yn rhywbeth i bob un ohonom, ac nid yn unig ar gyfer y diwydiant amaethyddol. Rydych yn llygad eich lle, yn sicr o ran yr hyn a ddywedwn am gynhyrchu bwyd yn lleol a sut yr ydym yn cynhyrchu bwyd. Byddwn yn cytuno â'r holl sylwadau a wnaethoch ar y pwynt hwnnw.

As for the position that the United Kingdom Government on neonics, I should say that we have not had any fundamental disagreements with UK Ministers on these matters. We have had some very lively and searching conversations that have not divided along either country or political lines, shall we say. There has been a very serious conversation with UK Ministers about the approach that we have taken on this issue. This is not a significant issue for us in terms of Welsh agriculture. In total, I think that 1.4% of Welsh land is affected by some of these issues, so it is not a significant issue for us. There are no powers available to me to take action in this matter, nor do I propose any outside of that.

O ran safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar neonics, dylwn ddweud nad ydym wedi cael unrhyw anghytundebau sylfaenol â Gweinidogion y DU ar y materion hyn. Rydym wedi cael rhai sgyrsiau bywiog a threiddgar iawn nad ydynt wedi rhannu ar hyd llinellau gwledydd na phleidiau gwleidyddol, dywedwn. Cafwyd sgwrs ddifrifol iawn gyda Gweinidogion y DU am yr agwedd yr ydym wedi'i mabwysiadu at y mater hwn. Nid yw hwn yn fater arwyddocaol i ni o ran amaethyddiaeth Cymru. Yn gyfan gwbl, rwyf yn meddwl bod 1.4% o dir Cymru yn cael ei effeithio gan rai o'r materion hyn, felly nid yw'n fater arwyddocaol i ni. Nid oes pwerau sydd ar gael i mi i weithredu yn y mater hwn, ac nid wyf yn cynnig dim y tu hwnt i hynny.

I would just say that this is something that we continue to consider, and the position that we have adopted may well evolve over time. I have to say that I am very concerned about the fertilisers that are used. My concern is that if neonics are not used, other fertilisers might be used that are potentially more damaging. So, I do not think that the issue is quite as clear-cut as it is perhaps being portrayed. It is something that we think very deeply about, and it is an issue on which the position that we have adopted is evolving, and it may well evolve further over time. I am certainly happy to continue to have conversations about that.

Byddwn yn dweud yn syml bod hyn yn rhywbeth yr ydym yn parhau i'w ystyried, ac y gallai'r safbwynt a fabwysiadwyd gennym esblygu dros amser. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn bryderus iawn am y gwrteithiau sy'n cael eu defnyddio. Fy mhryder i yw y gellid defnyddio gwrteithiau eraill a allai fod yn fwy niweidiol, os nad yw neonics yn cael eu defnyddio. Felly, nid wyf yn credu bod y mater mor ddiamwys ag y mae'n cael ei bortreadu, efallai. Mae'n rhywbeth yr ydym yn meddwl yn ddwfn iawn amdano, ac mae'n fater lle mae'r safbwynt a fabwysiadwyd gennym yn esblygu, a gallai esblygu ymhellach dros amser. Rwyf yn sicr yn hapus i barhau i gael sgyrsiau am hynny.

As was pointed out by Bill Powell, beekeeping is increasing in Wales; there are more beekeepers than before, and it is something that I would seek to support. As was pointed out, again by Bill Powell, we do seek to register beekeepers to ensure that we can provide additional help and support wherever possible. I would encourage all those people and institutions that keep bees to register with the Welsh Government so that we can provide greater levels of support in the future.

Fel y nodwyd gan Bill Powell, mae mwy a mwy o bobl yn cadw gwenyn yng Nghymru; mae mwy o wenynwyr nag o'r blaen, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ceisio ei gefnogi. Fel y nodwyd, unwaith eto gan Bill Powell, rydym yn ceisio cofrestru gwenynwyr i sicrhau y gallwn ddarparu cymorth a chefnogaeth ychwanegol lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn yn annog yr holl bobl a sefydliadau hynny sy'n cadw gwenyn i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel y gallwn ddarparu rhagor o gymorth yn y dyfodol.

16:47 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement. I just want to talk very quickly—I have one question, really—about the pollination action plan, which seems to be the thing that everybody is interested in today. Local authorities, obviously, will be partners in delivering this action plan, along with farmers and landowners. However, it is the grass verges that local authorities seem to want to cut down a lot. In my postbag, I get people who say that they want the grass verges cut because they cannot see around the corners, or they are a mess, or they do not look right, and then there are others who want to protect them. I just want to know how you will ensure that local authorities will comply with your action plan. What measures will you take if they do not comply with the plan and they continue to cut the grass verges?

Weinidog, diolch ichi am y datganiad. Rwyf eisiau siarad yn gyflym iawn—mae gennyf un cwestiwn, mewn gwirionedd—am y cynllun gweithredu ar gyfer pryfed peillio, sef y peth y mae gan bawb ddiddordeb ynddo heddiw, mae'n ymddangos. Bydd awdurdodau lleol, yn amlwg, yn bartneriaid wrth roi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, ynghyd â ffermwyr a pherchnogion tir. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai'r lleiniau glas y mae awdurdodau lleol eisiau eu torri yn helaeth. Yn fy mag post, rwyf yn cael pobl sy'n dweud eu bod am i'r lleiniau glas gael eu torri oherwydd na allant weld rownd y corneli, neu eu bod yn anniben, neu nad ydynt yn edrych yn iawn, ac yna mae eraill sydd eisiau eu diogelu. Rwyf eisiau gwybod sut y byddwch yn sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'ch cynllun gweithredu. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd os nad ydynt yn cydymffurfio â'r cynllun ac yn parhau i dorri'r lleiniau glas?

16:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, grass verges should not be a road traffic hazard. Within that context, we would encourage all local authorities to see the verges as something positive that can support the wider issues of biodiversity, as well as the issue of flowering plants that Antoinette Sandbach has already raised. So, I would encourage local authorities to see grass verges as an asset, and not as something that is simply a problem. That has to be done with due recognition of any road traffic issues, which have to take priority. However, within that context, I really do hope that, as Antoinette has pointed out, local authorities see this as an opportunity to save some money and to contribute towards greater biodiversity and the place of pollinators.

Yn amlwg, ni ddylai lleiniau glas fod yn berygl i draffig ar y ffyrdd. O fewn y cyd-destun hwnnw, byddem yn annog pob awdurdod lleol i weld y lleiniau fel rhywbeth cadarnhaol a all gefnogi materion ehangach bioamrywiaeth, yn ogystal â mater planhigion blodeuol y mae Antoinette Sandbach eisoes wedi ei godi. Felly, byddwn yn annog awdurdodau lleol i weld lleiniau glas fel ased, ac nid fel rhywbeth sy'n broblem. Rhaid i hynny gael ei wneud gan roi cydnabyddiaeth briodol i unrhyw faterion traffig ffyrdd, sy'n gorfod cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, o fewn y cyd-destun hwnnw, rwyf wir yn gobeithio, fel y mae Antoinette wedi nodi, bod awdurdodau lleol yn gweld hwn fel cyfle i arbed arian ac i gyfrannu tuag at fwy o fioamrywiaeth a lle peillwyr.

16:49 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have only one more speaker, I will call Joyce Watson, but I would ask both to be quite quick.

Gan mai dim ond un siaradwr arall sydd gennym, byddaf yn galw Joyce Watson, ond byddwn yn gofyn i'r ddau fod yn eithaf cyflym.

16:49 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I shall be quick. Thank you very much.

Byddaf yn gyflym. Diolch yn fawr iawn.

I pay tribute to John Griffiths, the previous Minister, for setting out the action plan and for the dedication and drive behind it. Having said that, there are two areas that I particularly want to look at. Minister, what sort of incentives can you bring about to encourage farmers, land managers, local authorities and anybody that will re-wild the tracts of land to make them more pollinator-friendly? Secondly, could we have an update on the Pembrokeshire bee project? A few years ago, beekeepers in Pembrokeshire received £48,000 funding to develop their own native breed of bee, with the aim of developing a specific strain of Pembrokeshire bee that is more resistant to damp weather and disease. That would help to combat the phenomenon of colony collapse disorder.

Hoffwn dalu teyrnged i John Griffiths, y Gweinidog blaenorol, am amlinellu'r cynllun gweithredu ac am yr ymroddiad a'r sbardun y tu ôl iddo. Wedi dweud hynny, yr wyf yn arbennig o awyddus i edrych ar ddau faes penodol. Weinidog, pa fath o gymhellion y gallwch chi eu cyflwyno i annog ffermwyr, rheolwyr tir, awdurdodau lleol ac unrhyw un a fydd yn dad-ddofi'r darnau o dir i'w gwneud yn fwy addas i beillwyr? Yn ail, a allem gael y wybodaeth ddiweddaraf ar brosiect gwenyn Sir Benfro? Ychydig flynyddoedd yn ôl, derbyniodd gwenynwyr Sir Benfro gyllid o £48,000 i ddatblygu eu brîd brodorol eu hunain o wenyn, gyda'r nod o ddatblygu math penodol o wenyn Sir Benfro sy'n gwrthsefyll tywydd llaith a chlefydau'n well. Byddai hynny'n helpu i frwydro yn erbyn y ffenomen o anhwylder difa nythfeydd.

16:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We can certainly all support the Pembrokeshire bee project and the work that is being done in the county to support the Pembrokeshire bee. We would all like to see more initiatives of that sort in different parts of Wales. I have already paid tribute to my friend and colleague John Griffiths for the work that he has done on this matter over the last year. All sides of the Chamber will join me in congratulating John for the foresight and vision that he showed in establishing this project at the Royal Welsh Show last year. I got into considerable trouble at Hay-on-Wye last year talking about re-wilding, so I will not do so again this afternoon.

Gallwn i gyd yn sicr gefnogi prosiect gwenyn Sir Benfro a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y sir i gefnogi gwenyn Sir Benfro. Byddem i gyd yn hoffi gweld mwy o fentrau o'r fath mewn gwahanol rannau o Gymru. Rwyf eisoes wedi talu teyrnged i'm ffrind a'm cydweithiwr John Griffiths am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd pob ochr o'r Siambr yn ymuno â mi i longyfarch John am y craffter a'r weledigaeth a ddangosodd i sefydlu'r prosiect hwn yn Sioe Frenhinol Cymru y llynedd. Euthum i drybini mawr yn y Gelli y llynedd yn siarad am dad-ddofi'r tir, felly ni fyddaf yn gwneud hynny eto brynhawn heddiw.

# Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Teithio Llesol (Cymru)

# Motion to Approve the General Principles of the Active Travel (Wales) Bill

Cynnig NDM5251 John Griffiths

Motion NDM5251 John Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Teithio Llesol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Active Travel (Wales) Bill.

16:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I would like to thank both the Enterprise and Business Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee for the detailed scrutiny that they have given to this Bill. I thank them for their reports, to which I am giving careful consideration. At the same time, I would like to thank everyone who took the time to contribute evidence to the committees' scrutiny sessions.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith craffu manwl ar y Bil hwn. Diolch iddynt am eu hadroddiadau, yr wyf yn rhoi ystyriaeth ofalus iddynt. Ar yr un pryd, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu tystiolaeth i sesiynau craffu'r pwyllgorau.

The Bill is a key Government measure aimed at transforming Wales's approach to travel. By imposing a duty on local authorities to properly plan and execute a network of well-designed walking and cycling routes, it aims to make walking and cycling the most natural and normal way of getting about. The duty requires local authorities to produce two maps, the first setting out their current walking and cycling provision and the second establishing their long-term plan for a network that allows people to make purposeful journeys on cycle or foot on continuous routes that aim to be safe and comfortable and link to workplaces, schools, shops, services and other places that people need to get to. It will overcome one of the major problems of most cycling provision: that it is often not continuous, and will not allow journeys to be made without potentially dangerous encounters with busy traffic.

Mae'r Bil yn fesur allweddol gan y Llywodraeth wedi'i anelu at drawsnewid agwedd Cymru tuag at deithio. Trwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio'n briodol a gweithredu rhwydwaith llwybrau cerdded a beicio wedi'u cynllunio'n dda, y nod yw gwneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf naturiol ac arferol o fynd o le i le. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu dau fap, y cyntaf yn nodi eu darpariaeth bresennol o ran cerdded a beicio a'r ail yn sefydlu eu cynllun tymor hir ar gyfer rhwydwaith sy'n galluogi pobl i wneud teithiau pwrpasol ar feic neu ar droed ar lwybrau di-dor sy'n anelu at fod yn ddiogel ac yn gyfforddus ac yn cysylltu â gweithleoedd, ysgolion, siopau, gwasanaethau a mannau eraill y mae angen i bobl fynd iddynt. Bydd yn goresgyn un o brif broblemau'r rhan fwyaf o ddarpariaeth beicio: nad yw'n aml yn ddi-dor, ac na fydd yn caniatáu i siwrneiau gael eu gwneud heb gyfarfyddiadau a allai fod yn beryglus â thraffig prysur.

Local authorities will have a duty to continuously improve their provision and regularly refresh their maps as their networks develop. The maps will also be a useful tool for raising awareness of the networks and encouraging their use. By focusing on purposeful rather than recreational journeys, the Bill aims to encourage people to replace journeys made by car with active travel. This will result in significant health benefits as people build physical activity into their everyday lives. We will reduce emissions, benefitting the environment, and congestion, which will benefit the economy.

Bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wella eu darpariaeth yn barhaus ac adnewyddu eu mapiau'n rheolaidd wrth i'w rhwydweithiau ddatblygu. Bydd y mapiau hefyd yn arf defnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r rhwydweithiau ac annog pobl i'w defnyddio. Trwy ganolbwyntio ar deithiau pwrpasol yn hytrach na rhai hamdden, mae'r Bil yn ceisio annog pobl i ddefnyddio llwybrau teithio llesol yn lle teithio mewn car. Bydd hyn yn arwain at fanteision iechyd sylweddol wrth i bobl gynnwys gweithgarwch corfforol yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn lleihau allyriadau, a fydd o fudd i'r amgylchedd, a thagfeydd, a fydd o fudd i'r economi.

There will also be a broader work programme to make sure that the information provision is maximised and that people are encouraged to use enhanced infrastructure provision. We are also bringing forward new design guidance for active travel provision to ensure a consistent and high-quality standard of infrastructure across Wales. I recognise that providing the infrastructure alone will not cause people to change their travel habits, and the Bill will be accompanied by an active travel action plan currently under development. It will set out cross-Governmental promotional and educational measures aimed at encouraging maximum use of the new networks.

Sefydlir rhaglen waith ehangach hefyd, i sicrhau y darperir cymaint o wybodaeth â phosibl, a sicrhau bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio'r seilwaith gwell. Rydym hefyd yn cyflwyno canllawiau dylunio newydd ar gyfer darpariaeth teithio llesol er mwyn sicrhau bod safon y seilwaith yn gyson ac o ansawdd uchel ar draws Cymru. Rwyf yn cydnabod na fydd seilwaith yn unig yn achosi i bobl newid eu harferion teithio, a chaiff y Bil ei ategu gan gynllun gweithredu ar gyfer teithio llesol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd yn nodi mesurau hyrwyddo ac addysgu traws-Lywodraethol gyda'r nod o annog pobl i ddefnyddio'r rhwydweithiau newydd cymaint â phosibl.

My priority is to make this the most effective Bill it can be, so that we can achieve the best outcomes possible for the people of Wales. The recommendations from both the Enterprise and Business Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee will be of value in helping to shape this Bill. I am giving very careful consideration to their recommendations.

Fy mlaenoriaeth yw gwneud y Bil hwn mor effeithiol ag y bo modd, fel y gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru. Bydd argymhellion y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o werth o ran helpu i lunio'r Bil hwn. Rwyf yn rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'w hargymhellion.

Deputy Acting Presiding Officer, I now look forward to hearing the views of Members on this very important legislation.

Ddirprwy Lywydd Dros Dro, rwyf yn awr yn edrych ymlaen at glywed barn yr Aelodau ar y ddeddfwriaeth bwysig iawn hon.

16:55

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. May I suggest, for the rest of this debate, that you just refer to me as 'Chair'. It will be an awful lot easier. I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee, Nick Ramsay.

Diolch ichi, Weinidog. A allaf awgrymu, ar gyfer gweddill y ddadl hon, eich bod yn cyfeirio ataf fel 'Cadeirydd'. Bydd yn llawer iawn haws. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Busnes a Menter, Nick Ramsay.

16:55 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Chair, for that introduction. [Laughter.] I take it that that was not directed at me specifically.

Diolch, Gadeirydd, am y cyflwyniad. [Chwerthin.] Rwyf yn cymryd nad oedd wedi'i gyfeirio ataf i yn benodol.

I welcome the opportunity to take part in this Stage 1 debate on the Active Travel (Wales) Bill as Chair of the Enterprise and Business Committee. I start by thanking all those who contributed to the committee's work, including those who submitted written evidence, gave oral evidence and those children and young people who took part in the survey.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i bawb a gyfrannodd at waith y pwyllgor, gan gynnwys y rhai a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, a'r plant a'r bobl ifanc hynny a gymerodd ran yn yr arolwg.

Starting with the general principles of the Bill, we found broad support in evidence for the Bill. There is clear enthusiasm across sectors to drive forward the active travel agenda and a general consensus that legislation is necessary to do this. Despite efforts to date, significant improvements in levels of walking and cycling have yet to be made. The evidence that the committee received suggested that improvements to and the expansion of existing infrastructure are often afforded insufficient priority. These factors suggest that if Wales is to achieve a modal shift away from motorised transport to more sustainable and active modes of travel, additional and more resolute action is required.

Gan ddechrau gydag egwyddorion cyffredinol y Bil, canfuom gefnogaeth eang i'r Bil yn y dystiolaeth. Ceir brwdfrydedd clir ar draws sectorau i fwrw ymlaen â'r agenda teithio llesol, a chonsensws cyffredinol bod deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn gwneud hyn. Er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed hyd yn hyn, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol o hyd o ran lefelau cerdded a beicio. Awgrymodd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y pwyllgor na roddir digon o flaenoriaeth i wella ac ehangu'r seilwaith presennol. Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu bod angen camau gweithredu ychwanegol a mwy pendant, os yw Cymru am sicrhau newid oddi wrth gludiant modur at ddulliau mwy cynaliadwy a llesol o deithio.

Having considered the evidence before us and having listened to the arguments put forward by the Minister for the need to legislate, we support the general principles of the Bill and recommend that the Assembly agrees to these today. That is set out in the committee's recommendation 1. In terms of the need for additional measures to be taken, despite the overall support in evidence for the active travel Bill, it was clear that it had not quite met the expectations of some stakeholders. Respondents were particularly concerned about the lack of provision to directly address the wider promotion of active travel or to otherwise effect behaviour change.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ein bron ac ar ôl gwrando ar y dadleuon a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros yr angen i ddeddfu, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn argymell bod y Cynulliad yn cytuno i'r rhain heddiw. Mae hynny wedi'i nodi yn argymhelliad 1 y pwyllgor. O ran yr angen i gymryd camau ychwanegol, er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth ar gyfer y Bil teithio llesol, roedd yn amlwg nad oedd wedi bodloni disgwyliadau rhai rhanddeiliaid yn llwyr. Roedd ymatebwyr yn arbennig o bryderus am y diffyg darpariaeth i fynd i'r afael yn uniongyrchol â hyrwyddo dulliau teithio llesol yn ehangach neu i gyflawni newid ymddygiad mewn ffordd arall.

What came across strongly in the committee was that a more significant package of measures would be necessary in order for the Government to bring about significant improvements in active travel rates. These include softer promotional educational measures, controlling car use, providing a land use planning system that is sympathetic to the creation of an integrated active travel network and the development of a built environment that is conducive to travel by active means.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg iawn yn y pwyllgor oedd y byddai pecyn mwy sylweddol o fesurau yn angenrheidiol er mwyn i'r Llywodraeth gyflwyno gwelliannau sylweddol mewn cyfraddau teithio llesol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno mesurau addysgu a hyrwyddo mwy meddal, rheoli defnydd o geir, darparu system cynllunio defnydd tir sy'n gydnaws â chreu rhwydwaith teithio llesol integredig, a datblygu amgylchedd adeiledig sy'n ffafriol i deithio trwy ddulliau llesol.

The committee understands that the Minister is developing a broader programme of work to help support the Bill, which we expect to go part way in addressing some of these issues. We look forward to hearing more about this programme from the Minister and we will be watching its development with interest.

Mae'r pwyllgor yn deall bod y Gweinidog yn datblygu rhaglen ehangach o waith i helpu i gefnogi'r Bil, a disgwyliwn i honno fynd ran o'r ffordd wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am y rhaglen hon gan y Gweinidog, a byddwn yn edrych ar ei datblygiad â diddordeb.

Turning to the sometimes thorny issue of guidance, one of the key issues for the committee, early in its considerations, was the extent of the guidance provisions within the Bill. Much of the detail around the delivery of the Bill's policy aims will be contained in ministerial guidance, which is not yet available. This posed a challenge for the committee to say the least, although I know that that is not just an issue for my committee or for this Bill.

Gan droi at ganllawiau, sydd weithiau'n bwnc dyrys, un o'r materion allweddol ar gyfer y pwyllgor, yn gynnar yn ei ystyriaethau, oedd graddau'r darpariaethau'n ymwneud â chanllawiau yn y Bil. Bydd llawer o'r manylion sy'n ymwneud â chyflawni amcanion polisi'r Bil yn cael eu cynnwys yn y canllawiau gweinidogol, nad ydynt ar gael eto. Mae hyn yn peri her i'r pwyllgor a dweud y lleiaf, er fy mod yn gwybod nad mater ar gyfer fy mhwyllgor i neu'r Bil hwn yn unig mo hynny.

It is clear that guidance to accompany the Bill will be key to its successful delivery. While we have heard that the Minister is taking proactive steps to ensure that stakeholders and relevant experts are involved in the development of the guidance, there is nothing in the Bill to ensure that this is actually the case. We consider that it would be prudent to include safeguards on the face of the Bill to ensure that future Welsh Ministers replicate this approach and to avoid the effect of the Bill being diluted through changes to the guidance made without adequate consultation.

Mae'n amlwg y bydd y canllawiau i gyd-fynd â'r Bil yn allweddol er mwyn ei roi ar waith yn llwyddiannus. Er ein bod wedi clywed bod y Gweinidog yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r canllawiau, nid oes dim yn y Bil i sicrhau bod hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Rydym o'r farn y byddai'n ddoeth cynnwys mesurau diogelwch ar wyneb y Bil i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn y dyfodol yn ailadrodd y dull hwn, a rhag i effaith y Bil gael ei wanhau trwy wneud newidiadau i'r canllawiau heb ymgynghori digonol.

We further recommend that the Minister brings forward amendments at Stage 2 to make provision in the Bill for the procedure to be followed by the Welsh Ministers before issuing or reviewing guidance. We believe that this should include a requirement on Welsh Ministers to consult on the draft guidance and to lay a draft before the Assembly. That is set out in recommendation 2.

Rydym hefyd yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer y weithdrefn y dylai Gweinidogion Cymru ei dilyn cyn cyhoeddi neu adolygu canllawiau. Rydym yn credu y dylai hon ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau drafft, a gosod drafft gerbron y Cynulliad. Mae hynny'n wedi'i nodi yn argymhelliad 2.

In relation to design guidance, it came across strongly in evidence that improvements to the active travel network must be of a high enough standard to encourage usage. The new design guidance issued under the Bill could be used to set minimum standards that could help to drive up standards and ensure consistency of approach across local authorities. While this design guidance will have a statutory status that goes beyond that of non-statutory best practice guidance, we do not believe that that goes far enough. We recommend that implementation of the design guidance issued under the Bill should be mandatory. We also believe that the Minister needs to ensure that design guidance given under the Bill complements wider highway considerations.

O safbwynt canllawiau dylunio, amlygwyd yn bendant iawn yn y dystiolaeth bod rhaid i welliannau i'r rhwydwaith teithio llesol fod o safon ddigon uchel i annog pobl i'w ddefnyddio. Gellid defnyddio'r canllawiau dylunio newydd a gyhoeddwyd o dan y Bil i osod safonau gofynnol a allai helpu i godi safonau a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Er y bydd gan y canllawiau dylunio hyn statws statudol sy'n mynd y tu hwnt i statws canllawiau arfer gorau anstatudol, nid ydym yn credu bod hynny'n mynd yn ddigon pell. Rydym yn argymell y dylai fod yn orfodol i weithredu'r canllawiau dylunio a gyhoeddwyd o dan y Bil. Rydym hefyd yn credu bod angen i'r Gweinidog sicrhau bod canllawiau dylunio a roddir o dan y Bil yn ategu ystyriaethau priffyrdd ehangach.

Turning to the provisions and active travel routes, we have made a number of recommendations aimed at improving the meaning of active travel routes. The main thrust of the Bill is about providing the right conditions to enable people to walk or cycle when making shorter journeys. We think that this should be made clear on the face of the Bill; that is recommendation 4.

Gan droi at y darpariaethau a'r llwybrau teithio llesol, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o wella ystyr llwybrau teithio llesol. Mae prif fyrdwn y Bil yn ymwneud â darparu'r amgylchiadau cywir i alluogi pobl i gerdded neu feicio wrth wneud teithiau byrrach. Rydym yn credu y dylid gwneud hyn yn glir ar wyneb y Bil; dyna yw argymhelliad 4.

In relation to the designation of localities for the purpose of identifying active travel routes, we believe that these should be primarily based on the potential for journeys to be made by active means rather than on population. Again, we recommend that the Minister should address this at Stage 2. The Bill provides that in assessing whether a route is suitable to be regarded as an active travel route, local authorities must take into account its location, nature and condition. While this seems reasonable as a starting point, we received evidence that a much broader range of issues is likely to be an important influence.

O ran dynodi ardaloedd lleol er mwyn nodi llwybrau teithio llesol, rydym yn credu y dylai'r rhain fod yn seiliedig yn bennaf ar y potensial ar gyfer gwneud teithiau drwy ddulliau llesol yn hytrach nag ar y boblogaeth. Unwaith eto, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ymdrin â hyn yng Nghyfnod 2. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol, wrth asesu a yw llwybr yn addas i gael ei ystyried fel llwybr teithio llesol, ystyried ei leoliad, ei natur a'i gyflwr. Er bod hyn yn ymddangos yn rhesymol fel man cychwyn, cawsom dystiolaeth fod ystod lawer ehangach o faterion yn debygol o fod yn ddylanwad pwysig.

In recommendation 6, we recommend that the Minister considers the suggestion of routes that are continuous, direct, safe and comfortable for walking and cycling. This was suggested by Sustrans Cymru, primarily, and others.

Yn argymhelliad 6, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried yr awgrym ynglŷn â llwybrau sy'n ddi-dor, uniongyrchol, diogel a chyfforddus ar gyfer cerdded a beicio. Awgrymwyd hyn gan Sustrans Cymru, yn bennaf, ac eraill.

There was broad support in evidence for the duties on local authorities to prepare and submit existing route-maps and integrated network maps, and I know that the Minister has considered and accepted many of those recommendations. The success of existing route-maps will largely depend on whether they are prepared and promoted properly. Widespread consultation and early community engagement will be essential in ensuring this, as will strong guidance.

Cafwyd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno mapiau llwybrau presennol a mapiau rhwydwaith integredig, a gwn fod y Gweinidog wedi ystyried ac wedi derbyn llawer o'r argymhellion hynny. Bydd llwyddiant mapiau llwybrau presennol yn dibynnu i raddau helaeth ar ba un a ydynt yn cael eu paratoi a'u hyrwyddo'n briodol. Bydd yn hanfodol ymgynghori'n eang ac ymgysylltu â'r gymuned yn gynnar, yn ogystal â chael canllawiau cryf, i sicrhau hyn.

On an important related matter, we heard concerns from disability organisations about the accessibility of maps to disabled people, particularly those who are blind and partially sighted. We welcome the clarification given by the Minister that local authorities will be expected to produce maps in accessible formats, and we seek assurance from the Minister on this issue.

Ar fater cysylltiedig pwysig, clywsom bryderon gan sefydliadau anabledd am hygyrchedd mapiau i bobl anabl, yn enwedig y rhai sy'n ddall ac sy'n gweld yn rhannol. Rydym yn croesawu'r eglurhad a roddwyd gan y Gweinidog y bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau mewn fformatau hygyrch, ac rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog ar y mater hwn.

In terms of timescales for the preparation and submission of the maps, we consider the three-year period provided in the Bill to be excessive, and we would like to see the initial mapping exercise completed as soon as is practicable; we suggested that it should be done within a year.

O ran amserlenni ar gyfer paratoi a chyflwyno'r mapiau, rydym yn ystyried y cyfnod o dair blynedd a ddarperir yn y Bil yn ormodol, a byddem yn hoffi gweld yr ymarfer mapio cychwynnol yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Awgrymwyd y dylai gael ei wneud o fewn blwyddyn.

Section 6 of the Bill requires local authorities to have regard to the integrated network maps for their areas in developing policies as a basis for local transport plans. Clearly, there is a benefit in ensuring that there is a strong basis for the development of active travel infrastructure alongside wider priorities. We share the concern raised in evidence that the relative priority given to active travel in comparison to other transport plan priorities is still unclear. I hope that the Minister can address this. Our recommendation 11 asks the Minister to clarify how this will be made clear to local authorities and regional transport consortia in their preparation of regional transport plans and annual delivery plans.

Mae adran 6 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r mapiau rhwydwaith integredig ar gyfer eu hardaloedd wrth ddatblygu polisïau, fel sail ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol. Yn amlwg, ceir budd o sicrhau bod sail gadarn ar gael ar gyfer datblygu seilwaith teithio llesol ochr yn ochr â blaenoriaethau ehangach. Rydym yn rhannu'r pryder a godwyd yn y dystiolaeth nad yw'n eglur o hyd faint o flaenoriaeth a roddir i deithio llesol o'i chymharu â blaenoriaethau eraill y cynllun trafnidiaeth. Rwyf yn gobeithio y gall y Gweinidog ymdrin â hyn. Mae ein hargymhelliad 11 yn gofyn i'r Gweinidog egluro sut y bydd hyn yn cael ei egluro i awdurdodau lleol a chonsortia trafnidiaeth rhanbarthol wrth iddynt baratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a chynlluniau cyflawni blynyddol.

Continuous improvement was mentioned many times by many members of the committee, who asked what it meant. There was broad support in evidence to put a duty on local authorities to make continuous improvement an integral part of the Bill. This can bring about real advancements in the network in the long term. However, while we understand that the term 'continuous improvement' has been left undefined in other legislation, we do not consider this to be a sufficient reason to replicate such an approach for the purposes of this Bill. We recommend, therefore, that the Minister includes a definition of continuous improvement for the sake of clarity. We also recommend that details of how continuous improvement will be measured, and of the minimum requirements that local authorities will be expected to meet, are included on the face of the Bill.

Cafodd gwelliant parhaus ei grybwyll sawl gwaith gan lawer o aelodau'r pwyllgor, a ofynnodd beth mae'n ei olygu. Cafwyd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud gwelliannau parhaus, fel rhan annatod o'r Bil. Gall hyn ddod â datblygiadau gwirioneddol yn y rhwydwaith yn y tymor hir. Fodd bynnag, er ein bod yn deall bod y term 'gwelliant parhaus' wedi cael ei adael heb ei ddiffinio mewn deddfwriaeth arall, nid ydym yn ystyried bod hyn yn ddigon o reswm i efelychu dull gweithredu o'r fath at ddibenion y Bil hwn. Rydym yn argymell, felly, y dylai'r Gweinidog gynnwys diffiniad o welliant parhaus er eglurder. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r manylion am sut y bydd gwelliant parhaus yn cael ei fesur, ac am y gofynion sylfaenol y bydd disgwyl i awdurdodau lleol eu bodloni, gael eu cynnwys ar wyneb y Bil.

We looked at the provision for walkers and cyclists in highway construction and improvement in section 8 of the Bill, which requires local authorities and Welsh Ministers to have regard to the desirability of enhancing provision for walking and cycling when creating and improving highways. We share the views of many people who gave evidence that this provision is insufficiently strong to bring about the level of improvements sought. We recommend, therefore, that section 8 be amended to include a presumption that there should be enhanced provision for walkers and cyclists in schemes for the creation or improvement of highways. We also require that there be sufficiently clear guidance about disabled walkers and cyclists.

Rydym yn edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym maes adeiladu a gwella priffyrdd yn adran 8 o'r Bil, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r ffaith y byddai'n ddymunol gwella darpariaeth ar gyfer cerdded a beicio wrth greu a gwella priffyrdd. Rydym yn rhannu barn llawer o bobl a roddodd dystiolaeth nad yw'r ddarpariaeth hon yn ddigon cryf i sicrhau lefel y gwelliannau a geisir. Rydym yn argymell, felly, bod adran 8 yn cael ei diwygio i gynnwys rhagdybiaeth y dylai fod darpariaeth well ar gyfer cerddwyr a beicwyr mewn cynlluniau ar gyfer creu neu wella priffyrdd. Mae'n ofynnol gennym hefyd y dylid cael canllawiau digon clir ynglŷn â cherddwyr a beicwyr anabl.

Finally, Chair—I know that I have gone over time slightly—I turn to the financial considerations of the Bill. It came through in evidence that respondents found it difficult to assess the financial implications of the Bill, as these will largely be influenced by guidance issued under the Bill, which, as I made clear earlier, is not yet available.

Yn olaf, Gadeirydd—rwyf yn gwybod fy mod wedi mynd dros amser ychydig—rwyf yn troi at ystyriaethau ariannol y Bil. Daeth yn amlwg mewn tystiolaeth bod ymatebwyr yn ei chael yn anodd asesu goblygiadau ariannol y Bil, gan y bydd y rhain yn cael eu dylanwadu i raddau helaeth gan ganllawiau a gyhoeddir o dan y Bil, ac nad ydynt, fel y dywedais yn gynharach, ar gael eto.

In the event that the Assembly agrees the general principles of the Bill today, we hope that the Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report and that he will, where necessary, bring forward amendments at Stage 2 to give effect to them.

Os digwydd bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad ac y bydd, lle y bo angen, yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi grym iddynt.

17:04

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. There was a false dawn there; I thought that you had almost finished. I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Diolch yn fawr. Roedd gwawr ffug yno; roeddwn yn meddwl eich bod bron wedi gorffen. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

17:05

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair, and extra thanks for your assistance this afternoon, which allows me to take part in this debate.

Diolch, Gadeirydd, a diolch ychwanegol am eich cymorth y prynhawn yma, sy'n caniatáu i mi gymryd rhan yn y ddadl hon.

I remind Members that it is the duty of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to give advice on the structure of a Bill, particularly the question of balance between what is on the face of the Bill and what is left to regulations and other secondary instruments. That is what our work focuses on. It does not focus on the general policy aims that were so ably referred to by the previous speaker, the Chair of the subject committee.

Rwyf yn atgoffa'r Aelodau mai dyletswydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yw rhoi cyngor ar strwythur Bil, yn enwedig y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i reoliadau ac is-offerynnau eraill. Dyna'r hyn y mae ein gwaith yn canolbwyntio arno. Nid yw'n canolbwyntio ar yr amcanion polisi cyffredinol y cyfeiriwyd atynt mor fedrus gan y siaradwr blaenorol, Cadeirydd y pwyllgor pwnc.

I thank the Minister for giving evidence to the committee and remind Members that we issued our report on 24 May. This is an unusual Bill in that it has no regulation-making powers, but very wide-ranging powers for Welsh Ministers to issue statutory guidance or directions. This is important because, unlike regulations and Orders, they are not generally subject to a formal Assembly procedure. We noted that the Minister favours issuing statutory guidance because of the flexibility and speed of operation that it affords, as well as the likely frequency of change in this policy area. However, while these factors are important in ensuring the efficient delivery of policy, so too is the need for the proper and proportionate legislative scrutiny of proposals that are ultimately an integral part of the Bill. We do not believe that the issues of flexibility, speed of operation and frequency of change outweigh the need for such scrutiny. It is surprising to see such an overreliance on statutory guidance as a means of facilitating the delivery of the Minister's policy objectives, particularly as he has emphasised the importance of primary legislation as the appropriate vehicle for doing so.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am roi tystiolaeth i'r pwyllgor ac am atgoffa Aelodau ein bod wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar 24 Mai. Mae hwn yn Fil anghyffredin yn y ffaith nad oes ganddo unrhyw bwerau i lunio rheoliadau, ond ei fod yn rhoi pwerau eang iawn i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau neu gyfarwyddiadau statudol. Mae hyn yn bwysig oherwydd nad ydynt yn gyffredinol yn ddarostyngedig i weithdrefn ffurfiol y Cynulliad, yn wahanol i reoliadau a Gorchmynion. Rydym yn nodi bod y Gweinidog yn ffafrio'r syniad o gyhoeddi canllawiau statudol oherwydd eu bod yn hyblyg ac yn gyflym i'w gweithredu, ac oherwydd bod y maes polisi hwn yn debygol o newid yn aml. Fodd bynnag, er bod y ffactorau hyn yn bwysig i sicrhau y rhoddir y polisi ar waith yn effeithlon, mae'r angen am y craffu deddfwriaethol priodol a chymesur ar gynigion, sydd yn y pen draw yn rhan annatod o'r Bil, hefyd yn bwysig. Nid ydym yn credu bod hyblygrwydd, cyflymder gweithredu ac amlder newid yn gorbwyso'r angen am graffu o'r fath. Mae'n syndod i weld gorddibyniaeth o'r fath ar ganllawiau statudol fel modd o'i gwneud yn haws i gyflawni amcanion polisi'r Gweinidog, yn enwedig gan ei fod wedi pwysleisio pwysigrwydd deddfwriaeth sylfaenol fel y cyfrwng priodol ar gyfer gwneud hynny.

Overall, we were not persuaded that the balance of this Bill is correct. We believe that more detail should be set out on the face of the Bill and that powers to make regulations should, in some instances, replace proposed ministerial powers to issue statutory guidance. While guidance is not normally subject to procedural controls, we also see no reason why scrutiny should not be facilitated by some sort of procedural mechanism, such as a requirement to lay draft guidance before the Assembly, thereby providing an opportunity for a relevant Assembly committee to carry out appropriate ministerial scrutiny, and, accordingly, we have made a recommendation to this effect. I note the remarks that Nick Ramsay made precisely on this point.

At ei gilydd, ni chawsom ein darbwyllo bod cydbwysedd y Bil hwn yn gywir. Rydym yn credu y dylai mwy o fanylion gael eu nodi ar wyneb y Bil, ac y dylai pwerau i wneud rheoliadau, mewn rhai achosion, ddisodli pwerau gweinidogol arfaethedig i gyhoeddi canllawiau statudol. Er nad yw'r canllawiau fel arfer yn ddarostyngedig i reolaethau gweithdrefnol, nid ydym yn gweld unrhyw reswm ychwaith pam na ddylai'r broses graffu gael ei hwyluso gan ryw fath o fecanwaith gweithdrefnol, megis rheidrwydd i osod canllawiau drafft gerbron y Cynulliad, a thrwy hynny roi cyfle i bwyllgor perthnasol y Cynulliad graffu'n briodol ar waith y Gweinidog. Yn unol â hynny, rydym wedi gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn. Nodaf y sylwadau a wnaeth Nick Ramsay yn union ar y pwynt hwn.

This is an opportune time to emphasise that we do not want to see a trend developing of the substantive provisions arising from primary legislation being delivered by the Government without any formal scrutiny. We will be monitoring this position closely over the remainder of the Assembly.

Mae hwn yn amser da i bwysleisio nad ydym am weld tuedd yn datblygu lle mae'r Llywodraeth yn cyflwyno'r darpariaethau o sylwedd sy'n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol heb unrhyw graffu ffurfiol. Byddwn yn monitro'r sefyllfa hon yn ofalus dros weddill y Cynulliad.

I will now make some very specific points on other recommendations, although I will not refer to them all. As I indicated, we have made a number of recommendations that we believe will strengthen the Bill—and I emphasise that the purpose of the committee's recommendations is to strengthen the Bill, should the Assembly be minded to allow the Bill to proceed. For example, we believe that section 2, which deals with the meaning of active travel routes and related facilities, section 3, which deals with existing route-maps, and section 4, which deals with integrated network maps could all benefit from amendments to place more detail on the face of the Bill and to include regulation-making powers. We have, therefore, made these recommendations, which appear in recommendations 2 to 6 of our report.

Byddaf yn awr yn gwneud rhai pwyntiau penodol iawn ar argymhellion eraill, er na fyddaf yn cyfeirio at bob un ohonynt. Fel y dywedais, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion y credwn y byddant yn cryfhau'r Bil—a phwysleisiaf mai diben argymhellion y pwyllgor yw cryfhau'r Bil, pe digwydd i'r Cynulliad fod o blaid caniatáu i'r Bil fynd rhagddo. Er enghraifft, rydym yn credu y gallai adran 2, sy'n ymdrin ag ystyr llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig, adran 3, sy'n ymdrin â mapiau llwybr sy'n bodoli eisoes, ac adran 4, sy'n ymdrin â mapiau rhwydwaith integredig i gyd elwa o welliannau i osod mwy o fanylion ar wyneb y Bil, ac i gynnwys pwerau i lunio rheoliadau. Rydym, felly, wedi gwneud yr argymhellion hyn, sy'n ymddangos yn argymhellion 2 i 6 yn ein hadroddiad.

Section 7 requires local authorities to have regard to guidance issued by Welsh Ministers in performing their duty to make continuous improvement in the range and quality of the active travel routes and related facilities in their area. We believe that, having inserted such a demand, it is unsatisfactory to explain the phrase 'continuous improvement' in statutory guidance, and that it needs to be defined on the face of the Bill. In addition, a complementary regulation-making power is needed to set out a mechanism for the implementation and monitoring of this local authority duty. Again, I note that a similar recommendation has come forward from the subject committee.

Mae Adran 7 yn gofyn i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu dyletswydd i wneud gwelliannau parhaus yn amrywiaeth ac ansawdd y llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn eu hardal. Ar ôl cynnwys dyletswydd o'r fath, rydym yn credu ei bod anfoddhaol esbonio'r ymadrodd 'gwelliant parhaus' yn y canllawiau statudol, a bod angen ei ddiffinio ar wyneb y Bil. Yn ogystal, mae angen pŵer cyfatebol i lunio rheoliadau er mwyn gosod mecanwaith ar gyfer gweithredu a monitro'r ddyletswydd hon ar awdurdod lleol. Unwaith eto, rwyf yn nodi bod argymhelliad tebyg wedi'i gyflwyno gan y pwyllgor pwnc.

Finally, section 9 allows Welsh Ministers to issue guidance to local authorities on how the provisions of the Bill should apply to disabled active travellers. This is an important policy objective. It purports to permit the scope of the Bill to be extended by guidance, which is not subject to any scrutiny procedure. This approach is wholly inappropriate for such an important change and we strongly recommend that this position be rectified in the Bill, in line with recommendation 9 of our report.

Yn olaf, mae adran 9 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylai darpariaethau'r Bil fod yn berthnasol i deithwyr llesol anabl. Mae hwn yn amcan polisi pwysig. Mae'n honni caniatáu i gwmpas y Bil gael ei ymestyn gan ganllawiau, nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu. Mae'r dull hwn yn gwbl amhriodol i newid mor bwysig ac rydym yn argymell yn gryf bod y sefyllfa hon yn cael ei chywiro yn y Bil, yn unol ag argymhelliad 9 yn ein hadroddiad.

Having made those comments about the structure of the Bill, it is our view that this Bill could be strengthened if the recommendations we have made are followed, and that the policy objectives as a result, on which we do not comment, would be more effectively delivered in achieving what many people would feel is an important area of public policy.

Ar ôl gwneud y sylwadau hynny am strwythur y Bil, ein barn ni yw y gellid cryfhau'r Bil hwn pe byddai'r argymhellion a wnaed gennym yn cael eu dilyn, ac y byddai'r amcanion polisi o ganlyniad, nad ydym yn rhoi sylwadau arnynt, yn cael eu cyflawni'n fwy effeithiol yn yr hyn y byddai llawer o bobl yn teimlo sy'n faes pwysig o bolisi cyhoeddus.

17:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I start by welcoming the active travel Bill and expressing my support for the general principles of the Bill. I recognise that the modal shift is long term and the effects will not be seen for many years. However, we have to start somewhere, and this is an important point to do that. As a member of the Enterprise and Business Committee, I have been involved in the scrutiny of this Bill. While the benefits to the environment and the health of the wider population are recognised to be excellent, there are a few areas with which I have concerns. Nick Ramsay, as Chair of the committee, has highlighted many recommendations, which I will refer to and add my voice.

Dechreuaf drwy groesawu'r Bil teithio llesol a mynegi fy nghefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwyf yn cydnabod bod y newid yn un tymor hir ac na fydd yr effeithiau i'w gweld am flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddechrau yn rhywle, ac mae hwn yn bwynt pwysig i wneud hynny. Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, rwyf wedi bod yn ymwneud â chraffu ar y Bil hwn. Er y cydnabyddir bod y manteision i'r amgylchedd ac iechyd y boblogaeth ehangach yn rhagorol, mae rhai meysydd yr wyf yn pryderu yn eu cylch. Mae Nick Ramsay, fel Cadeirydd y pwyllgor, wedi tynnu sylw at nifer o argymhellion, y byddaf yn cyfeirio ac yn ychwanegu fy llais atynt.

I wish to add my voice to the importance of recommendation 2. I believe that the Bill provides too many instances where guidance is at the discretion of the Minister. As such, I welcome recommendation 3, which states that

Hoffwn ychwanegu fy llais at bwysigrwydd argymhelliad 2. Rwyf yn credu bod y Bil yn darparu gormod o achosion lle y cyflwynir canllawiau yn ôl disgresiwn y Gweinidog. Fel y cyfryw, rwyf yn croesawu argymhelliad 3, sy'n datgan

'implementation of the design guidance issued under the Bill should be mandatory'

y dylai fod yn orfodol i weithredu'r canllawiau dylunio a gyhoeddir o dan y Bil

and not at the discretion of the Minister. If this is not accepted, I feel that there will be too many instances where the Minister's discretion is used by local authorities rather than delivering on what the Government would have anticipated through introducing this Bill.

ac nid yn ôl disgresiwn y Gweinidog. Os nad yw hyn yn cael ei dderbyn, rwyf yn teimlo y bydd gormod o achosion lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio disgresiwn y Gweinidog yn hytrach na chyflawni'r hyn y byddai'r Llywodraeth wedi'i ragweld drwy gyflwyno'r Bil hwn.

The Bill is not clear on some definitions. It is important to ensure that there is a clear understanding of what active travel is. It is indicated that active travel refers to an approach to travel and transport that focuses on physical activity as opposed to motorised transport. However, clarity is needed together with a definition of what constitutes an active travel route. Although the explanatory memorandum attempts to do this, I believe that it simply implies that a local authority can designate a route as an active travel route without detailed criteria. Additionally, recommendation 4 states that

Nid yw'r Bil yn glir ar rai diffiniadau. Mae'n bwysig sicrhau dealltwriaeth glir o ystyr yw teithio llesol. Nodir bod teithio llesol yn cyfeirio at agwedd at deithio a chludiant sy'n canolbwyntio ar weithgarwch corfforol yn hytrach na thrafnidiaeth modur. Fodd bynnag, mae angen eglurder ynghyd â diffiniad o beth yw llwybr teithio llesol. Er bod y memorandwm esboniadol yn ceisio gwneud hyn, rwyf yn credu nad yw ond yn awgrymu y gall awdurdod lleol ddynodi llwybr fel llwybr teithio llesol heb feini prawf manwl. Yn ogystal, mae argymhelliad 4 yn nodi y:

'the definition of "active travel route" should include reference to facilitation of shorter journeys in order to more accurately reflect the policy intention stated in the Explanatory Memorandum.'

dylai'r diffiniad o "lwybr teithio llesol" gynnwys cyfeiriad at hwyluso teithiau byrrach er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir y bwriad polisi a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

It also recommends that an active travel route should be based on the potential for journeys to be made rather than linked to population. I feel that this should be written into the Bill to ensure that local authorities consider active travel routes for active travel.

Mae hefyd yn argymell y dylai llwybr teithio llesol fod yn seiliedig ar y potensial i deithiau gael eu gwneud yn hytrach na chysylltu â'r boblogaeth. Rwyf yn teimlo y dylai hyn gael ei ysgrifennu yn y Bil i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried llwybrau teithio llesol ar gyfer teithio llesol.

My final point, and possibly the most important, is that of safety. Suzy Davies discussed this in a short debate just before the half-term recess. We must be sure that we understand the criteria used to determine the concept of a safe route and what is deemed to be a safe active travel route. Unfortunately, there is no mention in the Bill of safety. How will we ensure that people using active travel routes are doing so in a safe manner? While the Bill suggests that the benefits of cycling far outweigh other health risks, I feel that traffic is not the only safety risk to people enjoying active travel.

Fy mhwynt olaf, ac o bosibl y mwyaf pwysig, yw diogelwch. Trafododd Suzy Davies hwn mewn dadl fer ychydig cyn y toriad hanner tymor. Mae'n rhaid i ni fod yn sicr ein bod yn deall y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar y cysyniad o lwybr diogel a'r hyn a ystyrir yn llwybr teithio llesol diogel. Yn anffodus, nid oes sôn yn y Bil am ddiogelwch. Sut y byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio llwybrau teithio llesol yn gwneud hynny mewn modd diogel? Er bod y Bil yn awgrymu bod manteision beicio yn llawer mwy na gwneud iawn am y risgiau iechyd eraill, rwyf yn teimlo nad traffig yw'r unig berygl diogelwch i bobl sy'n mwynhau teithio llesol.

We have an excellent cycling and walking route in the Afan valley in my constituency. It goes from Aberavon seafront all the way up the valley to Glyncorrwg. The route is mostly away from the highway and motorised vehicles are out of sight. On a beautiful summer's day like today—we cannot see it in here but it is beautiful out there—it is an excellent route along which to cycle, walk, use wheelchairs or push a pram, and to enjoy that experience. However, on a cold, wet, misty winter's day or evening, this route is unlit and has no safety barriers. It runs along a river in places and could be dangerous. Under the Bill, there is no guidance for local authorities to ensure that active travel routes are safe, well lit and gritted in winter, or that they reduce the risk of injury from traffic as far as is reasonably possible. Therefore, it is important for the status of active travel routes to be clarified and that the responsibility for maintenance is identified. It is possible that, in addition to being active travel routes, some of these routes may be used as safe routes to schools. This is a concern that I have. You can see how important it is to ensure safety for all users. Therefore, I ask the Minister to consider these important points when considering the Government's response to the Bill.

Mae gennym lwybr beicio a cherdded ardderchog yng nghwm Afan yn fy etholaeth i. Mae'n mynd o lan môr Aberafan yr holl ffordd i fyny'r dyffryn i Lyncorrwg. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr draw oddi wrth y briffordd ac mae cerbydau modur allan o'r golwg. Ar ddiwrnod braf o haf prydferth fel heddiw—ni allwn weld hynny yma, ond mae hi'n hyfryd y tu allan—mae'n llwybr ardderchog i feicio, cerdded, defnyddio cadeiriau olwyn neu wthio pram, ac i fwynhau'r profiad hwnnw. Fodd bynnag, ar ddiwrnod neu fin nos oer, gwlyb, niwlog yn y gaeaf, nid oes golau na rhwystrau diogelwch ar y llwybr hwn. Mae'n rhedeg ar hyd afon mewn mannau, a gallai fod yn beryglus. O dan y Bil, nid oes canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod llwybrau teithio llesol yn ddiogel, wedi'u goleuo'n dda ac wedi'u graeanu yn y gaeaf, neu eu bod yn lleihau'r risg o anaf gan draffig cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl. Felly, mae'n bwysig egluro statws llwybrau teithio llesol a nodi'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw. Mae'n bosibl y gellid defnyddio rhai o'r llwybrau hyn fel llwybrau diogel i ysgolion, yn ogystal â llwybrau teithio llesol. Mae hyn yn destun pryder imi. Gallwch weld pa mor bwysig yw hi i sicrhau diogelwch ar gyfer pob defnyddiwr. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog ystyried y pwyntiau pwysig hyn wrth ystyried ymateb y Llywodraeth i'r Bil.

17:15 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to rise to speak on the Active Travel (Wales) Bill, which I support on behalf of the Welsh Conservatives. As a constructive opposition, we have always accepted the principle of the Bill; indeed, it is difficult to disagree with it in principle, but, in practice, the issue is very different. However, that is not the purpose of today's debate.

Rwyf yn falch o godi i siarad ar y Bil Teithio Llesol (Cymru), yr wyf yn ei gefnogi ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Fel gwrthblaid adeiladol, rydym bob amser wedi derbyn egwyddor y Bil; yn wir, mae'n anodd anghytuno ag ef mewn egwyddor, ond, yn ymarferol, mae'n fater gwahanol iawn. Fodd bynnag, nid dyna yw diben y ddadl heddiw.

I have a couple of topics within the Bill that I want to draw out for a response from the Minister and to raise in general, namely the engineering guidance, the soft measures to accompany the Bill and funding.

Mae gennyf un neu ddau o bynciau o fewn y Bil yr wyf am eu hamlygu i gael ymateb gan y Gweinidog ac i'w codi yn gyffredinol, sef y canllawiau peirianneg, y mesurau meddal i gyd-fynd â'r Bil a chyllid.

Prior to this, I want to reiterate remarks that I have made in many different forums, and to Ministers past and present. I want to pause to consider the large emphasis on mapping new routes, which, while necessary, is not perhaps sufficient to achieve the ambitions of the Bill. So, I want to put on record again that this Bill cannot end up just producing a new ambitious map for the Minister's office. We need physical routes on the ground, not lines on a wall in Cathays park. Please do not get me wrong, Minister—I wholeheartedly support the intent of this Bill to enable more people to walk and cycle, and generally travel by non-motorised transport. However, that ambition and intent must be supported with funding and targets.

Cyn hyn, rwyf am ailadrodd sylwadau yr wyf wedi'u gwneud mewn nifer o wahanol fforymau, ac i Weinidogion yn y gorffennol a'r presennol. Rwyf am oedi i ystyried y pwyslais mawr ar fapio llwybrau newydd. Er bod hynny'n angenrheidiol, efallai ei fod yn annigonol i gyflawni uchelgeisiau'r Bil. Felly, rwyf am ddweud ar goedd eto bod yn rhaid i'r Bil hwn wneud mwy na chynhyrchu map uchelgeisiol newydd ar gyfer swyddfa'r Gweinidog. Mae angen llwybrau ffisegol ar y ddaear, nid llinellau ar wal ym mharc Cathays. Peidiwch â'm camddeall, Weinidog—rwyf yn llwyr gefnogi bwriad y Bil hwn i alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio, ac yn gyffredinol i deithio ar drafnidiaeth di-fodur. Fodd bynnag, rhaid cael cyllid a thargedau i gefnogi'r uchelgais a'r bwriad hwnnw.

I still want to know how the Active Travel (Wales) Bill will interlink with the Government's targets within the walking and cycling action plan. As has already been mentioned by David Rees—I know that it is also of concern to my colleague Suzy Davies—I would like to know exactly what a safe route is. I found no definition of it in the Bill, and no detail has come out at committee stage as yet. How can you expect local authorities to design safe cycling routes without a clear definition of what a safe cycling route is?

Rwyf yn dal yn awyddus i wybod sut y bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn cydgysylltu â thargedau'r Llywodraeth o fewn y cynllun gweithredu ar gerdded a beicio. Fel y mae David Rees eisoes wedi ei grybwyll—rwyf yn gwybod ei fod hefyd yn destun pryder i'm cydweithiwr Suzy Davies—byddwn yn hoffi gwybod yn union beth yw llwybr diogel. Ni ddeuthum o hyd i ddiffiniad ohono yn y Bil, ac nid oes unrhyw fanylion wedi dod allan yn y cyfnod pwyllgor hyd yn hyn. Sut gallwch chi ddisgwyl i awdurdodau lleol gynllunio llwybrau beicio diogel heb ddiffiniad clir o beth yw llwybr beicio diogel?

We all recognise that this Bill is a step forward and that a political consensus around this topic exists. However, turning this political consensus into real action is of great concern. Could this be a challenge too far?

Rydym i gyd yn cydnabod bod y Bil hwn yn gam ymlaen a bod consensws gwleidyddol yn bodoli ynglŷn â'r pwnc hwn. Fodd bynnag, mae troi'r consensws gwleidyddol hwn yn weithredu go iawn yn destun pryder mawr. A allai hyn fod yn ormod o her?

Minister, you mentioned busy traffic in your introduction. I have said it before, but it warrants another airing: I welcome the updating of guidance to highways engineers who currently build to the 'Design Manual for Roads and Bridges', which is not suitable for walking and cycling routes and fails to cater for the user of these new routes. Routes are often weakened by breaks and barriers in the networks, or cycle lanes that are too narrow or unsuitable for shared use. Providing clear and best practice standards as part of the Bill will ensure that the networks created are of the highest quality, and, in turn, likely to be well used by people who are not currently confident cyclists. That is very important if this legislation is to succeed.

Weinidog, soniasoch am draffig prysur yn eich cyflwyniad. Rwyf wedi dweud hyn o'r blaen, ond mae'n haeddu cael ei ailadrodd: croesawaf y ffaith y bwriedir diweddaru'r canllawiau i beirianwyr priffyrdd sy'n adeiladu ar hyn o bryd yn ôl y 'Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd'. Nid yw hwn yn addas ar gyfer llwybrau cerdded a beicio ac nid yw'n darparu ar gyfer defnyddwyr y llwybrau newydd. Mae llwybrau'n aml yn cael eu gwanhau gan fylchau a rhwystrau yn y rhwydweithiau, neu lonydd beicio sy'n rhy gul neu'n anaddas i'w defnyddio gan fwy nag un ar y tro. Trwy ddarparu safonau clir ac arfer gorau fel rhan o'r Bil, gellir sicrhau bod y rhwydweithiau a grëir o'r safon uchaf, ac, yn eu tro, yn debygol o gael eu defnyddio'n helaeth gan bobl nad ydynt yn feicwyr hyderus ar hyn o bryd. Mae hynny'n bwysig iawn os yw'r ddeddfwriaeth hon i lwyddo.

Closing on the subject of funding, Minister, having accepted that we all support the principle, your Government has made it clear that there will be no new money to fund active travel. While the Bill will help us to spend existing money more strategically, Wales currently only spends £3.30 per head on walking and cycling. The Netherlands has spent £19 per head over a generation, which is roughly equivalent to £60 million a year in Wales—the equivalent of building some three miles of road.

Gan orffen ar bwnc cyllid, Weinidog, a chan dderbyn ein bod i gyd yn cefnogi'r egwyddor, mae eich Llywodraeth wedi ei gwneud yn glir na fydd unrhyw arian newydd ar gael i ariannu teithio llesol. Er y bydd y Bil yn ein helpu i wario arian presennol yn fwy strategol, nid yw Cymru ar hyn o bryd ond yn gwario £3.30 y pen ar gerdded a beicio. Mae'r Iseldiroedd wedi gwario £19 y pen dros genhedlaeth, sy'n cyfateb yn fras i £60 miliwn y flwyddyn yng Nghymru—sy'n cyfateb i adeiladu rhyw dair milltir o ffordd.

The Bill is ambitious and talks of a change in culture. The international evidence suggests that this requires greater resources than we currently set aside for active travel. Given the high cost of ill health to the Welsh economy, the question of funding for preventative intervention, like active travel, needs to be addressed.

Mae'r Bil yn uchelgeisiol ac yn sôn am newid mewn diwylliant. Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod hyn yn gofyn am fwy o adnoddau nag yr ydym ni'n eu neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer teithio llesol. O ystyried faint y mae iechyd gwael yn ei gostio i economi Cymru, mae angen mynd i'r afael â'r cwestiwn o gyllid ar gyfer ymyriad ataliol, megis teithio llesol.

Minister, I realise that I have raised some concerns that will not have taken you by surprise. The ambitions and intent of the Bill in principle are accepted, but there is still a lot of work to do to iron things out as this Bill progresses.

Weinidog, rwyf yn sylweddoli fy mod wedi codi rhai pryderon na fydd wedi eich synnu. Derbynnir uchelgeisiau a bwriad y Bil mewn egwyddor, ond mae llawer o waith i'w wneud i ddatrys y manylion wrth i'r Bil hwn fynd yn ei flaen.

17:19 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was not a member of the committees that looked at this Bill, but I want to share with the Chamber today an area of concern that I have raised previously, namely shared surfaces. To anyone with a disability, shared surfaces can be a nightmare. Shared surfaces mainly rely on eye contact between those who use them. For those with a sight impairment, this can rule them out of that equation. Kerbs are also a very important part of a street layout for someone who is blind or partially sighted, but a shared surface scheme often means that kerbs are removed. The kerb is vital for street navigation for anyone with a long cane, and guide dogs are trained to navigate by kerbs. The removal of any kerb risks leaving people in danger, as it is difficult to work out where the safe area stops and where the roadway for vehicles begins. I share the concerns of others on what is a safe route.

Nid oeddwn yn aelod o'r pwyllgor a edrychodd ar y Bil hwn, ond rwyf am rannu gyda'r Siambr heddiw destun pryder yr wyf wedi'i godi o'r blaen, sef arwynebau a rennir. I unrhyw un sydd ag anabledd, gall arwynebau a rennir fod yn hunllef. Mae arwynebau a rennir yn dibynnu'n bennaf ar gyswllt llygad rhwng y rhai sy'n eu defnyddio. I'r rhai sydd â nam ar y golwg, gall hyn eu heithrio'n llwyr. Mae ymylon palmentydd hefyd yn rhan bwysig iawn o gynllun strydoedd ar gyfer rhywun sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol, ond ceir gwared ar ymylon palmentydd yn aml yn achos cynllun sy'n cynnwys arwyneb a rennir. Mae ymylon palmentydd yn hanfodol i unrhyw un sydd â ffon hir ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas, ac mae cŵn tywys yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio ymylon palmentydd i ddod o hyd i'w ffordd. Mae risg y gellir gadael pobl mewn perygl trwy gael gwared ar ymylon palmentydd, gan ei bod yn anodd penderfynu lle mae'r ardal ddiogel yn dod i ben a'r ffordd ar gyfer cerbydau yn dechrau. Rwyf yn rhannu pryderon pobl eraill ynghylch beth sy'n llwybr diogel.

How are those with a hearing impairment supposed to know if there is a shared cycle path and walkway? How are they supposed to know if a cyclist is coming up behind them? It is not always obvious to the cyclist that a pedestrian may be deaf. The deaf person will certainly not know if there is somebody behind them. I have mentioned before to previous Ministers that cyclists should carry some insurance while they are on the roads or on cycle tracks. They are the only transport users, I think, not to have any form of insurance. As Members on all sides of the Chamber have said, we want to see the disabled community feel safe and secure in going about their daily lives. We want to see more people walking or cycling.

Sut mae rhai sydd â nam ar eu clyw i fod i wybod os oes llwybr beicio a cherdded ar y cyd? Sut y maent i fod i wybod os bydd beiciwr yn dod i fyny y tu ôl iddynt? Nid yw bob amser yn amlwg i'r beiciwr y gall cerddwyr fod yn fyddar. Ni fydd y person byddar yn sicr yn gwybod os oes rhywun y tu ôl iddynt. Rwyf wedi sôn o'r blaen wrth Weinidogion blaenorol y dylai beicwyr fod â rhywfaint o yswiriant tra eu bod ar y ffyrdd neu ar lwybrau beicio. Dyma'r unig ddefnyddwyr cludiant, rwyf yn credu, i beidio â chael unrhyw fath o yswiriant. Fel y mae Aelodau ar bob ochr i'r Siambr wedi dweud, rydym am weld y gymuned anabl yn teimlo'n ddiogel yn byw eu bywydau bob dydd. Rydym am weld mwy o bobl yn cerdded neu'n beicio.

The Government's own impact assessment acknowledged that disabled people are vulnerable road users and are at greater risk of harm from collision with cyclists and/or traffic, with less opportunity to avoid a collision. Potentially, disabled people have the most to gain from a safer active travel route in terms of safety, access and social integration, but they could also be at the highest risk of harm if their needs are not appropriately considered in the design of any of the infrastructure. So, I still have a deep concern that shared surfaces have not been addressed properly. They are seen to many without a disability as something that just pops along, but for somebody with a disability, they are a nightmare.

Cydnabu asesiad effaith y Llywodraeth ei hun fod pobl anabl yn ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed a'u bod mewn mwy o berygl o niwed o wrthdrawiad â beicwyr a/neu draffig, gyda llai o gyfle i osgoi gwrthdrawiad. Pobl anabl, o bosibl, sydd â'r mwyaf i'w ennill o lwybr teithio llesol mwy diogel o ran diogelwch, mynediad ac integreiddio cymdeithasol, ond gallent hefyd fod yn y perygl uchaf o niwed os nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn briodol wrth ddylunio unrhyw ran o'r seilwaith. Felly, mae gennyf bryder dwfn o hyd nad yw arwynebau a rennir wedi cael sylw priodol. Maent yn cael eu hystyried gan lawer heb anabledd fel rhywbeth sy'n digwydd yn ddidrafferth, ond i rywun sydd ag anabledd, maent yn hunllef.

I seek your assurance, Minister, that, in taking this Bill forward, you will address all the concerns of disabled people in communities and that the Active Travel (Wales) Bill should not progress without a full equality impact assessment, with some clear recommendations as to what we are going to do to make disabled people safe in our communities.

Ceisiaf sicrwydd gennych, Weinidog, y byddwch, wrth ddatblygu'r Bil hwn, yn rhoi sylw i holl bryderon pobl anabl mewn cymunedau ac na ddylai'r Bil Teithio Llesol (Cymru) symud ymlaen heb asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb, gyda rhai argymhellion clir o ran yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud i sicrhau bod pobl anabl yn ddiogel yn ein cymunedau.

17:22

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch iawn o gefnogi'r Bil hwn, fel rydym yn gorfod ei alw—mae'n biti na allwn ei alw'n 'Fesur'. Mae Cadeirydd y pwyllgor wedi manylu ar yr adroddiad ac rwy'n cefnogi'r adroddiad hwnnw yn gyfan gwbl. Rwy'n gofyn i'r Gweinidog edrych hefyd ar y sylwadau y mae Sustrans wedi'u cynnig wrth iddo ystyried unrhyw welliannau y bydd am eu cyflwyno.

I am very pleased to support this Bill—we now have to call it 'Bil' in Welsh; it is a shame that we cannot use the word 'Mesur'. The Chair of the committee has detailed the report and I support that report completely. I ask the Minister to also look at the comments that Sustrans have made in considering any amendments he may wish to put forward.

Fy marn i yw bod y Bil hwn yn rhy gyfyngedig o ran yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, er ei fod yn ddechrau da, fel y dywedodd fy nghyfaill David Rees. Rwyf hefyd yn rhannu'r pryderon sydd wedi cael eu mynegi y prynhawn yma bod gormod o faterion cysylltiol yn cael eu rhoi i ofal y Gweinidog neu Weinidogion. Mae hon yn ffordd ddiog iawn o ddeddfu ac mae'n nodwedd sy'n rhy gyffredin mewn Biliau sy'n cael eu cyflwyno yn y lle hwn. Felly, rwy'n gofyn unwaith eto i'r Gweinidog edrych yn fanwl i weld beth y gall ei gynnwys ar wyneb y Bil er mwyn diffinio yn union beth y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni a sut y bydd yn cyflawni hynny.

In my opinion, this Bill is too restricted in what it is trying to achieve, although it is a good start, as my colleague David Rees said. I share the concerns that have been expressed this afternoon that too many related issues are put into the hands of the Minister or Ministers. This is a very lazy way of legislating and it is a too common feature of Bills that are put forward in this place. Therefore, I ask once again for the Minister to look in detail to see what could be included on the face of the Bill in order to define exactly what the Bill is trying to achieve and how it will go about doing that.

Rwyf am gyfeirio at ddau fater yn unig. Efallai nad yw hyn yn gwbl berthnasol i'r drafodaeth y prynhawn yma, ond rwy'n anfodlon iawn bod y Bil yn cael ei gyflwyno gan un Gweinidog pan fydd y gwariant perthnasol yn gorwedd mewn portffolio arall, neu mewn mwy nag un portffolio arall. Yn wir, ni fydd fawr ddim, os o gwbl, o gyllideb y Gweinidog presennol yn ymwneud â gweithredu'r Bil. Rwy'n credu bod hynny'n anffodus, a derbyn bod defnydd hamdden a theithio i waith ar lawer o'r llwybrau hyn, ac na allwch wahanu'r ddau yn glir.

I would like to refer to two issues. Perhaps this is not completely relevant to the discussion this afternoon, but I am not content that this Bill has been put forward by one Minister when the relevant expenditure lies in another portfolio, or in more than one different portfolio. Indeed, virtually none, if any at all, of the current Minister's budget will be tied into the implementation of the Bill. I think that that is unfortunate, accepting that many of the paths will be used both for leisure and travelling to work, and you cannot separate those two things clearly.

Y mater arall yw'r hyn y cyfeirir ato ym mharagraff 19 o'r memorandwm esboniadol, sy'n cyfeirio at y mathau o lwybrau y mae'r Bil hwn yn berthnasol iddynt. At ei gilydd, mae'r memorandwm yn nodi'n glir mai Bil yw hwn ar gyfer dinasoedd yn bennaf, ac efallai rhai o'r trefi mwyaf. Ceir cyfeiriad yma at drothwy poblogaeth arfaethedig o 2,000 o bobl—hynny yw, mae unrhyw beth sy'n llai na hynny yn amherthnasol. Fodd bynnag, yn fy etholaeth i, mae dwy ganolfan waith bwysig, sef Caernarfon a Bangor—gallech gynnwys rhyw ddau neu dri o leoedd eraill. Mae nifer o bentrefi sydd efallai'n cynnwys llai na 2,000 o bobl yn weddol agos at y trefi hynny ac y gellid eu cysylltu. Mae rhai ohonynt wedi eu cysylltu'n barod, ond mae rhai eraill y gellid eu cysylltu a byddai mwy na 2,000 o bobl o gymryd dau neu dri o bentrefi gyda'i gilydd. Byddai'r bobl hynny'n gallu defnyddio'r llwybrau hynny i fynd i'w gwaith. Gan ystyried sut y bydd cost petrol a thanwydd yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf, rwy'n sicr y bydd mwy o bobl yn edrych yn fanwl ar feicio a cherdded i'w gwaith. Gofynnaf i'r Gweinidog edrych yn fanwl ar baragraff 19 ac ail-ddiffinio'r llwybrau hynny sy'n berthnasol i'r Bil.

The other issue is what is referred to in paragraph 19 of the explanatory memorandum, which refers to the type of routes that this Bill relates to. The memorandum makes it clear that this is a Bill for cities mainly, and perhaps some of the larger towns. There is a reference here to a proposed population threshold of 2,000—that is, anything less than that is irrelevant. However, in my constituency, there are two important centres of work, namely Caernarfon and Bangor—you could include two or three other places. There are a number of villages of perhaps less than 2,000 people that are quite close to those towns and they could be linked to them. Some of them are linked already, but there are others that could be linked and there would be more than 2,000 people if you take two or three villages together. Those people could use those paths to go to work. Given that the cost of petrol and fuel will increase in coming years, I am sure that more people will look closely at cycling and walking as options for travelling to work. I ask the Minister to look at paragraph 19 and to redefine those routes that are relevant to the Bill.

17:25

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his introduction today and I welcome the aims of the Bill. I have great pleasure in being able to express my support and that of my group for the general principles here today. I had the privilege of sitting on both of the committees that were scrutinising this Bill and while a large number of amendments have been suggested, it is in the spirit that we want to help to deliver the policy intentions here, because there is a consensus across this Chamber that we would like to see active travel become a part of Welsh culture—it is something that we would like to drive forward. I hope that the Minister will take that into account when he considers these recommendations.

Diolch i'r Gweinidog am ei gyflwyniad heddiw ac rwyf yn croesawu amcanion y Bil. Mae'n bleser mawr gennyf allu mynegi fy nghefnogaeth a chefnogaeth fy ngrŵp i'r egwyddorion cyffredinol yma heddiw. Cefais y fraint o eistedd ar y ddau bwyllgor a oedd yn craffu ar y Bil hwn ac er bod nifer fawr o ddiwygiadau wedi cael eu hawgrymu, gwneir hynny yn yr ysbryd ein bod eisiau helpu i gyflawni bwriadau'r polisi yma, oherwydd y ceir consensws ar draws y Siambr hon y byddem yn hoffi gweld teithio llesol yn dod yn rhan o ddiwylliant Cymru—mae'n rhywbeth y byddem yn hoffi ei ddatblygu. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cadw hynny mewn cof pan fydd yn ystyried yr argymhellion hyn.

One of the concerns raised in both committees, and just now by Alun Ffred, was that the Bill is being written by one department and delivered by another, particularly given that the previous Minister had said that that division of labour between design and delivery had been a fatal flaw in the walking and cycling action plan that preceeded this Bill.

Un o'r pryderon a godwyd yn y ddau bwyllgor, ac yn awr gan Alun Ffred, oedd bod y Mesur yn cael ei ysgrifennu gan un adran a'i roi ar waith gan un arall, yn enwedig o ystyried bod y Gweinidog blaenorol wedi dweud bod y rhaniad llafur rhwng cynllunio a chyflawni wedi bod yn nam angheuol yn y cynllun gweithredu ar gerdded a beicio a ragflaenodd y Bil hwn.

Another issue that has been raised is the question of balance between what is on the face of the Bill and what is left to guidance. Critical to this is the Assembly's ability to properly scrutinise the guidance, particularly as so much of the delivery of the Bill depends on that.

Mater arall a godwyd yw'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i ganllawiau. Mae gallu'r Cynulliad i graffu'n briodol ar y canllawiau yn hollbwysig yn hyn o beth, yn enwedig gan fod cymaint o'r broses o roi'r Bil ar waith yn dibynnu ar hynny.

I will move on to some of the specific recommendations. Recommendation 12 in the Enterprise and Business Committee report talks about the need for a definition of continuous improvement. This is also raised in the Constitutional and Legislative Affairs Committee report. I believe that we need that clarity and definition, so that local authorities know exactly what is expected of them if a legal duty is placed upon them. I also think that there is an opportunity here to use this definition in a more practical and proactive way to give a slightly broader definition of what we mean by improvement. So, could we potentially use it to broaden the assessments to include improvement in the amount of use that the routes are getting? Could we use that definition of continuous improvement to include education and engagement activity as well? Those kinds of measures can be critical in changing the culture of car use that we are saddled with at the moment.

Rwyf am symud ymlaen at rai o'r argymhellion penodol. Mae argymhelliad 12 yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn sôn am yr angen i gael diffiniad o welliant parhaus. Codir hyn hefyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Credaf fod arnom angen yr eglurder a'r diffiniad hwnnw, fel bod awdurdodau lleol yn gwybod yn union beth a ddisgwylir ganddynt os bydd dyletswydd gyfreithiol yn cael ei rhoi arnynt. Rwyf hefyd yn credu bod cyfle yma i ddefnyddio'r diffiniad hwn mewn ffordd fwy ymarferol a rhagweithiol i roi diffiniad ychydig yn ehangach o'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth welliant. Felly, a allem o bosibl ei ddefnyddio i ehangu'r asesiadau i gynnwys gwelliant o ran faint o ddefnydd a wneir o'r ffyrdd? A allem ddefnyddio'r diffiniad o welliant parhaus i gynnwys addysg a gweithgarwch ymgysylltu hefyd? Gall y mathau hynny o fesurau fod yn allweddol wrth newid y diwylliant o ddefnydd car sy'n faich i ni ar hyn o bryd.

Recommendation 17 in the Enterprise and Business Committee report looks at the issue of funding and calls on the Minister to address more thoroughly the costs of mapping existing routes and the basis on which the costs of the mapping of continuous improvements have been calculated. I note that the Minister has confirmed that the Welsh Government will provide cash for mapping but it is yet to provide any indication of the estimated costs and where that funding will come from. Of course, this is linked to the issue of continuous improvement. If we do not yet know what is required or expected, and what we are hoping that local authorities will deliver, it will be very difficult for us to assess whether or not the funding allocated will be sufficient to do it.

Mae argymhelliad 17 yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn edrych ar fater ariannu ac yn galw ar y Gweinidog i fynd i'r afael yn fwy trylwyr â chostau mapio llwybrau presennol ac ar ba sail y mae costau mapio gwelliannau parhaus wedi cael eu cyfrifo. Sylwaf fod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian ar gyfer mapio, ond nad yw eto wedi rhoi unrhyw arwydd o'r costau amcangyfrifedig ac o ble y bydd y cyllid yn dod. Wrth gwrs, mae hyn yn gysylltiedig â mater gwelliant parhaus. Os nad ydym yn gwybod eto beth sy'n ofynnol neu beth a ddisgwylir, a beth yr ydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ei ddarparu, bydd yn anodd iawn i ni i asesu a fydd y cyllid a ddyrannwyd yn ddigonol i wneud hynny ai peidio.

If you want to change things, you have to pay for it and we will only see the Bill achieve its ambitions if money can be provided for those practical things. Clearly, there is a finite pot here and, if money is allocated to mapping, I would like to be assured that it will not be taken away from other really useful initiatives, such as Sustrans's Bike It or other engagement in education activities. Education not only encourages people to change their behaviour, it also teaches them how to use these routes safely, how to use shared spaces appropriately, and such things as cycle junctions, which are complex and different to what we are taught when we are learning to drive, and how to teach children how to approach traffic when they are using these routes. These things cannot be separated from one another.

Os ydych am newid pethau, mae'n rhaid i chi dalu amdano ac ni fyddwn ond yn gweld y Bil yn cyflawni ei uchelgeisiau os gellir darparu arian ar gyfer y pethau ymarferol hynny. Yn amlwg, mae'r gronfa'n gyfyngedig ac, os oes arian yn cael ei ddyrannu i fapio, hoffwn gael sicrwydd na fydd yn cael ei gymryd oddi ar fentrau defnyddiol iawn eraill, megis Beiciwch Hi gan Sustrans neu ymgysylltu arall mewn gweithgareddau addysg. Mae addysg yn annog pobl i newid eu hymddygiad, ond mae hefyd yn eu dysgu sut i ddefnyddio'r llwybrau hyn yn ddiogel, sut i ddefnyddio mannau a rennir yn briodol, a phethau megis cyffyrdd beicio, sy'n gymhleth ac yn wahanol i'r hyn a ddysgwn wrth ddysgu gyrru, a sut i ddysgu plant sut i ymdrin â thraffig pan maent yn defnyddio'r llwybrau hyn. Ni ellir gwahanu'r pethau hyn oddi wrth ei gilydd.

I am sorry to say that in its first form, this Bill seems to be working on the principle of 'If we build it, they will come.' However, we need more than that. Culture change is about changing people's hearts and minds, and you will not do that with a map. The Bill looks at practical challenges and logistics, but I truly believe that we will achieve much more if we marry together the practical aspects of providing safe routes with the aspirational aspects of inspiring this and future generations to live their lives and to travel in a different way to the way that we do now. If the action plan by which you intend to tackle some of these issues and to put some flesh on the bones is not on the face of the Bill, it will not be seen to have the same status, because, in fact, it will not.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud bod y Bil hwn, ar ei ffurf gyntaf, yn ymddangos fel petai'n gweithio ar yr egwyddor 'Os byddwn yn ei adeiladu, byddant yn dod.' Fodd bynnag, mae angen mwy na hynny. Mae newid diwylliant yn ymwneud â newid calonnau a meddyliau pobl, ac ni fyddwch yn gwneud hynny gyda map. Mae'r Bil yn edrych ar heriau ymarferol a logisteg, ond rwyf wir yn credu y byddwn yn cyflawni llawer mwy trwy gyfuno agweddau ymarferol darparu llwybrau diogel ag agweddau uchelgeisiol symbylu'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol i fyw eu bywydau, ac i deithio mewn ffordd wahanol i'r ffordd a wnawn yn awr. Os na fydd y cynllun gweithredu yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn ac i roi rhywfaint o gnawd ar yr esgyrn yn cael ei gynnwys ar wyneb y Bil, nid ystyrir y bydd ganddo'r un statws, oherwydd, mewn gwirionedd, ni fydd ganddo'r un statws.

17:30 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not want to prolong the debate, and I do not want to repeat what everybody else has said, but the one thing that has not been said is that the Minister who originally started taking this Bill forward was Carl Sargeant. I pay tribute to his dedication to that. I also feel strongly that it is important that we look forward in delivering this Bill. We know that, as a consequence of a reshuffle by the First Minister and a change of people in positions, this has been transferred to the portfolio for sport. I ask the very able Minister who now has charge of this Bill, which even though it fits within his portfolio, I principally see as a transport Bill, to ensure that it will be delivered in accordance with the maps that we have heard about and the way in which they join up with the transport systems that are already on the ground.

Nid wyf am ymestyn y ddadl, ac nid wyf am ailadrodd yr hyn y mae pawb arall wedi ei ddweud, ond yr un peth sydd heb ei ddweud yw mai'r Gweinidog a ddechreuodd ddatblygu'r Bil hwn yn wreiddiol oedd Carl Sargeant. Talaf deyrnged i'w ymroddiad i hynny. Rwyf hefyd yn teimlo'n gryf ei bod yn bwysig inni edrych ymlaen wrth gyflwyno'r Bil hwn. Rydym yn gwybod bod hyn wedi cael ei drosglwyddo i'r portffolio ar gyfer chwaraeon, o ganlyniad i ad-drefnu gan y Prif Weinidog a newid pobl mewn swyddi. Gofynnaf i'r Gweinidog galluog iawn sydd bellach â gofal am y Bil hwn, a welaf yn bennaf fel Bil trafnidiaeth, er ei fod yn cyd-fynd â'i bortffolio, sicrhau y bydd yn cael ei ddarparu yn unol â'r mapiau yr ydym wedi clywed amdanynt a'r ffordd y maent yn cysylltu â'r systemau trafnidiaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Many people have talked today about the need for some political will and drive to make active travel a reality. That is clear, because all the evidence tells us that, so far, the aim to improve walking and cycling rates through other, non-statutory measures is not happening, or if it is happening at all, it is not happening quickly enough. I want to focus on an area that other people perhaps have not focused on today. This is about joining up maps and routes. Many Members have talked about those maps and those routes, but an area that has not been talked about is joining up into the existing network and the trunk road system, which would clearly be used as a part of delivery. I ask the Minister how he aims to oversee delivery in that particular respect, because to talk about delivering active travel exclusively without talking about trunk roads would be, simply, to miss the point.

Mae llawer o bobl wedi sôn heddiw am yr angen am rywfaint o ewyllys wleidyddol ac ymdrech i wneud teithio llesol yn realiti. Mae hynny'n amlwg, gan fod yr holl dystiolaeth yn dangos inni, hyd yn hyn, nad yw'r nod i wella cyfraddau cerdded a beicio drwy fesurau eraill, anstatudol, yn digwydd, neu os yw'n digwydd o gwbl, nid yw'n digwydd yn ddigon cyflym. Rwyf am ganolbwyntio ar faes nad yw pobl eraill efallai wedi canolbwyntio arno heddiw. Mae hyn yn ymwneud â chysylltu mapiau a llwybrau. Mae llawer o Aelodau wedi sôn am y mapiau a'r llwybrau hynny, ond maes nad yw wedi ei drafod yw cysylltu â'r rhwydwaith presennol a'r system gefnffyrdd, a fyddai'n amlwg yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses. Gofynnaf i'r Gweinidog sut y mae'n bwriadu goruchwylio'r broses o roi'r Bil ar waith yn hynny o beth yn benodol, oherwydd y byddai siarad am ddarparu teithio llesol yn unig heb sôn am gefnffyrdd, yn syml, yn methu'r pwynt.

I also support the focus that has to be given to the disabled active traveller. I have made many representations on this, although not perhaps as eloquently as Ann Jones my colleague did just now. Nonetheless, it is an important aspect of this active travel Bill. Shared spaces will prevent some people from being active in any shape or form. I am not going to repeat what Ann Jones has said, but I will highlight an instance of active travel in the village of Llanddewi Velfrey, where residents have petitioned for road safety improvements. It does—. Excuse me, I have a cold. It demonstrates how, if you have narrow pavements, you make it impossible for people to actively travel along a trunk road. My voice is going, so I am going to have to finish.

Rwyf hefyd yn cefnogi'r ffocws y mae'n rhaid ei roi i'r teithiwr llesol anabl. Rwyf wedi gwneud llawer o sylwadau ar hyn, er nad mor huawdl efallai ag y gwnaeth Ann Jones fy nghydweithiwr yn awr. Serch hynny, mae'n agwedd bwysig ar y Bil teithio llesol. Bydd mannau a rennir yn atal rhai pobl rhag bod yn egnïol mewn unrhyw ffordd. Nid wyf am ailadrodd yr hyn y mae Ann Jones wedi'i ddweud, ond hoffwn dynnu sylw at achos o deithio llesol ym mhentref Llanddewi Felffre, lle mae trigolion wedi deisebu i wella diogelwch ar y ffyrdd. Mae'n dangos—. Esgusodwch fi, mae gennyf annwyd. Mae'n dangos sut yr ydych yn ei gwneud yn amhosibl i bobl deithio'n llesol ar hyd cefnffordd os oes gennych balmentydd cul. Mae fy llais yn mynd, felly rwyf yn mynd i orfod gorffen.

17:34 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, and I am sorry that your contribution was disturbed. I now call upon the Minister for Culture and Sport to reply to the debate.

Diolch ichi am hynny, ac yr wyf yn flin y tarfwyd ar eich cyfraniad. Galwaf yn awr ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ymateb i'r ddadl.

17:34 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I would like to begin by thanking Members for their keen interest in this legislation and their strong and widespread support for the principles of the Active Travel (Wales) Bill. I think that we are all aware that that support extends far beyond this Chamber, and there is a great deal of goodwill for this Bill.

Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i'r Aelodau am eu diddordeb brwd yn y ddeddfwriaeth hon a'u cefnogaeth gref ac eang i egwyddorion y Bil Teithio Llesol (Cymru). Credaf ein bod i gyd yn ymwybodol bod y gefnogaeth honno'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r Siambr, ac mae llawer iawn o ewyllys da ar tuag at y Bil hwn.

We are, of course, dealing with the general principles, but nonetheless many issues have been raised with regard to the detail and indeed potential future amendments. We will deal with that detail in future stages, but nonetheless I will attempt to deal with as many of the general matters as I am able to today.

Rydym, wrth gwrs, yn ymdrin â'r egwyddorion cyffredinol, ond serch hynny mae llawer o faterion wedi cael eu codi o ran y manylion, a gwelliannau posibl yn y dyfodol yn wir. Byddwn yn delio â'r manylion hynny mewn cyfnodau yn y dyfodol, ond serch hynny, byddaf yn ceisio delio â chynifer o'r materion cyffredinol ag y gallaf heddiw.

I think that we all agree that it is important to encourage more people to walk and cycle as part of their daily lives. We want to do this so that more people can experience the health benefits, we can reduce greenhouse gas emissions, and we can help to address poverty and disadvantage. At the same time, we want to help our economy to grow and take steps to unlock sustainable economic growth. Therefore, the active travel approach in Wales draws on our experience of what works and I believe that it shows our willingness to innovate. The remarks that we have heard from Members today, and the recommendations and work from the committees, show that there is a clear understanding of the cross-cutting benefits of that nature, which is why we see this widespread support.

Credaf ein bod i gyd yn cytuno ei bod yn bwysig annog mwy o bobl i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Rydym eisiau gwneud hyn fel y gall mwy o bobl brofi'r manteision iechyd, fel y gallwn leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac fel y gallwn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Ar yr un pryd, rydym eisiau helpu ein heconomi i dyfu a chymryd camau i ddatgloi twf economaidd cynaliadwy. Felly, mae'r dull teithio llesol yng Nghymru yn manteisio ar ein profiad o'r hyn sy'n gweithio a chredaf ei fod yn dangos ein parodrwydd i arloesi. Mae'r sylwadau yr ydym wedi'u clywed gan Aelodau heddiw, a'r argymhellion a'r gwaith gan y pwyllgorau, yn dangos y ceir dealltwriaeth glir o fanteision trawsbynciol o'r math hwnnw, a dyna pam yr ydym yn gweld y gefnogaeth eang hon.

I believe that there is common ground that we can build on to pass a truly effective active travel Bill. Therefore, I want to work in collaboration with Members and stakeholders in making this a Bill that will deliver measurable improvements for people in Wales. In this spirit, I want to give very careful consideration to the recommendations by both committees, and indeed the comments of Members in the Chamber today.

Rwyf yn credu bod tir cyffredin y gallwn adeiladu arno i basio Bil teithio llesol gwirioneddol effeithiol. Felly, rwyf am weithio ar y cyd ag Aelodau a rhanddeiliaid i wneud hwn yn Fil a fydd yn sicrhau gwelliannau mesuradwy i bobl yng Nghymru. Yn yr ysbryd hwn, rwyf am roi ystyriaeth ofalus iawn i argymhellion y ddau bwyllgor, ac yn wir i sylwadau'r Aelodau yn y Siambr heddiw.

With regard to some of the more specific issues raised, for example around local transport plans and policies and to what extent they will incorporate active travel, section 6 of the Bill is intended to require local authorities to consider their plans for active travel routes when forming their local transport plans and policies. The duties in section 8 include provision for new and improved road schemes to factor in those active travel routes. So, I think that we do have strong linkages made between the general transport policies of the Welsh Government and local authorities and active travel and this Bill.

O ran rhai o'r materion mwy penodol a godwyd, er enghraifft ynglŷn â chynlluniau a pholisïau trafnidiaeth lleol ac i ba raddau y byddant yn ymgorffori teithio llesol, bwriad adran 6 y Bil yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried eu cynlluniau ar gyfer llwybrau teithio llesol wrth lunio eu cynlluniau a'u polisïau trafnidiaeth lleol. Mae'r dyletswyddau yn adran 8 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgorffori'r llwybrau teithio llesol hynny yn y cynlluniau wrth wella ffyrdd ac adeiladu rhai newydd. Felly, rwyf yn meddwl y gwnaed cysylltiadau cryf rhwng polisïau trafnidiaeth cyffredinol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a theithio llesol a'r Bil hwn.

Obviously, there is strength of feeling on the need for design standards that ensure high-quality provision, and I share the desire that new guidance should have the same status as the 'Design Manual for Roads and Bridges', as a number of Members mentioned. That guidance, the 'Design Manual for Roads and Bridges', is not in fact statutory. We will have the same status for the guidance, as we propose it, in terms of those design standards. However, I am very willing to give more consideration to how we can ensure the strongest possible situation.

Yn amlwg, ceir teimladau cryf ynglŷn â'r angen am safonau dylunio sy'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, ac rwyf yn rhannu'r dyhead y dylai canllawiau newydd gael yr un statws â'r 'Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd', fel y soniodd nifer o'r Aelodau. Nid yw'r canllaw hwnnw, y 'Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd', mewn gwirionedd yn statudol. Bydd gan y canllawiau, fel y cynigiwn ni nhw, yr un statws â'r safonau dylunio hynny. Fodd bynnag, rwyf yn barod iawn i roi mwy o ystyriaeth i sut y gallwn sicrhau'r sefyllfa gryfaf bosibl.

Rightly, I think, mobility aids have been raised by Members, and the committees attached great importance to these factors. I very much accept the principle of considering those who use mobility aids as pedestrians and cyclists, and the importance of that agenda. This has always been the policy aim behind section 9 of the Bill. I want to use the right approach to ensure that we continue to increase accessibility without reducing the overall availability of routes. I will carefully consider how we best address this.

Mae Aelodau wedi sôn am gymhorthion symudedd, fel sy'n iawn rwyf yn meddwl, ac mae'r pwyllgorau wedi rhoi pwys mawr ar y ffactorau hyn. Rwyf yn derbyn yn llwyr yr egwyddor o ystyried y rhai sy'n defnyddio cymhorthion symudedd fel cerddwyr a beicwyr, a phwysigrwydd yr agenda honno. Dyma fu'r nod polisi erioed y tu ôl i adran 9 y Bil. Rwyf am ddefnyddio'r dull cywir i sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu hygyrchedd heb leihau'r graddau y mae'r llwybrau ar gael yn gyffredinol. Byddaf yn ystyried yn ofalus sut y dylem ymdrin â hyn orau.

I think that it is fair to say that there is a familiar tension around the balance to be struck between what is on the face of legislation and what is contained in guidance or regulations. Rightly, that is constantly played out in committee, and here in the Chamber. This is obviously a strong issue for this piece of legislation, and I understand the strength of feeling expressed by committees and Members. However, the provisions involved in the guidance are about technical and detailed matters, and guidance is the normal route for dealing with these matters. However, I will again want to consider carefully how appropriate scrutiny is best ensured, and all the remarks made today and, indeed, in the committee reports will be uppermost in my mind as I consider those matters. I give way to Nick Ramsay.

Credaf ei bod yn deg dweud bod tensiwn cyfarwydd o amgylch y cydbwysedd priodol rhwng yr hyn sydd ar wyneb y ddeddfwriaeth a'r hyn sy'n cael ei gynnwys mewn canllawiau neu reoliadau. Yn gywir, mae hynny'n cael ei drafod yn gyson yn y pwyllgor, ac yma yn y Siambr. Mae hwn yn amlwg yn fater pwysig ar gyfer y darn hwn o ddeddfwriaeth, ac rwyf yn deall cryfder y teimladau a fynegwyd gan y pwyllgorau ac Aelodau. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i'r canllawiau yn ymwneud â materion technegol a manwl, a chanllawiau yw'r llwybr arferol ar gyfer delio â'r materion hyn. Fodd bynnag, byddaf unwaith eto yn dymuno ystyried y ffordd orau o sicrhau proses graffu briodol, a bydd yr holl sylwadau a wnaed heddiw, ac, yn wir, yn adroddiadau'r pwyllgorau yn flaenllaw yn fy meddwl wrth imi ystyried y materion hynny. Ildiaf i Nick Ramsay.

17:40

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks for giving way. Just on that specific point, I appreciate what you say about the guidance being very much of a technical nature. I think that the issue that the Enterprise and Business Committee had was that, with particular reference to this Bill, the general principles were so tied up with that idea of the guidance itself. That was the issue that we had. It would have been a matter of importance with other Bills, but not as important as it was for us.

Diolch am ildio. Dim ond ar y pwynt penodol hwnnw, rwyf yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywedwch ynglŷn â'r ffaith fod y canllawiau i raddau helaeth o natur dechnegol. Rwyf yn credu mai'r broblem a oedd gan y Pwyllgor Menter a Busnes, gan gyfeirio'n benodol at y Bil hwn, oedd bod yr egwyddorion cyffredinol mor gysylltiedig â'r syniad o'r canllaw ei hun. Dyna oedd y broblem. Byddai wedi bod yn fater o bwys gyda Biliau eraill, ond nid mor bwysig ag yr oedd i ni.

17:40

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very willing to consider the particular aspects of this Bill that have given rise to those concerns, as expressed by Nick Ramsay, David Melding and others, and I hope that, working together, we can come to a solution that will be mutually acceptable. As I say, I am very willing to reflect on remarks made today and throughout the process of this Bill in attempting to strike the correct balance.

Rwyf yn barod iawn i ystyried agweddau penodol y Bil hwn sydd wedi arwain at y pryderon hynny, fel y'u mynegwyd gan Nick Ramsay, David Melding ac eraill, ac rwyf yn gobeithio, trwy weithio gyda'n gilydd, y gallwn ddod o hyd i ateb a fydd yn dderbyniol i'r ddwy ochr. Fel y dywedais, rwyf yn barod iawn i fyfyrio ar y sylwadau a wnaed heddiw a thrwy gydol proses y Bil hwn wrth geisio cael y cydbwysedd cywir.

I do recognise the impact that the detail of the guidance will have and the impact on local authorities. I am therefore content for an impact assessment to be produced for the final guidance documents, and I will consider how appropriate consultation scrutiny in general is best ensured.

Rwyf yn cydnabod yr effaith y bydd manylion y canllawiau yn ei chael a'r effaith ar awdurdodau lleol. Rwyf yn fodlon, felly, i asesiad effaith gael ei gynnal ar gyfer y dogfennau canllawiau terfynol, a byddaf yn ystyried y ffordd orau yn gyffredinol o sicrhau proses ymgynghori a chraffu briodol.

Regarding local authorities having regard to the guidance, they will of course have to have due regard to that guidance under the Bill, and they would need to have very good reason for diverging from what is set out in that guidance. So, I do believe that we can have some confidence on that front.

O ran awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau, byddant, wrth gwrs, yn gorfod rhoi sylw dyledus i'r canllawiau o dan y Bil, a byddai angen iddynt gael rheswm da iawn dros wyro oddi wrth yr hyn sydd wedi'i nodi yn y canllawiau hynny. Felly, rwyf yn credu y gallwn fod â rhywfaint o hyder yn y maes hwnnw.

The matters that the committees raise in their recommendations for items to be included in the guidance are, of course, of considerable significance, and I will again consider those suggestions carefully as we move forward.

Mae'r materion y mae'r pwyllgorau yn eu codi yn eu hargymhellion ar gyfer eitemau i'w cynnwys yn y canllawiau, wrth gwrs, o gryn arwyddocâd, a byddaf unwaith eto yn ystyried yr awgrymiadau hynny'n ofalus wrth i ni symud ymlaen.

Continuous improvement and the definition of it has also been a matter of considerable interest to Members. Again, I recognise the concerns raised in terms of how we could be clearer about the definition and that duty, and, indeed, there are issues around the definition of 'active travel routes'. We will want to explore how we can best achieve greater clarity on those matters, and I will again give assurance that we will give careful consideration to that.

Mae gwelliant parhaus a'r diffiniad ohono hefyd wedi bod yn fater o gryn ddiddordeb i'r Aelodau. Unwaith eto, rwyf yn cydnabod y pryderon a godwyd o ran sut y gallem fod yn gliriach ynghylch y diffiniad a'r ddyletswydd honno, ac, yn wir, ceir materion yn ymwneud â diffiniad o 'lwybrau teithio llesol'. Byddwn yn awyddus i archwilio beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod y materion hynny'n fwy eglur, a byddaf unwaith eto yn rhoi sicrwydd y byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i hynny.

A number of Members during the committee proceedings were also concerned about the population threshold and the effect that it might have by excluding communities that would otherwise benefit from being included in the requirements of the Bill. I think that there is some confusion around that; it is in fact a much broader set of criteria that apply in terms of designating localities, rather than population alone. In many ways, population was used as a proxy to arrive at costings. So, I hope that I am able to give some reassurance that we will very carefully consider alternative criteria for specifying locations to make sure that we enable the great majority of people in Wales to travel actively as often as possible, and to do so in a way that still ensures that we secure appropriate coverage. Again, there is a balance to be struck.

Roedd nifer o Aelodau yn ystod trafodion y pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch y trothwy poblogaeth a'r effaith y gallai ei chael trwy eithrio cymunedau a fyddai'n cael budd fel arall o gael eu cynnwys yng ngofynion y Bil. Credaf y ceir rhywfaint o ddryswch ynghylch hynny; mewn gwirionedd defnyddir set llawer ehangach o feini prawf wrth ddynodi ardaloedd, yn hytrach na phoblogaeth yn unig. Mewn sawl ffordd, defnyddiwyd y boblogaeth fel dull rhwydd o gyfrifo costau. Felly, rwyf yn gobeithio fy mod yn gallu rhoi rhywfaint o sicrwydd y byddwn yn ystyried meini prawf eraill yn ofalus iawn ar gyfer nodi lleoliadau, i wneud yn siŵr ein bod yn galluogi mwyafrif helaeth o bobl Cymru i deithio yn llesol mor aml ag y bo modd, gan wneud hynny mewn ffordd sy'n dal i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau darpariaeth briodol. Unwaith eto, rhaid dod o hyd i gydbwysedd.

Safety is absolutely crucial to this agenda, and I have said that so many times because I think that it really is central. So, when we talk about the location, nature and condition of routes, we very much deal with safety in terms of whether a route would be considered to be safe or not. We will have more to say about safety as we proceed.

Mae diogelwch yn gwbl hanfodol i'r agenda hon, ac rwyf wedi dweud hynny gymaint o weithiau oherwydd y credaf ei fod wir yn ganolog. Felly, pan fyddwn yn sôn am leoliad, natur a chyflwr llwybrau, rydym yn ymdrin i raddau helaeth iawn â diogelwch a pha un a fyddai llwybr yn cael ei ystyried yn ddiogel neu beidio. Bydd gennym fwy i'w ddweud am ddiogelwch wrth i ni symud ymlaen.

Members call for concrete action, and I think that the duty of continuous improvement, and section 6 in terms of local transport plans, will ensure that we produce that concrete action from the general principles and the effect from this legislation.

Mae Aelodau'n galw am weithredu pendant, a chredaf y bydd y ddyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus, ac adran 6 o ran cynlluniau trafnidiaeth lleol, yn gwneud yn siŵr ein bod yn cynhyrchu'r gweithredu pendant ar sail egwyddorion cyffredinol ac effaith y ddeddfwriaeth hon.

In terms of the cost of maps, we will have the regulatory impact assessment, of course, to rely on in that regard. Funding is important to all of this; of course it is. We will show that we have a mainstreamed approach in terms of our transport budget, which will absolutely deliver in terms of making the crucial linkages between active travel and general Government transport policy. Shared use is something that disability groups are helping us to address in the work that is going on to produce the design guidance. That is our inclusive approach, which also incorporates organisations such as Sustrans.

O ran cost mapiau, bydd gennym yr asesiad effaith rheoleiddiol, wrth gwrs, i ddibynnu arno yn y cyswllt hwnnw. Mae cyllid yn bwysig i hyn i gyd; wrth gwrs ei fod. Byddwn yn dangos bod gennym ddull prif ffrwd o ran ein cyllideb trafnidiaeth, ac y bydd hynny'n bendant yn cyflawni o ran gwneud y cysylltiadau hanfodol rhwng teithio llesol a pholisi trafnidiaeth cyffredinol y Llywodraeth. Mae defnydd a rennir yn rhywbeth y mae grwpiau anabledd yn ein helpu i roi sylw iddo yn y gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi'r canllawiau dylunio. Dyna yw ein dull cynhwysol, sydd hefyd yn cynnwys mudiadau fel Sustrans.

The active travel plan, and what we take forward generally in Government policy, will be a very important part of the overall picture. I hear what Members say about the wider picture, and that is very much our approach.

Bydd y cynllun teithio llesol, a'r hyn yr ydym yn ei ddatblygu'n gyffredinol ym mholisi'r Llywodraeth, yn rhan bwysig iawn o'r darlun cyffredinol. Rwyf yn clywed yr hyn y mae Aelodau yn ei ddweud am y darlun ehangach, a dyna'n sicr ein dull o weithredu.

Chair, I see you looking at me, and time is short, so I will conclude by saying that, again, I thank the committee and Members for their careful consideration of the Active Travel (Wales) Bill. I look forward to continuing to work with Members and stakeholders across the country as we take forward this important legislation and make this transformation a reality here in Wales.

Gadeirydd, rwyf yn eich gweld yn edrych arnaf fi, ac mae amser yn brin, felly byddaf yn cloi drwy ddweud, unwaith eto, fy mod yn diolch i'r pwyllgor a'r Aelodau am eu hystyriaeth ofalus o'r Bil Teithio Llesol (Cymru). Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau a rhanddeiliaid ledled y wlad wrth i ni fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth bwysig hon a gwneud y trawsnewid hwn yn realiti yma yng Nghymru.

17:46 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objectors, and therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebwyr, ac felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

# Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Teithio Llesol

Cynnig NDM5252 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Teithio Llesol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

# Motion to Approve the Financial Resolution of the Active Travel (Wales) Bill

Motion NDM5252 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Active Travel (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

17:46 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

17:46 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. As we are bereft of speakers, do you wish to add anything, Minister?

Diolch yn fawr. Gan nad oes gennym siaradwyr, a ydych am ychwanegu unrhyw beth, Weinidog?

17:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, Chair.

Na, Gadeirydd.

17:47 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In that case, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, and therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Os felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, ac felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

17:47 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your attendance today. I formally declare this session closed.

Diolch yn fawr iawn am eich presenoldeb heddiw. Rwyf yn datgan yn ffurfiol bod y sesiwn hon wedi dod i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.47 p.m.*

*The meeting ended at 5.47 p.m.*